**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**AUDIT COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00am DYDD MAWRTH, 15 GORFFENNAF 2014**

**10.00am TUESDAY, 15 JULY 2014**

***Nodwch amser cychwyn y cyfarfod/Please note meeting start time***

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA/CHAMBER,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,**
**PENCADLYS,**
**CAERNARFON**

**** Nodwch y lleoliad ogydd / Please note venue ****

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**BETHAN ADAMS**

**01286 679020**

BethanAdams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed: 04-07-14

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AUDIT COMMITTEE**

**AELODAETH/MEMBERSHIP (19)**

**Plaid Cymru (9)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Edward Dogan | Huw Edwards | Aled Ll. Evans |
| Chris Hughes | Dafydd Meurig | Dilwyn Morgan |
| Michael Sol Owen | Gethin G. Williams | Sedd Wag / Vacant Seat |

**Annibynnol/Independent (5)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Trevor Edwards, Tom Ellis, John Brynmor Hughes
Angela Russell, John Pughe Roberts

**Llais Gwynedd (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Anwen Davies, Aeron M. Jones, R.J. Wright

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Sion W. Jones

**Aelod Lleyg/Lay Member**

Mr John Pollard

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Cadeirydd y Cyngor / Council Chairman

## RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 6 Mai 2014, fel rhai cywir.
(copi yma- papur **melyn**)

**5. ALLDRO REFENIW 2013/14 – ADOLYGIAD TERFYNOL**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi yma – papur **glas**)

**6. DATGANIAD O GYFRIFON 2013/14**

Cyflwyno, er cymeradwyaeth, y datganiadau ariannol statudol (yn amodol ar archwiliad) ar gyfer 2013/14 (copi yma – papur **gwyn**)

**7. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2013/14**

Cyflwyno, er cymeradwyaeth, Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2013/14 (copi yma – papur **eog,** Atodiad – papur **gwyn**)

**8. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU**

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adborth o gyfarfodydd y Panel ar 6 Mehefin 2014 (copi yma – papur **gwyrdd**)

**9. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2014 (copi yma – papur **pinc**)

**10. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2014/15**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg (copi yma – papur **llwyd**)

# PWYLLGOR ARCHWILIO 6/5/14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Robert J. Wright (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen Davies, Eddie Dogan, Huw Edwards, Tom Ellis, Aled Ll. Evans, John B. Hughes, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Angela Russell a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau)

**Aelod Lleyg:** Mr John Pollard

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Dilys Phillips (Swyddog Monitro – ar gyfer Eitem 12 a 13 ar y rhaglen), Iwan Evans (Dirprwy Swyddog Monitro – ar gyfer Eitem 13 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Trevor Edwards, Charles W. Jones, Dafydd Meurig a Gethin Glyn Williams.

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd John Pughe Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2014/15.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Robert J. Wright yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2014/15.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2014, fel rhai cywir.

**5. AMLINELLIAD O'R ARCHWILIAD ARIANNOL BLYNYDDOL 2013/14 O GYNGOR GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru.

Amlygwyd y prif risgiau archwilio gan nodi bod nifer o'r risgiau yn berthnasol i holl Awdurdodau Lleol gyda rhai yn benodol ar gyfer Cyngor Gwynedd.

Adroddwyd bod gostyngiad o 2.9% yn gyffredinol yn y ffi archwilio ariannol.

Mewn ymateb i sylw parthed trafferthion a ellir codi yn y dyfodol oherwydd yr hinsawdd ariannol, nododd Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru bod nifer o rwystrau/heriau ar gyfer y dyfodol a gyda'r posibilrwydd y gall terfynau amser adrodd ar gyfrifon ddod yn gynharach byddai mwy o bwysau.

Nododd y Pennaeth Cyllid ei fod yn croesawu'r gostyngiad ffi a bod nifer o'r risgiau a amlygwyd ddim yn risgiau penodol i'r Cyngor hwn ond yn risgiau cyffredinol yn y cyd-destun Cymreig.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**6. AMLINELLIAD O'R ARCHWILIAD ARIANNOL BLYNYDDOL 2013/14 O GRONFA BENSIWN GWYNEDD**

Cyflwynwyd adroddiad yr Archwiliwr Allanol yn amlinellu ei archwiliad ariannol blynyddol o'r Cyngor fel awdurdod gweinyddu'r Gronfa Bensiwn.

Amlygwyd y prif risgiau archwilio a nodwyd eu bod yn risgiau cyffredinol i holl gyfrifon cronfeydd pensiwn. Nodwyd bod y Gronfa yn ddibynnol ar gyflogwyr i sicrhau cywirdeb data. Nodwyd y byddai'r archwilwyr yn cysylltu efo'r rheolwyr buddsoddi allanol i gadarnhau cywirdeb eu harfarniad o werth a bod eu hamgylchedd rheoli yn gadarn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**7. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU**

Cyflwynwyd adroddiad Cyn-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 4 Ebrill 2014 i ystyried pum archwiliad a dderbyniodd gategori barn C yn ystod y cyfnod rhwng 1 Tachwedd 2013 a 31 Ionawr 2014 sef -

a) Bryn Blodau, Llan Ffestiniog
b) Defnydd o Cetis / CALMS
c) Diogelu Data – Cymalau mewn Swydd Ddisgrifiadau
ch) Parciau Gwledig
d) Diogelwch Glinfyrddau

Gwahoddwyd Uwch Reolwyr i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sy'n codi o'r archwiliadau a'r gwaith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiadau archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

Nodwyd y cafwyd sicrwydd yn y Gweithgor bod y materion a amlygwyd gan yr Uned Archwilio Mewnol yn cael sylw teilwng a bod camau yn cael eu cymryd.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed archwiliad Bryn Blodau, Llan Ffestiniog, nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y gwnaed yr archwiliad ar gais yr Uwch Reolwr Gweithredol - Byw'n Iach ac nad oedd pryderon o ran diogelwch y preswylwyr ac mai gwendidau yn y trefniadau gweinyddol a adnabuwyd. Ychwanegwyd bod archwiliad Trefniadau Dros Nos yng Nghartrefi'r Cyngor wedi derbyn categori Barn "C" ac y byddai'n cael ei ystyried gan y Gweithgor yn ei gyfarfod nesaf.

Yng nghyswllt yr archwiliad Diogelwch Glinfyrddau nododd aelod y byddai'n fuddiol derbyn gwybodaeth o faint o arian a arbedwyd i'r Cyngor wrth brynu llechen iPad i aelodau.

Gofynnodd aelod a fyddai'n bosib i aelodau brynu'r llechen a ddarparwyd iddynt pan ddaw eu tymor fel Cynghorydd i ben. Nododd y Pennaeth Cyllid y byddai'n gwneud ymholiadau i'r mater.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**8. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL**

**Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2014**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Chwefror a 31 Mawrth 2014. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 30 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 3 Adroddiad arall (memoranda a.y.)
- 2 o adolygiadau grant
- 2 o archwiliadau dilyniant

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol.

Nodwyd bod 7 archwiliad wedi derbyn categori Barn "C" ac awgrymwyd oherwydd y niferoedd y gellir cynnal dau gyfarfod o'r Gweithgor Gwella Rheolaethau i'w ystyried.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion**

Gofynnodd aelod yn wyneb digwyddiadau diweddar mewn ysgolion y tu allan i Wynedd, a oedd angen cryfhau'r trefniadau iechyd a diogelwch mewn ysgolion. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod yr archwiliad yn datgan bod y trefniadau ar y cyfan yn dda gyda swyddogion penodol iechyd a diogelwch yn y Cyngor ar gyfer ysgolion ac er bod digwyddiadau anghyffredin yn digwydd, ni ddylai digwyddiad unigol effeithio ar y cyd-destun a'r asesiad risg. Ychwanegwyd bod yr argymhellion yn cael eu hanfon at bob ysgol.

Nododd yr aelod y dylid cyfeirio'r adroddiad er ei fod wedi derbyn categori Barn "B" i'r Gweithgor er mwyn derbyn mwy o wybodaeth.

**Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion**

Nododd aelod bod cywirdeb niferoedd yn hynod bwysig gan eu bod yn sail i gyllidebau ysgolion. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg nad oedd anghysondeb mawr yn y niferoedd ac y gellir derbyn mwy o wybodaeth yn y Gweithgor gan fod yr archwiliad wedi derbyn categori Barn "C".

**System eGaffael**

Nododd y Pennaeth Cyllid bod uchafu'r defnydd o'r sustem eGaffael yn amcan er mwyn gwella effeithiolrwydd mewnol y Cyngor, ond gan nad oedd nifer o gyflenwyr lleol yn gweithredu yn electronig, a gan fod y Cyngor hefyd awydd 'Cadw'r Budd yn Lleol', roedd elfen o wrthdaro a bydd yn her barhaus i annog mwy o ddefnydd o'r system eGaffael.

**Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau**

Mewn ymateb i sylw gan aelod, nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod newidiadau diweddar yn nhrefniadau'r Cofrestrydd Cyffredinol yn galluogi'r uned i drosglwyddo i drefn electroneg.

**Archwiliad Dilyniant – Siopau Gwynedd**

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg at archwiliad dilynol Siopau Gwynedd a dderbyniodd barn dilyniant 'Anfoddhaol' gan nodi y gellir gwahodd swyddogion i'r Gweithgor os dymunir.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Chwefror i 31 Mawrth 2014 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**PENDERFYNWYD ymgynnull dau gyfarfod o'r gweithgor a bod yr aelodau canlynol i wasanaethu ar y gweithgor yn unol â'r isod:**

**(i) Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorwyr Huw Edwards, Michael Sol Owen a Angela Russell i ystyried yr archwiliadau canlynol:**
- **Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion**
- **Grant Effeithlonrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion**
- **Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion**
- **Gwirio Mesuryddion Perfformiad**

**(ii) Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorwyr Aled Evans, Dafydd Meurig a Huw Edwards i ystyried yr archwiliadau canlynol:**
- **Rheolaeth Archebu a Thalu am Wasanaethau Cynnal a Chadw Eiddo**
- **Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau**
- **Trefniadau Dros Nos yng Nghartrefi'r Cyngor**
- **Trefniadau Hawlio Goramser**
- **Dilyniant Siopau Gwynedd**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2013/14

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2013/14.

Nododd ar sail y gwaith a gwblhawyd yn ystod 2013/14, ei fod yn fodlon bod gan Gyngor Gwynedd fframwaith cadarn o reolaeth fewnol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol yn y Sector Gyhoeddus.

Nododd bod sefydlu'r Gweithgor Gwella Rheolaethau yn ystod 2013/14 yn gam pwysig i gryfhau trefniadau'r Cyngor wrth ymateb i adroddiadau archwilio mewnol.

Adroddwyd bod 99 allan o 105 archwiliad a oedd yng nghynllun archwilio addasedig terfynol archwilio mewnol wedi eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2014 sef 94.29% o'r cynllun, yn erbyn uchelgais perfformiad o 95% ar gyfer 2013/14.

Nododd y swyddog y cafwyd trafodaethau â'r swyddogion perthnasol yn dilyn cyflwyno cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2014/15 i'r pwyllgor hwn yn y cyfarfod diwethaf ar 20 Chwefror ac y gwelir y cynllun terfynol fel Atodiad 3 i'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad fel adroddiad blynyddol ffurfiol yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2013/14 a llongyfarch yr Adain Archwilio Mewnol am eu gwaith.**

## 10. HUNANASESIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg.

Nodwyd mai argymhelliad y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu oedd mai'r diffiniad o "lywodraethu da" yw trefniadau a oedd yn rhoi darparu ar ran bobl Gwynedd yn y canol.

Eglurodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod y Grŵp wedi adnabod elfennau allweddol trefniadau llywodraethu'r Cyngor. Roedd y Grŵp wedi nodi sgôr effaith i bob un o'r elfennau,

i adlewyrchu pa mor gymharol fawr oedd eu heffaith wrth ychwanegu gwerth cyhoeddus yn ogystal â sgôr effeithiolrwydd ar ba mor dda roedd yr elfennau unigol yn gweithio ar hyn o bryd er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni i bobl Gwynedd.

Nodwyd bod y matrics sgorio effaith / effeithiolrwydd wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.

Adroddwyd bod y Tîm Rheoli Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 30 Ebrill wedi ystyried yr adroddiad ac wedi gwneud y sylwadau canlynol:

- y dylid ychwanegu 'Trefniadau Diogelu Plant ac Oedolion' i'r rhestr elfennau allweddol trefniadau llywodraethu'r Cyngor;
- y dylid rhoi 'Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig' yn lle 'Cynllun Integredig Sengl' ar y rhestr elfennau allweddol;
- na ddylid rhoi sgôr effaith o 7 i'r 'Drefn Gwynion', a dylid ei symud o'r coch i'r oren;
- y dylid rhoi sgôr effeithiolrwydd o 4 i 'Ymgysylltu' a'i rhoi yn y coch;
- y dylid gostwng sgôr effeithiolrwydd y 'Strategaeth Ariannol' i 8 gan y gall nifer o faterion a oedd yn anhysbys ar hyn o bryd godi yn y dyfodol.

Nodwyd os cytunir â'r awgrymiadau uchod, yr elfennau canlynol byddai angen sylw fel mater o flaenoriaeth uchel, er mwyn gwella effeithiolrwydd wrth gyflawni ar gyfer pobl Gwynedd:

- Gwerthoedd y Cyngor
- Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig
- Y gyfundrefn 'Cyflawni'
- Y Drefn Werthuso a datblygu talent
- Ymgysylltu

Cyfeiriwyd at amserlen awgrymedig ar gyfer paratoi'r Datganiad Llywodraethu a nodwyd bod ychwanegiad, gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn herio'r Datganiad Llywodraethu drafft yn ei gyfarfod ar 11 Mehefin. Nodwyd byddai'r Datganiad Llywodraethu drafft yn dod gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 10 Gorffennaf er cymeradwyaeth.

Nododd aelod yng nghyswllt Gwerthoedd y Cyngor ei dymuniad i ychwanegu Cydraddoldeb i'r elfennau.

**PENDERFYNWYD:**

**(i) Derbyn mai'r diffiniad o "lywodraethu da" yw trefniadau sy'n rhoi darparu ar ran bobl Gwynedd yn y canol;**

**(ii) Cytuno i'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu barhau ar ei gyfeiriad presennol wrth ddatblygu'r trefniadau i hunanasesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor.**

## 11. ADOLYGU CYFANSODDIAD Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Michael Sol Owen, Cadeirydd Gweithgor Adolygu Cyfansoddiad y Cyngor.

Ymhelaethodd y Swyddog Monitro ar gynnwys yr adroddiad gan nodi bod y Gweithgor wedi gwneud y gwaith trylwyr gan ymgynghori gyda Phwyllgorau a chyrff eraill. Nododd bod 4 elfen yr hoffai'r Gweithgor dderbyn barn y Pwyllgor hwn arnynt, sef:

1. Gosod cyfyngder hyd cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn i 4 awr, gyda disgresiwn i'r Cadeirydd i ganiatáu rhagor o amser;
2. Gosod fframwaith rheoli perthynas y Cabinet a'r Cyngor Llawn (Adran 15);
3. Rôl Pwyllgor Apelau Cyflogaeth;

4. Cyfundrefn penderfyniad terfynol ad-drefnu ysgolion.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed cyfundrefn penderfyniad terfynol ad-drefnu ysgolion, nododd y Dirprwy Swyddog Monitro ei fod yn bosib i'r Cabinet neu'r Cyngor Llawn ymgymryd â'r dyletswydd. Ychwanegodd wrth gloriannu'r ddau opsiwn bod y Gweithgor o'r farn oherwydd yr amserlen statudol gaeth bod y Cabinet mewn gwella sefyllfa i benderfynu gan ystyried nifer cyfarfodydd y Cyngor Llawn mewn blwyddyn.

Nododd aelod y dylai'r Cyngor Llawn fod yn gyfrifol am y penderfyniad gan fod aelodau eisiau lleisio'u barn. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro bod y broses ad-drefnu ysgolion yn faith gydag ymgynghoriadau yn cael eu cynnal trwy gydol y broses a rhoddir cyfle i aelodau leisio'u barn.

Eglurwyd bod rhybudd cyhoeddus statudol yn cael ei gyhoeddi yn y wasg ac ond pan dderbynnir gwrthwynebiadau y byddai angen penderfyniad. Ychwanegwyd mai ond os derbynnir gwrthwynebiadau byddai angen pwyso a mesur y dadleuon gan roi rhesymau dros y penderfyniad.

Nododd Cadeirydd y Gweithgor mai prif ystyriaethau'r Gweithgor wrth benderfynu ar y Cabinet oedd bod y Cabinet yn cychwyn y broses ac yn ymgynghori felly dylent ysgwyddo'r baich a chael y cyfrifoldeb terfynol.

Nododd nifer o aelodau y dylai'r Cyngor Llawn fod yn gyfrifol am y penderfyniad hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd y Swyddog Monitro ei fod yn gyfansoddiadol bosib i'r Cabinet ymgynghori a'r Cyngor Llawn cyn gwneud y penderfyniad. Pwysleisiodd mai ond pan dderbynnir gwrthwynebiadau i'r rhybudd statudol y gall y cynigion ddod gerbron ac mai'r cam olaf un yn y broses ad-drefnu oedd y rhybudd statudol.

Nododd y Dirprwy Swyddog Monitro bod angen edrych pa broses fyddai'n gallu gweithio'n ymarferol o fewn y gofynion statudol ac amserlennu.

Awgrymodd y gellir cyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn yn cloriannu'r wybodaeth gan gymryd i ystyriaeth dymuniad y Pwyllgor hwn bod y Cabinet yn argymell i'r Cyngor Llawn er penderfyniad terfynol yn y broses ad-drefnu ysgolion.

**PENDERFYNWYD:**

- **(i) Argymell y dylid cyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn yn cloriannu'r wybodaeth gan gymryd i ystyriaeth dymuniad y Pwyllgor hwn bod y Cabinet yn argymell i'r Cyngor Llawn ar benderfyniad terfynol yn y broses ad-drefnu ysgolion;**
- **(ii) Yn ddarostyngedig i'r uchod cymeradwyo argymhellion y Gweithgor ynglŷn â'r newidiadau i'r Cyfansoddiad;**
- **(iii) Argymell y Cyfansoddiad newydd i'r Cyngor Llawn ar 17 Gorffennaf.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.40pm

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **15 GORFFENNAF 2014** |
| TEITL: | **ALLDRO REFENIW 2013/14 – ADOLYGIAD TERFYNOL** |
| PWRPAS: | **EGLURO'R SEFYLLFA ARIANNOL TERFYNOL AM 2013/14 SY'N SAIL I'R DATGANIADAU DILYNOL** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2014/15, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i Adrannau.** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Cyflwynwyd adroddiad adolygiad cyllideb y trydydd chwarter i'r Pwyllgor Archwilio ar 20 Chwefror 2014, a bu ystyriaeth priodol i sawl mater yno.

**2.** Mae'r adroddiad gerbron heddiw, sef yr adolygiad cyllideb "alldro", yn egluro sefyllfa terfynol 2013/14 ac yn dangos y darlun fesul adran sy'n sail i'r datganiadau dilynol.

**3.** Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad Cabinet atodol i'r Pwyllgor Archwilio, i'w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 10 Mehefin o'r Cabinet (sydd hefyd yn atodol).

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau drafft y Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
10 MEHEFIN 2014

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS, AELOD CABINET ADNODDAU

**Pwnc:** CYFRIFON TERFYNOL 2013/14 – ALLDRO REFENIW

**Swyddog cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

---

## 1. Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

1.1 Ystyried a nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2013/14.

1.2 **Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen**, lle'n briodol (colofn dde'r talfyriad yn **Atodiad 1**), gan gynnwys cymeradwyo i'r Adran Ymgynghoriaeth gael cario'r tanwariant llawn o £120k ymlaen i'r flwyddyn ariannol newydd, fel eithriad i'r arfer o'i gyfyngu i £100k, oherwydd natur masnachol y gwasanaeth a lefel anrhagweladwy ei incwm *(gweler Atodiad 2, tudalen 33)*.

1.3 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (amlinellwyd yn **Atodiad 2)** –

- £32k o gronfa tanwariant yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd a
- £262k o gronfa gorfforaethol neilltuwyd ar gyfer gorwariant posib yn y maes, a
- £130k o'r arbedion un-tro yn dilyn o ail strwythuro uwch reolaeth perthnasol –
  - **i glirio gorwariant £424k Gwasanaethau Cymdeithasol** yn 2013/14, a rhoi dechrau di-ddyled i'r ddwy bennaeth adran newydd ar gychwyn 2014/15 *(gweler Atodiad 2, tudalen 8)*.

- **£15k** o danwariant yr Adran Gofal Cwsmer i'w neilltuo er mwyn creu **cronfa costau diswyddo penodol**, i baratoi ar gyfer newidiadau posibl i gontractau **glanhau** *(tudalen 35)*.

- **£191k** o'r tanwariant ar Gynlluniau Arbedion Trawsadrannol (sef y balans wedi defnyddio £130k ohono uchod) ar sail un-tro i'r **Gronfa Diswyddo corfforaethol** *(tudalen 38)*.

- **£243k** o'r Gyllideb Wrth Gefn i ariannu cost ychwanegol o ddarparu ar gyfer **dyledion drwg** *(tudalen 38)*.

- **£235k** o'r Gyllideb wrth Gefn **i wneud iawn am y gostyngiad mewn incwm llog**, oherwydd tueddiad cyffredinol y farchnad buddsoddi *(tudalen 39)*.

- **£221k** o ad-daliad ychwanegol dderbyniwyd ar fuddsoddiad Banc Heritable (dyled "Gwlad yr Ia") i'r **Gronfa Buddsoddi i Arbed** *(tudalen 39)*.

- **£851k** o'r "gweddill" un-tro o Dreth Cyngor casgladwy i'r **Gronfa Ddiswyddo corfforaethol** *(tudalen 40)*.

- **£579k** o'r Gyllideb Arbedion a Wireddwyd Ymlaen Llaw i **gronfa benodol ar gyfer cynorthwyo Strategaeth Ariannol 2014/15**, a

- **£752k** o'r Gyllideb Arbedion a Wireddwyd Ymlaen Llaw i'r **Gronfa Buddsoddi i Arbed** *(tudalen 40)*.

- **£90k** o'r Gyllideb Wrth Gefn i **gronfa benodol ar gyfer cost sefydlu'r Drefn Gwynion newydd** (gweler eitem ar y rhaglen), a
- **£164k** o'r Gyllideb Wrth Gefn i'r **Balansau Cyffredinol** *(tudalen 41)*.

- **£295k** o'r darpariaeth oedd heb eu ymrwymo ar sail un-tro i'r **Gronfa Hyfforddi Staff** *(tudalen 41)*.

- **£87k** o'r "gweddill" un-tro ar amrywiol benawdau corfforaethol eraill i'r **Balansau Cyffredinol** *(tudalen 42)*.

- **£1.727m** o'r Cyfrif Cyllid Tai i'w neilltuo, am y tro, mewn **cronfa benodol**, gyda golwg ar ei ddefnyddio er mwyn **lleihau'r rhwymedigaeth pensiwn** a etifeddwyd yn anochel wrth drosglwyddo'r stoc tai *(tudalen 43)*.

1.4 Nodi'r gostyngiad yn lefel y cyfanswm o gronfeydd penodol, a'r cynnydd ymylol yn lefel balansau cyffredinol y Cyngor yn ystod 2013/14.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

2.1 Er gwaethaf amgylchiadau anodd a thynhau parhaus, **yn gyffredinol, mae sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2013/14 yn cadarnhau y bu rheolaeth ariannol effeithiol gan yr Aelodau Cabinet perthnasol a'r Tim Rheoli, ynghyd a disgyblaeth ariannol gan benaethiaid adrannau a rheolwyr cyllidebau.**

2.2 Felly, **gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2013/14 er mwyn galluogi'r Adran Cyllid i symud ymlaen a chynhyrchu'r datganiadau ariannol statudol**, sydd i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 10 Gorffennaf 2014.

2.3 Mae Rheoliad Ariannol 4 yn gosod allan y trefniadau ar gyfer trosglwyddo adnoddau rhwng blynyddoedd cyfrifo, hynny yw symiau i'w "cario 'mlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. **Yn Atodiad 1, adroddir ar sefyllfa tanwariant / gorwariant pob adran i'r Cabinet, fydd yn cymeradwyo'r symiau sydd i'w cario 'mlaen.** Cyflwynwyd cais gan yr Adran Ymgynghoriaeth i gael cario ei danwariant llawn o £120k ymlaen i'r flwyddyn ariannol newydd, fel eithriad i'r arfer o'i gyfyngu i £100k, oherwydd natur masnachol y gwasanaeth a lefel anrhagweladwy ei incwm. Bydd angen i'r Aelod Cabinet sydd gyda'r portffolio Amgylchedd argyhoeddi'r Cabinet i gymeradwyo hyn yn ffurfiol.

2.4 Mae tudalen 15 o Atodiad 2 yn manylu ar sefyllfa **cyllidebau'r ysgolion**, lle mae statud wedi cyflwyno grym dirprwyedig i gyrff llywodraethu gario balansau ymlaen ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae'r cyfanswm sirol o falansau'r ysgolion wedi parhau'n gyson ar gyfanswm £3.8m yn 2013/14. Fodd bynnag, mae balansau'r sector gynradd wedi cynyddu i gyfartaledd sy'n 7.3% o'u dyraniad cyllideb, tra mae balansau'r sector uwchradd wedi lleihau i gyfartaledd sy'n 3.3% o'u dyraniad hwy. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am falansau ysgolion unigol cyn hir mewn 'Datganiad Adran 52'. Byddwn hefyd yn herio'r ysgolion unigol i gyfiawnhau'r angen am eu balansau, ac yn gofyn i'r penaethiaid egluro'u bwriad i'w defnyddio (yn arbennig rheiny sydd gyda balansau dros 5% o'i cyllideb).

2.5 Bu enillion ar sawl pennawd **cyllideb corfforaethol** eleni, fel a amlinellir ar dudalen 43 o Atodiad 2. Os defnyddir y tanwariant fel argymhellir ym mharagraff 1.3 uchod, ac mewn manylder ar dudalennau 38 - 42 o Atodiad 2, bydd **balansau cyffredinol** y Cyngor wedi codi £351k i £8.4m ar 31/03/2014. Er hynny, bydd aelodau yn cofio fod £1.7m o'r balansau cyffredinol yma eisoes wedi'u defnyddio eleni, yn Strategaeth Ariannol 2014/15. Fodd bynnag, dylid nodi, **trwy reolaeth effeithiol o'i gyllidebau yn 2013/14, llwyddodd y Cyngor i ddelio gyda sawl mater ariannol yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â neilltuo darpariaeth cyllideb ar gyfer ymateb i broblemau eraill yn y dyfodol.**

2.6 Roedd balans £1.727m ar **Gyfrif Cyllid Tai** y Cyngor, sydd erbyn hyn wedi'i gau ymhellach i drosglwyddiad y stoc tai. Yn ystod 2013/14, wedi terfyn amser statudol, trosglwyddwyd y balans yma i gyfrif cyffredinol y Cyngor. Am y tro, argymhellir neilltuo'r balans yma mewn cronfa benodol, gyda golwg ar ei ddefnyddio er mwyn lleihau'r rhwymedigaeth pensiwn a etifeddwyd yn anochel wrth drosglwyddo'r stoc tai.

2.7 Ddaru'r cyfanswm o holl **gronfeydd penodol** y Cyngor ostwng £0.5m i £49.4m yn 2013/14. Er fod y cronfeydd yma wedi'u neilltuo at ddibenion penodol lle byddwn yn wynebu gwariant yn y dyfodol, mae adolygiad trylwyr o'u digonolrwydd wedi'i gyflawni gan y Pennaeth Cyllid. Fodd bynnag, wrth ystyried yr hinsawdd ariannol heriol bresennol, dylid pwysau i leihau cronfeydd hyd yn oed ymhellach. Gyda chefnogaeth y Cabinet, gellid eu herio ymhellach eto yn ystod 2014/15, gyda golwg ar gynhaeafu mwy er mwyn diwallu anghenion y Gronfa Ddiswyddo a'r Gronfa Buddsoddi i Arbed. Adroddir ymhellach i gyfarfod dilynol o'r Cabinet ar ganlyniad yr adolygiad.

2.8 **Yn gyffredinol, gallaf gadarnhau bu cyllidebau rhan fwya'r adrannau dan reolaeth gadarn eto eleni.** Mae talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau wedi'i amlinellu yn Atodiad 1, gyda'r symiau i'w cario 'mlaen yn y golofn ar ochr dde'r tudalen, ac yn Atodiad 2 mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, ynghyd ag argymhellion penodol. Mae'r argymhellion er ystyriaeth wedi'u hamlygu uchod yn 1.2 a 1.3, ac ar dudalennau 8, 33, 35, 38, 39, 40, 41 a 42 o Atodiad 2.

2.9 Roedd sefyllfa ariannol y mwyafrif o'r adrannau yn lled niwtral, ond bu straen sylweddol ar **gyllidebau'r Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol** yn chwarter olaf y flwyddyn. Gyda chymeradwyaeth y Cabinet i'r argymhellion gerbron yma, gellid datrys sefyllfa cyllideb 2013/14 a rhoi dechreuad di-ddyled i'r ddwy bennaeth newydd (yn yr Adran Plant a Phobl Ifanc, a'r Adran Oedolion Iechyd a Llesiant) ar gychwyn y flwyddyn ariannol newydd. Fodd bynnag, mae patrwm gwariant yn ystod pedwerydd chwarter 2013/14 yn awgrymu fod **angen cymryd camau, yn bennaf yn yr Adran Oedolion, er mwyn osgoi tueddiad gorwariant parhaus** ar gyllidebau gofal cartref pobl hyn, anabledd dysgu, a iechyd meddwl yn 2014/15. Mae'r Tim Rheoli Corfforaethol wedi cwrdd gyda'r Penaethiaid Adran perthnasol (cyfredol a blaenorol) ac wedi derbyn sicrwydd fod gwaith ar droed i adnabod rhesymau tu ôl i'r cynnydd diweddar, a bydd strategaeth frys i'w weithredu er mwyn lleddfu'r sefyllfa a cheisio osgoi parhad y gorwariant.

2.10 Yn y pedwerydd chwarter o 2013/14, ddaru'r **gwelliannau yn sefyllfa cyllidebau'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Ymgynghoriaeth** ragori ar ddisgwyliadau yn f'adroddiadau blaenorol, yn rhannol oherwydd y gaeaf mwyn, ynghyd â llwyddiant ariannol yn dilyn camau a gymerwyd i wella ei trefniadau busnes adrannol.

2.11 Yn y mwyafrif o'r cyllidebau lle bu gorwariant yn 2013/14, rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r anghenion perthnasol yng nghylch cyllidebu 2014/15, ac mae'r mwyafrif o'r gorwariant hynny eisoes wedi'i gyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2014/15.

2.12 Ar wahân i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, mae sefyllfa gweddill adrannau'r Cyngor yn gyffredinol dderbyniol a (gyda chytundeb y Cabinet i'r argymhellion) gellid neilltuo'r adnoddau corfforaethol sydd ar ôl i atgyfnerthu'r Gronfa Ddiswyddo, y Gronfa Buddsoddi i Arbed, a'r Gronfa Hyfforddi Staff, yn ogystal â gwneud dyraniad un-tro er mwyn sefydlu Trefn Gwynion newydd.

## 3. Camau nesaf ac amserlen

3.1 Rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid ardystio datganiadau ariannol statudol 2013/14 y Cyngor erbyn 30 Mehefin. Wrth werthfawrogi fod hyn yn amserlen heriol, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu yn y broses.

3.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw manylu ar y sefyllfa alldro o ran tanwariant neu orwariant Adrannau unigol a gwariant y Cyngor yn ei gyfanrwydd yn 2013/14, ac ystyried yr wybodaeth yn sgil hynny er mwyn medru adlewyrchu'r sefyllfa yn y cyfrifon terfynol.

3.3 Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â'r broses i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

3.4 Bydd yr Adran Cyllid yn cynhyrchu datganiadau ariannol statudol 2013/14 i'w ardystio gan y Pennaeth Cyllid erbyn 30 Mehefin a'u cyflwyno i'w craffu gan y Pwyllgor Archwilio ar 10 Gorffennaf.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Dim i'w ychwanegu. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r sefyllfa o ran rheolaeth ariannol y flwyddyn ac yn argymell defnydd doeth o adnoddau un-tro.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau cywirdeb y cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 - sefyllfa tanwariant / gorwariant terfynol pob adran
Atodiad 2 - prif faterion cyllidebol a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol

## Cyllideb Refeniw 2013/14 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Terfynol | | | Ffigyrau Cymharol |
|---|---|---|---|---|
| | Gor / (Tan) Wariant Gros 2013/14 £ '000 | Trosglwyddiad i/(o) Gronfeydd neu Balansau £ '000 | Gor/ (Tan) Wariant Net £ '000 | Gor / (Tan) Wariant Net yr **Adolygiad Trydydd Chwarter** £ '000 |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden** | 424 | (424) | 0 | 360 |
| **Addysg** | (6) | 0 | (6) | 283 |
| **Economi a Chymuned** | (16) | 0 | (16) | 33 |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | 27 | 0 | 27 | 325 |
| **Rheoleiddio** (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | (58) | 0 | (58) | (16) |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | (120) | 0 | (120) | (97) |
| **Adnoddau Dynol** | (1) | 0 | (1) | (3) |
| **Cyllid** | (17) | 0 | (17) | (16) |
| **Democratiaeth a Chyfreithiol** | (61) | 0 | (61) | 28 |
| **Gofal Cwsmer** | (34) | 15 | (19) | (31) |
| **Strategol a Gwella** | (91) | 0 | (91) | (83) |
| **Tim Rheoli Corfforaethol** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyllidebau Corfforaethol** | (4,609) | 4,609 | 0 | (4,279) |
| **Cyfansymiau (net)** | (4,562) | 4,200 | (362) | (3,496) |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden** | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaeth Plant a Theuluoedd -** | | | | | | |
| Gwasanaeth Gweithredol | **1,816** | **1,918** | **102** | **0** | **102** | **63** |
| Gwasanaethau Cefnogol Plant | **7,724** | **7,380** | **(344)** | **0** | **(344)** | **(314)** |
| Gwasanaeth Ôl-16 | **920** | **1,068** | **148** | **0** | **148** | **111** |
| Eraill (Plant a Theuluoedd) | **2,864** | **2,820** | **(44)** | **0** | **(44)** | **44** |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Plant a Theuluoedd** | **13,324** | **13,186** | **(138)** | **0** | **(138)** | **(96)** |
| **Gwasanaeth Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | **18,354** | **18,757** | **403** | **0** | **403** | **156** |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | **1,937** | **1,867** | **(70)** | **0** | **(70)** | **(2)** |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | **12,744** | **12,912** | **168** | **0** | **168** | **200** |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | **3,205** | **3,214** | **9** | **0** | **9** | **(55)** |
| Eraill (Oedolion) | **2,698** | **2,686** | **(12)** | **0** | **(12)** | **(10)** |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Oedolion** | **38,938** | **39,436** | **498** | **0** | **498** | **289** |

**(parhad isod)**

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

| Crynhoad Sefyllfa Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaeth Tai** | | | | | | |
| Gwasanaeth Tai | **1,589** | **1,512** | **(77)** | **0** | **(77)** | **(12)** |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Tai** | **1,589** | **1,512** | **(77)** | **0** | **(77)** | **(12)** |
| **Gwasanaeth Darparu (sefyllfa net)** | **(591)** | **(383)** | **208** | **0** | **208** | **175** |
| **Gwasanaeth Hamdden** | **2,133** | **2,184** | **51** | **0** | **51** | **113** |
| **Eraill (Darparu a Hamdden)** | **(206)** | **(184)** | **22** | **0** | **22** | **19** |
| **Gwasanaethau Canolog (Gwasanaethau Cymdeithasol, Darparu a Hamdden)** | **3,802** | **3,662** | **(140)** | **0** | **(140)** | **(128)** |
| **Cyffredinol** | **0** | **0** | **0** | **(424)** | **(424)** | **0** |
| **Cyfanswm Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden** | **58,989** | **59,413** | **424** | **(424)** | **0** | **360** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

**Gwasanaeth Plant a Theuluoedd**

**Maes:-** **Gwasanaeth Gweithredol**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,816** | **1,918** | **102** | | **102** | **63** |

Cynnydd £39k o'r sefyllfa gorwariant blaenorol, yn bennaf oherwydd gofynion ychwanegol ar nifer o achosion cysylltiedig ag achosion llys.

**Maes:-** **Gwasanaethau Cefnogol Plant**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **7,724** | **7,380** | **(344)** | | **(344)** | **(314)** |

Mân danwariant pellach yn ystod y chwarter ar nifer o benawdau.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

**Gwasanaeth Plant a Theuluoedd**

**Maes:-** **Gwasanaeth Ôl-16**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **920** | **1,068** | **148** | | **148** | **111** |

Cynnydd o £37k mewn gorwariant ers y trydydd chwarter, oherwydd dyfodiad o nifer o achosion newydd.

**Maes:-** **Eraill (Plant a Theuluoedd)**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **2,864** | **2,820** | **(44)** | | **(44)** | **44** |

Sefyllfa net sy'n cynnwys nifer o wahaniaethau ar sawl pennawd, ac yn arbennig tanwariant o (£24k) ar Wasanaethau Arbenigol (cynnydd o (£32k) ers y trydydd chwarter), tanwariant o (£31k) ar Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid (cynnydd o (£16k) ers y trydydd chwarter), a gorwariant o £19k ar Wasanaethau Eraill (lleihad (£34k) o'r gorwariant £53k rhagwelwyd yn yr adolygiad trydydd chwarter).

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

**Gwasanaeth Oedolion**

**Maes:-** **Gwasanaethau Pobl Hŷn**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **18,354** | **18,757** | **403** | | **403** | **156** |

Cynnydd sylweddol o £246k mewn gorwariant yn ystod y chwarter olaf, ar draws nifer o benawdau. Preswyl a Nyrsio yn dangos gorwariant net o £403k (cynnydd £85k yn y chwarter olaf oherwydd gostyngiad mewn incwm), a gorwariant o £6k ar Ofal Cartref (newid £169k o'r tanwariant net (£175k) a ragwelwyd yn y trydydd chwarter).

**Maes:-** **Gwasanaethau Anabledd Corff**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,937** | **1,867** | **(70)** | | **(70)** | **(2)** |

Cynnydd (£68k) yn y sefyllfa tanwariant net terfynol, yn cynnwys gostyngiad (£52k) mewn gwariant ar Ofal Cartref a gostyngiad (£10k) mewn gwariant ar Gefnogaeth a Chynlluniau Eraill.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

**Gwasanaeth Oedolion**

**Maes:-** **Gwasanaethau Anabledd Dysgu**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **12,744** | **12,912** | **168** | | **168** | **200** |

Gostyngiad (£32k) o'r gorwariant £200k rhagwelwyd yn y trydydd chwarter, a'r sefyllfa derfynol yn cynnwys gorwariant £42k ar Breswyl a Nyrsio (lleihad (£44k)), gorwariant £242k ar Wasanaethau Dydd (cynnydd £50k yn y chwarter olaf), a thanwariant (£135k) ar Gynlluniau Cefnogol (cynnydd (£40k) yn y chwarter olaf).

**Maes:-** **Gwasanaethau Iechyd Meddwl**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **3,205** | **3,214** | **9** | | **9** | **(55)** |

Cildroad £64k o'r sefyllfa gorwariant rhagwelwyd yn y chwarter blaenorol, gyda tri achos newydd Preswyl a Nyrsio yn cyfrannu £38k i'r newid, a tri lleoliad newydd Llety Cefnogol yn ychwanegu £22k arall.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Eraill (Oedolion)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **2,698** | **2,686** | **(12)** | | **(12)** | **(10)** |

**Gwasanaeth Tai**

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaeth Tai** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **1,589** | **1,512** | **(77)** | | **(77)** | **(12)** |

Cynnydd (£65k) o'r sefyllfa tanwariant blaenorol yn cynnwys tanwariant (£32k) ar Tai Sector Breifat oherwydd denu incwm ychwanegol, a thanwariant (£19k) ar Wasanaethau Digartrefedd oherwydd llwyddiant i ail leoli achosion yn fwy cost effeithiol.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaeth Darparu (sefyllfa net)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(591)** | **(383)** | **208** | | **208** | **175** |

Sefyllfa derfynol yn dangos gorwariant o £140k ar Ofal Preswyl (cynnydd o £5k yn y chwarter olaf), a hyn ar ôl derbyn cyllideb ychwanegol o £150k gan y Cabinet yn y trydydd chwarter oherwydd costau ychwanegol yn sgil apêl cyflogaeth. Mae adolygiad o drefniadau staffio perthnasol ar droed er mwyn datrys y sefyllfa gorwariant cyffredinol. Fe gynhwysir hefyd ar y pennawd yma orwariant terfynol o £81k ar Ofal Cymunedol (cynnydd o £24k yn y chwarter olaf), gyda chostau teithio sylweddol yn parhau i fod yn broblem i'r gwasanaeth.
Yn ychwanegol, bu gorwariant terfynol o £15k ar Lety Cefnogol, a thanwariant o (£27k) ar Ofal Dydd.

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaeth Hamdden** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **2,133** | **2,184** | **51** | | **51** | **113** |

Lleihad (£62k) mewn gorwariant sy'n dod a'r sefyllfa derfynol i lawr i £51k. Mewn Cyfleusterau Hamdden, bu diffyg £106k drwy gyfuniad o incwm annigonol o werthiannau bwyd a cholled oherwydd gwastraff bwyd, ond bu derbyniad incwm ychwanegol (£51k) (cynnydd £17k ers y trydydd chwarter) mewn ffioedd am ddefnyddio cyfleusterau'r canolfannau. Yn ychwanegol, bu tanwariant (£1k) ar Ddatblygu Chwaraeon, sef gostyngiad £20k ers y chwarter blaenorol.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Eraill (Darparu a Hamdden)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(206)** | **(184)** | **22** | | **22** | **19** |

Sefyllfa derfynol sy'n weddol gyson â'r rhagolygon yn y drydydd chwarter.

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaethau Canolog (Gwasanaethau Cymdeithasol, Darparu a Hamdden)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **3,802** | **3,662** | **(140)** | | **(140)** | **(128)** |

Mân gynnydd (£12k) yn y sefyllfa tanwariant, yn bennaf oherwydd mwy o arbedion staffio un-tro.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN**

**Cyffredinol**

**Maes:-** **Ymdrin â'r Sefyllfa Gorwariant Terfynol**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **0** | **0** | **0** | **(424)** | **(424)** | **0** |

Sefyllfa derfynol am y flwyddyn yn dangos cyfanswm gorwariant adrannol o £424k.

Er mwyn clirio'r gorwariant a rhoi dalen lan i'r ddwy bennaeth newydd, argymhellir ymdrin â'r sefyllfa drwy:-
-Ddefnydd o gronfa tanwariant adrannol (£32k)
-Ddefnydd o gronfa gorfforaethol neilltuwyd ar gyfer gorwariant posib yn y maes Gwasanaethau Cymdeithasol (£262k)
-Ddefnydd o ran o'r arbedion un-tro yn dilyn o'r ail strwythuro uwch reolaeth y cyn adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a Darparu a Hamdden (£130k).

**Maes:-** **Ymhlygiadau sefyllfa gorwariant 2013-14 a 2014-15**

Amcangyfrifir, pe byddai rhai o'r tueddiadau gorwariant a adroddir uchod yn parhau drwy'r flwyddyn 2014/15, byddai'n golygu gofyn ychwanegol o £1,452k mewn gwariant.
Tîm Rheoli Corfforaethol wedi cyfarfod hefo'r Penaethiaid Adran perthnasol (cyfredol a blaenorol) ac wedi derbyn sicrwydd fod gwaith ar droed i adnabod rhesymau tu ôl i'r cynnydd diweddar, a bydd strategaeth frys mewn lle i leddfu'r sefyllfa a cheisio osgoi sefyllfa gorwariant.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

| Crynhoad Sefyllfa Adran Addysg | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cludiant** | **4,369** | **4,394** | **25** | **0** | **25** | **53** |
| **Diswyddo ac Ymddeol Cynnar** | **1,307** | **1,598** | **291** | **0** | **291** | **289** |
| **Integreiddio Disgyblion âg Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** | **101** | **128** | **27** | **0** | **27** | **0** |
| **Disgyblion ADY All-Sirol** | **1,056** | **1,050** | **(6)** | **0** | **(6)** | **0** |
| **Arlwyaeth a Glanhau** | **398** | **456** | **58** | **0** | **58** | **54** |
| **Uned Blynyddoedd Cynnar** | **786** | **717** | **(69)** | **0** | **(69)** | **(50)** |
| **Cymraeg mewn Addysg** | **312** | **357** | **45** | **0** | **45** | **0** |
| **Trefniadau Rheolaeth** | **1,324** | **1,096** | **(228)** | **0** | **(228)** | **(91)** |
| **Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol** | **1,126** | **1,094** | **(32)** | **0** | **(32)** | **37** |
| **Strategaeth Cynhwysiad** | **694** | **601** | **(93)** | **0** | **(93)** | **25** |
| **Eraill** | **291** | **267** | **(24)** | **0** | **(24)** | **(34)** |
| **Ysgolion Datganoledig** | **71,196** | **71,196** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm Adran Addysg** | **82,960** | **82,954** | **(6)** | **0** | **(6)** | **283** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: ADDYSG**

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Cludiant** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **4,369** | **4,394** | **25** | | **25** | **53** |

Gostyngiad £28k o'r gorwariant rhagwelwyd yn y trydydd chwarter, yn bennaf oherwydd bod gofynion contractau cludiant yn llai na'r disgwyliad.

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Diswyddo ac Ymddeol Cynnar** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **1,307** | **1,598** | **291** | | **291** | **289** |

Darlun terfynol sy'n weddol gyson â'r sefyllfa rhagwelwyd yn y trydydd chwarter, pryd adroddwyd byddai gorwariant oherwydd achosion diswyddo ychwanegol mewn ysgolion.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: ADDYSG**

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Integreiddio Disgyblion âg Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **101** | **128** | **27** | | **27** | **0** |

Er bod y sefyllfa derfynol yn dangos gorwariant net o £27k yn unig, yn ystod y flwyddyn bu cynnydd yn y nifer disgyblion cafodd ddatganiad perthnasol. Dros y flwyddyn gyfan, cododd y gorwariant gros i £132k, ond fei'i gadwyd i lawr i £27k yn 2013-14 drwy ddefnyddio cronfa wrth gefn i'r pwrpas.
O ganlyniad, bydd rhaid i'r Adran Addysg gadw rheolaeth dyn ar y gwasanaeth yma er mwyn osgoi sefyllfa gorwariant yn y dyfodol.

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Disgyblion ADY All-Sirol** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **1,056** | **1,050** | **(6)** | | **(6)** | **0** |

Sefyllfa led niwtral.

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Arlwyaeth a Glanhau** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **398** | **456** | **58** | | **58** | **54** |

Bu mân gynnydd o'r gorwariant rhagwelwyd yn y trydydd chwarter. Roedd nifer o benawdau o fewn y gwasanaeth yma yn dangos gwahaniaethau erbyn diwedd y flwyddyn, yn cynnwys gorwariant o £84k ar gostau bwyd a staff Arlwyaeth ynghyd â gostyngiad incwm o £66k.
Eto, bydd rhaid i'r Adran Addysg gadw rheolaeth dynn ar y gyllideb yma er mwyn osgoi sefyllfa gorwariant yn y dyfodol.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: ADDYSG**

**Maes:-** **Uned Blynyddoedd Cynnar**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **786** | **717** | **(69)** | | **(69)** | **(50)** |

Mân gynnydd o'r tanwariant rhagwelwyd yn yr adolygiad trydydd chwarter, yn bennaf oherwydd derbyniad incwm ychwanegol.

**Maes:-** **Cymraeg mewn Addysg**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **312** | **357** | **45** | | **45** | **0** |

Yng nghyd-destun gwariant gros o £700k, bu gorwariant net o £45k erbyn diwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd gwariant uwch staff llanw.

**Maes:-** **Trefniadau Rheolaeth**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,324** | **1,096** | **(228)** | | **(228)** | **(91)** |

Cynnydd o (£137k) yn y sefyllfa tanwariant net, yn bennaf oherwydd (£53k) o arbedion trosiant staff un-tro ynghyd â derbyniad incwm ychwanegol o (£83k).

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: ADDYSG**

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **1,126** | **1,094** | **(32)** | | **(32)** | **37** |

Gwelliant (£69k) o'r sefyllfa trydydd chwarter, gyda chymysgedd o wahaniaethau dros nifer o feysydd, yn cynnwys arbedion trosiant staff o (£43k) gan y Tîm Gwybyddiaeth a Dysgu, (£38k) incwm ychwanegol i'r Tîm Arsylwi Blynyddoedd Cynnar a gwariant £8k uwch gan y Gwasanaeth Therapi Cerdd.

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Strategaeth Cynhwysiad** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **694** | **601** | **(93)** | | **(93)** | **25** |

Gwelliant (£118k) o'r sefyllfa trydydd chwarter, yn bennaf oherwydd (£30k) o arbedion trosiant staff, ynghyd ag incwm ychwanegol traws-uned o (£88k).

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: ADDYSG**

**Maes:-** **Eraill**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **291** | **267** | **(24)** | | **(24)** | **(34)** |

Sefyllfa tanwariant net ar sawl pennawd, yn cynnwys gorwariant ar Gynllun Effeithlonrwydd Ysgolion, arbediad ar gytundeb blynyddol Cydbwyllgor Addysg "Cymru" a thanwariant ar Gronfa Dosbarthiadau.

**Maes:-** **Ysgolion Datganoledig**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **71,196** | **71,196** | **0** | | **0** | **0** |

Cyllidebau lle mae rheolaeth wedi'i ddirprwyo i gyrff llywodraethu.
Nodaf fod sefyllfa Balansau Ysgolion ar ddiwedd 2013/14 fel a ganlyn:-
- Ysgolion Cynradd wedi cynyddu £284k i £2.6m (7.3% o ddyraniad cyllideb cynradd)
- Ysgolion Uwchradd wedi lleihau £333k i £1.1m (3.3% o ddyraniad cyllideb uwchradd)
- Ysgolion Arbennig wedi gwella £73k i £70k (3.2% o ddyraniad cyllideb ysgolion arbennig)

Cyfanswm £3.8m (cyfateb i 5.2% o dderbyniad ysgolion am 2013/14).

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

| Crynhoad o Sefyllfa'r Adran Economi a Chymuned | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Morwrol** | **(389)** | **(250)** | **139** | **0** | **139** | **129** |
| **Parciau Gweledig** | **78** | **91** | **13** | **0** | **13** | **11** |
| **Cefnogi Busnes** | **(90)** | **(153)** | **(63)** | **0** | **(63)** | **(64)** |
| **Sgiliau a Mentergarwch** | **66** | **23** | **(43)** | **0** | **(43)** | **(40)** |
| **Gwasanaeth Ieuenctid** | **1,018** | **963** | **(55)** | **0** | **(55)** | **(24)** |
| **Eraill** | **3,117** | **3,110** | **(7)** | **0** | **(7)** | **21** |
| **Cyfanswm Adran Economi** | **3,800** | **3,784** | **(16)** | **0** | **(16)** | **33** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: ECONOMI A CHYMUNED**

| **Maes:-** | **Morwrol** | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(389)** | **(250)** | **139** | | **139** | **129** |

Wrth sefydlu cyllideb 2013-14, gostyngwyd y targed incwm ar gyfer Hafan Pwllheli o £109k, a gostyngwyd targed incwm Harbyrau o £45k. Er hynny, erbyn diwedd 2013/14 roedd diffyg net o £139k, oherwydd bod incwm Hafan £251k yn fyr o'r targed, a'r Adran wedi gostwng gwariant ar nifer o benawdau (£105k) er mwyn lleddfu'r sefyllfa.
Mae targed incwm yr Hafan ar gyfer 2014-15 eisoes wedi ei ostwng £180k ymhellach a gobeithir gellid cynyddu incwm wedi gwaith carthu'r harbwr a gwellhad yr economi.

| **Maes:-** | **Parciau Gweledig** | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **78** | **91** | **13** | | **13** | **11** |

Sefyllfa gorwariant ymylol sy'n cynnwys gorwariant o £11k ar Barc Glynllifon, yn bennaf oherwydd diffyg incwm, a hefyd gorwariant ym Mharc Padarn.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: ECONOMI A CHYMUNED**

| | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:- Cefnogi Busnes** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **(90)** | **(153)** | **(63)** | | **(63)** | **(64)** |

Sefyllfa derfynol sy'n gyson â'r hyn ragwelwyd yn y trydydd chwarter, yn cynnwys tanwariant (£25k) ar Grantiau Busnes, (£20k) o incwm ychwanegol am Unedau Diwydiannol, tanwariant o (£60k) gan y Tîm Asedau (oherwydd cyflawni arbedion ymlaen llaw), a £37k o wariant ychwanegol ar Neuadd Dwyfor.

| | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:- Sgiliau a Mentergarwch** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **66** | **23** | **(43)** | | **(43)** | **(40)** |

Sefyllfa tanwariant terfynol sy'n lled gyson â'r rhagolygon blaenorol, yn bennaf oherwydd arbedion trosiant staff un-tro.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: ECONOMI A CHYMUNED**

| Maes:- | Gwasanaeth Ieuenctid | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **1,018** | **963** | **(55)** | | **(55)** | **(24)** |

Ers y trydydd chwarter, bu cynnydd (£31k) mewn tanwariant i'r sefyllfa derfynol o (£55k), yn bennaf oherwydd tanwariant ar glybiau ieuenctid, yn dilyn cyfnod o gau rhai clybiau yn ystod y chwarter olaf oherwydd prinder staff. Llwyddwyd hefyd i ddenu fwy o incwm yn y cyfnod.

| Maes:- | Eraill | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **3,117** | **3,110** | **(7)** | | **(7)** | **21** |

Sefyllfa net lled niwtral sy'n adlewyrchu mân wahaniaethau ar nifer o benawdau cyllideb.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

| **Crynhoad o Sefyllfa'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys yr Asiantaeth Cefnffyrdd)** | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwaredu Gwastraff | **3,513** | **3,651** | **138** | **0** | **138** | **128** |
| Safleoedd Trosglwyddo a Thrin | **1,319** | **1,406** | **87** | **0** | **87** | **87** |
| Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | **2,891** | **2,954** | **63** | **0** | **63** | **108** |
| Gwastraff Masnachol | **302** | **172** | **(130)** | **0** | **(130)** | **(41)** |
| Safleoedd Gwaredu | **(1,292)** | **(1,232)** | **60** | **0** | **60** | **65** |
| Canolfannau Ailgylchu | **1,052** | **1,072** | **20** | **0** | **20** | **7** |
| Eraill (Gwastraff) | **440** | **420** | **(20)** | **0** | **(20)** | **(2)** |
| **Cyfanswm Maes Gwastraff** | **8,225** | **8,443** | **218** | **0** | **218** | **352** |
| **Priffyrdd a Goleuo** | **9,173** | **9,100** | **(73)** | **0** | **(73)** | **(14)** |
| **Gwasanaethau Profedigaeth** | **2** | **(32)** | **(34)** | **0** | **(34)** | **(26)** |
| **Glanhau Strydoedd** | **2,204** | **2,131** | **(73)** | **0** | **(73)** | **16** |
| **Pont Aber, Caernarfon** | **73** | **101** | **28** | **0** | **28** | **19** |
| **Eraill** | **2,613** | **2,574** | **(39)** | **0** | **(39)** | **(22)** |
| **Cyfanswm Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **22,290** | **22,317** | **27** | **0** | **27** | **325** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**Maes Gwastraff**

**Maes:-** **Gwaredu Gwastraff**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **3,513** | **3,651** | **138** | | **138** | **128** |

Sefyllfa derfynol sy'n weddol gyson â'r rhagolygon yn y trydydd chwarter, ac yn cynnwys costau trafnidiaeth £16k uwch yn y chwarter olaf.

**Maes:-** **Safleoedd Trosglwyddo a Thrin**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,319** | **1,406** | **87** | | **87** | **87** |

Sefyllfa derfynol sy'n gyson â'r rhagolygon yn y trydydd chwarter. Mae'r gorwariant oherwydd methiant i gyflawni'r gwahanol dargedau incwm, ond fe liniarwyd rhywfaint ar y sefyllfa drwy ddefnyddio sefyllfa ffafriol ar gyllidebau eraill o fewn yr Adran.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**Maes Gwastraff**

**Maes:-** **Casglu Gwastraff ac Ailgylchu**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **2,891** | **2,954** | **63** | | **63** | **108** |

Gostyngiad (£45k) o'r gorwariant rhagwelwyd yn y trydydd chwarter. Sefyllfa derfynol sy'n cynnwys, gorwariant £132k ar gostau ymdrin â deunyddiau rwbel, coed a gwastraff gwyrdd (gostyngiad o (£63k)), gorwariant o £61k mewn incwm casglu gwastraff masnachol (gostyngiad o (£7k)), diffyg o £8k mewn incwm gwastraff swmpus, ond hefyd tanwariant (£220k) yng nghostau casglu deunyddiau ailgylchu (cynnydd o (£153k)).
Yn ychwanegol, bu tanwariant (£30k) ar gostau gweithredol, yn bennaf mewn costau trafnidiaeth.

**Maes:-** **Gwastraff Masnachol**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **302** | **172** | **(130)** | | **(130)** | **(41)** |

Cynnydd (£89k) o'r sefyllfa tanwariant rhagwelwyd yn y trydydd chwarter oherwydd £12k o incwm ychwanegol, a gostyngiad (£77k) mewn costau gweithredol a chostau gwaredu.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**Maes Gwastraff**

**Maes:-** **Safleoedd Gwaredu**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **(1,292)** | **(1,232)** | **60** | | **60** | **65** |

Sefyllfa derfynol sy'n weddol gyson â'r rhagolygon trydydd chwarter, sef gorwariant terfynol £60k, yn bennaf oherwydd costau gweithredol uwch.

**Maes Gwastraff**

**Maes:-** **Canolfannau Ailgylchu**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,052** | **1,072** | **20** | | **20** | **7** |

Sefyllfa gorwariant yn adlewyrchu cynllun arbedion heb ei wireddu yn y flwyddyn.

**Maes:-** **Eraill (Gwastraff)**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **440** | **420** | **(20)** | | **(20)** | **(2)** |

Sefyllfa tanwariant net (£20k) sy'n cynnwys nifer o fân wahaniaethau.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Priffyrdd a Goleuo** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **9,173** | **9,100** | **(73)** | | **(73)** | **(14)** |

Bu cyfuniad o danwariant (£40k) ar wasanaethau a chyflenwadau, (£62k) o incwm ychwanegol ar gontractau allanol, a gaeaf mwyn costau cynnal gaeaf. Ddaru hynny alluogi'r gwasanaethau i gyfrannu tuag at liniaru sefyllfa gorwariant ar rai gwasanaethau eraill yr Adran, a chyflawni tanwariant o (£73k) ar y pennawd yma erbyn diwedd y flwyddyn.

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaethau Profedigaeth** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **2** | **(32)** | **(34)** | | **(34)** | **(26)** |

Mân gynnydd yn y sefyllfa tanwariant net, o ganlyniad i dderbyn incwm ychwanegol.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Glanhau Strydoedd** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **2,204** | **2,131** | **(73)** | | **(73)** | **16** |

Gwelliant (£89k) ers y trydydd chwarter, yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn costau gweithredol a denu incwm ychwanegol o ddigwyddiadau arbennig.

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Pont Aber, Caernarfon** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **73** | **101** | **28** | | **28** | **19** |

Sefyllfa gorwariant, yn bennaf oherwydd costau staffio uwch.

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Eraill** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **2,613** | **2,574** | **(39)** | | **(39)** | **(22)** |

Nifer o wahaniaethau dros llawer o benawdau eraill, yn cynnwys tanwariant (£13k) ar Diroedd Agored, tanwariant (£8k) ar Beirianneg Cyffredinol, a thanwariant (£12k) ar Gostau Gweinyddol.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

| Crynhoad Sefyllfa Adran Rheoleiddio (Cynllunio,Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Rheolaeth** | **197** | **151** | **(46)** | **0** | **(46)** | **1** |
| **Rheolaeth Datblygu** | **418** | **223** | **(195)** | **0** | **(195)** | **(31)** |
| **Diogelwch Ffyrdd a Traffig** | **439** | **479** | **40** | **0** | **40** | **2** |
| **Gwasanaeth Parcio** | **(1,269)** | **(1,165)** | **104** | **0** | **104** | **31** |
| **Trafnidiaeth Cyhoeddus** | **1,403** | **1,451** | **48** | **0** | **48** | **30** |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | **1,818** | **1,754** | **(64)** | **0** | **(64)** | **(68)** |
| **Eraill** | **3,121** | **3,176** | **55** | **0** | **55** | **19** |
| **Cyfanswm Adran Rheoleiddio** | **6,127** | **6,069** | **(58)** | **0** | **(58)** | **(16)** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: RHEOLEIDDIO**

| Maes:- | Rheolaeth | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **197** | **151** | **(46)** | | **(46)** | **1** |

Sefyllfa tanwariant terfynol o (£46k) oherwydd fe glustnodwyd cyllideb ar gyfer cynlluniau penodol sydd wedi llithro i'r flwyddyn newydd.

| Maes:- | Rheolaeth Datblygu | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **418** | **223** | **(195)** | | **(195)** | **(31)** |

Cynnydd o (£164k) yn y tanwariant net, yn bennaf oherwydd yn bennaf derbyniad incwm ffioedd ychwanegol o (£132k) yn y chwarter olaf mewn perthynas â datblygiad Santes Fair, Bangor, a datblygiad tai ym Mhenrhosgarnedd, Bangor.

| Maes:- | Diogelwch Ffyrdd a Traffig | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **439** | **479** | **40** | | **40** | **2** |

Cynnydd o £38k yn y gorwariant net yn cynnwys gwariant ychwanegol o £111k fel cyfraniadau refeniw i'r rhaglen cyfalaf, arbedion staffio unwaith ac am byth o (£39k), a thanwariant o (£39k) ar Groeswyr Plant Ysgol.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: RHEOLEIDDIO**

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaeth Parcio** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(1,269)** | **(1,165)** | **104** | | **104** | **31** |

Bu cynnydd o £73k yn y gorwariant net yn y chwarter olaf i gyrraedd sefyllfa gorwariant net terfynol o £104k. Ymysg cymysgedd o wahaniaethau, roedd y gorwariant yma'n cynnwys diffyg incwm ffioedd parcio o £9k yn unig, a derbyniad incwm ychwanegol o ffynonellau eraill o (£9k). Ar yr elfen gorfodaeth, bu gorwariant o £25k ar wasanaethau a chyflenwadau, tanwariant o (£120k) ar gostau gweithredol, ac ad-daliad terfynol o £199k i'r benthyciad mewnol i'r gwasanaeth gorfodaeth, fydd yn cynorthwyo'r Adran i gyflawni'r targed arbedion perthnasol yn 2014/15.

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Trafnidiaeth Cyhoeddus** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **1,403** | **1,451** | **48** | | **48** | **30** |

Cynnydd £18k mewn gorwariant ers y trydydd chwarter. Mae'r gorwariant terfynol £48k yn cynnwys costau contractau bysus £114k uwch, arbedion costau staffio un-tro o (£34k), a thanwariant o (£24k) ar wasanaethau cyffredinol eraill.

## CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL

## ADRAN: RHEOLEIDDIO

**Maes:-** **Gwarchod y Cyhoedd**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,818** | **1,754** | **(64)** | | **(64)** | **(68)** |

Sefyllfa derfynol sy'n weddol gyson â'r trydydd chwarter, ac yn cynnwys (£21k) o arbedion staffio, tanwariant (£10k) ar wasanaethau a chyflenwadau, a derbyniad incwm ychwanegol o (£34k).

**Maes:-** **Eraill**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **3,121** | **3,176** | **55** | | **55** | **19** |

Sefyllfa gorwariant net o £55k sy'n cynnwys gwariant ychwanegol o £60k ar gynlluniau adfer difrod llifogydd i lwybrau glas a hawliau tramwy.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

| **Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaeth Ymgynghoriaeth (Ffyrdd a Pheirianneg)** | **(545)** | **(580)** | **(35)** | **0** | **(35)** | **43** |
| **Uned Rheoli Risg Llifogydd** | **530** | **557** | **27** | **0** | **27** | **0** |
| **Uned Adeiladu** | **(43)** | **(140)** | **(97)** | **0** | **(97)** | **(135)** |
| **Eraill** | **196** | **181** | **(15)** | **0** | **(15)** | **(5)** |
| **Cyfanswm Adran Ymgynghoriaeth** | **138** | **18** | **(120)** | **0** | **(120)** | **(97)** |

Yn unol â'r rheoliadau ariannol, yn arferol fe gyfyngir y tanwariant a ellir ei gario ymlaen ar ddiwedd unrhyw flwyddyn ariannol i (£100k), heblaw bod y Cabinet yn caniatáu eithriad mewn sefyllfaoedd arbennig.
Wedi ystyried natur masnachol gwasanaethau'r Adran, sy'n anwadal ac yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, argymhellir fod yr Adran Ymgynghoriaeth yn cael cario drosodd y tanwariant llawn o £120k i'r flwyddyn ariannol 2014/15.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: YMGYNGHORIAETH**

| | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** **Gwasanaeth Ymgynghoriaeth (Ffyrdd a Pheirianneg)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **(545)** | **(580)** | **(35)** | | **(35)** | **43** |

Yn dilyn blwyddyn anodd yn 2012/13 mae'r sefyllfa derfynol am 2013/14 yn dangos gwelliant ariannol sylweddol, i sefyllfa tanwariant net o (£35k), sy'n symudiad (£75k) o'r sefyllfa rhagwelwyd yn y trydydd chwarter.
Mae'r tanwariant net yma'n cynnwys incwm ffioedd ychwanegol o (£184k), a chlirio'r gorwariant £104k o'r flwyddyn flaenorol.
Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o drefniadau a phrosesau ariannol yr Adran, mae cynllun gweithredu perthnasol mewn lle i geisio ymateb i sawl darganfyddiad. Hyd yma, bu cynnydd da hefo'r cynllun, gyda nifer o faterion wedi'u gweithredu'n llawn, ac eraill dal yn y broses o gael eu gweithredu.

| | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** **Uned Rheoli Risg Llifogydd** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **530** | **557** | **27** | | **27** | **0** |

Sefyllfa gorwariant oherwydd y gwaith argyfwng ychwanegol a wnaethpwyd yn dilyn y llifogydd a welwyd yn ystod y gaeaf diwethaf.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: YMGYNGHORIAETH**

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Uned Adeiladu** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(43)** | **(140)** | **(97)** | | **(97)** | **(135)** |

Fe ragwelwyd sefyllfa tanwariant o (£135k) yn y trydydd chwarter, sydd wedi gostwng £38k erbyn diwedd y flwyddyn oherwydd gostyngiad mewn incwm ffioedd o £62k, ond hefyd arbedion mewn costau staffio o (£24k).

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Eraill** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **196** | **181** | **(15)** | | **(15)** | **(5)** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

| Gwasanaethau Canolog | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Adnoddau Dynol** | **3,104** | **3,103** | **(1)** | **0** | **(1)** | **(3)** |
| **Cyllid** | **3,863** | **3,846** | **(17)** | **0** | **(17)** | **(16)** |
| **Democratiaeth a Chyfreithiol** | **1,701** | **1,640** | **(61)** | **0** | **(61)** | **28** |
| **Gofal Cwsmer** | **7,103** | **7,069** | **(34)** | **15** | **(19)** | **(31)** |
| **Strategol a Gwella** | **4,767** | **4,676** | **(91)** | **0** | **(91)** | **(83)** |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol** | **925** | **925** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Canolog** | **21,463** | **21,259** | **(204)** | **15** | **(189)** | **(105)** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: ADNODDAU DYNOL**

| | | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran:-** | **Adnoddau Dynol** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | Cyfanswm Net | **3,104** | **3,103** | **(1)** | | **(1)** | **(3)** |

Sefyllfa net derfynol sy'n lled niwtral ac yn weddol gyson â'r rhagolygon trydydd chwarter, ac yn cynnwys gorwariant o £16k ar Iechyd a Diogelwch (yn bennaf gorwariant o £12k ar wasanaeth cwnsela), a thanwariant o (£11k) ar Wasanaethau Cefnogol, (yn bennaf, arbedion staffio unwaith ac am byth o (£15k)).

**ADRAN: CYLLID**

| | | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran:-** | **Cyllid** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | Cyfanswm Net | **3,863** | **3,846** | **(17)** | | **(17)** | **(16)** |

Mae'r sefyllfa tanwariant net terfynol yn weddol gyson â'r darlun a ragwelwyd yn y chwarter diwethaf, ac yn cynnwys arbedion staffio pellach o (£13k), incwm allanol ychwanegol o (£37k) a chostau ychwanegol ar drwydded systemau technoleg gwybodaeth o £38k.

## CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL

### ADRAN: DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL

**Adran:-** **Democratiaeth a Chyfreithiol**

| | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyfanswm Net | **1,701** | **1,640** | **(61)** | | **(61)** | **28** |

Gwelliant sylweddol o (£89k) ers y trydydd chwarter, yn bennaf oherwydd incwm ychwanegol o (£15k) mewn perthynas â rhybuddion ffyrdd a thraffig, incwm ychwanegol o (£15k) i'r Uned Gyfieithu, gostyngiad gorwariant o (£30k) mewn cyflenwadau a gwasanaethau gan yr Uned Argraffu, a chyfuniad o leihad mewn gwariant a chynnydd mewn incwm o (£18k) gan yr Uned Gofrestru.

### ADRAN: GOFAL CWSMER

**Adran:-** **Gofal Cwsmer**

| | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyfanswm Net | **7,103** | **7,069** | **(34)** | **15** | **(19)** | **(31)** |

Mân gynnydd (£3k) o'r lefel tanwariant gros a ragwelwyd yn flaenorol. Mae'r tanwariant gros o (£34k) yn cynnwys tanwariant (£155k) gan yr Uned Technoleg Gwybodaeth oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth ynghyd â llwyddiant i ddenu incwm ychwanegol, tanwariant (£17k) gan yr Uned Gwybodaeth oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth, tanwariant (£24k) gan yr Uned Gyfathrebu yn deillio yn bennaf o arbedion staffio unwaith ac am byth.
Yn erbyn hynny, bu gorwariant o £93k ar y Gwasanaeth Teleffon oherwydd methiant i gyflawni cynllun arbediad "VOIP", gorwariant o £29k gan yr Uned Argyfwng, gorwariant o £10k gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn deillio'n bennaf o ddiffyg incwm, gorwariant net o £33k gan yr Uned Eiddo, a gorwariant £18k gan Siop Gwynedd oherwydd costau gweithredol uwch.
Derbyniwyd cais gan y Gwasanaeth Glanhau i sefydlu cronfa wrth gefn ar gyfer costau diswyddo posib mewn perthynas â chontractau glanhau. Er na ragwelir datblygiadau perthnasol yn fuan, fe ystyrir yn ddarbodus i ddefnyddio elfen o'r tanwariant adrannol am 2013/14 i sefydlu'r gronfa.

**Argymhellir** creu Cronfa Costau Diswyddo Contractau Glanhau a chyfrannu £15k o'r tanwariant adrannol gros i'r gronfa yma.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: STRATEGOL A GWELLA**

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran:-** | **Strategol a Gwella** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | Cyfanswm Net | **4,767** | **4,676** | **(91)** | | **(91)** | **(83)** |

Sefyllfa tanwariant (£91k) sy'n lled gyson â'r darlun a ragwelwyd yn y trydydd chwarter, ac yn cynnwys tanwariant (£39k) gan yr Uned Cynllunio Strategol sy'n deillio'n bennaf o dderbyniad incwm ychwanegol o (£25k) gan yr Uned Ymchwil Gwybodaeth, tanwariant o (£5k) gan yr Uned Polisi Tai, ac arbedion staffio o (£9k) gan yr Uned Caffael.
Fe welwyd hefyd tanwariant o (£39k) gan y Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid oherwydd arbedion staffio un-tro yn yr Uned Gwella Perfformiad, a thanwariant o (£19k) gan yr Uned Gwireddu oherwydd arbedion staffio un-tro yno hefyd.

**CYLLIDEB Y TÎM RHEOLI CORFFORAETHOL**

| | | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran:-** | **Tîm Rheoli Corfforaethol** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | Cyfanswm Net | **925** | **925** | **0** | | **0** | **0** |

Sefyllfa derfynol niwtral, fel rhagwelwyd yn y trydydd chwarter.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

| Crynhoad o'r Sefyllfa Gorfforaethol | Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cynlluniau Arbedion Trawsadrannol** | **0** | **0** | **(321)** | **321** | **0** | **0** |
| **Cost Darparu ar gyfer dyledion drwg posib** | **0** | **0** | **243** | **(243)** | **0** | **0** |
| **Derbyniad Llog Net** | **0** | **0** | **235** | **(235)** | **0** | **216** |
| **Buddsoddiad Banc Heritable ("Gwlad yr Ia")** | **0** | **0** | **(221)** | **221** | **0** | **(221)** |
| **Treth y Cyngor** | **0** | **0** | **(851)** | **851** | **0** | **(349)** |
| **Cyllideb Arbedion a wireddwyd ymlaen llaw** | **0** | **0** | **(1,331)** | **1,331** | **0** | **(1,331)** |
| **Cyllideb Wrth Gefn** | **0** | **0** | **(254)** | **254** | **0** | **(552)** |
| **Darpariaeth heb eu ymrwymo yn 2013/14** | **0** | **0** | **(295)** | **295** | **0** | **(295)** |
| **Eraill** | **0** | **0** | **(87)** | **87** | **0** | **(20)** |
| **Cyfrif Cyllid Tai** | **0** | **0** | **(1,727)** | **1,727** | **0** | **(1,727)** |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | **0** | **0** | **(4,609)** | **4,609** | **0** | **(4,279)** |

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL**

**Maes:-** **Cynlluniau Arbedion Trawsadrannol**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(321)** | **321** | **0** | **0** |

Adroddwyd i'r Cabinet yn yr ail adolygiad cyllideb fod rhai cynlluniau arbedion corfforaethol yn annhebygol o gael eu gwireddu'n llawn yn 2013/14, ac fe gymeradwywyd defnydd o (£364k) o'r gyllideb 'Arbedion a gyflawnwyd o flaen llaw' i'r pwrpas. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol fe lwyddwyd i gyflawni rhai arbedion ymlaen llaw bellach o (£321k). Gan fod rhan o'r arbedion un-tro yma yn tarddu o ail strwythuro uwch reolaeth y cyn adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a Darparu a Hamdden, gweler uchod o dan yr adrannau perthnasol, argymhelliad i ddefnyddio £130k tuag at y pecyn i glirio gorwariant terfynol Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Argymhellir** ymhellach fod y gweddill o'r tanwariant (£191k) ar y pennawd yma yn cael ei drosglwyddo ar sail un-tro i'r Gronfa Diswyddo, sef i gynorthwyo gwireddu arbedion i'r Cyngor.

**Maes:-** **Cost Darparu ar gyfer dyledion drwg posib**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **243** | **(243)** | **0** | **0** |

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol, rhaid adnabod swm tebygol ar gyfer posibilrwydd o fethu adennill dyledion. Eleni, mae'r gost ychwanegol yma uwchben y ddarpariaeth wreiddiol.

**Argymhellir** fod y gost ychwanegol yma o £243k yn cael ei ariannu o'r Gyllideb wrth Gefn.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL**

**Maes:-** **Derbyniad Llog Net**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **235** | **(235)** | **0** | **216** |

Fel adroddwyd yn yr adolygiadau blaenorol, mae'r derbyniad llog am y flwyddyn wedi gostwng yn sylweddol oherwydd sefyllfa gyffredinol y farchnad buddsoddi, lle mae cyfraddau llog yn ddigynsail o isel. Addaswyd y targed incwm yn briodol wrth lunio cyllideb 2014/15.

**Argymhellir** fod y gostyngiad yma o £235k mewn incwm yn cael ei ariannu o'r Gyllideb wrth Gefn.

**Maes:-** **Buddsoddiad Banc Heritable ("Gwlad yr Ia")**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(221)** | **221** | **0** | **(221)** |

Derbyniwyd ad-daliad pellach o (£221k) uwchben ein rhagdybiaeth ddarbodus mewn perthynas â buddsoddiad Banc Heritable ("Gwlad yr Ia") sy'n dod a'r ganran adenillwyd hyd yma i 94%.

**Argymhellir** fod yr ad-daliad ychwanegol yma o (£221k) yn cael ei drosglwyddo ar sail un-tro i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed, sef i alluogi buddsoddi mewn gwahanol gynlluniau i wireddu arbedion i'r Cyngor.

## CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL

### CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL

**Maes:-** **Treth y Cyngor**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(851)** | **851** | **0** | **(349)** |

Cynnydd sylweddol yn y "gweddill" treth derfynol i (£851k). Cofier fod 'na elfen ddisgwyliedig o "weddill" ar gyfer 2013/14 wedi penderfyniad Llywodraeth Cymru yn Ionawr 2013 i ariannu (yn rhannol) lefelau hanesyddol o gymorth (hyd at 100%) i unigolion dalu'r Dreth Cyngor. Daeth hyn ar ôl penderfyniad Cyngor Gwynedd i ostwng cyfradd casglu dybiannol perthnasol i 97.5% ar gyfer 2013/14 (erbyn 2014/15 codwyd y gyfradd casglu dybiannol yn ôl i fyny i 99%). Yn ychwanegol, fe welwyd lleihad yn y lefel o wariant a ragwelwyd ar Fudd-daliadau, lleihad yn y nifer o eithriadau trethiannol, a lleihad yn y lefel disgowntiau sengl o'i gymharu â'r arfer. Hefyd, bu ymarferiad penodol i ddiweddaru'r cyfrifon treth o ran sefyllfa stadau ymadawedigion. Hyn i gyd yn cyfrannu i sefyllfa derfynol gryf iawn eleni, oherwydd sawl ffactor un-tro am 2013/14.

**Argymhellir** trosglwyddo (£851k) ar sail un-tro i'r Gronfa Ddiswyddo.

**Maes:-** **Cyllideb Arbedion a wireddwyd ymlaen llaw**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(1,331)** | **1,331** | **0** | **(1,331)** |

Rhyddhawyd £364k o'r pennawd yma yn yr adolygiad ail chwarter, pryd awgrymwyd fod unrhyw weddill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei glustnodi ar gyfer cynorthwyo'r strategaeth ariannol. Yn ychwanegol, fel rhan o'r strategaeth ariannol ar gyfer 2014/15, cymeradwywyd yr angen i adnabod £129k a £450k penodol, sef cyfanswm o £579k, i ddod o'r ffynhonnell yma er mwyn cwrdd â bwlch yn y pecyn mesuriadau perthnasol.

**Argymhellir** fod £579k yn cael ei drosglwyddo i gronfa benodol ar gyfer cynorthwyo’r strategaeth ariannol ar gyfer 2014/15, gyda'r £752k sy'n weddill i'w drosglwyddo i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL**

**Maes:-** **Cyllideb Wrth Gefn**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(254)** | **254** | **0** | **(552)** |

Mae'r balans yma yn cynrychioli'r gweddill o'r Ddarpariaeth wrth Gefn roedd heb ei ddyrannu ar ddiwedd y flwyddyn (wedi'r dyraniadau argymhellir uchod).

**Argymhellir** clustnodi £90k o'r balans i gronfa benodol ar gyfer cost sefydlu'r 'Trefn Gwynion' (mater sy'n destun adroddiad arall sydd ar raglen y cyfarfod hwn o'r Cabinet).
**Argymhellir** fod y £164k sy'n weddill i'w drosglwyddo i falansau cyffredinol y Cyngor.

**Maes:-** **Darpariaeth heb eu ymrwymo yn 2013/14**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(295)** | **295** | **0** | **(295)** |

Gweddill o'r adnoddau oedd heb eu hymrwymo yn ystod 2013/14.

Cyllidi'r y mwyafrif o hyfforddiant staff y Cyngor o gronfa a sefydlwyd at y pwrpas rai blynyddoedd yn ôl, cronfa sydd bellach yn debygol o fod yn wag erbyn diwedd 2015/16.
Yn wyneb pwysigrwydd hyfforddi staff, yn enwedig yn y cyfnod i ddod, lle bydd gofyn am hyfforddi yn cynyddu wrth ofyn i staff fod yn fwy hyblyg o ran gofynion gwaith, **argymhellir** y dylid cymryd y cyfle i atgyfnerthu'r sefyllfa drwy drosglwyddo'r £295k ar sail un-tro i'r gronfa Hyfforddiant Canolog.

**CYLLIDEB REFENIW 2013/14 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL**

**Maes:-** **Eraill**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(87)** | **87** | **0** | **(20)** |

Sefyllfa net derfynol sy'n cynnwys cyfuniad o wahanol wahaniaethau, ac yn bennaf derbyniad incwm ychwanegol.

**Argymhellir** trosglwyddo £87k i falansau cyffredinol y Cyngor.

**Maes:-** **Cyfrif Cyllid Tai**

| Cyllideb Diwygiedig 2013/14 | Gwariant Terfynol 2013/14 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Sefyllfa Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(1,727)** | **1,727** | **0** | **(1,727)** |

Roedd balans o £1,727k ar Gyfrif Cyllid Tai y Cyngor sydd erbyn hyn wedi'i gau ymhellach i drosglwyddiad y stoc tai. Yn ystod 2013/14, wedi terfyn amser statudol, trosglwyddwyd y balans yma i gyfrif cyffredinol y Cyngor.

**Argymhellir** neilltuo'r balans yma o £1,727k i gronfa benodol, gyda golwg ar ei ddefnyddio er mwyn lleihau'r rhwymedigaeth pensiwn a etifeddwyd yn anochel wrth drosglwyddo'r stoc tai.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION NOTICE

Dyddiad/Date 20140610

PWNC / SUBJECT
Eitem 7 Cyfrifon Terfynol 2013/14 – Alldro Refeniw

*Item 7 Final Accounts 2013/14 – Revenue Outturn*

---

PENDERFYNIAD / DECISION

1.1 Nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2013/14.

1.2 Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen, lle'n briodol, fel a restrir yn Atodiad 1 o'r adroddiad, gan gynnwys cymeradwyo i'r Adran Ymgynghoriaeth gael cario'r tanwariant llawn o £120k ymlaen i'r flwyddyn ariannol newydd, fel eithriad i'r arfer o'i gyfyngu i £100k, oherwydd natur masnachol y gwasanaeth a lefel anrhagweladwy ei incwm.

1.3 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol canlynol -

- £32k o gronfa tanwariant yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd a
- £262k o gronfa gorfforaethol neilltuwyd ar gyfer gorwariant posib yn y maes, a
- £130k o'r arbedion un-tro yn dilyn o ail strwythuro uwch reolaeth perthnasol - sef cyfanswm uchod o £424k i glirio gorwariant Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2013/14, a rhoi dechrau di-ddyled i'r ddwy bennaeth adran newydd ar gychwyn 2014/15.
- £15k o danwariant yr Adran Gofal Cwsmer i'w neilltuo er mwyn creu cronfa costau diswyddo penodol, i baratoi ar gyfer newidiadau posibl i gontractau glanhau.
- £191k o'r tanwariant ar Gynlluniau Arbedion Trawsadrannol ar sail un-tro i'r Gronfa Diswyddo corfforaethol.
- £243k o'r Gyllideb Wrth Gefn i ariannu cost ychwanegol o ddarparu ar gyfer dyledion drwg.
- £235k o'r Gyllideb wrth Gefn i wneud iawn am y gostyngiad mewn incwm llog, oherwydd tueddiad cyffredinol y farchnad buddsoddi.
- £221k o ad-daliad ychwanegol dderbyniwyd ar fuddsoddiad Banc Heritable (dyled "Gwlad yr Ia") i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed.
- £851k o'r "gweddill" un-tro o Dreth Cyngor casgladwy i'r Gronfa Ddiswyddo corfforaethol.
- £579k o'r Gyllideb Arbedion a Wireddwyd Ymlaen Llaw i gronfa benodol ar gyfer cynorthwyo Strategaeth Ariannol 2014/15, a

---

- £752k o'r Gyllideb Arbedion a Wireddwyd Ymlaen Llaw i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed.
- £90k o'r Gyllideb Wrth Gefn i gronfa benodol ar gyfer cost sefydlu'r Drefn Gwynion newydd, a
- £164k o'r Gyllideb Wrth Gefn i'r Balansau Cyffredinol.
- £295k o'r darpariaeth oedd heb ei ymrwymo ar sail un-tro i'r Gronfa Hyfforddi Staff.
- £87k o'r "gweddill" un-tro ar amrywiol benawdau corfforaethol eraill i'r Balansau Cyffredinol.
- £1.727m o'r Cyfrif Cyllid Tai i'w neilltuo, am y tro, mewn cronfa benodol, gyda golwg ar ei ddefnyddio er mwyn lleihau'r rhwymedigaeth pensiwn a etifeddwyd yn anochel wrth drosglwyddo'r stoc tai.

1.4 Nodi'r gostyngiad yn lefel y cyfanswm o gronfeydd penodol, a'r cynnydd ymylol yn lefel balansau cyffredinol y Cyngor yn ystod 2013/14.

*1.1 To note the final financial position of the Council's departments for 2013/14.*

*1.2 To approve the amounts to be carried forward, where appropriate, as listed in Appendix 1 of the report, including approval for the Consultatncy Department to be allowed to carry forward the full £120k underspend into the new financial year, as an exception to the usual £100k limit, due to the commercial nature of the service and their unpredictable level of income.*

*1.3 To approve the following financial transfers -*

- *£32k from the Social Services Department's accrued underspend, along with*
- *£262k from the corporate reserve earmarked for potential overspend in this field, and*
- *£130k from the one-off savings following a restructuring of relevant senior management – - to clear Social Services' £424k overspend in 2013/14, and give the two new heads of department a debt-free start at the commencement of 2014/15.*
- *£15k of the Customer Care Department's underspend to be set-aside in order to create a specific redundancy costs reserve, to prepare for possible changes to cleaning contracts.*
- *£191k from the underspend on Cross-Departmental Savings Plans on a one-off to the corporate Redundancy Reserve.*
- *£243k from the Contingency Budget to fund the additional cost of providing for bad debts.*
- *£235k from the Contingency Budget to compensate for the decrease in interest received, due to general investment market trends.*
- *£221k from additional repayments received on the Heritable Bank investment ("Icelandic" debt) to the Invest to Save Reserve.*
- *£851k from the one-off "surplus" of collectable Council Tax to the corporate Redundancy Reserve.*
- *£579k from the Savings Realised in Advance Budget to a specific reserve* ***for***

*assisting the 2014/15 Financial Strategy, and*

- *£752k from the Savings Realised in Advance Budget to the Invest to Save Reserve.*
- *£90k from the Contingency Budget to a specific reserve for the cost of*
- *establishing the new Complaints Procedure, and*
- *£164k from the Contingency Budget to General Balances.*
- *£295k from the un-committed budget provision to the Staff Training Reserve on a one-off basis.*
- *£87k from the one-off "surplus" on various other corporate budgets to General Balances.*
- *£1.727m from the Housing Revenue Account to be set aside, for now, in a specific reserve, with a view to applying this to reduce the pension liability unavoidably inherited on transferring the housing stock.*

*1.4 To note the reduction in the level of total specific reserves, and the marginal increase in the Council's general balances during 2013/14.*

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Er gwaethaf amgylchiadau anodd a thynhau parhaus, yn gyffredinol, mae sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2013/14 yn cadarnhau y bu rheolaeth ariannol effeithiol gan yr Aelodau Cabinet perthnasol a'r Tîm Rheoli, ynghyd â disgyblaeth ariannol gan benaethiaid adrannau a rheolwyr cyllidebau.

Yn gyffredinol, bu cyllidebau rhan fwyaf adrannau'r Cyngor dan reolaeth gadarn eto eleni. Roedd sefyllfa ariannol mwyafrif yr adrannau yn lled niwtral, ond bu straen sylweddol ar gyllidebau'r Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn chwarter olaf y flwyddyn.

Ym mhedwerydd chwarter 2013/14, fe wnaeth gwelliannau yn sefyllfa cyllidebau'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Ymgynghoriaeth ragori ar y disgwyliadau, yn rhannol oherwydd y gaeaf mwyn (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol), ynghyd â llwyddiant ariannol yn dilyn camau a gymerwyd i wella trefniadau busnes adrannol yr Adran Ymgynghoriaeth.

Ym mwyafrif y cyllidebau lle bu gorwariant yn 2013/14, rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r anghenion perthnasol ynghylch cyllidebu 2014/15, ac mae mwyafrif y gorwariant hynny eisoes wedi'i gyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2014/15.

Ar wahân i Gwasanaethau Cymdeithasol, mae sefyllfa gweddill adrannau'r Cyngor yn gyffredinol dderbyniol a gellid neilltuo'r adnoddau corfforaethol sydd ar ôl i atgyfnerthu'r Gronfa Ddiswyddo, y Gronfa Buddsoddi i Arbed, a'r Gronfa Hyfforddi Staff, yn ogystal â gwneud dyraniad un-tro er mwyn sefydlu Trefn Gwynion newydd.

*Despite difficult circumstances and sustained tightening, generally, the final financial position of the Council's departments for 2013/14 confirms that there was effective financial management by the relevant Cabinet Members and the Management Team, together with financial discipline by the department heads and*

*budget managers.*

*Generally, the budgets of most of the Council's department have been under firm control this year again. The financial situation of the majority of departments was broadly neutral, but there was significant strain on the budgets of the Housing and Social Services Department in the final quarter of the year.*

*In the fourth quarter of 2013/14, improvements in the budgetary position of the Highways and Municipal and Consultancy Departments exceeded expectations, partly due to the mild winter (Highways and Municipal Department), and financial success following steps taken to improve departmental business arrangements of the Consultancy Department.*

*In the majority of budgets where there was an overspend in 2013/14, appropriate consideration has been given to the related requirements in the 2014/15 budgetary cycle, and most of that overspend has already been addressed in the financial strategy for 2014/15.*

*Apart from the Social Services, the position of the rest of the Council departments is generally acceptable and remaining corporate resources may be earmarked to reinforce the Redundancy Reserve, the Invest to Save Reserve, and the Staff Training Reserve, as well as making a one-off allocation to establish a new complaints procedure.*

Sylwadau neu bwyntiau croes / *Observations or opposing views:-*

Yn dilyn cyflwyno'i adroddiad, roedd yr Aelod Cabinet Adnoddau am ddiolch i staff gwasanaethau oedd wedi cyfrannu at yr adroddiad cynhwysfawr hwn. Eglurwyd bod yr adroddiad hwn yn dangos rheolaeth ariannol hynod effeithiol a bod y diwylliant o dynhau rheolaeth gyllidol yn mynd i fod yn hynod o werthfawr yn y cyfnod sydd i ddod. Mynegwyd pryder am ddemograffi'r Sir a'r galw sydd ar yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol i ymdrin ag achosion cymhleth. Nodwyd bod yr adran am gymryd camau penodol i ymchwilio yn ofalus i'r rhesymau dros y gorwariant, bod llawer o waith wedi'i wneud eisoes a bod mwy fyth angen ei wneud er mwyn llawn ddeall y sefyllfa. O ystyried yr holl newidiadau diweddar, trafodwyd y syniad o gael adroddiadau chwe misol gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn rhoi gwybodaeth am y datblygiadau o fewn yr adran.

*Following the submission of his report, the Cabinet Member for Resources wished to thank the staff of the services that contributed to this comprehensive report. It was explained that the report demonstrated very effective financial control and that the culture of tightening financial control would be very valuable in coming years. Concern was expressed regarding the County's demography and the demand on the Social Services department to deal with complex cases. It was noted that the department would take specific steps to carefully investigate the reasons for the overspend, that considerable work had already been undertaken and there was now an even greater need to undertake the work in order to ascertain the situation. Given all of the recent changes, the idea of receiving a report every six months from the Social Services Department was considered in order to receive information on developments within the department.*

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **15 Gorffennaf 2014** |
| TEITL: | **DATGANIAD O GYFRIFON 2013/14** |
| PWRPAS / ARGYMHELLIAD: | **Derbyn y Datganiad o Gyfrifon statudol (drafft cyn archwiliad) er gwybodaeth** |
| AWDUR: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |
| AELOD CABINET: | **Cynghorydd Peredur Jenkins** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14, sy'n rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddaru ddiweddu ar 31 Mawrth 2014.

1.2 Y Datganiad o Gyfrifon drafft ar ei ffurf safonol yw'r ddogfen ddilynol, 121 tudalen o hyd mewn un iaith. Mae linc i'r Datganiad eisoes wedi'i anfon at holl aelodau etholedig a phrif swyddogion y Cyngor ar 1 Gorffennaf 2014.

1.3 Nid yw'r cyfrifon drafft a gyflwynir yma wedi'u harchwilio eto, felly efallai bydd angen rhai newidiadau iddynt cyn cyflwynir fersiwn terfynol er cymeradwyaeth yng nghyfarfod 25 Medi 2014 o'r Pwyllgor Archwilio.

1.4 Mae ffurf a chynnwys sylfaenol y Datganiadau yma wedi'i orfodi o dan reoliad 7 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 ac adolygiadau i'r rheiny, yn ogystal â rheoliadau a safonau eraill. Mae nifer o ofynion o dan y SAARh (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol) sydd yn seiliedig ar God Ymarfer Cyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn Natganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2013/14. Gan fod y rheoliadau yn mynnu datganiadau ar ffurf safonol, mae cymariaethau gyda chyfrifon cyrff eraill wedi'u hwyluso, ond erbyn hyn mae'r datganiadau yn dechnegol gymhleth ac yn fwy anodd i'w ddeall.

1.5 Cyflwynwyd adroddiadau syml a chryno ynglŷn â chyfrifon 2013/14 i gyfarfod 10 Mehefin 2014 o'r Cabinet. Roedd yr adroddiad hwnnw (sy'n eitem flaenorol ar raglen y cyfarfod yma o'r Pwyllgor Archwilio) yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

## 2. GWEITHREDIAD ANGENRHEIDIOL

2.1 Y Pwyllgor Archwilio yw'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" ar ran y Cyngor, a cyn 2009/10 bu'r pwyllgor yn cymeradwyo'r datganiad drafft (amodol ar archwiliad) o'r cyfrifon. Fodd bynnag, ddaru'r addasiadau 2010 i'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio roi'r cyfrifoldeb am gymeradwyo ac ardystio'r cyfrifon drafft cyn 30 Mehefin i'r Swyddog Cyllid Statudol (y Pennaeth Cyllid yn Cyngor Gwynedd).

2.2 Erbyn hyn, nid oes raid i aelodau etholedig gymeradwyo'r fersiwn ddrafft o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor, ond fel "arfer dda" y'i cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ER GWYBODAETH.

2.3 Diau y bydd aelodau'r pwyllgor awydd ystyried a deall y cynnwys fel paratoad ar gyfer cymeradwyo'r fersiwn terfynol ym Medi, ac i arfogi ei hunain gyda'r wybodaeth ar gyfer ystyried materion a archwilir yn eu cyd-destun.

## 3. CAMAU DILYNOL

3.1 Ymhellach i ardystiad gan y Pennaeth Cyllid ac ystyriaeth gan y Pwyllgor Archwilio, bydd y Datganiad o Gyfrifon 2013/14, ynghyd â phob datganiad ariannol perthnasol arall, yn destun y broses archwilio blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

3.2 Yn unol â rheoliadau 13 a 15 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, bydd y Cyngor hefyd yn hysbysu'r cyhoedd, drwy'r wasg leol, bod y cyfrifon ar gael i'w harolygu am gyfnod o 20 diwrnod. Fel rhan o'r broses archwilio, yn ystod y cyfnod o 01/08/14 tan 29/08/14, bydd gan etholwyr llywodraeth leol gyfle i holi'r archwiliwr allanol ynghylch cyfrifon y Cyngor.

3.3 Fel nodwyd ym mharagraff 1.3 (uchod), cyflwynir y fersiwn terfynol (wedi'i archwilio) o Ddatganiad o Gyfrifon 2013/14 y Cyngor i gyfarfod 25 Medi 2014 o'r Pwyllgor Archwilio AM GYMERADWYAETH, ynghyd ag adroddiad yr Archwilydd sydd wedi'i benodi gan Swyddfa Archwilio Cymru (Anthony Barrett).

3.4 Wedi hynny, bwriad yr Adran Cyllid yw i ddarparu linc i'r Datganiad terfynol i holl aelodau etholedig a phrif swyddogion y Cyngor, yn ogystal ag eraill sydd â diddordeb.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) 2013/14.

# DATGANIAD O'R CYFRIFON 2013/14

## YN AMODOL AR ARCHWILIAD

# MYNEGAI


| | Tudalen |
|---|---|
| Rhagymadrodd Eglurhaol | 2 - 6 |
| Datganiad Cyfrifoldebau | 7 |
| Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau | 8 |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 9 |
| Y Fantolen | 10 |
| Datganiad Llif Arian | 11 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 12 – 83 |
| Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd a'r Nodiadau | 84 – 115 |
| Atodiad A – Dadansoddiad Cyfrif Incwm a Gwariant | 116 – 117 |
| Atodiad B – Y Gronfa Degwm | 118 |
| Atodiad C – Cronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan | 119 |
| Atodiad Ch - Crynodeb Cydbwyllgorau | 120 |

# RHAGYMADRODD EGLURHAOL

## Rhagarweiniad

Mae cyfrifon Cyngor Gwynedd am 2013/14 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 8 i 115.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau -** Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan yr Awdurdod, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae sefyllfa trethiant yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr -** Hwn yw prif gyfrif refeniw y Cyngor. Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae Awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dangosir y sefyllfa trethiant yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

- **Y Fantolen -** sydd yn gosod allan sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2014.

- **Y Datganiad Llif Arian -** Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyngor yn ystod 2013/14 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

- **Cyfrifon Cronfa'r Degwm a Chronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan.**

- **Cyfrifon a Mantolen Cronfa Bensiwn Gwynedd**.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan y Rhagymadrodd yma, y Polisïau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 9 fod gwariant refeniw gros y Cyngor ar lefel 'Cost Gwasanaethau' yn £359m yn ystod 2013/14, gyda'r sefyllfa net yn £234m.

- Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2013/14 i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 10 Mehefin 2014. Cymeradwyodd aelodau'r Cabinet danwariant net gwasanaethau o £362k i'w cario drosodd am y flwyddyn, trosglwyddiad net o £3.848m i reserfau penodol, a throsglwyddiad net o £352k i Falansau Cyffredinol.

**TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)**

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, ceir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

| | **Cyllideb** | **Gwir** | **Gwahaniaeth** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwariant Net ar Weithgareddau | 246,877 | 247,366 | 489 |
| Swm Adrannol i'w gario ymlaen ar ddiwedd blwyddyn | 0 | 362 | 362 |
| | 246,877 | 247,728 | 851 |
| Ariannwyd gan - | | | |
| Incwm y Dreth Cyngor | (65,244) | (66,095) | (851) |
| Cyfran o'r Trethi Annomestig Cenedlaethol | (38,209) | (38,209) | 0 |
| Grantiau Llywodraeth Cyffredinol | (143,424) | (143,424) | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |

- Mae'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 8 a 9 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

**TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng '<u>Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1)</u> i'r fformat <u>Incwm a Gwariant</u> sydd yn adlewyrchu y Strwythur Rheolaethol Adrannol.**

| Adran | Adroddiad Perfformiad | Addasiad Trawsddodiad | Datganiad Incwm a Gwariant |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Adnoddau Dynol | 63 | (59) | 4 |
| Cyllid | 1,336 | (1) | 1,335 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 638 | 0 | 638 |
| Gofal Cwsmer | 2,279 | (3) | 2,276 |
| Strategol a Gwella | 883 | 46 | 929 |
| Addysg | 101,952 | (81) | 101,871 |
| Economi a Chymuned | 6,809 | 49 | 6,858 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 26,275 | (1,044) | 25,231 |
| Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | 11,421 | (466) | 10,955 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 1,407 | (143) | 1,264 |
| Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | 35 | 8 | 43 |
| Darparu a Hamdden | 6,514 | (54) | 6,460 |
| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 64,671 | (9) | 64,662 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol | 0 | 0 | 0 |
| Corfforaethol | 13,122 | (1,471) | 11,651 |
| Cronfeydd | 3 | 0 | 3 |
| **Cost Gwasanaethau** | 237,408 | (3,228) | 234,180 |
| Eraill (Yn cynnwys addasiad Canolog a Chorfforaethol) | 10,320 | 3,228 | 13,548 |
| **Cyfanswm** | 247,728 | 0 | 247,728 |

* Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at y cyfraniad net i ag o reserfau a'r addasiadau angenrheidiol yn ymwneud ag yswiriant.

- Gweler dadansoddiad fformat safonol llawn Incwm a Gwariant ar dudalen 9.
- Gweler dadansoddiad llawn o symiau adroddwyd ar gyfer penderfyniadau dyrannu adnoddau yn Nodyn 30, tudalen 62.
- Gweler dadansoddiad ar sail Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth (SeRCOP) yn Atodiad A.
- **Eitemau Materol o Incwm a Gwariant**

  Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-
  - Newid o £22m yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r buddion diffiniedig net ymrwymiadau (asedau), yn unôl ag asesiad Actiwari Cyngor Gwynedd (Nodyn 42).
  - Cynnydd o £9m mewn gwerth amhariad asedau, yn gysylltiedig â'r lefel gwariant sylweddol ar raglen gyfalaf ysgolion (Nodyn 15).
  - Cynnydd o £5m ar Drethi Annomestig Cenedlaethol, gan Lywodraeth Cymru o'i gymharu â'r dosraniad y flwyddyn flaenorol (Nodyn 13b).
- **Effaith yr Hinsawdd Economaidd Gyfredol**

  Bu problemau digynsail yn y sefyllfa ariannol fyd-eang yn y blynyddoedd diwethaf. Oherwydd y sefyllfa gyffredinol yma, bu'n angenrheidiol i'r Awdurdod gymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan hefyd gadw lefel darbodus o falansau a reserfau.

## GWARIANT CYFALAF YN 2013/14

Yn 2013/14 gwariodd y Cyngor £41m ar gynlluniau cyfalaf. Dengys y tabl canlynol fanylion y gwariant yma ynghyd â sut y'i hariannwyd.

| | **CRYNODEB O WARIANT CYFALAF A'I ARIANNU** | |
|---|---|---|
| **2012/13** | | **2013/14** |
| **£'000** | | **£'000** |
| 74 | Adnoddau Dynol | 35 |
| 6,275 | Addysg | 8,630 |
| 0 | Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | 0 |
| 16 | Cyllid | 38 |
| 276 | Darparu a Hamdden | 0 |
| 5,502 | Economi a Chymuned | 5,199 |
| 0 | Democratiaeth a Chyfreithiol | 0 |
| 6,966 | Gofal Cwsmer | 8,536 |
| 3,802 | Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | 3,373 |
| 6,753 | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 8,690 |
| 8,633 | Rheoleiddio | 6,360 |
| 4 | Strategol a Gwella | 14 |
| 24 | Tai Cyngor | 4 |
| 28 | Ymgynghoriaeth Gwynedd | 582 |
| 0 | Corfforaethol | 0 |
| **38,353** | | **41,461** |
| | **ARIANNWYD GAN -** | |
| 10,914 | Benthyciadau | 10,664 |
| 19,170 | Grantiau a Chyfraniadau | 18,904 |
| 2,344 | Derbyniadau Cyfalaf | 1,377 |
| 5,925 | Refeniw a Chronfeydd Eraill | 10,516 |
| **38,353** | | **41,461** |

- Cynhwysir Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf drwy Statud o £6,221,680 yn y tabl uchod. Ad-dalwyd y gwariant yma i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm gwariant ar Asedau Anghyfredol ac Asedau ar gael i'w gwerthu oedd £34,007,990 fel a ddangosir yn Nodyn 15 a 22 ar dudalennau 41 i 43 a 54.

- Roedd Dyled Benthyciadau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2014 yn £113.1m – gostyngiad o £0.8m (o £113.9m) yn ystod y flwyddyn. Gwnaethpwyd ad-daliadau o £1.1m yn unol â thelerau'r benthyciadau unigol.

### Darpariaethau ac Arian wrth Gefn

Yn ychwanegol at y Balans Cyffredinol o £8.4m, roedd gan y Cyngor ddarpariaethau (fel a ddiffinnir) o £11.3m, reserfau eraill a glustnodwyd o £49.8m a balansau ysgolion o £3.8m, sef cyfanswm o £73.3m. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 10 a 24.

### Cronfa Bensiwn

Mae gan y Cyngor (fel cyflogwr) ymrwymiad net yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymiadau'r Gronfa Bensiwn Gwynedd, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19. Mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans, o gyfran y Cyngor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Mae'r ymrwymiad net yma wedi cynyddu £22,828,000 i £191,006,000 yn 2013/14. Gweler Nodyn 42 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn cael ar y Gronfa Bensiwn.

**Cronfa Bensiwn Gwynedd**

Dengys cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd (tudalennau 84 i 115) gynnydd yn ystod y flwyddyn o £116.7m ar werth y farchnad yn asedau net y Gronfa i £1,309.6m. Roedd gwerth llyfr yr Asedau net ar 31 Mawrth 2014 yn £994.4m (2013: £939.6m).

**Polisïau Cyfrifo**

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg cymeradwy perthnasol ac maent wedi'u hegluro yn llawn yn y Polisïau Cyfrifo yn Nodyn 1 o'r Cyfrifon ar dudalen 12.

**Newidiadau mewn Polisiau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon**

Bu nifer o addasiadau sylweddol i safon cyfrifon IAS 19 Buddion Gweithwyr, sydd wedi arwain at newid yn y driniaeth a pholisiau cyfrifo cysylltiedig.

## GWYBODAETH BELLACH

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.gov.uk.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

William E Jones
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679406

neu

Ffion Madog Evans
Rheolwr Cyllid - Adnoddau a Chorfforaethol
01286 679133

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu yn y wasg leol ar yr adeg briodol.

# CYNGOR GWYNEDD

## DATGANIAD O'R CYFRIFON

### DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

**CYFRIFOLDEB YR AWDURDOD**

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad ei faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r swyddog hwnnw. Cyfrifoldeb yr awdurdod hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

---

**CYFRIFOLDEB PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD**

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac wedi cydymffurfio â'r Côd Ymarfer.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol ac amserol ac fe gymerwyd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

---

**TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL**

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2014 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



**27 Mehefin 2014**

**Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.**
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

# DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan yr Awdurdod, wedi eu dadansoddi'n 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant neu leihau trethiant lleol) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Gwarged neu (Ddiffyg) ar Ddarparu Gwasanaethau yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Awdurdod, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sy'n ofynnol eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai i bwrpas gosod treth y cyngor a rhenti. Mae'r Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd yn dangos balans statudol y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o reserfau a glustnodwyd a gyflawnir gan y Cyngor.

| | **Nodyn** | Balans Cronfa Gyffredinol | Reserfau Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd | Cyfanswm Balansau Ysgolion | Cyfrif Refeniw Tai | Reserf Derbyniadau Cyfalaf | Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio | **Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy** | **Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Reserfau'r Awdurdod** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2012 a ddygwyd ymlaen** | | **(8,051)** | **(51,053)** | **(4,438)** | **(1,727)** | **(3,651)** | **(2,428)** | **(71,348)** | **(69,730)** | **(141,078)** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2012/13 | | | | | | | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | (5,240) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(5,240)** | **0** | **(5,240)** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **43,467** | **43,467** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | (5,240) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(5,240)** | **43,467** | **38,227** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | *9* | 7,024 | 0 | 0 | 0 | 1,411 | 538 | **8,973** | **(8,973)** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd** | | 1,784 | 0 | 0 | 0 | 1,411 | 538 | **3,733** | **34,494** | **38,227** |
| Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd | | (1,784) | 1,159 | 625 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2012/13** | | 0 | 1,159 | 625 | 0 | 1,411 | 538 | **3,733** | **34,494** | **38,227** |
| **Balans 31 Mawrth 2013 a ddygwyd ymlaen** | | **(8,051)** | **(49,894)** | **(3,813)** | **(1,727)** | **(2,240)** | **(1,890)** | **(67,615)** | **(35,236)** | **(102,851)** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2013/14 | | | | | | | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | (320) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(320)** | **0** | **(320)** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **17,650** | **17,650** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | (320) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(320)** | **17,650** | **17,330** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | *9* | 74 | 0 | 0 | 0 | (167) | (2,363) | **(2,456)** | **2,456** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd** | | (246) | 0 | 0 | 0 | (167) | (2,363) | **(2,776)** | **20,106** | **17,330** |
| Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd | *10* | (105) | 69 | 36 | 1,727 | 0 | 0 | **1,727** | **0** | **1,727** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2013/14** | | (351) | 69 | 36 | 1,727 | (167) | (2,363) | **(1,049)** | **20,106** | **19,057** |
| **Balans 31 Mawrth 2014 a ddygwyd ymlaen** | | (8,402) | (49,825) | (3,777) | 0 | (2,407) | (4,253) | **(68,664)** | **(15,130)** | **(83,794)** |

# DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR – 2013/14

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisiau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae Awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dengys y sefyllfa trethiant yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

| 2012/13 | | | | | 2013/14 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net | | Nodyn | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net |
| £'000 | £'000 | £'000 | | | £'000 | £'000 | £'000 |
| 16,454 | (7,117) | 9,337 | Diwylliant a Gwasanaethau Cysylltiedig | | 17,598 | (7,203) | 10,395 |
| 27,911 | (9,668) | 18,243 | Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoleiddio | | 28,711 | (10,501) | 18,210 |
| 14,164 | (8,908) | 5,256 | Gwasanaethau Cynllunio | | 16,245 | (11,660) | 4,585 |
| 116,792 | (26,540) | 90,252 | Gwasanaethau Plant ac Addysg - Addysg | | 125,423 | (22,033) | 103,390 |
| 18,062 | (2,432) | 15,630 | Gwasanaethau Plant ac Addysg - Gofal Cymdeithasol Plant | | 18,050 | (2,412) | 15,638 |
| 30,279 | (12,076) | 18,203 | Priffyrdd, Ffyrdd a Thrafnidiaeth | | 28,817 | (10,980) | 17,837 |
| 43,205 | (37,537) | 5,668 | Gwasanaethau Tai (Cronfa'r Cyngor) | | 43,063 | (38,123) | 4,940 |
| 58,472 | (15,348) | 43,124 | Gofal Cymdeithasol Oedolion | | 61,650 | (15,399) | 46,251 |
| 12,215 | (10,655) | 1,560 | Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd | | 12,096 | (2,311) | 9,785 |
| 8,991 | (4,114) | 4,877 | Costau Corfforaethol a Democrataidd Craidd | | 6,706 | (3,865) | 2,841 |
| 195 | 0 | 195 | Costau Heb eu Dosrannu | | 308 | 0 | 308 |
| **346,740** | **(134,395)** | **212,345** | **Cost Gwasanaethau** | | **358,667** | **(124,487)** | **234,180** |
| 18,882 | (42) | 18,840 | Gwariant Gweithredol Arall | *11* | 19,144 | (288) | 18,856 |
| 12,786 | (682) | 12,104 | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | *12* | 14,226 | (651) | 13,575 |
| 0 | (248,529) | (248,529) | Treth ac Incwm Grant Amhenodol | *13* | 0 | (266,931) | (266,931) |
| **378,408** | **(383,648)** | **(5,240)** | **(Gweddill)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | | **392,037** | **(392,357)** | **(320)** |
| | | 5,461 | (Gweddill)/Diffyg yn deillio o Ailbrisio Asedau Sefydlog | *26* | | | 1,429 |
| | | 0 | (Gweddill)/Diffyg yn deilio o Ailbrisio Asedau Ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | | | | 0 |
| | | 38,006 | Ailfesuriad o'r buddion diffiniedig net ymrwymiadau/(asedau) | *42* | | | 16,221 |
| | | **43,467** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **17,650** |
| | | **38,227** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **17,330** |

**'Gwasanaeth Plant ac Addysg – Addysg'**

• Yn cynnwys cynnydd o £9m mewn gwerth amhariad asedau, yn gysylltiedig a'r lefel gwariant sylweddol ar raglen gyfalaf ysgolion (Nodyn 15).

**'Treth ac Incwm Grant Amhenodol' a 'Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd'**

• £8m perthnasol i'r Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor i adlewyrchu newid y ffynhonnell ariannu i Lywodraeth Cymru sydd wedi arwain at newid yn y trefniadau adrodd, sydd bellach yn cael ei ddangos dan 'Treth ac Incwm Grant Amhenodol' yn hytrach na 'Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd' fel yn 2012/13 (Nodyn 13).

• Cynnydd o £5m ar Drethi Annomestig Cenedlaethol, gan Lywodraeth Cymru o'i gymharu â'r dosraniad y flwyddyn flaenorol (Nodyn 13b).

**'Ailfesuriad o'r buddion diffiniedig net ymrwymiadau / (asedau)'**

• Newid o £22m yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r buddion diffiniedig net ymrwymiadau (asedau), yn unôl ag asesiad Actiwari Cyngor Gwynedd (Nodyn 42).

# Y FANTOLEN – 31 MAWRTH 2014

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan yr awdurdod. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd (er enghraifft, y Reserf Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddir i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled yn unig). Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ailbrisio), ble nad yw'r symiau ar gael i'w ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel a ddengys ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifeg a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

| **31 Mawrth 2013** | | *Nodyn* | **31 Mawrth 2014** |
|---|---|---|---|
| **£'000** | | | **£'000** |
| 368,877 | Eiddo, Offer a Chyfarpar | *15* | 378,869 |
| 93 | Asedau Treftadaeth | *16* | 111 |
| 824 | Eiddo Buddsoddi | *17* | 100 |
| 734 | Asedau Gweddilliol | *15* | 2,526 |
| 77 | Buddsoddiadau Tymor Hir | *18* | 77 |
| 4,191 | Dyledwyr Tymor Hir | *18* | 4,521 |
| **374,796** | **Asedau Tymor Hir** | | **386,204** |
| 35,629 | Buddsoddiadau Tymor Byr | *18* | 27,083 |
| 2,905 | Asedau ar gael i'w Gwerthu | *22* | 2,488 |
| 1,257 | Stoc | *19* | 1,455 |
| 44,872 | Dyledwyr Tymor Byr | *20* | 52,062 |
| 13,091 | Arian a Chyfwerthoedd Arian | *21* | 20,886 |
| **97,754** | **Asedau Cyfredol** | | **103,974** |
| (11,787) | Gorddrafft Banc | *21* | (19,496) |
| (18,131) | Benthyciadau Tymor Byr | *18* | (1,884) |
| (58,777) | Credydwyr Tymor Byr | *23* | (63,291) |
| (1,187) | Darpariaethau Tymor Byr | *24* | (479) |
| (2,523) | Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o flaen llaw | *35* | (1,775) |
| **(92,405)** | **Ymrwymiadau Cyfredol** | | **(86,925)** |
| (151) | Credydwyr Tymor Hir | *18* | (100) |
| (11,899) | Darpariaethau Tymor Hir | *24* | (10,824) |
| (95,811) | Benthyciadau Tymor Hir | *18* | (111,215) |
| (168,179) | Ymrwymiad Pensiwn Net | *42* | (191,006) |
| (15) | Ymrwymiadau Prydlesau Cyllidol | *38* | (2,372) |
| (1,239) | Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o flaen llaw | *35* | (3,942) |
| **(277,294)** | **Ymrwymiadau Tymor Hir** | | **(319,459)** |
| **102,851** | **Asedau Net** | | **83,794** |
| | | | |
| (67,615) | Reserfau Defnyddiadwy | *25* | (68,664) |
| (35,236) | Reserfau na ellir eu defnyddio | *26* | (15,130) |
| **(102,851)** | **Cyfanswm Reserfau** | | **(83,794)** |

# DATGANIAD LLIF ARIAN – 2013/14

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chywerthoedd arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Awdurdod yn cynhyrchu a defnyddio arian a chywerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Awdurdod a ariennir trwy incwm grant a threthiant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Awdurdod yn y dyfodol. Mae'r llif arian a gyfyd o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol i ragweld yr hawl sydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian yr Awdurdod yn y dyfodol.

| **2012/13 £'000** | | ***Nodyn*** | **2013/14 £'000** |
|---|---|---|---|
| (5,240) | (Gwarged) neu Ddiffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau | | (320) |
| (24,560) | Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol | *27a* | (30,278) |
| 856 | Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu | *27b* | 1,514 |
| (28,944) | Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | | (29,084) |
| 37,293 | Gweithgareddau Buddsoddi | *28* | 28,063 |
| 1,130 | Gweithgareddau Ariannu | *29* | 935 |
| 9,479 | (Cynnydd) / Lleihad net mewn arian a chywerthoedd arian | | (86) |
| (10,783) | Arian a chywerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd | *21* | (1,304) |
| **(1,304)** | **Arian a chywerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | ***21*** | **(1,390)** |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

## NODYN 1 – POLISIAU CYFRIFO

### 1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod yn y flwyddyn ariannol 2013/14 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2014. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013/14* a'r Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth 2013/14, ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) a chyfarwyddiadau statudol a gyhoeddir yn unol â Deddf 2005.

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu'n bennaf yn y Datganiad o'r Cyfrifon, wedi'i addasu gan ailbrisiad rhai categoriau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

Mewn perthynas â pholisi yn ymwneud a chyfalafu gwariant, ein hymarferiad yw gweithredu ar sail natur y gwariant yn hytrach na lefel penodol o wariant.

### 1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn y maent yn digwydd, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o werthu nwyddau yn cael ei adnabod pan fydd yr Awdurdod yn trosglwyddo'r risgiau arwyddocaol a buddion perchnogaeth i'r prynwr, a pan mae'n debygol y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Awdurdod.
- Bydd refeniw o ddarparu gwasanaeth yn cael ei adnabod pan fydd yr Awdurdod yn gallu mesur yn ddibynadwy'r canran sydd wedi ei gwblhau o'r trafodyn ynghyd â'r tebygolrwydd y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Awdurdod.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pryd fydd taliadau wedi eu gwneud.
- Bydd llog sy'n cael ei dderbyn o fuddsoddiadau yn ogystal â llog fydd yn daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrifo yn ôl eu trefn fel incwm a gwariant ar sail gyfradd llog effeithiol i'r erfyn cyllidol perthnasol yn hytrach nac i'r llif arian sydd wedi eu sefydlogi neu wedi'i bennu gan y cytundeb.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu dalu allan, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid ysgrifennu'r dyledion lawr a chodi tal allan o gyfrif refeniw am yr incwm fydd yn debygol o beidio cael ei gasglu.

### 1.3 Arian a Chyfwerthoedd Arian

Caiff unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan yr Awdurdod, y mae modd eu troi'n arian yn rhwydd, gyda risg isel o newid yn eu gwerth, eu categoreiddio fel cyfwerthoedd arian a'u cynnwys fel Arian a Chyfwerthoedd Arian ar y Fantolen. Adnau tymor byr gyda sefydliadau ariannol sydd ar gael ar unwaith ar ddyddiad y fantolen yw'r buddsoddiadau a gynhwysir yn y diffiniad hwn.

### 1.4 Asedau Dibynnol

Mae ased dibynnol yn codi pan mae digwyddiad ble mae posibilrwydd caiff yr Awdurdod ased ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall digwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod.

Nid yw asedau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen, ond yn hytrach mewn nodyn i'r cyfrifon os yw'n debygol bydd mewnlif o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth. Nid oes gan Gyngor Gwynedd asedau dibynnol.

## 1.5 Ymrwymiadau Dibynnol

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fod digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran yr Awdurdod ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall ddigwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod. Ceir ymrwymiad dibynnol yn ogystal pan fod amgylchiadau y gwneir darpariaeth amdanynt fel arfer, ond unai, nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu, ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw ymrwymiadau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen, ond yn hytrach mewn nodyn i'r cyfrifon.

## 1.6 Corfforaethol a Democrataidd Craidd

Mae'r pennawd Corfforaethol a Democrataidd Craidd yn cynnwys eitemau sydd yn berthnasol i'r Gynrychiolaeth Ddemocrataidd a Rheolaeth a Rheolaeth Corfforaethol. Mae'r Gynrychiolaeth Ddemocrataidd a Rheolaeth yn cynnwys ffurfio polisïau corfforaethol a gweithgareddau aelodau tra mae Rheolaeth Corfforaethol yn cynnwys costau sydd yn gysylltiedig â rhedeg yr Awdurdod.

## 1.7 Buddiannau Gweithwyr

### 1.7.1 Buddion sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Awdurdod. Gwneir croniad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r croniad yn seiliedig ar raddfeydd cyflog sydd yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol ddilynol, sef y flwyddyn mae'r gweithiwr yn derbyn y budd o'r gwyliau. Mae cost y croniad yn mynd yn erbyn Gweddill neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ond mae wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad Symudiadau mewn Resyrfau fel bod cost y gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn y cymerir y gwyliau.

### 1.7.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad croniad yn erbyn y gwasanaeth priodol neu, lle mae'n berthnasol, i'r llinell Costau Heb eu Dosrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all yr Awdurdod dynnu'n ôl y cynnig o'r buddion hynny neu pan fo'r Awdurdod yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai Cronfa'r Cyngor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn hytrach na'r swm wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion pensiynau ychwanegol terfynu a rhoi yn eu lle y debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn.

### 1.7.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr yr awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran Adran Addysg Llywodraeth San Steffan.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymp-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Awdurdod.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer y cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymiadau'r buddion yn cael eu hadnabod i'r Awdurdod. Mae'r cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymiadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu hadnabod yn y Fantolen. Mae'r llinell Gwasanaethau Plant ac Addysg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

### 1.7.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig:

Mae ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y fantolen ar sail actiwarïaid drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymiadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 4.3% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle mae'r gweithwyr yn gweithio

- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gweddill neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau heb eu Dosrannu

- Cost llog net ar y buddion net diffiniedig (asedau), h.y. y gost llog net i'r awdurdod – y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad buddion diffiniedig net (asedau) sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu y gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad buddion diffiniedig net (asedau) ar gychwyn y cyfnod – gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad buddion diffiniedig net (asedau) yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r Cynllun – gan eithrio symiau sy'n gynwysiedig yn llog net ar yr ymrwymiad budd diffiniedig net (asedau) – yn cael eu debydu i Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall

- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddaru ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall

Cyfraniadau a delir i'r Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymiadau; sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i Gronfa'r Cyngor dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r

Symudiad mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Gronfa Bensiwn yn fesur o effaith buddiol i Gronfa'r Cyngor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

### 1.7.5 Buddion Dewisol

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o'r staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

## 1.8 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ag anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol (lle gellid amcangyfrif y gost) yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

## 1.9 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisiau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisïau cyfrifo yw pan yn ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

## 1.10 Offerynnau Ariannol

Offeryn ariannol yw unrhyw gytundeb sydd yn creu ased ariannol mewn un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti mewn endid arall. Felly, mae'r term offeryn ariannol yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymiadau ariannol.

Mewn cydymffurfiad gyda'r gofynion adolygwyd asedau ac ymrwymiadau ariannol y Cyngor er mwyn eu categoreiddio a phenderfynu ar y driniaeth gywir. Adnabuwyd yr offerynnau canlynol wrth wneud yr adolygiad hwn:

Ymrwymiadau ariannol

- Credydwyr masnachol a chredydwyr eraill.
- Benthyciadau tymor hir gan gynnwys premiymau a disgowntiau ar setliad cynnar benthyciadau sydd wedi eu gohirio.
- Gwarantau ariannol.

Asedau ariannol

- Adnau banc
- Dyledwyr masnachol

- Benthyciadau derbyniadwy
- Buddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn prisio ei ymrwymiadau ariannol ar gost wedi ei amorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Cyfrifir llog i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Oherwydd bod benthyciadau tymor hir y Cyngor i gyd ar gyfraddau sefydlog, telir y llog cronedig am y flwyddyn.

Mae enillion neu golledion sydd yn codi ar ad-daliad cynnar yn cael eu trin fel eu bod yn diddymu'r ymrwymiad ariannol oni bai eu bod yn cwrdd ag amodau caeth lle bo modd trin y trafodyn fel addasiad o amodau'r benthyciad presennol ac addasu gwerth y benthyciad newydd gydag unrhyw enillion neu golledion.

Dosbarthir mwyafrif asedau ariannol y Cyngor fel benthyciadau neu ddyledwyr ac felly eu prisio ar sail cost wedi ei amorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol.

Caiff unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan yr Awdurdod y mae modd eu troi'n arian yn rhwydd gyda risg isel o newid yn eu gwerth, eu categoreiddio fel cywerthyddion arian a'u cynnwys fel Arian a Chywerthydd Arian ar y Fantolen. Adnau tymor byr gyda sefydliadau ariannol sydd ar gael ar unwaith ar ddyddiad y fantolen yw'r buddsoddiadau a gynhwysir yn y diffiniad hwn.

Mesurir Credydwyr a Dyledwyr tymor byr sydd heb gyfradd llog datganedig ar sail swm yr anfoneb wreiddiol. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddyledwyr a chredydwyr masnachol.

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ariannu a Chyfrifo am Gyfalaf) (Cymru) (Diwygiedig) 2007 yn caniatáu i effaith ailddatgan offerynnau ariannol gael ei addasu trwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau. Caiff yr addasiadau canlyniadol eu dangos yn y Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol a'r Reserf Offerynnau Ariannol ar gael i'w gwerthu ar y Fantolen. Mae'r addasiad a ganiateir o dan statud yn golygu bod yr effaith net ar falansau'r Cyngor yn gyfatebol i'r trosglwyddiad o dan y polisi yma.

### 1.11 Trosiad Arian Tramor

Caiff trafodion mewn arian parod eu trosglwyddo i sterling ar y gyfradd a oedd yn bodoli ar y dyddiad hwnnw. Caiff gwahaniaethau cyfnewid eu cymryd i ystyriaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff unrhyw falans a ddelir mewn arian tramor ei drosi ar y raddfa ar 31 Mawrth.

### 1.12 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail croniadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r awdurdod wedi ei fodloni.

Oherwydd y gofyn i ariannu gwariant cyfalaf fel rhan o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf, nid yw'r grantiau a chyfraniadau sy'n ariannu gwariant cyfalaf sydd wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wir incwm. Felly, mae'r awdurdod yn cyfrifo'r symiau hyn fel a ganlyn:

- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei dderbyn, a bod amodau'n parhau heb eu bodloni ar ddyddiad y Fantolen, yna caiff y grant ei gydnabod fel Derbyniadau Grantiau Cyfalaf ymlaen llaw ar y Fantolen. Unwaith mae'r amod wedi ei fodloni, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei adnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a bod y gwariant sydd i'w ariannu o'r grant neu gyfraniad hwnnw wedi ei wneud ar ddyddiad y fantolen, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf, i adlewyrchu dyrannu adnoddau cyfalaf i ariannu gwariant. Adroddir y trosglwyddiad hwn yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

### 1.13 Asedau Treftadaeth

Asedau diriaethol yw asedau treftadaeth gyda rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technegol, geoffisegol neu amgylcheddol, ac a ddelir gan y Cyngor yn bennaf er diben gwybodaeth addysgol neu gyfraniad i ddiwylliant. Dyma'r categorïau o asedau treftadaeth sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor:

- Lluniau a Phaentiadau
- Teyrndlysau Dinesig

- Casgliadau Llyfrgell/Archifau
- Casgliadau Amgueddfeydd ac Orielau
- Adeiladau Hanesyddol a Henebion Cofrestredig
- Parciau a Gwarchodfeydd Natur Leol

Cyflogodd y Cyngor brisiwr allanol (cwmni Bonhams) i ddarparu amcangyfrifon o brisiadau o'i deyrndlysau dinesig a'i luniau a phaentiadau. Mae unrhyw eitem dros y trothwy di-minimis o £10,000 yn cael ei ddangos ar wahân yn y cyfrifon gyda'r eitemau eraill wedi eu cyfosod o fewn teyrndlysau dinesig a lluniau a phaentiadau. Er mwyn cysondeb, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar sail yr un trothwy di-minimis i ddibenion prisio Asedau Treftadaeth ag i weddill ei asedau tymor hir - gweler polisi 1.19.

Nid oes polisi corfforaethol penodol ynghylch caffaeliad, cadwraeth, rheolaeth a gwarediad lluniau a phaentiadau ymhellach na'r anghenion cyffredinol oddi fewn y Rheolau Gweithredu Ariannol yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn ystyried bod gan yr asedau treftadaeth hyn oes amhenderfynadwy a gwerth gweddilliol uchel; ac o'r herwydd, nid yw'r Cyngor yn ei ystyried yn briodol i ddibrisio'r asedau. Bydd yr asedau treftadaeth a gynhwysir yn y cyfrifon yn cael eu hasesu'n flynyddol am unrhyw amhariad.

Mae Archifau, Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Gwynedd yn cadw arteffactau treftadaeth a chofnodion archif yn ei gasgliadau a'i archifau. Mae gan Gwasanaeth Amgueddfa Gwynedd bolisi caffael a gwaredu, a chadwraeth mewn perthynas ag arteffactau treftadaeth a chofnodion archifol.

Nid yw cost neu brisiad pendant bob tro yn hawdd i'w gael am y rhan helaethaf o'r eitemau yn y casgliad arteffactau ac archifau, a hyd yn oed pe byddai modd eu prisio, byddai'r gost yn uchel o'i gymharu â'r budd ychwanegol a fyddai'n tarddu ohono, oherwydd y nifer o asedau a ddelir a'r diffyg yng ngwerthoedd cymharol ar y farchnad. Mae ymgeisio i brisio asedau treftadaeth sydd wedi eu caffael yn hanesyddol yn codi nifer o bryderon cysyniadol. Mae prisio asedau treftadaeth yn cael ei gymhlethu ymhellach gan natur nifer o'r asedau. Anaml maent yn cael eu gwerthu, ac o'r herwydd maent yn aml yn cael eu prisio yn llawer uwch o ganlyniad, er enghraifft -

- i'w cysylltiad â pherson, digwyddiad neu gasgliad;
- y nifer cyfyngedig o brynwyr;
- nid oes llawer o asedau o'r unffurf ar y farchnad;
- gwybodaeth anghyflawn am yr eitemau a werthir.

Yn wahanol i nifer o asedau masnachol felly, anaml y ceir marchnad sy'n galluogi cael prisiad cymharol o wrthrychau cyffelyb. O ganlyniad, mae cael prisiadau cywir ar gyfer nifer o asedau treftadaeth bron yn amhosibl. Tra byddai'n bosib rhoi cost ar gyfer eitemau a bwrcaswyd o fewn y flwyddyn ariannol, mae'r gost hanesyddol yn prysur golli ystyr a gwerth, nid yn unig o ganlyniad i symudiad prisiau cyffredinol ble nad oes marchnad am eitemau cyffelyb, ond hefyd o ganlyniad i newid barn ar briodoliad.

Mae'r Cyngor yn berchen ar nifer o adeiladau rhestredig sydd o fewn y categori Tir ac Adeiladau. Gan fod y rhain yn asedau gweithredol i'r Cyngor, penderfynwyd peidio eu hail-gategoreiddio fel Asedau Treftadaeth. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw henebion ac adeiledd. Mae rhai o'r henebion wedi eu prisio ond mae eu gwerth yn is na'r trothwy di-minimis, ac felly, heb eu cydnabod yn y cyfrifon, tra bod henebion ac adeiledd eraill heb eu prisio gan fod y Cyngor o'r farn nad oes gwir werth y farchnad i'r ased. Byddai'r gost o feddiannu'r wybodaeth yn anghymesur o'i gymharu â'r budd i ddefnyddwyr y Datganiad o'r Cyfrifon y Cyngor - mae'r *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* bresennol yn caniatáu eithriad o'r math yma.

Mae rhai Parciau a Gwarchodfeydd Natur Leol, ynghyd â Gwarchodfeydd Adar, Fforestydd ac Arfordiroedd eisoes wedi eu cynnwys yn y cyfrifon fel Asedau Cymunedol. Ond mae gwerth y mwyafrif ohonynt o dan y trothwy di-minimis, a gwnaed y penderfyniad i gadw categori'r asedau hyn fel Asedau Cymunedol. Diffinnir Asedau Cymunedol fel asedau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cadw yn fythol barhaus a cheir cyfyngiadau ar eu gwarediad.

### 1.14 Stoc a Chontractau Tymor Hir

Dylai stociau a gwaith mewn llaw ymddangos ar y fantolen ar sail yr isaf o gost neu wir werth, yn unol â darpariaethau'r Côd Ymarfer. Oherwydd ymarferoldeb prif systemau stoc y Cyngor, mae mwyafrif y stoc yn ymddangos yn y cyfrifon ar sail cost cyfartalog. Nid yw'r gwahaniaeth o'r sail prisio yn faterol.

### 1.15 Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer ennill rhent ac/neu adbrisiant cyfalaf yn unig. Nid yw'n cwrdd â'r diffiniad os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw ar gael i'w werthu.

### 1.16 Prydlesau

Caiff prydlesau eu hystyried yn brydlesi cyllidol pan fo telerau trosglwyddiad y brydles a'r holl risgiau a buddion sy'n deillio o berchnogaeth o'r eiddo, offer neu gyfarpar yn cael eu trosglwyddo i'r prydlesai. Caiff bob prydles arall eu hystyried yn brydlesi gweithredol.

**Yr Awdurdod fel Prydlesai:**

Caiff symiau a ddelir dan brydlesi cyllidol eu hadnabod yn wreiddiol, ar ddechrau'r brydles, ar werth teg (neu, os yn is, gwerth presennol y lleiafswm taliadau prydles), gydag ymrwymiad cyfatebol am rwymedigaeth y brydles i'r prydleswr. Caiff taliadau'r brydles eu dosrannu rhwng cost ariannol (i'w gynnwys yn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr) a chost a roir yn erbyn ymrwymiad y brydles i'w leihau. Caiff yr ased perthnasol ei drin yn unol â'r polisïau arferol, a chaiff ei ddibrisio fel sy'n briodol.

Caiff taliadau prydlesau gweithredol eu dangos yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost i'r gwasanaeth perthnasol ar sail dibrisiad llinol dros gyfnod y brydles.

**Yr Awdurdod fel Prydleswr:**

Ar hyn o bryd, nid oes gan yr Awdurdod unrhyw Brydlesi Cyllidol ble mae'r Awdurdod yn brydleswr.

Caiff incwm rhent o eiddo sydd wedi ei ganiatáu trwy brydles weithredol ei gydnabod ar sail linol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a chaiff yr ased ei ddangos ar y Fantolen.

### 1.17 Asedau Gweddilliol

Caiff Asedau Gweddilliol yr Awdurdod eu dangos ar wahân ar y Fantolen. Gwerth teg yr asedau hyn sy'n cael ei ddangos, sy'n seiliedig ar eu gwerth defnydd presennol.

### 1.18 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

Yr unig gostau a adewir heb eu dyrannu yw costau rheolaeth corfforaethol a chostau cefnogol nad oes rhaid eu dosrannu yn ôl darpariaethau'r Côd Ymarfer. Mae'r dosraniad yn cydymffurfio gyda'r Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth (SeRCOP) 2013/14.

### 1.19 Asedau Tymor Hir

Adolygir gwerth asedau'r Cyngor a gofnodir ar fas data'r Gwasanaeth Eiddo o leiaf bob 5 mlynedd. Mae hyn yn unol â'r Côd a'r Datganiadau Egwyddorion Prisio Asedau a Nodiadau Arweiniad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'r gwerthusiad cyflawn diwethaf yn effeithiol o'r 1af Ebrill 2010.

Dangosir Tir ac Adeiladau ar sail gwerth teg neu gost ail-adeiladu dibrisiedig (DRC) ar gyfer eiddo arbenigol.

Dangosir Eiddo Buddsoddi ar sail gwerth teg.

Defnyddir cost hanesyddol (a ddibrisiwyd) ar gyfer Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Mae Asedau is adeiladwaith a chymunedol yn ymddangos ar bris hanesyddol.

Cynhwysir Asedau heb eu cwblhau ar sail cost hanesyddol tan gwblheir y gwaith, pan eu prisir yn unol â'r polisïau cyfrifo a'u trosglwyddo i'r categori asedau perthnasol.

Defnyddir isafswm at ddibenion prisio o £20,000 ar gyfer tir ac adeiladau gweithredol y Cyngor a £5,000 ar gyfer eitemau unigol o Gerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Fe ychwanegir gwariant ar asedau newydd a chyfredol yn flynyddol, gan wedyn ystyried os ydy'r gwariant yma wedi cynhyrchu cynnydd mewn gwerth i'r ased. Os oes cynnydd mae hyn yn cael ei adlewyrchu drwy'r Reserf Ail Brisio; os nad oes cynnydd mae'n dilyn fod amhariad i werth yr ased (gweler isod ar gyfer dull cyfrifo am amhariad). Yn benodol ar gyfer asedau megis Tir ac Adeiladau ac Asedau Cymunedol ble ceir gwariant yn y flwyddyn o dros £100,000 ar ased unigol, mae Rheolwr Eiddo Corfforaethol (M.R.I.C.S) y Cyngor yn adolygu'r asedau ac yn ail brisio unrhyw un sydd ei angen.

**Amhariad a Dibrisiant**

**Amhariad**
Amhariad yw treuliant budd economaidd sydd yn benodol i ased. Yn unol â Safon Adrodd Rhyngwladol 36 mae'r Cyngor yn adolygu eu hasedau bob blwyddyn i adnabod unrhyw amhariad neu leihad mewn gwerth oherwydd treuliant buddiannau economaidd. Yn ogystal, caiff gwerth gweddilliol ac oes fuddiol yr asedau eu hadolygu'n flynyddol, a'u haddasu ble'n briodol.

Pan mae colledion amhariad yn cael eu hadnabod, maent yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

- Ble mae balans o gynnydd positif ar gyfer pris ased o fewn y Reserf Ailbrisio, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn y balans (hyd at swm y cynnydd cronedig)

- Pan nad oes balans ar y Reserf Ailbrisio neu balans annigonol, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Dibrisiant**
Prif elfen IAS 16 yw y dylid dibrisio adeiladau oni bai eu bod yn cael eu prisio bob blwyddyn. Yn ogystal, dylid dibrisio bob rhan o eiddo, offer a chyfarpar ar wahân os yw eu cost yn arwyddocaol o ystyried cyfanswm cost yr eitem. Dylid sefydlu trothwy isafswm, yn seiliedig ar yr effaith sylweddol tebygol ar y datganiadau ariannol, fel bod bob ased o dan y trothwy yn cael eu diystyru i bwrpas cydrannu. (£1.66m yw'r trothwy ar gyfer 2013/14, sef 1% o werth yr holl adeiladau). Y dosraniad sydd yn cael ei ystyried ar gyfer yr elfen sydd ddim yn dir, dros y trothwy de- minimus ydi:

a) offer a chyfarpar a gwasanaethau peirianneg, ac
b) adeiledd

Mae'r mwyafrif o adeiladau'r Cyngor (dros 75%) yn cael eu prisio ar sail Cost Ail-adeiladu Dibrisiedig (DRC), a ddatblygir ar y dull cydrannol, ac adlewyrchir y gwahanol elfennau ym manylion y cyfrifiadau. Fodd bynnag, yn gynwysedig yn yr uchod mae adeiladau gydag eitemau sylweddol o offer a chyfarpar sydd ag oes fuddiol byr e.e. boileri ac offer gwresogi pyllau nofio a chanolfannau hamdden. Adnabyddir yr elfennau hyn drwy addasu oes fuddiol yr adeilad i gymryd oes fyrrach yr elfennau i ystyriaeth.

Yn seiliedig ar adolygiad o natur a'r math o adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor, daethpwyd i'r canlyniad nad oes gan weddill yr adeiladau eitemau sylweddol o offer a chyfarpar na gwasanaethau peirianneg sydd angen eu cydrannu ar wahan.

Dibrisir Asedau ar sail eu gwerth ar y fantolen i'w ysgrifennu i ffwrdd fel a ganlyn:
(i) Dibrisir Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar dros eu bywyd amcangyfrifiedig (3 – 10 mlynedd)
(ii) Dibrisir Is-adeiladwaith dros 40 mlynedd
(iii) Ysgrifennir Gwariant Refeniw i'w ariannu o Gyfalaf drwy Statud i lawr yn y cyfnod yr ymddangosant
(iv) Ni ddibrisir Tir
(v) Dibrisir Adeiladau dros eu bywyd amcangyfrifiedig (amrywiol)
(vi) Ni ddibrisir Eiddo Buddsoddi, Asedau heb eu Cwblhau nac Asedau Sydd Ar Gael i'w Gwerthu

Ni ddibrisir ym mlwyddyn y caffaeliad.

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg)(Cymru)(fel y'i diwygiwyd) 2008 [OS 2008/588 (W.59)] yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud darpariaethau darbodus ar gyfer adbrynu dyledion. Mae'r Gweinidogion Cymreig wedi cyhoeddi Canllawiau ar Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (MRP) ac mae gofyn i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i Ganllawiau o'r fath yn unol ag adran 21 (1B) Deddf Llywodraeth Leol 2003.

Dyma'r pedwar opsiwn MRP sydd ar gael:
- Opsiwn 1: Y Dull Rheoleiddio
- Opsiwn 2: Y Dull CFR
- Opsiwn 3: Y Dull Oes Asedau
- Opsiwn 4: Y Dull Dibrisiad

*D.S.: Nid yw hyn yn cau allan dulliau darbodus eraill.*

MRP yn 2013/14: Gellir defnyddio opsiynau 1 a 2 dim ond ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi nad yw o'r Cyfrif Refeniw Tai (Non-HRA) a ariennir o fenthyciad (ystyr 'wedi'i gefnogi' yma yw costau cyllido a gaiff eu cefnogi drwy Grant Cefnogi Refeniw y Llywodraeth Ganolog). Mae'r dulliau o wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer gwariant cyfalaf Non-HRA heb ei gefnogi yn cynnwys Opsiynau 3 a 4 (gellir defnyddio 3 a 4 ar gyfer gwariant cyfalaf Non-HRA wedi'i gefnogi yn ogystal, os yw'r Cyngor yn penderfynu gwneud hynny).

Cyflwynwyd y Datganiad MRP i'r Cyngor cyn dechrau blwyddyn ariannol 2013/14. Pe bai cynnig i ddiwygio telerau'r Datganiad MRP gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor ar yr adeg honno.

Defnyddiodd y Cyngor Opsiwn 1 yng nghyswllt gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a ariennir o fenthyciad, ac Opsiwn 3 yng nghyswllt gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a ariennir o fenthyciad.

Roedd yr MRP yng nghyswllt lesau a chynlluniau PFI a brynwyd ar y Fantolen dan y Côd Ymarfer Cyfrifeg sy'n seiliedig ar yr IFRS yn cyd-fynd â'r ad-daliad prifswm blynyddol ar gyfer yr ymrwymiad gohiriedig cysylltiedig.

Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r polisi yma yn flynyddol yng ngoleuni'r Cynllun Rheoli Asedau.

Yn unol â'r Côd Ymarfer, telir am wariant cyfalaf ar gyfer Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor sydd i'w gyllido o refeniw drwy ei ddosbarthu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

### 1.20 Costau heb eu Dosrannu

Mae'r mwyafrif o'r gwasanaethau cefnogol canolog yn cael eu dyrannu i'r rhaniad gwasanaeth yn unol â Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth (SeRCOP) 2013/14. Mae'r eitemau sydd yn cael eu heithrio o'r driniaeth yma yn cael eu diffinio fel Costau heb eu Dosrannau ac yn cynnwys cost buddiannau dewisol ddyfarnwyd i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar a cholledion amhariad ar asedau ar gael i'w gwerthu.

### 1.21 Darpariaethau

Mae'r Cyngor yn gosod darpariaethau o'r neilltu ar gyfer ymrwymiadau penodol sy'n debygol neu'n sicr o godi ond ni ellir ar hyn o bryd eu pennu'n gywir. Gwneir darpariaethau hefyd ar gyfer dyledion sydd yn annhebyg o gael eu talu. Ysgrifennir dyledion drwg i ffwrdd yn erbyn y gwasanaeth perthnasol. Mae'r Cyngor yn dosbarthu'r darpariaethau hyn fel ymrwymiadau tymor hir neu dymor byr fel sy'n briodol yn ddibynnol ar natur bob darpariaeth.

### 1.22 Reserfau

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1988, mae'r Cyngor yn cynnal un Gronfa Gyffredinol sydd yn cynrychioli arian wrth gefn ("balansau") yr Awdurdod. Fodd bynnag, ceir hefyd nifer o Reserfau Penodol cyfalaf a refeniw a glustnodwyd

Cedwir rhai reserfau i bwrpas technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy yr Awdurdod.

### 1.23 Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf Drwy Statud

Mae Deddfwriaeth yn caniatáu peth gwariant i gael ei gategoreiddio fel cyfalaf i bwrpas ariannu er nad yw yn creu ased sydd yn cael ei gario ar y Fantolen. Bwriad hyn yw galluogi'r gwariant i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf yn hytrach nag ei roi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a fyddai'n cael effaith ar y Dreth

Cyngor am y flwyddyn. Defnyddir cost hanesyddol fel sail prisio ar gyfer y fantolen ac ysgrifennir hwn i lawr o fewn blwyddyn.

### 1.24 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW, y cynhwysir TAW neu'n ei dderbyn fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant cyfalaf a refeniw.

### 1.25 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir cyfrifon y Cyngor ar sail cronni yn unol â'r Côd Ymarfer Cyfrifwaith. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

### 1.26 Pensiynau

Mae'r Safon Adrodd Rhyngwladol (IAS) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol yng Nghymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion IAS19.

### 1.27 Dyrannu Llog Derbyniadwy

Mae'r Awdurdod yn buddsoddi arian dros ben am gyfnodau o dros nos hyd at ddwy flynedd a thelir y llog i Gronfa Gyffredinol y Sir, Cronfa Bensiwn Gwynedd, Cronfa'r Degwm ac ymddiriedolaethau eraill ar sail eu balansau dyddiol a'r gyfradd llog a enillir.

### 1.28 Costau Benthyca

Nid yw'r Awdurdod yn cyfalafu costau benthyca sy'n perthyn i gaffaeliad, gwneuthuriad na chynhyrchiad ased cymwysedig fel a ganiateir yn y Côd.

Cyfrifir am log sydd yn daladwy ar fenthyciadau allanol yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo ar sail sy'n adlewyrchu effaith economaidd gyflawn y benthyciad.

### 1.29 Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill

Yng nghyfrifon yr Awdurdod, caiff buddiannau mewn cwmnïau ac endidau eraill eu hadrodd fel asedau ariannol ar gost gwreiddiol, llai unrhyw ddarpariaeth am golledion.

### 1.30 Asedau Cyfredol ar gael i'w gwerthu

Er mwyn i ased gael ei gydnabod fel Ased ar gael i'w werthu, mae'n ofynnol i'r ased fod ar gael i'w werthu yn syth yn ei gyflwr presennol, mae'n rhaid i'r gwerthiant fod yn hynod o debygol, rhaid i'r ased gael ei farchnata a'r gwerthiant gael ei gwblhau o fewn blwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad. Caiff yr ased ei gydnabod ar yr isaf o'i werth i'w gario neu werth teg (gwerth y farchnad) llai costau gwerthu wrth ailddosbarthu.

### 1.31 Gwaredu Asedau

Pan mae ased yn cael ei waredu, mae gwerth yr ased yn y Fantolen yn cael ei ysgrifennu ffwrdd i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw a cholled wrth waredu. Mae derbyniadau (os oes rhai) yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu golled wrth waredu (e.e. cael ei glustnodi yn erbyn gwerth yr ased ar adeg y gwaredu). Mae unrhyw gynnydd wedi eu recordio ar gyfer yr ased yn y Reserf Ailbrisio yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

### 1.32 Derbyniadau Cyfalaf

Pan werthir Asedau gan yr Awdurdod mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'r defnydd y gellir ei wneud o'r derbyniadau cyfalaf.

Gellir defnyddio 100% o'r holl dderbyniadau cyfalaf sydd yn perthyn i Gronfa'r Cyngor ac nid yw'n angenrheidiol bellach i roi canran o'r derbyniad o'r neilltu. Cedwir y derbyniadau yn y Reserf Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy hyd nes defnyddir yr adnoddau i gyllido gwariant cyfalaf.

### 1.33 Cyfrifo am gostau'r Cynllun Ymrwymiad i Ostwng Carbon

Mae'r awdurdod yn rhan o'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Ymrwymiad i Ostwng Carbon (CRC). Mae'n ofynnol i awdurdodau sy'n rhan o'r cynllun bwrcasu ac ildio lwfansau, wedi'r digwyddiad ar hyn o bryd, ar sail allyriadau h.y. cynhyrchiad carbon deuocsid wrth ddefnyddio ynni. Roedd Cyngor Gwynedd yn is na'r trothwy perthnasol yn 2013/14.

### 1.34 Costau'n ymwneud â Hawliadau Cyflogau Anghyfartal

Mae darpariaeth wedi ei gynnwys yng Nghyfrifon yr Awdurdod yn ymwneud â chostau Hawliadau Tâl Cyfartal ac yn adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r gost debygol ar 31 Mawrth 2014.

### 1.35 Cynllun Lwfans Tirlenwi

Mae'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi yn gweithredu o dan Reoliadau Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004. Clustnodir lwfans blynyddol i Awdurdodau Lleol o'r uchafswm o wastraff prydadwy bwrdeistrefol y gellir ei anfon i'w dirlenwi. Am bob tunnell o wastraff prydadwy bwrdeistrefol a anfonir i'w dirlenwi sy'n uwch na'r lwfans, gall yr Awdurdod Lleol fod yn agored i ddirwy o £200 y dunnell. Nid yw'n gynllun "cap and trade" gan nad yw'r lwfansau tirlenwi yn fasnachadwy yng Nghymru. Am y rheswm yma, nid yw lwfansau tirlenwi yn cael eu cydnabod fel ased ar y Fantolen. Roedd Cyngor Gwynedd o fewn ei lwfans tirlenwi yn 2013/14.

### 1.36 Trefniant Consesiwn Gwasanaeth

Mae Trefniant Consesiwn Gwasanaeth, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Cynllun PFI, yn gytundeb i dderbyn gwasanaeth, ble mae'r eiddo, offer a chyfarpar i ddarparu'r gwasanaeth i'r Awdurdod dan gyfrifoldeb y contractwr PFI am gyfnod y cytundeb ond yn trosglwyddo i'r Awdurdod ar ddiwedd y cyfnod heb unrhyw gost ychwanegol. Mae'r Awdurdod yn rheoli'r gwasanaeth a ddarperir ac yn medru rheoli pwy arall sy'n medru defnyddio'r ddarpariaeth. Mae'r gost am ddefnydd o'r ddarpariaeth yn cael ei gytuno gyda'r Contractwr cyn gosod y cytundeb drwy broses o ddeialog cystadleuol.

### 1.37 Gweithrediadau wedi eu Cyd-reoli ac Asedau wedi eu Cyd-reoli

Gweithrediadau a reolir ar y cyd yw gweithgareddau y mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â mentrwyr eraill sy'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr asedau mae'n ei reoli ynghyd â'r ymrwymiadau ar ei Fantolen, gan ddebydu a chredydu'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gyda'r gwariant a ddioddefir a'r gyfran incwm a enillir o weithgaredd y gweithrediad.

Mae asedau wedi eu cyd-reoli yn eitemau o eiddo, offer a chyfarpar a reolir ar y cyd gan yr Awdurdod a mentrwyr eraill. Nid yw'r fenter ar y cyd yn golygu sefydlu endid ar wahan. Mae'r Awdurdod yn cyfrifo am ei gyfran ef yn unig o'r asedau a gyd-reolir, yr ymrwymiadau a'r costau a gyfyd ar ei ran ei hun neu ar y cyd ag eraill mewn perthynas â buddiannau yn y fenter ar y cyd a'r incwm a enillir o'r fenter.

### 1.38 Cydnabod Refeniw o Drafodion Digyfnewid

Caiff asedau a refeniw sy'n deillio o drafodion digyfnewid eu cydnabod, yn unol â gofynion IAS 20 Cyfrifo Grantiau'r Llywodraeth a Datgelu Cymorth y Llywodraeth, ag eithrio lle dehonglir neu addasir i gyd-fynd â'r sector cyhoeddus, yn y Côd a / neu IPSAS 23, "Refeniw o Drafodion Digyfnewid (Trethi a Throsglwyddiadau).

**Trafodion Trethi**

Caiff asedau a refeniw sy'n deillio o drafodion trethi eu cydnabod yng nghyfnod y digwyddiad trethadwy, cyn belled â bod yr asedau yn bodloni'r diffiniad o ased ac yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cael eu cydnabod fel ased.

**Trafodion Anhrethadwy**

Caiff asedau a refeniw sy'n deillio o drafodion trosglwyddo eu cydnabod yn y cyfnod pan fydd y trefniant trosglwyddo'n orfodol. Nid yw gwasanaethau mewn nwyddau'n cael eu cydnabod. Pan fo trosglwyddiad yn ddarostyngedig i amodau sydd, os na chant eu gwireddu, yn gofyn am ddychweliad yr adnoddau a drosglwyddwyd, mae'r Awdurdod yn cydnabod yr ymrwymiad hyd nes gwireddir yr amod.

**Sail Mesur Dosbarthiadau Mawr o Refeniw o Drafodion Digyfnewid**

Mesurir Refeniw Trethiant ar y gwerth enwol o arian a chywerthoedd arian.

Caiff asedau a refeniw sy'n deillio o ganlyniad i drosglwyddiad eu mesur ar werth teg yr asedau a gydnabyddir ar ddyddiad y gydnabyddiaeth:

- Caiff asedau ariannol eu mesur yn ôl eu gwerth enwol oni bai bod gwerth amser arian yn sylweddol, yn yr achos hynny, defnyddir gwerth presennol, wedi ei gyfrifo'n defnyddio cyfradd disgownt sy'n adlewyrchu'r risg annatod o ddal yr ased;
- Caiff asedau anariannol eu mesur yn ôl eu gwerth teg, sy'n cael ei bennu drwy gyfeirio at werthoedd marchnad gweladwy neu gan werthusiad annibynnol gan aelod o'r proffesiwn prisio. Caiff derbyniadau eu cydnabod pan fydd trefniant trosglwyddo gorfodol mewn lle, ond nad oes arian nac asedau eraill wedi eu derbyn.

## NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Bu nifer o addasiadau sylweddol i safon cyfrifon IAS 19 Buddion Gweithwyr, sydd wedi arwain at newid yn y driniaeth cyfrifo ar gyfer y blynyddoedd ariannol o 1 Ionawr 2013 ymlaen, sydd o ganlyniad yn arwain at newidiadau yn y polisi cyfrifo perthnasol i'r maes yma. Manylir ar yr addasiad o ganlyniad i'r newid yma yn Nodyn 3.

## NODYN 3 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL

Bu nifer o addasiadau sylweddol i safon cyfrifon rhyngwladol IAS 19 Buddion Gweithwyr, sydd wedi arwain at newid yn y driniaeth cyfrifo a'r polisi cyfrifo. Mae'r newid wedi cyflwyno dosbarthiad cydrannol newydd ar gyfer cost buddion diffiniedig sydd i'w cydnabod yn y datganiadau ariannol (h.y. llog net ar yr ymrwymiad buddion diffiniedig net (ased) ac ail-fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig net (ased)), a, ble mae yna effaith faterol, diffiniad newydd neu feini prawf adnabod newydd ar gyfer cost gwasanaeth (e.e. cost gwasanaeth y gorffennol) a meini prawf adnabod newydd ar gyfer taliadau diswyddo.

O ganlyniad i'r uchod, mae angen cynnwys addasiadau cyfnod blaenorol yng nghyfrifon 2012/13. Nid oes effaith ar y Fantolen; fodd bynnag mae'r tablau isod yn adlewyrchu'r addasiadau cyfnod blaenorol sydd wedi eu gwneud i Ddatganiad Cyfrifon 2012/13 a'r Nodiadau perthnasol i'r Cyfrifon.

## Effaith yr Ailddatgan Pensiwn IAS 19 ar Ddatganiad Symudiad mewn Reserfau 2012/13

| | Fel ddatganwyd yn flaenorol 2012/13 | | | | Ailddatgan | | | | Addasiad ailddatgan 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Balans Cronfa Gyffredinol | **Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy** | **Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Reserfau'r Awdurdod** | Balans Cronfa Gyffredinol | **Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy** | **Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Reserfau'r Awdurdod** | Balans Cronfa Gyffredinol | **Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy** | **Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Reserfau'r Awdurdod** |
| | £'000 | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2012 a ddygwyd ymlaen** | **(8,051)** | **(71,348)** | **(69,730)** | **(141,078)** | **0** | **0** | **0** | **0** | **(8,051)** | **(71,348)** | **(69,730)** | **(141,078)** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2012/13 | | | | | | | | | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | (8,185) | (8,185) | 0 | (8,185) | 2,945 | 2,945 | 0 | 2,945 | (5,240) | (5,240) | 0 | (5,240) |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | 0 | 0 | 46,412 | 46,412 | 0 | 0 | (2,945) | (2,945) | 0 | 0 | 43,467 | 43,467 |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | (8,185) | (8,185) | 46,412 | 38,227 | 2,945 | 2,945 | (2,945) | 0 | (5,240) | (5,240) | 43,467 | 38,227 |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | 9,969 | 11,918 | (11,918) | 0 | (2,945) | (2,945) | 2,945 | 0 | 7,024 | 8,973 | (8,973) | 0 |
| **Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd** | 1,784 | 3,733 | 34,494 | 38,227 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,784 | 3,733 | 34,494 | 38,227 |
| Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd | (1,784) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (1,784) | 0 | 0 | 0 |
| **Cynnydd/Gostyngiad yn 2012/13** | 0 | 3,733 | 34,494 | 38,227 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3,733 | 34,494 | 38,227 |
| **Balans 31 Mawrth 2013 a ddygwyd ymlaen** | **(8,051)** | **(67,615)** | **(35,236)** | **(102,851)** | **0** | **0** | **0** | **0** | **(8,051)** | **(67,615)** | **(35,236)** | **(102,851)** |

## Effaith yr Ailddatgan Pensiwn IAS 19 ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2012/13

| | Fel ddatganwyd yn flaenorol 2012/13 | | | Ailddatagn | | | Addasiad ailddatgan 2012/13 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost Gwasanaethau** | **346,740** | **(134,395)** | **212,345** | **0** | **0** | **0** | **346,740** | **(134,395)** | **212,345** |
| Gwariant Gweithredol Arall | 18,882 | (42) | 18,840 | 0 | 0 | 0 | 18,882 | (42) | 18,840 |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 9,841 | (682) | 9,159 | 2,945 | 0 | 2,945 | 12,786 | (682) | 12,104 |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | 0 | (248,529) | (248,529) | 0 | 0 | 0 | 0 | (248,529) | (248,529) |
| **(Gweddill)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **375,463** | **(383,648)** | **(8,185)** | **2,945** | **0** | **2,945** | **378,408** | **(383,648)** | **(5,240)** |
| (Gweddill)/Diffyg yn deillio o Ailbrisio Asedau Sefydlog | | | 5,461 | | | 0 | | | 5,461 |
| (Gweddill)/Diffyg yn deilio o Ailbrisio Asedau Ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | | | 0 | | | 0 | | | 0 |
| Ailfesuriad o'r buddion diffiniedig net ymrwymiadau (asedau) | | | 40,951 | | | (2,945) | | | 38,006 |
| **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | **46,412** | | | **(2,945)** | | | **43,467** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | **38,227** | | | **0** | | | **38,227** |

**Effaith yr Ailddatgan Pensiwn IAS 19 ar y Llif Arian 31 Mawrth 2013**

| | Fel datganwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2013 | Ail-ddatganiad 2013 | Wedi ailddatgan 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **(Gwarged) neu Ddiffyg Net ar Ddarparu Gwasanaeth** | **(8,185)** | **2,945** | **(5,240)** |
| Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiad anariannol (Nodyn 27a) | (21,615) | (2,945) | (24,560) |
| Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu | 856 | 0 | 856 |
| Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | (28,944) | 0 | (28,944) |

## Effaith yr Ailddatgan Pensiwn IAS 19 ar Nodyn 9 – addasiadau Rhwng Sail Cyfrifo a Sail Ariannu dan y Rheoliadau

| **2012-13**<br><br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Fel ddatganwyd yn flaenorol 2012/13**<br>**Balans Cronfa Gyffredinol** | **Reserf Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Ailddatgan**<br>**Balans Cronfa Gyffredinol** | **Reserf Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Addasiad ailddatgan 2012/13**<br>**Balans Cronfa Gyffredinol** | **Reserf Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:** | | | | | | | | | | | | |
| **<u>Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u>** | | | | | | | | | | | | |
| Dibrisiant ac amhariad asedau tymor hir | (18,167) | 0 | 0 | 18,167 | 1 | 0 | 0 | (1) | (18,166) | 0 | 0 | 18,166 |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau wedi eu defnyddio | 18,632 | 0 | 538 | (19,170) | (1) | 0 | 0 | 1 | 18,631 | 0 | 538 | (19,169) |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:** | | | | | | | | | | | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 44) | (17,214) | 0 | 0 | 17,214 | (2,945) | 0 | 0 | 2,945 | (20,159) | 0 | 0 | 20,159 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **(16,749)** | **0** | **538** | **16,211** | **(2,945)** | **0** | **0** | **2,945** | **(19,694)** | **0** | **538** | **19,156** |

## Effaith Ailddatgan Pensiwn IAS 19 ar Nodyn 12 – Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi

| | **Fel ddatganwyd yn flaenorol 2012/13** | **Ailddatagn** | **Addasiad ailddatgan 2012/13** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg | 6,730 | 0 | 6,730 |
| Cost Llog Pensiynau ac Enillion a Ddisgwylir ar Asedau | 3,111 | 2,945 | 6,056 |
| Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | (682) | 0 | (682) |
| | **9,159** | **2,945** | **12,104** |

**Effaith yr Ailddatgan Pensiwn IAS 19 ar Nodyn 26 – Reserfau Na Ellir eu Defnyddio**

| Reserf Pensiynau | Fel ddatganwyd yn flaenorol 2012/13 | Ailddatagn | Addasiad ailddatgan 2012/13 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans 1 Ebrill** | **(128,153)** | **0** | **(128,153)** |
| Ailfesuriad o'r buddion diffiniedig net ymrwymiadau/(asedau) | (40,951) | 2,945 | (38,006) |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gweddill neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (17,214) | (2,945) | (20,159) |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn | 18,139 | 0 | 18,139 |
| **Balans 31 Mawrth** | **(168,179)** | **0** | **(168,179)** |

**Effaith yr Ailddatgan Pensiwn IAS 19 ar Nodyn 27a – Datganiad Llif Arian: Addasiadau i'r Gwarged neu Ddiffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau am Symudiadau Anariannol**

| | Fel datganwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2013 | Ail-ddatganiad 2013 | Wedi ailddatgan 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Dibrisiant | (11,430) | 0 | (11,430) |
| Amhariad ac ailbrisio i lawr | (6,735) | 0 | (6,735) |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr | (15,958) | 0 | (15,958) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr | 16,063 | 0 | 16,063 |
| Cynnydd/(Gostyngiad mewn Stoc) | (123) | 0 | (123) |
| Ymrwymiad pensiwn | 925 | (2,945) | (2,020) |
| Gwerth i'w gwario ar asedau anghyfredol a werthwyd | (813) | 0 | (813) |
| Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau | (3,544) | 0 | (3,544) |
| | **(21,615)** | **(2,945)** | **(24,560)** |

## Effaith yr Ailddatgan Pensiwn IAS 19 ar Nodyn 30 - Symiau adroddwyd ar gyfer penderfyniadau dyrannu adnoddau

| | Fel ddatganwyd yn flaenorol 2012/13 | | | Ailddatgan | | | Addasiad ailddatgan 2012/13 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi** | | | | | | | | | |
| Cost Llog Pensiynau ac Enillion Ddisgwylir ar Asedau | 3,111 | 0 | 3,111 | 2,945 | 0 | 2,945 | 6,056 | 0 | 6,056 |
| **(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau** | **375,463** | **0** | **(8,185)** | **2,945** | **0** | **2,945** | **378,408** | **0** | **(5,240)** |

## NODYN 4 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2014/15 wedi cyflwyno nifer o newidiadau i bolisiau cyfrifeg a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2014. Mae'r newidiadau fel a ganlyn:

**SAARh 10 – Datganiadau Ariannol Cyfunol (Mai 2011)**
Mae'r newid yma yn y polisi cyfrifo wedi cyflwyno diffiniad newydd o reolaeth, a ddefnyddir i bennu pa endidau sy'n gyfunol i bwrpas cyfrifon grwp.

**SAARh 11 – Trefniadau ar y Cyd (Mai 2011)**
Mae'r newid yma yn y polisi cyfrifo yn berthnasol i gyfrifo trefniadau ar y cyd, sydd yn drefniant cytundebol a gyd-reolir gan ddau neu fwy o bartïon. Dosberthir y rhain unai fel menter ar y cyd neu fel gweithred ar y cyd. Nid yw cyfuniad cyfrannol bellach yn opsiwn i endidau a gyd-reolir.

**SAARh 12 – Datgeliad Diddordeb gydag Endidau Eraill (Mai 2011)**
Mae'r newid yma yn gofyn am nifer o ddatgeliadau'n ymwneud â diddordeb endid mewn is-gwmnïau, trefniadau ar y cyd, cymdeithasau ac endidau strwythuredig anghyfunol.

**IAS 27 - Datganiadau Ariannol ar wahân ac IAS 28 - Separate Financial Statements and IAS 28 - Buddsoddiadau mewn Cymdeithasau a Threfniadau ar y Cyd (diwygiedig Mai 2011)**
Mae'r datganiadau yma wedi eu diwygio o ganlyniad i'r newidiadau i SAARh 10, SAARh 11 a SAARh 12 (uchod). O ystyried na fyddai newid i'r datganiadau ariannol, oni bai datgeliad, o ganlyniad i'r newidiadau i SAARh 10, SAARh 11 a SAARh 12, nid oes ychwaith effaith o ganlyniad i newidiadau yn IAS 27 ac IAS 28.

**IAS 32 – Offerynnau Ariannol: Cyflwyniad (diwygiedig Rhagfyr 2011)**
Mae'r safon hwn yn cyflwyno newidiadau i'r cyflwyniad o'r offerynnau ariannol ac yn caniatau gosod asedau ariannol yn erbyn ymrwymiadau ariannol.

Mae'n annhebygol y bydd y newidiadau uchod yn cael effaith sylweddol ar Ddatganiad o Gyfrifon Cyngor Gwynedd.

## NODYN 5 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISÏAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Awdurdod wedi gorfod gwneud penderfyniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch symiau yr asedau ac ymrwymiadau i'w cario, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r penderfyniadau, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu selio ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, y ffactorau eraill hynny yn dybiaethau a thafluniadau hanesyddol, cyfredol a dyfodol a ystyrir yn berthnasol.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymiadau dibynnol. Gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r canlyniadau ac amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol wastad yn cael eu hadolygu.

## NODYN 6 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan yr Awdurdod am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitemau canlynol ar Fantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2014 yn rhai a ystyrir gyda risg sylweddol a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

- **Eiddo, Offer a Chyfarpar** – Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol ag arferion safonol cyfrifeg. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 15.
- **Darpariaethau** - Mae nifer o ddarpariaethau gwahanol, ble mae'r sail unigol wedi cael eu hasesu, yn gynwysedig yn y cyfrifon. Gweler Nodyn 24 am y manylion, gan gynnwys Adolygiad Tâl, Safleoedd Tirlenwi a'n ymrwymiad yswiriant.
- **Ymrwymiad Pensiwn** - Mae sefyllfa'r Ymrwymiad Pensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan Actwari'r Cyngor. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Nodyn 41 a 42.
- **Amhariad Dyledion Drwg** – Mae lefel o amhariad o ddyledion drwg wedi ei gynnwys yn y cyfrifon sydd yn seiliedig ar bolisi penodol. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng lefel yr amhariad a ddefnyddiwyd a'r gwir sefyllfa ôl-ddyledion ei adlewyrchu ym mhatrwm gwariant y dyfodol. Mae'r ffigwr amhariad dyledion drwg wedi ei gynnwys yn y ffigyrau Dyledwyr Tymor Byr yn Nodyn 20.

## NODYN 7 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

***(Nad ydynt wedi eu datgelu ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr)***

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- Newid o £22m yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r buddion diffiniedig net ymrwymiadau (asedau), yn unol ag asesiad Actwari Cyngor Gwynedd (Nodyn 42).
- Cynnydd o £9m mewn gwerth amhariad asedau, yn gysylltiedig a'r lefel gwariant sylweddol ar raglen gyfalaf ysgolion (Nodyn 15).
- Cynnydd o £5m ar Drethi Annomestig Cenedlaethol, gan Lywodraeth Cymru o'i gymharu â'r dosraniad y flwyddyn flaenorol (Nodyn 13b).

## NODYN 8 – DIGWYDDIADAU ÔL-FANTOLEN

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen.

## NODYN 9 – ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Awdurdod i gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

| **2013/14**<br><br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserfau Defnyddiadwy** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Balans Cronfa Gyffredinol** | **Reserf Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:** | | | | |
| **<u>Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u>** | | | | |
| Dibrisiant ac amhariad asedau tymor hir | (25,426) | 0 | 0 | 25,426 |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau wedi eu defnyddio | 21,352 | 0 | (2,363) | (18,989) |
| Gwariant refeniw wedi'w ariannu o gyfalaf drwy statud | (6,222) | 0 | 0 | 6,222 |
| Swm yr asedau tymor hir wedi eu hysgrifennu i ffwrdd wrth waredu neu gwerthu fel rhan o'r cynnydd/ golled wrth werthu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 288 | 0 | 0 | (288) |
| **<u>Ychwanegu eitemau sydd heb eu debydu na chredydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</u>** | | | | |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | 5,731 | 0 | 0 | (5,731) |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | 966 | 0 | 0 | (966) |
| Gwariant cyfalaf wedi ei godi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a balansau'r CRT | 10,516 | 0 | 0 | (10,516) |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf:** | | | | |
| Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 28 | (1,542) | 0 | 1,514 |
| Defnyddio'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Defnyddio'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu ad-dalu dyled | 0 | 1,377 | 0 | (1,377) |
| Cyfraniad o'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf tuag at gostau gweinyddol gwaredu asedau tymor hir | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ad-dalu dyled Prifswm | 0 | (2) | 0 | 2 |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:** | | | | |
| Swm ble mae'r costau ariannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau ariannu priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | 11 | 0 | 0 | (11) |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:** | | | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 42) | (26,333) | 0 | 0 | 26,333 |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | 19,727 | 0 | 0 | (19,727) |
| **Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig** | | | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (564) | 0 | 0 | 564 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **74** | **(167)** | **(2,363)** | **2,456** |

| **2012/13**<br><br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserfau Defnyddiadwy** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Balans Cronfa Gyffredinol** | **Cyfrif Refeniw Tai** | **Reserf Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:** | | | | | |
| **Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | | |
| Dibrisiant ac amhariad asedau tymor hir | (18,166) | 0 | 0 | 0 | 18,166 |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau wedi eu defnyddio | 18,631 | 0 | 0 | 538 | (19,169) |
| Gwariant refeniw wedi ei ariannu o gyfalaf drwy statud | (6,452) | 0 | 0 | 0 | 6,452 |
| Swm yr asedau tymor hir wedi eu hysgrifennu i ffwrdd wrth waredu neu werthu fel rhan o'r cynnydd/ golled wrth werthu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 42 | 0 | 0 | 0 | (42) |
| **Ychwanegu eitemau sydd heb eu debydu na chredydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | | |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | 5,692 | 0 | 0 | 0 | (5,692) |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | 730 | 0 | 0 | 0 | (730) |
| Gwariant cyfalaf wedi ei godi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a balansau'r CRT | 7,574 | 0 | 0 | 0 | (7,574) |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf:** | | | | | |
| Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 78 | 0 | (932) | 0 | 854 |
| Defnyddio'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Defnyddio'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu ad-dalu dyled | 0 | 0 | 2,345 | 0 | (2,345) |
| Cyfraniad o'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf tuag at gostau gweinyddol gwaredu asedau tymor hir | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ad-dalu dyled Prifswm | 0 | 0 | (2) | 0 | 2 |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:** | | | | | |
| Swm ble mae'r costau ariannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau ariannu priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | 56 | 0 | 0 | 0 | (56) |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:** | | | | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 42) | (20,159) | 0 | 0 | 0 | 20,159 |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | 18,139 | 0 | 0 | 0 | (18,139) |
| **Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig** | | | | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 859 | 0 | 0 | 0 | (859) |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **7,024** | **0** | **1,411** | **538** | **(8,973)** |

## NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD

**Balansau Ysgolion**

Cynrychiolai'r swm yma yr elfen o falansau a ryddhawyd o dan ddatganoli cyllideb yn uniongyrchol i'r ysgolion ond sydd heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol:

| 2013/14 | Balans 31 Mawrth 2013 | Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd | mewn | allan | Balans 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Balansau Ysgolion | 3,813 | (33) | 822 | (825) | 3,777 |
| **Cyfanswm** | **3,813** | **(33)*** | **822** | **(825)** | **3,777** |

*Trosglwyddiad i Reserfau Eraill a Glustnodwyd (gweler tudalen 35)

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r symiau a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, a'r symiau hynny a drosglwyddwyd nôl o'r reserfau a glustnodwyd i gwrdd â gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2013/14.

**Reserfau a Glustnodwyd**

| 2013/14 | Balans | Trosglwyddiadau | | | Balans |
|---|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2013 | rhwng cronfeydd | mewn | allan | 31 Mawrth 2014 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Reserfau Adnewyddu | 1,716 | 0 | 2,411 | (1,943) | 2,184 |
| Reserfau Cyfalaf | 14,286 | (342) | 423 | (4,303) | 10,064 |
| Reserfau Yswiriant | 3,444 | (197) | 1,508 | (1,292) | 3,463 |
| Cronfa Gwasanaethau | 5,086 | 279 | 1,054 | (1,446) | 4,973 |
| Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant | 1,602 | 0 | 0 | (491) | 1,111 |
| Reserf Datblygiadau | 212 | 39 | 0 | (251) | 0 |
| Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion | 1,935 | 0 | 1,042 | (543) | 2,434 |
| Hyfforddiant Canolog | 336 | 13 | 395 | (132) | 612 |
| Reserf Canolfan Gyswllt | 278 | 0 | 0 | (244) | 34 |
| Reserfau Gwasanaethau Ysgolion | 1,204 | 33 | 161 | (273) | 1,125 |
| Reserfau Economi a Chymuned | 113 | 0 | 25 | 0 | 138 |
| Reserfau Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 1,786 | 0 | 400 | (27) | 2,159 |
| Reserf Datblygiadau Gwastraff | 426 | 0 | 0 | (154) | 272 |
| Reserfau Ymgynghoriaeth Gwynedd | 290 | 0 | 111 | 0 | 401 |
| Reserfau Rheoleiddio | 791 | 0 | 113 | (28) | 876 |
| Cronfa Gweithiau Cynnal Mawr ar Ffyrdd Sirol | 0 | 0 | 120 | 0 | 120 |
| Reserfau Eraill Gofal | 127 | 0 | 9 | (34) | 102 |
| Cronfa Trawsnewid Busnes | 244 | (244) | 0 | 0 | 0 |
| Cronfa Ffordd Gwynedd | 0 | 244 | 0 | 0 | 244 |
| Cronfa Buddsoddi i Arbed | 1,497 | 4 | 1,033 | 0 | 2,534 |
| Cronfa Buddsoddi i Arbed - Prosiect Rheoli Carbon | 1,521 | (86) | 14 | (304) | 1,145 |
| Cronfa Trawsffurfio | 7,105 | 0 | 1,325 | (1,245) | 7,185 |
| Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu hymrwymo | 168 | 0 | 153 | (10) | 311 |
| Cronfa Cyfalaf i Wireddu Arbedion | 209 | 0 | 0 | 0 | 209 |
| Reserf Tendro Contractau | 403 | 0 | 292 | (21) | 674 |
| Cronfa Gwasanaethau Dwr a Charthffosiaeth Tai | 1,337 | 0 | 0 | (593) | 744 |
| Gwarant Amgylcheddol Tai | 480 | 0 | 0 | 0 | 480 |
| Cronfa Rhaglen Arbedion | 932 | 0 | 14 | 0 | 946 |
| Reserfau Technoleg Gwybodaeth | 373 | 0 | 41 | (40) | 374 |
| Cronfa Adfer | 500 | 0 | 0 | (154) | 346 |
| Cronfa Rhagbaratoi Cynlluniau Grantiau Ewrop | 150 | 0 | 0 | 0 | 150 |
| Cronfa Diffyg Pensiwn (Cyn Cyfrif Refeniw Tai) | 0 | 0 | 1,727 | 0 | 1,727 |
| Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol 2014/15 | 0 | 0 | 579 | 0 | 579 |
| Cronfa Deddf Diwygio Lles | 0 | 444 | 0 | 0 | 444 |
| Cronfa EDRMS | 0 | 303 | 0 | (15) | 288 |
| Amrywiol Reserfau Eraill | 1,343 | (457) | 985 | (494) | 1,377 |
| **Cyfanswm** | **49,894** | **33*** | **13,935** | **(14,037)** | **49,825** |

*Trosglwyddiad o Falansau Ysgolion (gweler tudalen 34)

Nodir isod fanylion o brif reserfau penodol y Cyngor.

(i) Mae’r Reserf Adnewyddu yn cael ei ddefnyddio gan amrywiol adrannau o’r i adnewyddu cerbydau ac offer.

(ii) Mae’r Reserf Cyfalaf yn cynrychioli adnoddau a ymrwymwyd eisoes i ariannu rhan o Raglen Gyfalaf y Cyngor.

(iii) Nid yw Cyngor Gwynedd yn yswirio pob risg gydag yswirwyr allanol ond yn hytrach fe sefydlwyd cronfa er mwyn cwrdd â'r gofynion yma'n fewnol. Mae'r balans ar y Reserf Yswiriant hefyd yn cynnwys elfen ar gyfer gofynion yswiriant sy'n berthnasol i'r cyn Cyngor Sir Gwynedd (hyd at 1996) ac a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.

(iv) Mae'r Gronfa Gwasanaethau yn gronfa sy'n dal llithriadau a thanwariant y mae hawl i adrannau ei gario drosodd o flwyddyn i flwyddyn, cyllidebau penodol a pherthnasol eraill a chyllidebau unwaith ac am byth sy'n ymestyn dros fwy nag un flwyddyn.

(v) Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant – symiau a neilltuwyd ar gyfer cyfraniad cyfatebol gan y Cyngor mewn perthynas â chynlluniau refeniw a chyfalaf o dan y Rhaglen Cydgyfeiriant.

(vi) Mae'r Reserf Datblygiadau ar gyfer prosiectau penodol a bennwyd eisoes gan y Cyngor fel Tai Fforddiadwy ac E-Lywodraeth.

(vii) Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion – darpariaeth ar gyfer ariannu costau diswyddo i wireddu arbedion cyllidol.

(viii) Hyfforddiant Canolog – perthnasol i ofynion cynlluniau rhaglen hyfforddi gweithwyr y Cyngor.

(ix) Reserf y Ganolfan Gyswllt - symiau a roddwyd o'r neilltu ar gyfer datblygu'r Ganolfan Gyswllt.

(x) Reserfau Gwasanaeth Ysgolion – yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i allu ymateb yn bennaf i'r problemau ariannol perthnasol hefo gofynion 'Integreiddio', gofynion newidiol 'Anghenion Addysg Arbennig All Sirol', 'Cefnogi Ysgolion' a'r 'Cynllun Benthyciadau i Ysgolion'.

(xi) Mae Reserfau Economi a Chymuned yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i gynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth yn bennaf, ble mae'n rhaid cyfrifo balansau'r cynlluniau ar wahân.

(xii) Mae Reserfau Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn bennaf yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod sefyllfaoedd gwariant ac incwm anwastad (equalisation accounts) a gofynion tebygol contractau.

(xiii) Cronfa ar gyfer datblygiadau ac ymrwymiadau perthnasol i'r maes gwastraff yw'r Reserf Datblygiadau Gwastraff gan gynnwys ein hymrwymiad i Bartneriaeth Gwastraff Gogledd Cymru.

(xiv) Reserfau Ymgynghoriaeth Gwynedd – cynhwysir symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod sefyllfaoedd gwariant anwastad efo gweithiau amddiffyn yr arfordir ynghyd â gofynion cyflogaeth posib yn dilyn newidiadau i raglen waith y Gwasanaeth Ymgynghoriaeth.

(xv) Reserfau Rheoleiddio - yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i gynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth yn bennaf a ble mae'n rhaid cyfrifo balansau'r cynlluniau ar wahân, ynghyd â gofynion yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Unedol.

(xvi) Cronfa Gweithiau Cynnal Mawr ar Ffyrdd Sirol – i gyfrannu tuag at gost gweithiau cynnal mawr ar ffyrdd sirol.

(xvii) Reserfau Eraill Gofal – cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhag sefyllfaoedd gwariant anwastad posib o ganlyniad i ofynion contractau.

(xviii) Cronfa Trawsnewid Busnes â elwir bellach yn Gronfa Ffordd Gwynedd - cronfa unwaith ac am byth i gynorthwyo'r broses trawsnewid busnes i wireddu arbedion i'r Cyngor.

(xix) Cronfa Buddsoddi i Arbed – darpariaeth ar gyfer buddsoddi mewn gwahanol gynlluniau i wireddu arbedion cyllidol parhaol, a bellach yn cynnwys gofynion ac adnoddau Cronfa Gwella'r Cyngor.

(xx) Cronfa Buddsoddi i Arbed – Prosiect Rheoli Carbon – rhannol ariannu rhaglen waith y Prosiect Rheoli Carbon i gyflawni gostyngiad mewn allyriadau carbon ynghyd a chynhyrchu arbedion refeniw ariannol i'r Cyngor.

(xxi) Cronfa Trawsffurfio – darpariaeth ar gyfer newid trefniadau mewnol y Cyngor i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon.

(xxii) Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu hymrwymo - cynnwys grantiau refeniw a dderbyniwyd ac a ymrwymwyd ar gyfer defnydd yn y dyfodol.

(xxiii) Cronfa Cyfalaf i wireddu arbedion – darpariaeth ar gyfer cefnogi cynlluniau cyfalaf fyddai'n gwireddu arbedion cyllidol refeniw parhaol.

(xxiv) Reserf Tendro Contractau – ar gyfer ymateb i sefyllfaoedd gwariant anwastad o ganlyniad i'r broses tendro am gontractau cludiant.

(xxv) Cronfa Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth Tai – swm a neilltuwyd ar gyfer rhai gofynion yn ymwneud a threfniadau carthffosiaeth, pibellau dwr a gweithfeydd trin carthion ar stadau cyn dai cyngor, na fabwysiadwyd gan Dŵr Cymru.

(xxvi) Gwarant Amgylcheddol Tai – neilltuwyd ar gyfer ymhlygiadau posib o ganlyniad i roddi gwarant amgylcheddol i Gartrefi Cymunedol Gwynedd, mewn perthynas ag amgylchiadau arbennig a phenodol yn ymwneud a chynlluniau amgylcheddol ar dir stadau cyn dai cyngor.

(xxvii) Cronfa Rhaglen Arbedion – darpariaeth ariannu strategol i gynorthwyo ac i roddi rhywfaint o hyblygrwydd i'r Cyngor wrth ystyried y rhaglen arbedion angenrheidiol i'r dyfodol.

(xxviii) Reserfau Technoleg Gwybodaeth - cronfa adnewyddu berthnasol i alluogi ymateb i batrymau gwariant anwastad yn y dyfodol.

(xxix) Cronfa Adfer – darpariaeth tuag at gost gwaith adfer yn dilyn difrod llifogydd i ffyrdd, pontydd, a.y.b.

(xxx) Cronfa Rhagbaratoi Cynlluniau Grantiau Ewrop – darpariaeth tuag at gost rhagbaratoi achosion busnes i ddenu ffynonellau ariannu a grantiau Ewrop.

(xxxi) Cronfa Diffyg Pensiwn (o'r cyn Gyfrif Refeniw Tai) - darpariaeth a neilltuwyd er mwyn lleihau'r ymrwymiad pensiwn anochel a etifeddwyd wrth drosglwyddo'r stoc tai.

(xxxii) Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol 2014/15- cronfa a sefydlwyd i gynorthwyo a chefnogi'r strategaeth ariannol ar gyfer 2014/15.

(xxxiii) Deddf Diwygio Llês- Darpariaeth ar gyfer ymateb I effaith newidiadau yn sgil gofynnion Deddf Diwygio Llês, ac sy'n cynnwys newidiadau I Fudd-dal Tai (newid i'r Credyd Cynhwysol) a Budd-dal Treth Cyngor (newid iGefnogaeth Lleol ar gyfer Treth Cyngor).

(xxxiv) Cronfa System Rheoli Dogfennau a ChofnodionElectroneg (EDRMS) - Darpariaethargyfer y rhaglenwaithperthnasolibryniant, gweithredu a datblygu system rheolidogfennau a chofnodion electroneg.

(xxxv) Amrywiol Reserfau Eraill – yn cynnwys symiau a neilltuwyd ar gyfer amrywiol ymrwymiadau eraill.

## NODYN 11 – GWARIANT GWEITHREDOL ARALL

| 2012/13 | | 2013/14 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 1,479 | **Praeseptau Cynghorau Cymuned** | 1,507 |
| | **Lefiau** | |
| 10,652 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | 10,908 |
| 5,526 | Awdurdod Tân Gogledd Cymru | 5,508 |
| 1,157 | Parc Cenedlaethol Eryri | 1,153 |
| 68 | Byrddau Draenio Lleol | 68 |
| 17,403 | | 17,637 |
| (42) | Enillion/colledion ar waredu asedau anghyfredol | (288) |
| **18,840** | **Cyfanswm** | **18,856** |

## NODYN 12 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

| 2012/13 | | 2013/14 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 6,730 | Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg | 6,476 |
| 6,056 | Llog net ar y buddion diffiniedig net ymrwymiadau (asedau) | 7,544 |
| (682) | Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | (445) |
| **12,104** | **Cyfanswm** | **13,575** |

## NODYN 13 – TRETH AC INCWM GRANT AMHENODOL

| 2012/13 | | *Nodyn* | 2013/14 |
|---|---|---|---|
| £'000 | | | £'000 |
| (63,374) | Incwm Y Dreth Cyngor | *13a* | (66,095) |
| (32,801) | Trethi Annomestig | *13b* | (38,209) |
| (136,566) | Grantiau'r Llywodraeth heb eu clustnodi | | (144,714) |
| (15,788) | Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf | | (17,913) |
| **(248,529)** | **Cyfanswm** | | **(266,931)** |

**Trethi Annomestig**

• Cynnydd o £5m ar Drethi Annomestig Cenedlaethol, gan Lywodraeth Cymru o'i gymharu â'r dosraniad y flwyddyn flaenorol (Nodyn 13b).

**Grantiau'r Llywodraeth heb eu clustnodi**

• Cynnydd o £8m perthnasol i'r Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor i adlewyrchu newid y ffynhonnell ariannu i Lywodraeth Cymru sydd wedi arwain at newid yn y trefniadau adrodd, sydd yn gyfrifol am y symudiad sylweddol rhwng 2012/13 a 2013/14 (Nodyn 35).

## NODYN 13a - Y DRETH CYNGOR

Mae'r Cyngor yn penderfynu ar ei anghenion gwariant am y flwyddyn ac yn ei drosi i Dreth Cyngor Band D drwy ei rannu gyda chyfrifiad o'r nifer eiddo sydd ym mhob band Treth Cyngor a'u datgan yn nhermau nifer cyfatebol ym Mand D (Sylfaen y Dreth Cyngor). Yna, ychwanegir gofynion Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru at y swm yma i sefydlu'r Dreth Cyngor ar gyfer y Sir.

Cyfrifwyd sylfaen y Dreth Cyngor ar gyfer 2013/14 fel a ganlyn:-

**CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH CYNGOR AR GYFER 2013/14**

| Band Prisio | Nifer Eiddo Cyfatebol yn dilyn gostyngiadau | Lluosogydd Statudol | Nifer cyfatebol Eiddo Band D |
|---|---|---|---|
| A* | 9 | 5/9 | 4.72 |
| A | 7,260 | 6/9 | 4,839.99 |
| B | 13,245 | 7/9 | 10,301.54 |
| C | 10,562 | 8/9 | 9,388.00 |
| D | 9,178 | 1 | 9,178.07 |
| E | 7,287 | 11/9 | 8,906.77 |
| F | 3,557 | 13/9 | 5,137.53 |
| G | 1,161 | 15/9 | 1,935.00 |
| H | 159 | 18/9 | 318.50 |
| I | 55 | 21/9 | 128.33 |
| | | **Cyfanswm** | 50,138.45 |
| **Sylfaen y Dreth Gyngor ar ôl lwfans colledion casglu** | | | 48,884.99 |

Rhoddir dadansoddiad o'r Incwm net, sy'n deillio i'r Cyngor, isod:-

| 2012/13 £'000 | | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| 63,706 | Treth Cyngor a godwyd | 66,493 |
| (332) | **Llai** Darpariaeth dyledion drwg | (398) |
| 63,374 | | 66,095 |

## NODYN 13b - TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL

Fe reolir Trethi Annomestig Cenedlaethol ("Treth Busnes") gan y Llywodraeth ond awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ei gasglu a'i dalu i gronfa ganolog a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Maent hwythau wedyn yn dosrannu symiau o'r gronfa yma i Awdurdodau Lleol ar sail poblogaeth.

Mae'r Llywodraeth yn pennu swm y Dreth Annomestig Genedlaethol am y flwyddyn (46.4c yn 2013/14) a luosir gyda gwerth trethiannol yr eiddo. Yn amodol ar effaith trefniadau dros dro a rhai gostyngiadau eraill, dyma fydd y swm a delir gan y trethdalwr.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2013/14 roedd yna 7,158 eiddo ar y rhestr brisio leol yng Ngwynedd, yn cynrychioli gwerth trethiannol o £99,178,095.

Rhoddir isod ddadansoddiad o'r incwm net cronedig i'r Cyngor o'r Trethi Annomestig:-

| 2012/13 £'000 | | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| (33,982) | Trethi Annomestig a godwyd | (34,716) |
| 361 | Lwfans Costau Casglu | 364 |
| 551 | Darpariaeth Dyledion Drwg | 284 |
| 33,070 | Swm a dalwyd i'r Gronfa Genedlaethol | 34,068 |
| 0 | | 0 |
| (32,801) | Derbyniadau o'r Gronfa Genedlaethol | (38,209) |
| (32,801) | **Incwm net o'r Trethi Annomestig** | (38,209) |

## NODYN 14 – CYFRIF INCWM A GWARIANT RHEOLAETH ADEILADAU

Mae'r gwariant ac incwm ar y cyfrif yma yn perthyn i'r gwaith rheoliadau adeiladau ar wirio a goruchwylio ac yn cynnwys ystyried unrhyw achos gorfodaeth ond nid y gwaith o roi rhybuddion statudol o dan y Ddeddf Adeiladu 1984.

Disgwylir i'r cyfrif adennill y costau dros raglen dreigl tair blynedd, ac mae'r gofynion yn cael eu hadolygu yn flynyddol. Er fod 'na fân ddiffyg yn 2013/14, gweler fod elw cronedig dros y cyfnod o 3 blynedd.

| **2013/14** | **£'000** |
|---|---|
| Cyfanswm incwm ffioedd a dderbyniwyd (ac eithrio TAW) | (471) |
| Cyfanswm gwariant | 472 |
| (Gweddill) / Diffyg ar gyfer 2013/14 | 1 |
| (Gweddill) / Diffyg ar gyfer 2012/13 | (10) |
| (Gweddill) / Diffyg ar gyfer 2011/12 | 4 |
| **(Gweddill) / Diffyg ar gyfer y tair blynedd diwethaf** | **(5)** |

## NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

### Symudiadau ar Falansau

Symudiadau yn 2013/14:

| | Tir ac Adeiladau | Isadeiladwaith | Cerbydau, Offer a Chyfarpar | Asedau Cymunedol | Asedau Gweddilliol | Asedau heb eu cwblhau | Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwerth** | | | | | | | |
| Balans ar 1.04.13 | 254,200 | 166,267 | 34,077 | 991 | 819 | 12,157 | 468,511 |
| Ychwanegiadau | 15,720 | 8,865 | 4,303 | 4 | 0 | 5,100 | 33,992 |
| Ychwanegiadau - GwyriAD | 4,734 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4,734 |
| Gwerthiannau | (579) | 0 | (1,334) | 0 | 0 | 0 | (1,913) |
| Trosglwyddiadau | 3,280 | 25 | 0 | 0 | 1,805 | (4,741) | 369 |
| Ailbrisio | (223) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (223) |
| **Balans ar 31.03.14** | **277,132** | **175,157** | **37,046** | **995** | **2,624** | **12,516** | **505,470** |
| **Dibrisiant** | | | | | | | |
| Balans ar 1.04.13 | 11,657 | 20,333 | 20,128 | 6 | 27 | 2 | 52,153 |
| Dibrisiant yn y flwyddyn | 3,917 | 4,568 | 2,891 | 1 | 8 | 0 | 11,385 |
| Gwerthiannau | (23) | 0 | (1,097) | 0 | 0 | 0 | (1,120) |
| Trosglwyddiadau | (192) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (192) |
| Ailbrisio | (123) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (123) |
| **Balans ar 31.03.14** | **15,236** | **24,901** | **21,922** | **7** | **35** | **2** | **62,103** |
| **Amhariad** | | | | | | | |
| Balans ar 1.04.13 | 46,196 | 63 | 200 | 230 | 58 | 0 | 46,747 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Reserf Ailbrisio | 1,588 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,588 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Gwasanaethau | 13,450 | 0 | 0 | 0 | 0 | 573 | 14,023 |
| Gwerthiannau | (212) | 0 | (120) | 0 | 0 | 0 | (332) |
| Trosglwyddiadau | 543 | 0 | 0 | 0 | 5 | (573) | (25) |
| Ailbrisio | (29) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (29) |
| **Balans ar 31.03.14** | **61,536** | **63** | **80** | **230** | **63** | **0** | **61,972** |
| **Gwerth Net 31 Mawrth 2014** | **200,360** | **150,193** | **15,044** | **758** | **2,526** | **12,514** | **381,395** |
| **Gwerth Net 31 Mawrth 2013** | **196,347** | **145,871** | **13,749** | **755** | **734** | **12,155** | **369,611** |

Symudiadau Cymharol yn 2012/13:

| | Tir ac Adeiladau | Isadeiladwaith | Cerbydau, Offer a Chyfarpar | Asedau Cymunedol | Asedau Gweddilliol | Asedau heb eu cwblhau | Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwerth** | | | | | | | |
| Balans ar 1.04.12 | 244,282 | 152,443 | 31,223 | 971 | 150 | 9,804 | 438,873 |
| Addasiad i falans agoriadol | 763 | 0 | 0 | 0 | 0 | (763) | 0 |
| Ychwanegiadau | 9,817 | 13,737 | 3,402 | 20 | 0 | 4,923 | 31,899 |
| Ychwanegiadau - Öl-ofalaeth tirlenwi | 257 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 257 |
| Gwerthiannau | (616) | 0 | (542) | 0 | 0 | 0 | (1,158) |
| Trosglwyddiadau | (1,056) | 87 | 0 | 0 | 669 | (1,807) | (2,107) |
| Ailbrisio | 753 | 0 | (6) | 0 | 0 | 0 | 747 |
| **Balans ar 31.03.13** | **254,200** | **166,267** | **34,077** | **991** | **819** | **12,157** | **468,511** |
| **Dibrisiant** | | | | | | | |
| Balans ar 1.04.12 | 7,912 | 16,108 | 17,477 | 5 | 3 | 2 | 41,507 |
| Dibrisiant yn y flwyddyn | 4,005 | 4,225 | 3,198 | 1 | 1 | 0 | 11,430 |
| Gwerthiannau | (40) | 0 | (541) | 0 | 0 | 0 | (581) |
| Trosglwyddiadau | (54) | 0 | 0 | 0 | 23 | 0 | (31) |
| Ailbrisio | (166) | 0 | (6) | 0 | 0 | 0 | (172) |
| **Balans ar 31.03.13** | **11,657** | **20,333** | **20,128** | **6** | **27** | **2** | **52,153** |
| **Amhariad** | | | | | | | |
| Balans ar 1.04.12 | 33,225 | 63 | 68 | 230 | 63 | 0 | 33,649 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Reserf Ailbrisio | 6,443 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6,443 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Gwasanaethau | 6,603 | 0 | 132 | 0 | 0 | 0 | 6,735 |
| Gwerthiannau | (10) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (10) |
| Trosglwyddiadau | (3) | 0 | 0 | 0 | (5) | 0 | (8) |
| Ailbrisio | (62) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (62) |
| **Balans ar 31.03.13** | **46,196** | **63** | **200** | **230** | **58** | **0** | **46,747** |
| **Gwerth Net 31 Mawrth 2013** | **196,347** | **145,871** | **13,749** | **755** | **734** | **12,155** | **369,611** |
| **Gwerth Net 31 Mawrth 2012** | **203,145** | **136,272** | **13,678** | **736** | **84** | **9,802** | **363,717** |

Prisiwyd eiddo gweithredol y Cyngor gan Reolwr Eiddo Corfforaethol (M.R.I.C.S) Cyngor Gwynedd ar 1 Ebrill 2010 yn unol â'r polisïau a nodwyd yn rhan 1.19 o Nodyn 1 o'r Polisïau Cyfrifo. Gweler y nodyn hwn hefyd ar gyfer sail dibrisio'r gwahanol gategorïau o asedau.

Defnyddir 14 Ysgol Eglwysig gan y gwasanaeth addysg sydd heb eu cynnwys yn y tabl uchod oherwydd nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw'r adeiladau yma ond nid yw'r symiau yn sylweddol. Er gwybodaeth, mae'r Ysgol Cae Top newydd ym Mangor yn cael ei ystyried ar hyn o bryd fel ased y Cyngor yn ein cyfrifon, ac nid fel ysgol eglwysig. Mae statws cyfreithiol yr ased yn destun adolygiad cyfreithiol a all effeithio'r driniaeth yn y cyfrifon yn y dyfodol.

Dangosir y ffyrdd o gyllido'r asedau a brynwyd yn ystod y flwyddyn gyda'r wybodaeth ar wariant cyfalaf yn y rhagymadrodd eglurhaol.

Cyfran Cyngor Gwynedd yn unig o gostau adeiladu prosiect Pont Briwet a adlewyrchir yn Asedau heb eu cwblhau (yn seiliedig ar raniad amcangyfrifol o elfennau ffordd a rheilffordd y prosiect. Mae'r rhaniad hwn ar hyn o bryd yn 41% elfen ffyrdd (£2.43m) a 59% elfen rheilffordd).

### Ymrwymiadau Cyfalaf

Roedd yr ymrwymiadau o sylwedd ar gytundebau cyfalaf ar 31 Mawrth 2014 fel a ganlyn:

| | **Swm y Cytundeb** | **Taliadau hyd yma** | **Swm heb ei dalu** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Pont Briwet * | 13,357 | 7,139 | 6,218 |
| Academi Hwylio Genedlaethol Cymru - Gwaith Morol | 2,238 | 1,492 | 746 |
| Academi Hwylio Genedlaethol Cymru - Adeiladu'r Adeilad Academi | 4,198 | 970 | 3,228 |
| Gwelliannau Amgueddfa Oriel Gwynedd | 1,231 | 200 | 1,031 |
| Gwaith Trin Trwytholchi, Faengoch | 965 | 833 | 132 |
| Lôn Feicio gyswllt rhwng Cefn Glyn a Llanwnda | 471 | 200 | 271 |

* Gan mai Cyngor Gwynedd yw'r corff arweiniol ar y prosiect (ynghyd â Network Rail), mae'r ymrwymiadau cyfalaf sy'n ddyledus a'r ariannu cyfatebol yn adlewyrchu cyfanswm cost y prosiect, nid elfen Cyngor Gwynedd yn unig.

## NODYN 16 – ASEDAU TREFTADAETH

| | Paentiadau Penodol | Casgliadau Arlunio Cyffredinol | Teyrndlysau Dinesig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Gwerth** | | | | |
| Balans ar 1.04.12 | 62 | 14 | 17 | 93 |
| Addasu Balans Agoriadol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwerthiannau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ailbrisio | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dibrisiant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Amhariad | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Balans ar 31.03.13** | **62** | **14** | **17** | **93** |
| Balans ar 1.04.13 | 62 | 14 | 17 | 93 |
| Addasu Balans Agoriadol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwerthiannau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ailbrisio | 18 | 0 | 0 | 18 |
| Dibrisiant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Amhariad | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Balans ar 31.03.14** | **80** | **14** | **17** | **111** |

Cyflogodd y Cyngor brisiwr allanol (Bonhams) ym mis Mawrth 2012 i ddarparu amcangyfrifon o'i deyrndlysau dinesig a'i luniau a pheintiadau. Mae'r prisiadau yn seiliedig ar bris y farchnad gyfredol, ac maent wedi eu hadolygu yn flynyddol. Mae'r Cyngor yn ystyried bod gan yr asedau treftadaeth hyn oes amhenderfynadwy a gwerth gweddilliol uchel; o'r herwydd, nid yw'r Cyngor yn ei ystyried yn briodol i ddibrisio'r asedau. Yn yr asesiad blynyddol (Chwefror 2014) gan y priswyr allanol, cadarnhawyd nad oes unrhyw amhariad neu newid sylweddol yn y farchnad, ond mae gwerth rhai paentiadau penodol wedi cynyddu ychydig dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Adlewyrchir y cynnydd yma ar y fantolen lle rhoddir gwerth o £111,065 arnynt. Mae'r Cyngor yn berchen ar ddau beintiad sydd wedi eu prisio uwchben y trothwy di-minimis o £10,000. Cedwir y mwyafrif o'r lluniau a phaentiadau yn orielau'r Cyngor, gyda'r gweddill yn adeiladau amrywiol y Cyngor.

Tair amgueddfa sydd yn eiddo i'r Cyngor – Amgueddfa Gwynedd ym Mangor, Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy a Chanolfan Treftadaeth y Crynwyr yn Nolgellau. Mae'r Cyngor yn berchen dau archifdy, Archifdy Caernarfon ac Archifdy Meirionnydd ynghyd â 17 llyfrgell. Yr arteffactau arwyddocaol diweddaraf i'r Cyngor eu prynu oedd casgliad 'Archif Newborough 12fed i'r 20fed Ganrif' yn 2002 a waled yn perthyn i David Lloyd George yn 1999.

Am fwy o wybodaeth, gweler hefyd polisi 1.13 sydd yn nodi ein triniaeth o asedau treftadaeth eraill sydd heb eu cydnabod ar y Fantolen, sef casgliadau llyfrgell ac archifau, a henebion cofrestredig. Mae ein polisi hefyd yn datgan fod gennym rhai asedau a all gael eu categoreiddio fel Asedau Treftadaeth, megis Adeiladau Hanesyddol neu Barciau a Gwarchodfeydd Natur Leol, ond ein bod wedi penderfynu cadw'r rhain yn eu categorïau gwreiddiol (Tir ac Adeiladau neu Asedau Cymunedol).

## NODYN 17 – EIDDO BUDDSODDI

Mae'r eitemau canlynol o incwm a chostau wedi eu cymryd i ystyriaeth yn y llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

| | 2012/13<br>£'000 | 2013/14<br>£'000 |
|---|---|---|
| Incwm rhent o eiddo buddsoddi | 44 | 0 |
| Costau gweithredol uniongyrchol yn deillio o eiddo buddsoddi | 0 | 0 |
| Enillion / (colledion) net | 44 | 0 |

Nid oes cyfyngiadau ar allu'r Awdurdod i adnabod gwerth ei eiddo buddsoddi, nac ychwaith ar hawl yr Awdurdod i'r incwm a'r elw sy'n deillio o'r gwerthiant. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw ymrwymiad cytundebol i brynu, adeiladu na datblygu eiddo buddsoddi na'i atgyweirio, cynnal na gwella.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r symudiad yng ngwerth teg yr eiddo buddsoddi yn ystod y flwyddyn:

| | 2012/13<br>£'000 | 2013/14<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans 1 Ebrill** | **298** | **824** |
| Ychwanegiadau: | | |
| Pryniannau | 0 | 0 |
| Adeiladwaith | 0 | 0 |
| Gwariant dilynol | 0 | 0 |
| Gwarediadau | 0 | 0 |
| Elw / colled net o addasiadau gwerth teg | 0 | 0 |
| Trosglwyddiadau: | | |
| i/o Asedau ar gael i'w gwerthu | 20 | 0 |
| i/o Eiddo, Offer a Chyfarpar | 506 | (724) |
| Newidiadau Eraill | 0 | 0 |
| **Balans 31 Mawrth** | **824** | **100** |

## NODYN 18 – OFFERYNNAU ARIANNOL

### (a) Offerynnau Ariannol - Dosbarthiadau

Diffinnir offeryn ariannol fel unrhyw gytundeb sydd yn creu ased ariannol mewn un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti mewn endid arall. Nid yw trafodion nad ydynt yn cael eu cyfnewid, megis rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r llywodraeth, yn arwain at offerynnau ariannol.

### Ymrwymiadau Ariannol

Mae ymrwymiad ariannol yn golygu dyletswydd i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y Cyngor, a gellir ei gynrychioli drwy ddyletswydd cytundebol i gyflwyno arian parod neu asedau ariannol, neu ddyletswydd i gyfnewid ymrwymiadau ac asedau ariannol gydag endid arall sydd o bosib yn anffafriol i'r Cyngor.

Mae ymrwymiadau ariannol y Cyngor nad ydynt yn ddeilliannol yn ystod y flwyddyn yn cael eu mesur ar gost wedi'i amorteiddio, ac maent yn cynnwys:

- benthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a benthycwyr masnachol
- gorddrafft gyda Barclays Bank plc
- taliadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd

### Asedau Ariannol

Mae ased ariannol yn golygu hawl i fuddion economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Cyngor. Fe'i cynrychiolir gan arian parod neu offerynnau eraill neu hawl cytundebol i dderbyn arian parod neu ased ariannol arall. Mae'r asedau ariannol a ddaliwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn cael eu rhannu i'r tri dosbarth a ganlyn:

Benthyciadau a derbyniadau (asedau ariannol â thaliadau sefydlog neu benodedig, sydd heb eu rhestru mewn marchnad weithredol) yn cynnwys:

- arian parod
- cyfrifon banc
- adneuon cyfnod penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu
- benthyciadau i awdurdodau lleol eraill
- buddsoddiadau wedi'u hamharu ym manciau Gwlad yr Iâ
- derbyniadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a gyflenwyd

Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu (sydd wedi'u rhestru ar farchnad weithredol), sy'n cynnwys:

- cronfeydd marchnadoedd ariannol a chynlluniau buddsoddi cyfunol eraill
- tystysgrifau adneuon a ddyroddir gan fanciau a chymdeithasau adeiladu
- biliau a giltiau'r trysorlys a ddyroddir gan Lywodraeth y DU

Asedau a ddelir ar werth teg drwy elw a cholled, yn cynnwys:

- biliau a giltiau'r trysorlys a ddyroddir gan Lywodraeth y DU
- buddsoddiad ecwiti mewn cwmni gwastraff lleol

**(b) Offerynnau Ariannol – Balansau**

Mae'r Ymrwymiadau a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

| Ymrwymiadau Ariannol | Tymor Hir | | Tymor Byr | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2013 £'000 | 31 Mawrth 2014 £'000 | 31 Mawrth 2013 £'000 | 31 Mawrth 2014 £'000 |
| Benthyciadau ar gost wedi'i amorteiddio: | | | | |
| Prifswm a fenthycwyd* | 95,811 | 111,215 | 17,437 | 1,193 |
| Llog a gronnwyd | 0 | 0 | 694 | 691 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | 95,811 | 111,215 | 18,131 | 1,884 |
| Benthyciadau ar gost wedi'i amorteiddio: | | | | |
| Gorddrafft banc | 0 | 0 | 11,787 | 19,496 |
| **Cyfanswm Arian a Ordynnwyd** | 0 | 0 | 11,787 | 19,496 |
| Ymrwymiadau ar gost wedi'i amorteiddio: | | | | |
| Dyledion Masnachol | 151 | 100 | 0 | 0 |
| Prydlesau Cyllidol | 15 | 2,372 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Ymrwymiadau Tymor Hir** | 166 | 2,472 | 0 | 0 |
| Ymrwymiadau ar gost wedi'i amorteiddio: | | | | |
| Dyledion Masnachol | 0 | 0 | 56,913 | 61,785 |
| Prydlesau Cyllidol | 0 | 0 | 14 | 112 |
| Cynhwyswyd o fewn Credydwyr** | 0 | 0 | 56,927 | 61,897 |
| **Cyfanswm yr Ymrwymiadau Ariannol** | **95,977** | **113,687** | **86,845** | **83,277** |

* Mae'r benthyciadau tymor byr ar 31 Mawrth 2014 yn cynnwys benthyciad o £16,200,000 sydd yn gallu cael ei alw ar gyfer ad-daliad ym mis Gorffennaf 2018. Er hynny, oherwydd y cyfraddau llog isel cyfredol mae'n annhebygol o ddigwydd.

** Mae llinell credydwyr tymor byr ar y Fantolen yn cynnwys £1,393,000 (£1,850,000 ar 31 Mawrth 2013) o gredydwyr nad ydynt yn cyfateb i'r diffiniad o rwymedigaeth ariannol. Gweler Nodyn 23 am wybodaeth bellach.

Mae'r asedau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

| **Asedau Ariannol** | **Tymor Hir** | | **Tymor Byr** | |
|---|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2013 £'000** | **31 Mawrth 2014 £'000** | **31 Mawrth 2013 £'000** | **31 Mawrth 2014 £'000** |
| Benthyciadau a Derbyniadau: | | | | |
| Prifswm ar gost wedi'i amorteiddio | 17 | 17 | 35,000 | 27,000 |
| Llog cronnus | 0 | 0 | 214 | 83 |
| Buddsoddiadau wedi'i amharu | 0 | 0 | 415 | 0 |
| Buddsoddiadau ar gael i'w gwerthu: | | | | |
| Prifswm ar gost wedi'i amorteiddio | 60 | 60 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **77** | **77** | **35,629** | **27,083** |
| Benthyciadau a Derbyniadau: | | | | |
| Arian | 0 | 0 | 61 | 61 |
| Cyfwerthydd Arian ar gost wedi'i amorteiddio | 0 | 0 | 13,030 | 20,825 |
| **Cyfanswm Arian a Chywerthoedd Arian** | **0** | **0** | **13,091** | **20,886** |
| Benthyciadau a Derbyniadau: | | | | |
| Derbyniadau Masnach | 4,191 | 4,521 | 12,520 | 21,361 |
| Cynhwyswyd mewn Dyledwyr* | **4,191** | **4,521** | **12,520** | **21,361** |
| **Cyfanswm Asedau Ariannol** | **4,268** | **4,598** | **61,240** | **69,330** |

* Mae llinell tymor byr dyledwyr ar y Fantolen yn cynnwys £30,701,000 (£32,352,000 ar 31 Mawrth 2013) o ddyledwyr nad ydynt yn cwrdd â'r diffiniad o ased ariannol. Gweler Nodyn 20 am wybodaeth bellach.

**Benthyciadau Meddal - Balansau**

Mae gan Awdurdodau Lleol yr hawl i roi benthyciadau am resymau polisi yn hytrach na fel offerynnau ariannol, ac fe all y benthyciadau yma fod yn ddi-log neu ar gyfraddau is na chyfraddau cyffredinol y farchnad. Pan mae benthyciadau yn cael eu dyroddi ar gyfradd is na chyfradd y farchnad maent yn cael eu hadnabod fel "Benthyciadau Meddal".

Mae gwerth teg y benthyciadau meddal yma yn llai na chyfanswm yr arian a fenthyciwyd. Mae gwerth teg benthyciad, sy'n cael ei roi yn ddi-log neu ar gyfradd is na chyfradd gyffredinol y farchnad, yn cael ei amcangyfrif fel gwerth presennol yr holl dderbyniadau arian a dderbynnir yn y dyfodol wedi ei ddisgowntio yn defnyddio cyfradd llog y farchnad gyffredinol ar gyfer offeryn cyffelyb. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm a fenthycir a gwerth teg y benthyciad yn cael ei gynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant. Mae Côd Ymarfer 2013/14 yn gosod gofynion cyfrifeg a datgeliad penodol ar gyfer benthyciadau meddal. Yn ystod 2013/14 fe adnabu Cyngor Gwynedd y "benthyciadau meddal" canlynol:

- Taliadau Gohiriedig am dderbyniad taliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.14 = £2,875,949)
- Benthyciadau Ceir a Beic i weithwyr (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.14 = £974,543)

Daethpwyd i benderfyniad nad yw'r ychydig o fenthyciadau "meddal" sydd gan y Cyngor yn ymofyn datgeliad ar wahân gan eu bod yn de minimus.

**(c) Offerynnau Ariannol – Enillion a Cholledion**

Mae'r enillion a'r colledion a nodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas â'r offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:

| | Ymrwymiadau Ariannol | Asedau Ariannol | |
|---|---|---|---|
| | Costau'r ymrwymiadau wedi'u hamorteiddio | Benthyciadau a Derbyniadau | Cyfanswm 2013/14 |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Costau Llog | 6,682 | 0 | 6,682 |
| Enillion Amhariad | 0 | (207) | (207) |
| **Llog taladwy a ffioedd tebyg** | **6,682** | **(207)** | **6,475** |
| Incwm y llog | 0 | (445) | (445) |
| **Incwm y llog a'r buddsoddiad** | **0** | **(445)** | **(445)** |
| **(Enillion) / colledion net y flwyddyn** | **6,682** | **(652)** | **6,030** |

**(d) Offerynnau Ariannol – Gwerthoedd Teg**

Mae asedau ariannol a ddynodir fel benthyciadau a derbyniadau a'r holl ymrwymiadau ariannol nad ydynt yn ddeilliannol yn cael eu prisio yn y fantolen ar sail cost wedi'u hamorteiddio. Amcangyfrifwyd eu gwerthoedd teg drwy gyfrifo gwerth net presennol y llif arian oedd yn weddill o dan y cytundeb ar 31 Mawrth 2014, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- mae benthyciadau'r PWLB wedi'u disgowntio ar y cyfraddau llog a gyhoeddwyd ar gyfer benthyciadau newydd cyfradd sicrwydd a drefnwyd ar 31 Mawrth.
- mae benthyciadau a buddsoddiadau tymor hir eraill wedi'u disgowntio ar gyfraddau'r farchnad ar gyfer offerynnau cyffelyb ar 31 Mawrth.
- ni chydnabyddir ad-daliadau cynnar nac amhariadau.
- rhagdybir bod gwerth teg offerynnau tymor byr, gan gynnwys dyledion masnach a derbyniadau yn cyfateb yn agos i'r swm cario.
- yn achos ymrwymiadau wedi'u gohirio (megis prydlesau ariannol) mae'r awdurdod yn tybio bod y swm cario yn amcangyfrif rhesymol o'r gwerth teg.

| | Gwerth i'w gario 31 Mawrth 2013 | Gwerth teg 31 Mawrth 2013 | Gwerth i'w gario 31 Mawrth 2014 | Gwerth teg 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Ymrwymiadau Ariannol:** | | | | |
| Benthyciadau | (113,942) | (152,632)* | (113,099) | (140,550) |
| Lesau cyllidol | (29) | (29) | (2,484) | (2,484) |
| Dyledion masnachol | (57,064) | (57,064) | (61,785) | (61,785) |
| **Cyfanswm Ymrwymiadau Ariannol** | **(171,035)** | **(209,725)** | **(177,368)** | **(204,819)** |
| **Asedau Ariannol:** | | | | |
| Buddsoddiadau tymor hir | 77 | 77 | 77 | 77 |
| Buddsoddiadau tymor byr | 35,415 | 35,629 | 27,000 | 27,083 |
| Derbyniadau Masnachol | 16,711 | 16,711 | 21,361 | 21,361 |
| **Cyfanswm Asedau Ariannol** | **52,203** | **52,417** | **48,438** | **48,521** |

*Mae'r ffigwr wedi ei ail ddatgan gan fod sail gwerth teg wedi newid o PRR (Premature Repayment Rate) i CNLR (Certainty New Loan Rate)

Mae gwerth teg yr ymrwymiadau tymor hir yn uwch na'r swm cario gan fod portffolio benthyciadau'r awdurdod yn cynnwys nifer o fenthyciadau sydd â chyfradd llog taladwy sy'n uwch na'r cyfraddau llog sydd ar gael ar gyfer benthyciadau cyffelyb ar ddyddiad y Fantolen.

Roedd mwyafrif o bortffolio buddsoddi'r Cyngor ar ddyddiad y Fantolen yn cynnwys adneuon cyfnod penodol gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, ac adneuon cyfrifon ar alw/ar rybudd. Roedd dyddiad aeddfedu'r buddsoddiadau hyn oll o fewn cyfnod o 12 mis i ddyddiad y Fantolen.

Yn ystod 2008/09, roedd y Cyngor wedi adneuo £4m gyda Heritable Bank, banc wedi'i gofrestru yn y DU dan Gyfraith yr Alban. Rhoddwyd y cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr ar 7 Hydref 2008. Amlinellwyd yn yr adroddiad cynnydd credydwyr a gyhoeddwyd gan y gweinyddwyr Ernst and Young, dyddiedig 17 Ebrill 2009, y byddai credydwyr yn adennill 80c yn y £ erbyn diwedd 2013, gyda'r taliad difidend cyntaf o 15c yn y £ yn cael ei dalu yn ystod haf 2009.

Derbyniodd y Cyngor ddychweliad o 77.25%, sef £3,105,729 gan y gweinyddwyr hyd at 31 Mawrth 2013. Yn ystod 2013/14 dosbarthwyd 16.74% pellach gan y gweinyddwyr a oedd yn dod a chyfanswm y dychweliad i 93.99%, sef £3,778,352.60 yn erbyn adnau gwreiddiol o £4m. Mynegir yr adenillion fel canran o gais yr Awdurdod yn y weinyddiaeth, sy'n cynnwys y llog a gronnwyd hyd at 6 Hydref 2008.

Canlyniad y derbyniad yn ystod 2013/14 oedd lleihad o £240,799 i'r amhariad a gyfrifwyd ar 31 Mawrth 2013. Derbyniwyd cynnydd perthnasol o £16,315 yn y llog damcaniaethol hefyd. Mae cyfran berthnasol o leihad yn yr amhariad (£34,022) a'r llog damcaniaethol (£2,305) wedi'i ddynodi i'r Gronfa Bensiwn. Mae'r ddau addasiad wedi'u cynnwys o fewn Incwm Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**(e) Offerynnau Ariannol - Risgiau**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Côd Ymarfer ar Reolaeth y Trysorlys (ac addasiadau dilynol) CIPFA ac yn cydymffurfio â'r *Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities* (diwygwyd y ddau yn Nhachwedd 2011).

Fel rhan o fabwysiadu'r Côd Rheolaeth y Trysorlys, mae'r Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys cyn i bob blwyddyn ariannol newydd gychwyn. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r paramedrau ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys sy'n manylu ar y trefniadau ymarferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hynny.

Mae'r Strategaeth Rheoli y Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn unol ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol. Pwysleisia'r Arweiniad hwn y dylid rhoi blaenoriaeth i sicrwydd a hylifedd, yn hytrach na chynnyrch. Mae Strategaeth Trysorlys y Cyngor, ynghyd â'i Arferion Rheoli y Trysorlys yn seiliedig ar chwilio am y raddfa uchaf posib o adenillion yn seiliedig ar y lefelau cymesuredd o sicrwydd a hylifedd.

Mae hyn yn cynnwys y prif risgiau a ganlyn:

- *Risg Credyd:* Y posibilrwydd y bydd un parti mewn offeryn ariannol yn methu â chyflawni ymrwymiadau ei gytundeb, gan beri colled i'r parti arall.
- *Risg Hylifedd:* Y posibilrwydd na fydd y Cyngor yn gallu codi digon o arian i ddiwallu'r ymrwymiad ariannol sydd ynghlwm ag Offerynnau Ariannol.
- *Risg y Farchnad:* Y posibilrwydd y bydd gwerth offeryn yn anwadal oherwydd newidiadau i'r cyfraddau llog, prisiau'r farchnad ac ati.

**Risg Credyd: Buddsoddiadau**

Mae'r Cyngor yn rheoli risg credyd drwy sicrhau bod ei holl fuddsoddiadau'n cael eu gwneud gyda sefydliadau sydd ag ansawdd credyd uchel, fel y nodir yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys. Mae'r rhain yn cynnwys endidau masnachol gydag isafswm statws credyd o A-, ac awdurdodau lleol eraill heb statws credyd. Gan gydnabod nad yw credyd-raddio bob amser yn medru rhagweld diffygdalu, mae'r Cyngor hefyd yn ystyried mesurau eraill gan gynnwys cyfnewid diffygdalu credyd a phrisiau ecwiti wrth ddewis sefydliadau masnachol ar gyfer buddsoddi.

Bydd uchafswm o £12m o'r holl bortffolio yn cael ei osod ar y swm o arian y gellir ei fuddsoddi gyda gwrth barti unigol. Mae'r Cyngor hefyd yn gosod uchafswm cyfanswm buddsoddiad grŵp o £18m ar gyfer sefydliadau sy'n rhan o'r un grŵp bancio. Ni ellir buddsoddi mwy na chyfanswm o £35m am gyfnod hwy na blwyddyn.

Ni ellir cynnig asesiad cyffredinol o ba mor agored yw'r Cyngor i risg credyd mewn perthynas â'i fuddsoddiadau o £27m gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, gan fod y risg o fethu talu'r llog neu ad-dalu'r prif swm yn neilltuol i bob sefydliad unigol. Dengys profiad diweddar mai prin iawn yw'r achosion pan fo endidau o'r fath yn methu cyflawni'u hymrwymiadau. Mae'r risg o fethu adfer arian yn perthyn i holl adneuon y Cyngor, ond ar 31 Mawrth 2014 nid oedd unrhyw dystiolaeth y byddai'r risg yn debygol o gael ei wireddu.

Nid yw'r Cyngor yn dal gwarant gyfochrog yn erbyn unrhyw fuddsoddiadau.

Ceir crynodeb yn y tabl isod o werth risg credyd portffolio buddsoddi'r Cyngor fesul cyfradd credyd:

| **Cyfradd Credyd** | **Tymor Byr** | |
|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2013 £'000** | **31 Mawrth 2014 £'000** |
| AAA | 5,000 | 0 |
| AA+ | 0 | 0 |
| AA | 0 | 0 |
| AA- | 10,000 | 10,000 |
| A+ | 5,000 | 0 |
| A | 28,030 | 37,825 |
| A- | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **48,030** | **47,825** |

**Derbyniadau Masnachol**

Mae gan y Cyngor nifer o ddyledwyr tymor hir gan gynnwys benthyciadau ceir a beiciau i weithwyr a morgeisi i aelodau'r cyhoedd. Ystyrir y benthyciadau ceir fel risg isel oherwydd y gallu i ddiddymu'r ad-daliadau o gyflogau'r gweithwyr, trefniadau trosglwyddo cytbwys gydag awdurdodau lleol eraill, parthed unrhyw weithwyr sy'n trosglwyddo gyda benthyciad ceir yn ddyledus trefniadau penodol ar gyfer methdalwyr a threfniadau adennill dyled arferol ar gyfer unrhyw weithwyr sydd yn gadael cyflogaeth llywodraeth leol. Mae'r morgeisi yn risg isel oherwydd bod y Cyngor yn dal arwystl cyntaf dros yr eiddo a forgeisiwyd.

Etifeddodd y Cyngor nifer fach a gwerth bach o fenthyciadau tymor hir i gwmnïau a sefydliadau lleol gan y cyn-gynghorau. Dim ond un o'r benthyciadau hyn sy'n parhau'n ddyledus ac mae'r hanes ad-dalu yn ardderchog.

Mae'r Cyngor wedi lansio Cronfa Benthyciadau Busnes i fusnesau bychan a chanolig o ran maint yng Ngwynedd. Mae'r cyfraddau llog a gyfyd ar fenthyciadau o'r fath yn gyfesur â'r risg credyd uwch sy'n ymglymedig â'r math yma o fenthyciadau.

**Risg Hylifedd**

Mae gan y Cyngor fynediad parod i fenthyciadau ar gyfraddau ffafriol o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac awdurdodau lleol eraill, ac ar gyfraddau uwch gan fanciau a chymdeithasau adeiladu. Nid oes unrhyw risg ymddangosiadol y bydd y Cyngor yn methu codi cyllid i gwrdd â'i ymrwymiadau. Er hyn, mae risg y bydd yn rhaid i'r Cyngor adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg lle mae'r cyfraddau llog yn anffafriol. Rheolir y risg hwn drwy gynnal amrediad o fenthyciadau gyda chyfraddau sefydlog a sicrhau nad yw mwy na 25% o fenthyciadau'r Cyngor yn aeddfedu mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi dadansoddiad o aeddfedrwydd gwerth enwol dyled y Cyngor:

| **Amser tan aeddfedrwydd (blynyddoedd)** | **31 Mawrth 2013 £'000** | **31 Mawrth 2014 £'000** |
|---|---|---|
| Llai na flwyddyn | 1,237 | 1,193 |
| Dros 1 ond llai na 2 | 1,123 | 199 |
| Dros 2 ond llai na 5 | 4,490 | 4,625 |
| Dros 5 ond llai na 10 | 5,904 | 8,069 |
| Dros 10 ond llai na 20 | 25,572 | 39,305 |
| Dros 20 ond llai na 30 | 31,369 | 15,464 |
| Dros 30 ond llai na 40 | 0 | 0 |
| Dros 40 | 27,353 | 27,352 |
| Dyddiad ansicr* | 16,200 | 16,200 |
| **Cyfanswm** | **113,248** | **112,407** |

* Mae gan y Cyngor £16.2m o fenthyciadau "Lender's option, borrower's option" (LOBO) lle bo'r opsiwn gan y benthyciwr i gynnig codiad yn y gyfradd a delir; bydd gan y Cyngor hawl wedyn i dderbyn y gyfradd newydd neu ad-dalu'r benthyciad heb gosb. Oherwydd y cyfraddau llog isel cyfredol, er nad yw'n debygol y bydd y benthyciwr yn ymarfer ei opsiwn, os yw hyn yn digwydd, mae'n debygol y byddai'r Cyngor yn ad-dalu'r benthyciad. Mae'r dyddiad aeddfedrwydd felly yn ansicr.

**Risg y Farchnad : Risg Cyfraddau Llog**

Mae'r Cyngor yn agored i risgiau sy'n codi o symudiadau yn y cyfraddau llog ar ei benthyciadau a buddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effeithiau cymhleth ar yr awdurdod. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn arwain at yr effeithiau a ganlyn:

- benthyciadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r gwariant llog yn cynyddu.
- benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr ymrwymiadau benthyca yn disgyn.
- buddsoddiadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r incwm llog sydd yn cael ei gredydu yn cynyddu.
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr asedau yn disgyn.

Nid yw buddsoddiadau a nodir fel "benthyciadau a derbyniadau" a benthyciadau a ddelir yn cael eu cario ar werth teg, ac felly ni fydd newidiadau i'w gwerth teg yn effeithio ar yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae'r newidiadau yn y llog sy'n daladwy ac yn ddyledus ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfraddau cyfnewidiol yn cael eu nodi ar y Gweddill neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau. Caiff symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog a ddynodir fel "ar gael i'w gwerthu" eu hadlewyrchu yn yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Mae Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn ceisio lleihau'r risgiau hyn drwy osod uchafswm ar y symiau net sy'n agored i gyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol. Ar 31 Mawrth 2014 roedd 100% o'r prif symiau net a fenthycwyd (h.y. dyled net o fuddsoddiad) yn agored i gyfraddau sefydlog a 0% i gyfraddau cyfnewidiol.

Petai'r holl gyfraddau llog wedi bod 1% yn uwch neu lai (gyda'r elfennau newidiol eraill oll yn gyson), yr effaith ariannol fyddai:

| | **1% yn uwch £'000** | **1% yn llai £'000** |
|---|---|---|
| Newid yn y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau cyfradd newidiol | 0 | 0 |
| Newid yn y llog sy'n daladwy ar fuddsoddiadau cyfradd newidiol | 243 | (89) |
| **Effaith ar y Gweddill neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **243** | **(89)** |
| Newid yng ngwerth teg yr asedau buddsoddiad cyfradd sefydlog | 0 | 0 |
| **Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | **243** | **0** |
| Newid yng ngwerth teg benthyciadau / ymrwymiadau cyfradd sefydlog* | (15,787) | 15,787 |

*Dim effaith ar y Gweddill neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, nac ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

**Risg y Farchnad : Risg Pris**

Mae prisiau marchnad buddsoddiadau'r Cyngor mewn bondiau cyfradd sefydlog a'i unedau mewn cynlluniau buddsoddi cyfunol yn cael eu llywodraethu gan y cyfraddau llog cyffredinol, a rheolir y risg marchnad sy'n gysylltiedig â'r offerynnau hyn ar y cyd â'r risg cyfraddau llog.

Nid yw'r Cyngor yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti ac felly nid yw'n agored i risg pris. Mae'r Cyngor yn berchen ar gyfranddaliadau yng Nghwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol (LAWDC). Mae'r gweithgareddau perthnasol wedi eu mewnoli, a'r cwmni yn cael ei ddirwyn i ben ac felly wedi cael ei ddynodi fel ased sydd ar gael i'w werthu a'r gwerth teg wedi ei ddatgan ar y Fantolen. Derbyniwyd setliad rhannol am werth teg y cyfranddaliadau yn ystod 2008/09 a 2009/10 ac mae'r balans yn parhau'n ddyledus. Ni ellir cwblhau'r broses yma yn derfynol nes bod materion treth benodol a perthnasol wedi eu datrys gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

**Risg y Farchnad : Risg y Gyfnewidfa Dramor**

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau nac ymrwymiadau ariannol mewn arian tramor. Felly nid yw'n agored i golledion o ganlyniad i symudiadau niweidiol mewn cyfraddau cyfnewid.

## NODYN 19 – STOC

| 2012/13 £'000 | | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| 1,257 | Stoc a Gwaith mewn Llaw | 1,455 |
| **1,257** | | **1,455** |

## NODYN 20 – DYLEDWYR TYMOR BYR

| | Dyledwyr NET o amhariad | |
|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2013 £'000** | **31 Mawrth 2014 £'000** |
| Llywodraeth Cymru | 20,606 | 21,027 |
| Cyrff Llywodraeth Ganolog Eraill | 6,360 | 4,164 |
| Awdurdodau Lleol Eraill | 3,902 | 6,046 |
| Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol | 2,315 | 2,113 |
| Corfforaethau Cyhoeddus a Masnachu | 32 | 45 |
| Treth Cyngor | 1,773 | 1,927 |
| Endidau Eraill ac Unigolion | 9,884 | 16,740 |
| **Cyfanswm** | **44,872** | **52,062** |

## NODYN 21 – ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN

Mae arian yn cynnwys arian parod ac arian ar adnau yn ôl y galw. Bydd arian parod hefyd yn cynnwys gorddrafft gan fanciau y mae'n rhaid eu had-dalu yn ôl y galw, ac sy'n greiddiol i reolaeth arian yr awdurdod.

Mae balansau a ddisgrifir fel 'Cyfwerthoedd Arian' yn cael eu diffinio fel buddsoddiadau tymor byr hylifol, y gellir eu trosi'n rhwydd i arian parod, ac nad oes llawer o risg iddynt newid yn eu gwerth.

Mae balans net yr Arian a Chyfwerthoedd Arian yn cynnwys yr elfennau a ganlyn ar ddyddiad y Fantolen:

| | **31 Mawrth 2013** | **31 Mawrth 2014** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Arian mewn llaw | 14 | 14 |
| Cyfrif Banc Cyfredol | 47 | 47 |
| Cyfrif Galw | 13,030 | 20,825 |
| | 13,091 | 20,886 |
| Gorddrafft Banc | (11,787) | (19,496) |
| | **1,304** | **1,390** |

Er mwyn uchafu'r adenillion o Fuddsoddiadau Tymor Byr ac Adneuon Banc, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian sydd dros ben yn eu cyfrifon banc yn y tymor byr ynghyd ag unrhyw arian sydd dros ben yng nghyfrifon banc Cronfa Bensiwn Gwynedd. Telir rhaniad priodol o'r llog a enillir i'r Gronfa Bensiwn a rhennir unrhyw golledion ar fuddsoddiadau gyda'r Gronfa Bensiwn yn yr un modd. Oherwydd natur y trefniadau banc nid yw'r arian sydd dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor ac felly mae rhan o'r Buddsoddiadau Tymor Byr (Nodyn 18) a'r Cyfrif Galw a Chronfeydd Marchnad Arian a ddangosir uchod yn cynrychioli arian sydd wedi ei fuddsoddi ar ran y Gronfa Bensiwn ar ddyddiad y fantolen. Oherwydd y ffaith fod y Buddsoddiadau Tymor Byr yn enw Cyngor Gwynedd, maent yn ymddangos yn eu cyfanrwydd ar y Fantolen. £12.1m (£7.4m ar 31 Mawrth 2013) oedd elfen Buddsoddiadau Tymor Byr ac Adneuon Banc y Gronfa Bensiwn.

## NODYN 22 – ASEDAU AR GAEL I'W GWERTHU

| | **2012/13** | **2013/14** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Balans 1 Ebrill** | **1,607** | **2,905** |
| <u>Asedau newydd eu dosbarthu fel rhai ar gael i'w gwerthu:</u> | | |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | 1,602 | 1,199 |
| Gwariant yn y flwyddyn | 2 | 16 |
| Colledion Ailbrisio | 0 | 0 |
| Enillion Ailbrisio | 0 | 0 |
| Colledion Amharu | (2) | (16) |
| <u>Asedau wedi eu tynnu allan o'r dosbarth sydd ar gael i'w gwerthu:</u> | | |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | (60) | (1,062) |
| Asedau wedi eu gwerthu | (244) | (554) |
| Trosglwyddo o anghyfredol i cyfredol | 0 | |
| **Balans 31 Mawrth** | **2,905** | **2,488** |

## NODYN 23 – CREDYDWYR TYMOR BYR

| | 31 March 2013 £'000 | 31 March 2014 £'000 |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 567 | 1,055 |
| Cyrff Llywodraeth Ganolog Eraill | 6,699 | 4,301 |
| Awdurdodau Lleol Eraill | 19,787 | 19,796 |
| Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol | 847 | 587 |
| Corfforaethau Cyhoeddus a Masnachu | 192 | 136 |
| Treth Cyngor | 905 | 1,012 |
| Endidau Eraill ac Unigolion | 29,780 | 36,404 |
| **Cyfanswm** | **58,777** | **63,291** |

## NODYN 24 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyngor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymiadau penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny yn Nodyn 10.

Mae'r manylion isod wedi eu rhannu'n ddarpariaethau tymor byr (o fewn 12 mis) a darpariaethau tymor hir (dros 12 mis). Fodd bynnag, cynhelir adolygiad cyfnodol ar lefel darpariaeth yr eitemau perthnasol.

| | Balans ar 31 Mawrth 2013 £'000 | (Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad £'000 | Defnyddiwyd yn y flwyddyn £'000 | Balans ar 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Darpariaethau Tymor Byr** | | | | |
| Darpariaeth Safle Gwastraff | (1,160) | (721) | 1,429 | (452) |
| Eraill | (27) | 0 | 0 | (27) |
| | (1,187) | (721) | 1,429 | (479) |
| **Darpariaethau Tymor Hir** | | | | |
| Ad-daliad Trosglwyddiadau Treth y Cyngor | (250) | 0 | 0 | (250) |
| Adolygiad Tâl | (2,188) | 0 | 97 | (2,091) |
| Darpariaeth Safle Gwastraff | (8,705) | 0 | 721 | (7,984) |
| Darpariaeth Achosion Trydydd Parti | (445) | 0 | 257 | (188) |
| Darpariaeth Yswiriant MMI | (198) | (212) | 212 | (198) |
| Eraill | (113) | 0 | 0 | (113) |
| | (11,899) | (212) | 1,287 | (10,824) |
| **Cyfanswm** | **(13,086)** | **(933)** | **2,716** | **(11,303)** |

**Darpariaeth Ad-daliad Trosglwyddiadau Treth y Cyngor -** Darpariaeth gysylltiedig â'r colledion yn deillio o drosglwyddiadau eiddo o Dreth y Cyngor i Drethi Annomestig Cenedlaethol.

**Darpariaeth Adolygiad Tâl** – darpariaeth mewn perthynas ag achosion a hawliadau cyflog cyfartal yn erbyn y Cyngor.

**Darpariaeth Safleoedd Gwastraff** – ar gyfer gofynion gwaith capio ac ôl-ofal holl safleoedd gwaredu gwastraff y Cyngor.

**Darpariaeth Achosion Trydydd Parti** – mewn perthynas ag achosion a hawliadau trydydd parti yn erbyn y Cyngor.

**Darpariaeth M.M.I. (Yswiriant Municipal Mutual)** – darpariaeth gan fod yr Awdurdod yn agored i ymrwymiadau yswiriant a etifeddwyd ac yn ymwneud â threfniadau yswiriant ei Awdurdodau blaenorol ac Yswiriant Municipal Mutual.

**Darpariaethau Eraill** – Mân faterion yw'r darpariaethau unigol eraill.

## NODYN 25 – RESERFAU DEFNYDDIADWY

Mae'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau yn manylu ar y symudiad yn reserfau defnyddiadwy'r Awdurdod.

## NODYN 26 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| 31 Mawrth 2013 £'000 | | 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| 44,043 | Reserf Ailbrisio | 41,009 |
| 60 | Reserf Offerynnau Ariannol ar Gael i'w Gwerthu | 60 |
| 163,466 | Cyfrif Addasu Cyfalaf | 169,777 |
| (959) | Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | (948) |
| 6 | Reserf Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig | 4 |
| (168,179) | Reserf Pensiynau | (191,006) |
| (3,201) | Cyfrif Absenoldeb Cronedig | (3,766) |
| **35,236** | **Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio** | **15,130** |

**Reserf Ailbrisio**

Mae'r Reserf Ailbrisio yn cynnwys enillion wnaed gan yr Awdurdod yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar. Gostyngir y balans pan gaiff asedau gydag enillion cronedig eu:

- ailbrisio i lawr neu eu hamharu a bod yr enillion yn cael eu colli.
- defnyddio i ddarparu gwasanaethau a bod yr enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiant, neu
- gwaredu a'r enillion yn cael eu cyflawni.

Dim ond enillion ailbrisio sydd wedi eu cronni ers 1 Ebrill 2007, sef dyddiad creu'r Reserf, sy'n cael eu cynnwys yn y Reserf. Caiff unrhyw enillion sydd wedi eu cronni cyn y dyddiad yma eu cynnwys ym malans y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| 2012/13 £'000 | | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| **50,736** | **Balans 1 Ebrill** | **44,043** |
| 1,057 | Ailbrisio asedau i fyny | 263 |
| (6,518) | Ailbrisio asedau i lawr a cholledion amharu | (1,692) |
| (5,461) | Gwarged neu ddiffyg wrth ailbrisio asedion | (1,429) |
| (911) | Gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant hanesyddol | (1,066) |
| (321) | Elw cronedig ar asedion a werthwyd | (539) |
| (1,232) | Swm i'w sgwennu i ffwrdd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | (1,605) |
| **44,043** | **Balans 31 Mawrth** | **41,009** |

**Reserf Offerynnau Ariannol ar gael i'w Gwerthu**

Mae'r Reserf Offerynnau Ariannol ar gael i'w Gwerthu yn cynnwys yr enillion wnaed gan yr Awdurdod o ganlyniad i gynnydd yng ngwerth ei fuddsoddiadau sydd unai â phris marchnad a ddyfynnwyd, neu sydd heb daliadau penodol neu sefydlog. Gostyngir y balans pan mae buddsoddiadau gydag elw cronedig yn cael eu:

- ailbrisio i lawr neu eu hamharu a'r elw'n cael ei golli
- gwerthu a'r elw'n cael ei gyflawni.

| 2012/13 £000 | | 2013/14 £000 |
|---|---|---|
| 60 | **Balans 1 Ebrill** | 60 |
| 0 | Ailbrisio buddsoddiadau i fyny | 0 |
| 0 | Ailbrisio buddsoddiadau nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Gweddill/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau i lawr | 0 |
| 0 | Enillion cronedig ar asedau wedi eu gwerthu ac asedau aeddfed sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel Incwm Buddsoddi Arall | 0 |
| **60** | **Balans 31 Mawrth** | **60** |

**Cyfrif Addasiadau Cyfalaf**

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amser sy'n codi oherwydd y gwahaniaethau mewn trefniadau cyfrifeg am ddefnyddio asedau tymor hir a chyllido'r prynu, adeiladu a gwella yr asedau o dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda'r gost o brynu, adeiladu a gwella gan fod dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddio yn cael ei gyfrifo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda thrafodion cysoni yn y Reserf Ailbrisio i drawsnewid y ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Mae'r Cyfrif yn cael ei gredydu gyda'r swm wedi ei neilltuo gan yr Awdurdod fel cyllid i brynu, adeiladu a gwella asedau.

Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi ac enillion wedi eu hadnabod ar asedau rhoddi sydd heb eu treulio eto gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisio wedi cronni ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y creuwyd y Reserf Ailbrisio i gofnodi enillion o'r fath.

Mae Nodyn 9 yn dangos manylion yr holl drafodion o fewn y Cyfrif, ond am y rhai sydd yn cael eu cynnwys yn y Reserf Ail-brisio.

| 2012/13 £'000 | | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| **152,154** | **Balans 1 Ebrill** | **163,466** |
| | Gwrthdroi eitemau sydd yn berthnasol i wariant cyfalaf sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: | |
| (18,167) | Dibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol | (25,426) |
| (6,452) | Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf drwy Statud | (6,222) |
| (491) | Addasiad i falansau asedau anghyfredol wrth werthu | (686) |
| 911 | Trosglwyddo o'r Reserf Ailbrisio Cyfalaf | 1,066 |
| | Ariannu Cyfalaf a gyfeiriwyd yn y flwyddyn: | |
| 2,345 | Derbyniadau Cyfalaf | 1,377 |
| 19,170 | Grantiau a chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i ariannu cyfalaf | 18,989 |
| 5,692 | Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | 5,731 |
| 7,574 | Gwariant Cyfalaf wedi ei gyfeirio yn y flwyddyn i'r Gronfa Gyffredinol | 10,516 |
| 730 | Derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd / Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | 966 |
| **163,466** | **Balans 31 Mawrth** | **169,777** |

**Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol**

Sefydlwyd y Cyfrif Addasiadau i Offerynnau Ariannol (FIAA) ar 1 Ebrill 2007 pan fabwysiadwyd Safonau Adrodd Ariannol 25, 26 a 29 sy’n berthnasol i Offerynnau Arianol gan y Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (SORP 2007). Mae’r balans yn y cyfrif FIAA ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cynrychioli’r swm y dylai fod wedi’i godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn unol ag arferion cyfrifo cywir o dan y Côd Ymarfer, ond y mae Darpariaethau Statudol yn caniatáu neu’n gorfodi iddynt gael eu gohirio dros flynyddoedd dilynol.

Mae’n ofynnol i bob premiwm a disgownt o ganlyniad i ddiddymu benthyciadau o 1 Ebrill 2006 ymlaen gael eu codi’n llawn ar Incwm a Gwariant. Lle bo’r trafodion yn cwrdd â’r diffiniad o gyfaddasiad mae unrhyw bremiwm neu ddisgownt yn cael ei ychwanegu at werth cario’r benthyciad, ac yn cael ei amorteiddio i’r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros oes y benthyciad newydd. Mae cyfaddasiad yn digwydd pan nad yw telerau’r ddyled newydd yn “sylweddol wahanol” i rai’r hen ddyled.

Caiff premiymau a disgowntiau sy’n berthnasol i drafodion a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2006 eu dosbarthu’n rhai sydd yn grog a rhai nad ydynt yn grog. Mae premiymau a disgowntiau crog yn rhai na ellir eu cysylltu gyda benthyciad sy’n parhau. Cafodd y rhain eu dileu’n llawn fel addasiad i Falansau’r Gronfa Gyffredinol a Ddygir Ymlaen ar 1 Ebrill 2007.

Yn achos premiymau neu ddisgowntiau crog, neu’r rhai sy’n perthyn i ddyledion sydd wedi’u dileu, mae Darpariaethau Statudol yn bodoli sy’n anwybyddu darpariaethau’r Côd Ymarfer. Caiff y taliadau a godir eu gwrthdroi yn y Datganiad o’r Symudiad yn y Reserfau a chaiff premiymau a disgowntiau eu hamorteiddio i Refeniw dros gyfnod o flynyddoedd. Lle nad yw premiymau a disgowntiau yn grog, neu lle maent yn gysylltiedig â thrafodion sy’n cwrdd â meini prawf cyfaddasu benthyciad, nid yw’r darpariaethau statudol yn ymwneud â’r Gronfa Gyffredinol yn gymwys.

Gall premiymau sydd wedi’u hamorteiddio o dan ddarpariaethau statudol gael eu codi ar y Gronfa Gyffredinol, naill ai dros weddill oes y benthyciad gwreiddiol neu dros oes y benthyciad newydd, p’run bynnag yw’r cyfnod hwyaf. Rhaid i ddisgownt gael ei gredydu i’r Gronfa Gyffredinol naill ai dros 10 mlynedd neu dros oes y benthyciad gwreiddiol, p’run bynnag yw’r cyfnod byrraf.

Mae’r trafodion a adlewyrchir yn yr FIAA ar gyfer 2013/14 fel a ganlyn:

| 2012/13 £000 | | 2013/14 £000 |
|---|---|---|
| (1,015) | **Balans 1 Ebrill** | (959) |
| 46 | Cyfran o bremiymau sy'n berthnasol i flynyddoedd blaenorol sydd yn gynwysiedig ym malansau'r Gronfa Gyffredinol yn unol â gofynion statudol | 46 |
| 10 | Credyd gohiriedig am dderbyniad taliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal | (35) |
| **(959)** | **Balans 31 Mawrth** | **(948)** |

**Reserf Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig**

Mae'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig yn dal yr enillion cydnabyddedig sy'n deillio o werthu asedau anghyfredol, nad oes taliad ariannol wedi ei wneud amdanynt eto. Yn unol â threfniadau statudol, nid yw'r Awdurdod yn trin yr enillion hyn fel rhai y gellir eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf newydd hyd nes y derbynnir yr arian amdanynt. Unwaith mae'r setliad ariannol yn digwydd, mae'r symiau yn cael eu trosglwyddo i'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf.

| 2012/13 £000 | | 2013/14 £000 |
|---|---|---|
| 8 | **Balans 1 Ebrill** | 6 |
| (2) | Ad-dalu Prifswm Morgeisi Hawl i Brynu | (2) |
| **6** | **Balans 31 Mawrth** | **4** |

**Reserf Pensiynau**

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau sydd wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion enillwyd gael eu hariannu fel y mae'r Awdurdod yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n bennaf gyfrifol amdanynt. Mae balans debyd y Reserf Bensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enillwyd gan gyn-weithwyr a gweithwyr presennol a'r adnoddau mae'r Awdurdod wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

| 2012/13 £000 | | 2013/14 £000 |
|---|---|---|
| (128,153) | **Balans 1 Ebrill** | (168,179) |
| (38,006) | Ailfesuriad o'r buddion diffiniedig net ymrwymiadau (asedau) | (16,221) |
| (20,159) | Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gweddill neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (26,333) |
| 18,139 | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn | 19,727 |
| **(168,179)** | **Balans 31 Mawrth** | **(191,006)** |

**Cyfrif Absenoldeb Cronedig**

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymeryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

| 2012/13 £000 | | 2013/14 £000 |
|---|---|---|
| (4,060) | **Balans 1 Ebrill** | (3,201) |
| 859 | Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (565) |
| **(3,201)** | **Balans 31 Mawrth** | **(3,766)** |

## NODYN 27a – DATGANIAD LLIF ARIAN : ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

| 2012/13 £'000 | | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| (11,430) | Dibrisiant | (11,386) |
| (6,735) | Amhariad ac ailbrisio i lawr | (14,039) |
| (15,958) | (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr | (1,031) |
| 16,063 | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr | 7,059 |
| (123) | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Stoc | 198 |
| (2,020) | Ymrwymiad Pensiwn | (6,606) |
| (813) | Gwerth i'w gwario ar asedau anghyfredol a werthwyd | (1,226) |
| (3,544) | Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gweddill neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau | (3,247) |
| **(24,560)** | | **(30,278)** |

## NODYN 27b – DATGANIAD LLIF ARIAN : ADDASU AM EITEMAU CYNWYSEDIG YN Y GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU SYDD YN WEITHGAREDDAU BUDDSODDI NEU ARIANNU

| 2012/13<br>£'000 | | 2013/14<br>£'000 |
|---|---|---|
| 856 | Elw o werthiant eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 1,514 |
| **856** | | **1,514** |

## NODYN 27c – DATGANIAD LLIF ARIAN : GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

Mae'r llif arian o weithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

| 2012/13<br>£'000 | | 2013/14<br>£'000 |
|---|---|---|
| (792) | Llog dderbyniwyd | (576) |
| 5,989 | Llog a dalwyd | 5,864 |

## NODYN 28 – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

| 2012/13<br>£'000 | | 2013/14<br>£'000 |
|---|---|---|
| 31,733 | Prynu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 31,469 |
| 6,638 | Taliadau eraill am weithgareddau buddsoddi | 6,554 |
| (934) | Derbyniadau o werthu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | (1,544) |
| (144) | Derbyniadau o fuddsoddiadau tymor byr a thymor hir | (8,416) |
| **37,293** | **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | **28,063** |

## NODYN 29 – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU ARIANNU

| 2012/13<br>£'000 | | 2013/14<br>£'000 |
|---|---|---|
| 20 | Taliadau ariannol i leihau'r ymrwymiad sy'n ddyledus yn ymwneud â Phrydlesau Cyllidol | 92 |
| 1,110 | Ad-daliadau benthyciadau tymor byr a thymor hir | 843 |
| **1,130** | **Llif arian net o weithgareddau ariannu** | **935** |

## NODYN 30 – SYMIAU ADRODDWYD AR GYFER PENDERFYNIADAU DYRANNU ADNODDAU

Mae'r dadansoddiad o incwm a gwariant fesul gwasanaeth a ddengys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn unol â'r hyn sydd wedi ei bennu gan y Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth. Fodd bynnag, caiff y penderfyniadau ynghylch dyraniad adnoddau eu gwneud gan Gabinet y Cyngor ar sail adroddiadau cyllideb sydd wedi eu dadansoddi ar draws adrannau. Caiff yr adroddiadau hyn eu paratoi ar sail wahanol i'r polisïau cyfrifo ddefnyddiwyd yn y datganiadau ariannol. Yn benodol:

- nid oes costau'n berthnasol i wariant cyfalaf (gan bod dibrisiant, ail-brisiad a cholledion amhariad sy'n uwch na'r balans ar y Reserf Ailbrisio ac amorteiddiadau yn cael eu rhoi'n erbyn y gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr)
- mae costau buddion ymddeol yn seiliedig ar lif arian (taliad cyfraniadau pensiwn y cyflogwr) yn hytrach na chost buddion gwasanaeth cyfredol wedi eu cronni'n y flwyddyn
- cyllidebir am wariant ar rai gwasanaethau cefnogol yn ganolog, ac ni chaiff ei rannu allan i'r Adrannau.

Dengys y cysoniad hwn y berthynas rhwng y ffigyrau yn y dadansoddiad o wariant ac incwm adrannol a'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ogystal â dangos y berthynas rhwng y dadansoddiad o wariant ac incwm Adrannol a'r dadansoddiad goddrychol o'r Gweddill neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n gynwysiedig yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2013/14 | Gwariant | | | Cyfanswm | Incwm | | Cyfanswm | Gwariant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SYMIAU ADRODDWYD AR GYFER PENDERFYNIADAU DYRANNU ADNODDAU** | **Gweithwyr** | **Eraill** | **Cefnogaeth Ganolog** | **Gwariant** | **Ffioedd ac Eraill** . | **Grantiau a Chyfraniadau Llywodraeth** | **Incwm** | **Net** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Adnoddau Dynol | 2,879 | 362 | (23) | 3,218 | (56) | (59) | (115) | 3,103 |
| Cyllid | 5,262 | 1,292 | 2 | 6,556 | (1,686) | (920) | (2,606) | 3,950 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 1,764 | 741 | 1 | 2,506 | (679) | (190) | (869) | 1,637 |
| Gofal Cwsmer | 6,175 | 2,220 | 129 | 8,524 | (1,356) | (99) | (1,455) | 7,069 |
| Strategol a Gwella | 4,401 | 4,063 | 7 | 8,471 | (72) | (3,723) | (3,795) | 4,676 |
| Addysg | 79,825 | 25,463 | 246 | 105,534 | (6,761) | (15,827) | (22,588) | 82,946 |
| Economi a Chymuned | 4,731 | 10,440 | 19 | 15,190 | (3,420) | (7,986) | (11,406) | 3,784 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 16,032 | 18,327 | (7) | 34,352 | (7,922) | (3,867) | (11,789) | 22,563 |
| Rheoleiddio | 5,682 | 8,948 | 0 | 14,630 | (3,969) | (4,591) | (8,560) | 6,070 |
| Ymgynghoriaeth | 2,191 | 738 | 0 | 2,929 | (2,685) | (226) | (2,911) | 18 |
| Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | 0 | 0 | (106) | (106) | (142) | 0 | (142) | (248) |
| Darparu a Hamdden | 20,213 | (1,159) | 258 | 19,312 | (3,329) | (762) | (4,091) | 15,221 |
| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 15,043 | 50,669 | 7 | 65,719 | (11,222) | (10,304) | (21,526) | 44,193 |
| **Cyfanswm eitemau o dan Reolaeth Adrannol** | 164,198 | 122,104 | 533 | 286,835 | (43,299) | (48,554) | (91,853) | 194,982 |
| Corfforaethol | 1,729 | 19,921 | 24,857 | 46,507 | (1,133) | (33,617) | (34,750) | 11,757 |
| Tim Rheoli Corfforaethol | 859 | 70 | 1 | 930 | 0 | (5) | (5) | 925 |
| **Cyfanswm eitemau o dan Reolaeth Adrannol a Gwasanaethau Cefnogol Canolog** | 166,786 | 142,095 | 25,391 | 334,272 | (44,432) | (82,176) | (126,608) | 207,664 |
| **Eitemau o fewn cost net gwasanaethau, dim o dan reolaeth adrannol:** | | | | | | | | |
| Costau Cyfalaf | 0 | 29,744 | 0 | 29,744 | 0 | 0 | 0 | 29,744 |
| **Eitemau o dan reolaeth adrannol, dim yn cost net gwasanaethau:** | | | | | | | | |
| Cyfraniadau i Gronfeydd | (329) | (5,020) | 0 | (5,349) | 0 | 0 | 0 | (5,349) |
| Defnydd o Gronfeydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,121 | 0 | 2,121 | 2,121 |
| **Cost Net Gwasanaethau** | 166,457 | 166,819 | 25,391 | 358,667 | (42,311) | (82,176) | (124,487) | 234,180 |
| **Gwariant Gweithredol Arall** | | | | | | | | |
| Praeseptau a Lefiau | 0 | 19,144 | 0 | 19,144 | 0 | 0 | 0 | 19,144 |
| (Gwarged)/Colledion ar waredu Asedau Anghyfredol | 0 | 0 | 0 | 0 | (288) | 0 | (288) | (288) |
| **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi** | | | | | | | | |
| Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg | 0 | 6,682 | 0 | 6,682 | (206) | 0 | (206) | 6,476 |
| Cost Llog Pensiynau ac Enillion a Ddisgwylir ar Asedau | 0 | 0 | 7,544 | 7,544 | 0 | 0 | 0 | 7,544 |
| Llog ac Incwm ar Fuddsoddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | (445) | 0 | (445) | (445) |
| **Treth ac Incwm Grant Amhenodol** | | | | | | | | |
| Y Dreth Cyngor | 0 | 0 | 0 | 0 | (66,095) | 0 | (66,095) | (66,095) |
| Incwm Net y Dreth Ddi-Annedd | 0 | 0 | 0 | 0 | (38,209) | 0 | (38,209) | (38,209) |
| Grantiau Llywodraeth - Refeniw | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (144,714) | (144,714) | (144,714) |
| Grantiau a Chyfraniadau - Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 0 | (2,967) | (14,946) | (17,913) | (17,913) |
| **(Gweddill)/ Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **166,457** | **192,645** | **32,935** | **392,037** | **(150,521)** | **(241,836)** | **(392,357)** | **(320)** |

| 2012/13 | Gwariant | | | Cyfanswm | Incwm | | Cyfanswm | Gwariant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SYMIAU ADRODDWYD AR GYFER PENDERFYNIADAU DYRANNU ADNODDAU** | **Gweithwyr** | **Eraill** | **Cefnogaeth Ganolog** | **Gwariant** | **Ffioedd ac Eraill** . | **Grantiau a Chyfraniadau Llywodraeth** | **Incwm** | **Net** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Adnoddau Dynol | 2,938 | 390 | 1 | 3,329 | (71) | (40) | (111) | 3,218 |
| Cyllid | 5,191 | 1,103 | 1 | 6,295 | (1,638) | (1,066) | (2,704) | 3,591 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 2,180 | 930 | 6 | 3,116 | (631) | (316) | (947) | 2,169 |
| Gofal Cwsmer | 5,000 | 3,031 | 8 | 8,039 | (1,096) | (63) | (1,159) | 6,880 |
| Strategol a Gwella | 3,434 | 3,118 | 7 | 6,559 | (22) | (2,391) | (2,413) | 4,146 |
| Addysg | 73,114 | 34,891 | 189 | 108,194 | (6,736) | (21,667) | (28,403) | 79,791 |
| Economi a Chymuned | 4,748 | 8,092 | 15 | 12,855 | (4,024) | (5,600) | (9,624) | 3,231 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 16,365 | 18,982 | 5 | 35,352 | (8,966) | (4,311) | (13,277) | 22,075 |
| Rheoleiddio | 5,923 | 8,610 | 0 | 14,533 | (3,901) | (4,077) | (7,978) | 6,555 |
| Ymgynghoriaeth | 2,875 | 826 | (433) | 3,268 | (2,491) | (204) | (2,695) | 573 |
| Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | 0 | 0 | (85) | (85) | (145) | 0 | (145) | (230) |
| Darparu a Hamdden | 25,392 | (5,945) | 1 | 19,448 | (3,706) | (774) | (4,480) | 14,968 |
| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 14,508 | 48,787 | 5 | 63,300 | (11,015) | (10,816) | (21,831) | 41,469 |
| **Cyfanswm eitemau o dan Reolaeth Adrannol** | 161,668 | 122,815 | (280) | 284,203 | (44,442) | (51,325) | (95,767) | 188,436 |
| Corfforaethol | 482 | 15,875 | 24,591 | 40,948 | (354) | (41,060) | (41,414) | (466) |
| Tim Rheoli Corfforaethol | 607 | 190 | 0 | 797 | 0 | (38) | (38) | 759 |
| **Cyfanswm eitemau o dan Reolaeth Adrannol a Gwasanaethau Cefnogol Canolog** | 162,757 | 138,880 | 24,311 | 325,948 | (44,796) | (92,423) | (137,219) | 188,729 |
| **Eitemau o fewn cost net gwasanaethau, dim o dan reolaeth adrannol:** | | | | | | | | |
| Costau Cyfalaf | 0 | 22,788 | 0 | 22,788 | 0 | 0 | 0 | 22,788 |
| **Eitemau o dan reolaeth adrannol, dim yn cost net gwasanaethau:** | | | | | | | | |
| Cyfraniadau i Gronfeydd | (329) | (1,667) | 0 | (1,996) | 0 | 0 | 0 | (1,996) |
| Defnydd o Gronfeydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,824 | 0 | 2,824 | 2,824 |
| **Cost Net Gwasanaethau** | 162,428 | 160,001 | 24,311 | 346,740 | (41,972) | (92,423) | (134,395) | 212,345 |
| **Gwariant Gweithredol Arall** | | | | | | | | |
| Praeseptau a Lefiau | 0 | 18,882 | 0 | 18,882 | 0 | 0 | 0 | 18,882 |
| (Gwarged)/Colledion ar waredu Asedau Anghyfredol | 0 | 0 | 0 | 0 | (42) | 0 | (42) | (42) |
| **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi** | | | | | | | | |
| Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg | 0 | 6,730 | 0 | 6,730 | 0 | 0 | 0 | 6,730 |
| Cost Llog Pensiynau ac Enillion a Ddisgwylir ar Asedau | 0 | 0 | 6,056 | 6,056 | 0 | 0 | 0 | 6,056 |
| Llog ac Incwm ar Fuddsoddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | (682) | 0 | (682) | (682) |
| **Treth ac Incwm Grant Amhenodol** | | | | | | | | |
| Y Dreth Cyngor | 0 | 0 | 0 | 0 | (63,374) | 0 | (63,374) | (63,374) |
| Incwm Net y Dreth Annomestig | 0 | 0 | 0 | 0 | (32,801) | 0 | (32,801) | (32,801) |
| Grantiau Llywodraeth - Refeniw | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (136,566) | (136,566) | (136,566) |
| Grantiau a Chyfraniadau - Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 0 | (504) | (15,284) | (15,788) | (15,788) |
| **(Gweddill)/ Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **162,428** | **185,613** | **30,367** | **378,408** | **(139,375)** | **(244,273)** | **(383,648)** | **(5,240)** |

## NODYN 31 – GWASANAETHAU ASIANTAETH

Mae'r Cyngor yn gweithredu ar sail asiant i ddarparu rhai gwasanaethau, a hefyd yn gweinyddu Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

O ran yr Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, y prif weithgaredd yw cynnal a rheoli'r rhwydwaith cefnffyrdd yn ardal Partneriaeth Cynghorau Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n ymestyn i 1,174 cilomedr. Cyfanswm y trafodion incwm a gafodd eu hadennill yn ystod y flwyddyn 2013/14 oedd £51.91m (£51.26m yn 2012/13).

Yn ystod 2013/14 bu i Gyngor Gwynedd weithredu fel asiant fel rhan o gynllun Llywodraeth Cymru, sef 'Troi Tai'n Gartrefi', sef rhoi benthyciadau di-log i berchnogion adeiladau gwag er mwyn defnyddio'r adeiladau eto, i'w gwerthu neu eu rhoi ar rent. Yn ystod 2013/14 rhoddwyd benthyciadau gwerth £159,000 ar gyfer tai yng Ngwynedd (£50,000 yn 2012/13).

## NODYN 32 – LWFANSAU AELODAU

Talwyd y lwfansau a threuliau canlynol i aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn:

| **2012/13** | | **2013/14** |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 1,215 | Lwfansau | 1,260 |
| 64 | Treuliau | 65 |
| **1,279** | | **1,325** |

## NODYN 33 – TALIADAU I SWYDDOGION

33a. Mae 7A (1) (b) o Reoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Newidiad) 2010, yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar gyfer rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sy'n derbyn cyflog rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr, ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Cynhwysir isod y costau gros perthnasol, lle bu arbedion sylweddol o ailstrwythuro uwch reolaeth y Cyngor:

| 2012/13 | | | | Uwch Swyddogion | 2013/14 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog | Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr | Costau Eraill Cyflogwr | Cyfanswm | | Cyflog | Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr | Costau Eraill Cyflogwr | Cyfanswm |
| £ | £ | £ | £ | | £ | £ | £ | £ |
| 108,264 | 23,710 | 0 | 131,974 | Prif Weithredwr [1] | 108,264 | 24,251 | 174,298 | 306,813 |
| 86,040 | 18,843 | 0 | 104,883 | Cyfarwyddwr Corfforaethol | 88,960 | 19,927 | 0 | 108,887 |
| 86,040 | 18,843 | 0 | 104,883 | Cyfarwyddwr Corfforaethol | 88,960 | 19,927 | 0 | 108,887 |
| 86,040 | 18,843 | 0 | 104,883 | Cyfarwyddwr Corfforaethol [2] | 44,480 | 9,964 | 60,030 | 114,474 |
| | | | | Cyfarwyddwr Corfforaethol [3] | 41,144 | 9,216 | 0 | 50,360 |
| 73,856 | 16,174 | 0 | 90,030 | Pennaeth Addysg [4] | 75,511 | 16,914 | 25,813 | 118,238 |
| 71,002 | 15,549 | 0 | 86,551 | Pennaeth Gwas Cym,Tai a Hamdden/Cyf Statudol [5] | 44,042 | 9,865 | 0 | 53,907 |
| 70,970 | 15,542 | 0 | 86,513 | Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeisdrefol | 73,578 | 16,482 | 0 | 90,060 |
| 67,716 | 14,830 | 0 | 82,546 | Pennaeth Cyllid | 70,263 | 15,739 | 0 | 86,002 |
| 67,716 | 14,830 | 0 | 82,546 | Pennaeth Economi a Chymuned | 70,263 | 15,739 | 0 | 86,002 |
| 67,716 | 14,830 | 0 | 82,546 | Pennaeth Gofal Cwsmer | 70,263 | 15,739 | 0 | 86,002 |
| 67,716 | 14,830 | 0 | 82,546 | Pennaeth Rheoleiddio | 70,263 | 15,739 | 0 | 86,002 |
| 67,716 | 14,830 | 0 | 82,546 | Pennaeth Strategol a Gwella | 70,263 | 15,739 | 0 | 86,002 |
| 67,716 | 14,830 | 0 | 82,546 | Pennaeth Adnoddau Dynol | 63,237 | 14,165 | 0 | 77,402 |
| 60,332 | 13,213 | 0 | 73,545 | Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd | 59,353 | 13,295 | 0 | 72,648 |
| 54,173 | 11,864 | 0 | 66,037 | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol [6] | 56,210 | 12,591 | 99,834 | 168,635 |
| 0 | 0 | 0 | 0 | Pennaeth Plant a Chefnogi Theuluoedd [7] | 19,719 | 4,417 | 0 | 24,136 |

- *"Costau Eraill Cyflogwr" uchod - yn unol â'r gofynion fe gynhwysir yr ymrwymiadau perthnasol i'r Cyngor fel a wybyddir ar 31Mawrth 2014.*

- *Cyfeirnodau eraill i'r tabl uchod:*

  *1 Deilydd yn y swydd hyd at ddiwedd Medi 2014*
  *2 Deilydd yn y swydd hyd at ddiwedd Medi 2013*
  *3 Deilydd newydd yn y swydd (2) uchod o ddechrau Hydref 2013*
  *4 Deilydd yn y swydd hyd at ddiwedd Awst 2014*
  *5 Swydd yn bodoli hyd at ddiwedd Medi 2013*
  *6 Deilydd yn y swydd hyd at ddiwedd Awst 2014*
  *7 Deilydd yn y swydd newydd o ddechrau Rhagfyr 2013*

33b. Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyngor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ag eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo a dalwyd mewn 4 achos yn 2013/14 a 2 achos yn 2012/13. Ni fyddai'r swyddi yma'n ymddangos isod heblaw'r costau diswyddo dalwyd yn y flwyddyn unigol.

| **Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer yn 2012/13** | | | | **Nifer yn 2013/14** | | |
| **Ysgolion** | **Eraill** | **Cyfanswm** | | **Ysgolion** | **Eraill** | **Cyfanswm** |
| 8 | 2 | 10 | £60,000 - 64,999 | 7 | 0 | 7 |
| 5 | 0 | 5 | £65,000 - 69,999 | 5 | 0 | 5 |
| 1 | 1 | 2 | £70,000 - 74,999 | 1 | 0 | 1 |
| 2 | 0 | 2 | £75,000 - 79,999 | 2 | 0 | 2 |
| 0 | 0 | 0 | £80,000 - 84,999 | 0 | 1 | 1 |
| 0 | 0 | 0 | £85,000 - 89,999 | 0 | 0 | 0 |
| 1 | 0 | 1 | £90,000 - 94,999 | 1 | 1 | 2 |
| 0 | 0 | 0 | £95,000 - 99,999 | 1 | 0 | 1 |
| 0 | 0 | 0 | £100,000 - 104,999 | 1 | 0 | 1 |

## NODYN 34 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Awdurdod wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

| **2012/13 £'000** | | **2013/14 £'000** |
|---|---|---|
| 313 | Ffioedd ar gyfer Gwasanaeth Archwilio Allanol | 272 |
| 112 | Ffioedd ar gyfer hawliadau a dychweliadau grant | 139 |
| **425** | | **411** |

Mae 'Ffioedd ar gyfer Gwasanaeth Archwilio Allanol' yn 2013/14 yn cynnwys ffioedd archwilio o £6,258 (£10,600 yn 2012/13) perthnasol i'r Cyd-bwyllgorau.

## NODYN 35 – INCWM GRANT

Mae'r Cyngor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2013/14:

| | Nodyn | | 2012/13 £'000 | | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Wedi eu Credydu i Dreth ac Incwm Amhenodol** | | | | | |
| Grant Cytundebau Canlyniadau (Grantiau'r Llywodraeth heb eu Clustnodi) | 13 | | 1,300 | | 1,290 |
| Grant Cynnal Refeniw (Grantiau'r Llywodraeth heb eu Clustnodi) | 13 | | 135,266 | | 143,424 |
| Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf gan y Llywodraeth - | | | | | |
| Ysgolion 21ain Ganrif | | 3,213 | | 2,673 | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 2,461 | | 2,543 | |
| Adfywio Ffisegol Gogledd Cymru | | 2,998 | | 704 | |
| ERDF - Cydgyfeiriant | | 2,393 | | 208 | |
| Arall | | 4,219 | | 8,818 | |
| | 13 | | 15,284 | | 14,946 |
| Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf arall | 13 | | 504 | | 2,967 |
| **Cyfanswm** | | | **152,354** | | **162,627** |
| **Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau** | | | | | |
| Llywodraeth Cymru - | | | | | |
| Grant Cefnogi Pobl (SPG & SPRG) | | 5,334 | | 5,925 | |
| Grant Cyfnod Sylfaen (Addysg) | | 3,881 | | 4,032 | |
| Grant Rheolaeth Gwastraff Cynaliadwy | | 3,920 | | 3,696 | |
| Grant Ôl 16 (Addysg) | | 4,295 | | 3,310 | |
| Grant Potensial | | 0 | | 3,156 | |
| Llwybrau 14-19 (Addysg) | | 4,212 | | 767 | |
| Grant Tocynnau Teithio Rhad | | 2,040 | | 557 | |
| Arall | | 18,771 | | 16,173 | |
| | | | 42,453 | | 37,616 |
| Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall | | | | | |
| Adran Gwaith a Phensiynau | | 38,363 | | 29,708 | |
| Arall | | 11,608 | | 14,852 | |
| | | | 49,971 | | 44,560 |
| Grantiau a Chyfraniadau eraill | | | 1,778 | | 768 |
| | | | **94,202** | | **82,944** |

**Grant Cynnal Refeniw (Grantiau'r Llywodraeth heb eu Clustnodi)**

• Yn cynnwys cynnydd o £8m perthnasol i'r Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor i adlewyrchu newid y ffynhonnell ariannu i Lywodraeth Cymru sydd wedi arwain at newid yn y trefniadau adrodd, sydd yn gyfrifol am y symudiad sylweddol rhwng 2012/13 a 2013/14 (Nodyn 35).

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion sydd eto i'w hadnabod fel incwm gan fod amodau wedi eu glynu i'r grantiau sy'n golygu efallai y bydd rhaid dychwelyd yr arian neu'r eiddo i'r rhoddwr. Mae'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

| **Derbyniadau Grant Ymlaen Llaw** | **31 Mawrth 2013 £'000** | **31 Mawrth 2014 £'000** |
|---|---|---|
| **Tymor Hir** | | |
| **Grantiau a Chyfraniadau Refeniw : -** | | |
| Grantiau Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | 499 | 682 |
| Grantiau Tai | 495 | 426 |
| | 994 | 1,108 |
| **Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf : -** | | |
| Cyfraniadau Cyfalaf Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 0 | 1,956 |
| Grantiau Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | 245 | 878 |
| | 245 | 2,834 |
| **Cyfanswm Tymor Hir** | **1,239** | **3,942** |
| **Tymor Byr** | | |
| **Grantiau a Chyfraniadau Refeniw : -** | | |
| Grantiau Economi a Chymuned | 503 | 306 |
| Grantiau Tai | 263 | 285 |
| Grantiau Addysg | 1,248 | 261 |
| Grantiau Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | 13 | 251 |
| Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol | 183 | 152 |
| Grantiau Ymgynghoriaeth | 42 | 29 |
| Grantiau Darparu a Hamdden | 49 | 23 |
| Grantiau Democratiaeth a Chyfreithiol | 0 | 7 |
| Grantiau Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 3 | 3 |
| Grantiau Strategol a Gwella | 1 | 0 |
| | 2,305 | 1,317 |
| **Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf : -** | | |
| Grantiau Economi a Chymuned | 79 | 215 |
| Cyfraniadau Cyfalaf Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 0 | 146 |
| Grantiau Tai | 139 | 97 |
| | 218 | 458 |
| **Cyfanswm Tymor Byr** | **2,523** | **1,775** |
| **Cyfanswm** | **3,762** | **5,717** |

## NODYN 36 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyngor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyngor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyngor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Awdurdod. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy gwblhau datganiad perthnasol gan yr Aelodau a'r Uwch Swyddogion, fel a ddiffinnir yng Ngôd ymarfer CIPFA.

**Llywodraeth Cymru a Chanolog**
*Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth effeithiol dros* weithrediadau cyffredinol yr Awdurdod - mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol, mae'n darparu'r mwyafrif o'r ariannu drwy grantiau ac yn pennu termau nifer o'r trafodaethau sydd gan yr Awdurdod o fewn partïon eraill (e.e. treth y Cyngor, budd-daliadau tai). Ceir dadansoddiad goddrychol o'r grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru ac adrannau eraill y Llywodraeth yn Nodyn 30 sy'n adrodd ar benderfyniadau dyrannu adnoddau. Mae'r sefyllfa perthnasol ar 31 Mawrth i'w gael yn Nodyn 35.

**Aelodau**
Mae gan aelodau'r Cyngor reolaeth uniongyrchol dros bolisiau ariannol a gweithredol y Cyngor. Ni ddychwelwyd y datganiad perthnasol gan 5 Aelod o'r Cyngor. Ceir cyfanswm y lwfansau a dalwyd i aelodau yn ystod 2013/14 yn Nodyn 32.

Mae'r Awdurdod yn penodi aelodau i rai cyrff elusennol neu wirfoddol neu maent wedi datgan cysylltiad â mudiadau, cyrff ac awdurdodau cyhoeddus. Mae dadansoddiad o'r taliadau a'r balansau ar 31 Mawrth 2014 wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2013/14 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor |
|---|---|---|
| £9,534,211 | £5,006,429 | (£6,486,289) |

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinir) mewn cwmniau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyngor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a'r balansau ar 31 Mawrth 2014 wnaed i'r cwmniau yma yn ystod 2013/14 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor |
|---|---|---|
| £2,650,012 | £171,817 | (£54,733) |

**Swyddogion**
Mae Uwch Swyddogion (fel a ddiffinir) wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, ddiddordeb neu berthynas (fel y diffinir) mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyngor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a'r balansau ar 31 Mawrth 2014 wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2013/14 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor |
|---|---|---|
| £4,317,783 | £725,311 | (£288,340) |

**Cyrff Cyhoeddus Eraill**
Mae'r Awdurdod yn gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Ceir manylion o'r trafodaethau gyda'r Gronfa Bensiwn yn Nodyn 42 ar dudalennau 76 i 80 a Chyfrifon y Gronfa Bensiwn ar dudalennau 84 i 115.

| Taliadau a wnaethpwyd | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor |
|---|---|---|
| £544,912 | £128,360 | - |

**Endidau a Reolir neu Ddylanwadir yn Sylweddol arnynt gan yr Awdurdod**
Sefydlwyd Cwmni Cynnal Cyf. yn 1996 i ddarparu gwasanaethau cefnogi addysg dan gytundeb i ysgolion unigol ac i awdurdodau addysg lleol yn ogystal â gwasanaethau arolygu ysgolion i Estyn. Mae'r Cwmni yn gyfyngedig dan warant ac fe gyfyngir ymrwymiad y Cyngor i £1. Dim ond tuag at hyrwyddo ei amcanion gellid defnyddio incwm y cwmni. Gellir cael copïau o'r datganiadau ariannol gan Gwmni Cynnal Cyf., Plas Llanwnda, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH. Mae'r taliadau a'r balansau ar 31 Mawrth 2014 i Gwmni Cynnal ar gyfer gwasanaethau i ysgolion yn ystod 2013/14 fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor |
|---|---|---|
| £ 1,416,951 | £ 75,464 | (£27,000) |

Sefydlwyd Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf. fel Cwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol yn 1994. Roedd y Cwmni yn gweithredu dau safle rheoli gwastraff yn Ynys Môn a Gwynedd a oedd ar les gan yr Awdurdodau Lleol. Roedd elfen sylweddol o weithgareddau y cwmni yn ymwneud â chontractau â'r ddau Awdurdod Lleol. Yn dilyn newid yn y ddeddfwriaeth, penderfynodd y ddau Gyngor i ddod â'r Cwmni i ben yn ystod 2007/08 a gwneud y gwaith yn fewnol. Trosglwyddwyd yr asedau ac ymrwymiadau gweithredol a'r gweithwyr i'r Cyngor ym mis Ionawr 2008. Rhennir yr asedau a'r ymrwymiadau eraill rhwng y ddau Gyngor pan mae'r Cwmni yn cael ei diddymu. Nid yw'r cyfrifon terfynol y Cwmni wedi cael eu cwblhau eto ond ail-brisiwyd y buddsoddiad ar y fantolen i adlewyrchu amcangyfrif o'i gwir werth pan fydd y rhaniad asedau terfynol yn digwydd. Derbyniwyd £1,183,580 fel rhan o'r setliad yn ystod 2008/09, £800,000 yn ystod 2009/10 ac mae'r taliad terfynol o oddeutu £60,000 yn parhau'n ddyledus.

## NODYN 37 – GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dengys y tabl isod gyfanswm gwariant cyfalaf am y flwyddyn (yn cynnwys gwerth yr asedau hynny gaffaelwyd drwy brydlesi cyllidol), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Os yw'n fwriad ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol trwy godi tâl yn refeniw fel defnyddir asedau gan yr Awdurdod, yna byddai hyn yn arwain at gynnydd yn y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), mesurydd gwariant cyfalaf hanesyddol yr Awdurdod sydd heb ei ariannu eto. Dadansoddir y GCC yn yr ail ran o'r nodyn hwn.

| 31 Mawrth 2013 £'000 | | 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| 373,433 | Asedau Anghyfredol ac Asedau ar gael i'w gwerthu | 384,095 |
| (44,043) | Reserf Ailbrisio | (41,009) |
| (163,466) | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | (169,777) |
| **165,924** | **Gofyn Cyllido Cyfalaf** | **173,309** |

Mae'r symudiadau am y flwyddyn yn cael eu egluro fel a ganlyn:

| 2012/13<br>£'000 | | 2013/14<br>£'000 |
|---|---|---|
| **162,825** | **Gofyn Cyllido Cyfalaf 1 Ebrill** | **165,924** |
| 9,817 | Tir ac Adeiladau | 20,454 |
| 13,737 | Isadeiladwaith | 8,865 |
| 3,402 | Cerbydau, Offer a Chyfarpar | 4,303 |
| 20 | Asedau Cymunedol | 4 |
| 4,923 | Asedau heb eu cwblhau | 5,100 |
| 2 | Asedau ar gyfer gwerthu | 16 |
| 6,452 | Wedi'w ariannu o gyfalaf drwy statud | 6,222 |
| 257 | Cyfalafu cyfraniad at ddarpariaeth ol-ofalaeth tirlenwi | 0 |
| (2,345) | Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddwyd | (1,377) |
| (19,170) | Grantiau Llywodraeth a chyfraniadau eraill | (18,989) |
| (7,574) | Gwariant cyfalaf yn erbyn refeniw | (10,516) |
| (5,692) | Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | (5,731) |
| | Symiau gwirfoddol ychwanegol a neilltuwyd : | |
| (730) | Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | (966) |
| **165,924** | **Gofyn Cyllido Cyfalaf 31 Mawrth** | **173,309** |

**NODYN 38 – PRYDLESAU**

**Yr Awdurdod fel Prydlesai**

**Prydlesau Cyllidol**

Roedd gan y Cyngor rai ceir ac offer drwy brydlesi cyllidol. Caiff yr Asedau a gaffaelwyd drwy'r Prydlesau hyn eu dangos fel Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen gyda'r gwerth net canlynol:

| 31 Mawrth 2013<br>£'000 | | 31 Mawrth 2014<br>£'000 |
|---|---|---|
| 71 | Eiddo, Offer a Chyfarpar | 4,734 |
| **71** | | **4,734** |

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i dalu isafswm ar y prydlesau hyn sy'n cynnwys setliad o'r ymrwymiad tymor hir am y budd yn yr eiddo gaffaelwyd gan yr Awdurdod a chostau cyllido a fydd yn daladwy gan yr Awdurdod yn y dyfodol tra mae'r ymrwymiad yn parhau'n ddyledus. Mae'r lleiafswm taliadau prydles fel a ganlyn:

| 31 Mawrth 2013 £'000 | | 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| | Ymrwymiadau Prydles Gyllidol (gwerth presennol net o'r lleiafswm y taliadau prydles): | |
| 14 | cyfredol | 112 |
| 15 | ddim yn gyfredol | 2,372 |
| 1 | Costau cyllido sy'n daladwy'n y dyfodol | 0 |
| **30** | Lleiafswm y taliadau prydles | **2,484** |

Mae'r lleiafswm taliadau prydles yn daladwy dros y cyfnodau canlynol:

| | **Lleiafswm Taliadau Prydles** | | **Ymrwymiadau Prydlesau Cyllidol** | |
|---|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2013** | **31 Mawrth 2014** | **31 Mawrth 2013** | **31 Mawrth 2014** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Dim mwy na blwyddyn | 15 | 112 | 14 | 112 |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd | 15 | 521 | 15 | 521 |
| Mwy na pum mlynedd | 0 | 1,851 | 0 | 1,851 |
| | **30** | **2,484** | **29** | **2,484** |

Yn 2013/14, gwnaethpwyd lleiafswm taliadau prydles o £32,392 (2012/13 - £23,528) gan yr Awdurdod mewn perthynas â'r asedau hynny a ddeli'r fel prydlesau cyllidol.

**Prydlesau Gweithredol**

| | **31 Mawrth 2013** | **31 Mawrth 2014** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Dim mwy na blwyddyn | 250 | 312 |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd | 44 | 169 |
| Mwy na pum mlynedd | 0 | 0 |
| | **294** | **481** |

Y gwariant a godwyd ar y gwasanaethau o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn cysylltiad â'r prydlesau yma oedd:

| | **2012/13** | **2013/14** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Lleiafswm taliadau prydles | 613 | 493 |
| Rhenti amodol | 0 | 0 |
| | **613** | **493** |

**Yr Awdurdod fel Prydleswr**

**Prydlesau Cyllidol**

Nid oes gan Cyngor Gwynedd unrhyw Brydlesi Cyllidol ble mae'r Awdurdod yn Brydleswr.

**Prydlesau Gweithredol**

Mae'r Awdurdod yn prydlesu eiddo o dan brydlesi gweithredol i'r dibenion canlynol:

- i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned, megis cyfleusterau chwaraeon, gwasanaethau twristiaeth a chanolfannau cymuned
- i bwrpas datblygiad economaidd i ddarparu adeiladau addas a fforddiadwy i fusnesau lleol.

Y lleiafswm taliadau prydles derbyniadwy na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

| | **31 Mawrth 2013** | **31 Mawrth 2014** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Dim mwy na blwyddyn | 428 | 352 |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd | 847 | 714 |
| Mwy na pum mlynedd | 2,221 | 2.147 |
| | **3,496** | **3,213** |

Nid yw'r lleiafswm taliadau derbyniadwy yn cynnwys rhent sydd yn amodol ar ddigwyddiad gymryd lle ar ôl i'r prydles ddechrau, er enghraifft, addasiadau yn dilyn adolygiad rhent. Yn 2013/14 £1,017,925 oedd y lleiafswm taliadau prydles derbyniadwy gan yr Awdurdod (£930,137 yn 2012/13).

## NODYN 39 – COLLEDION AMHARIAD

Mae Nodyn 15 a 22 yn dangos y symudiad fesul dosbarth o asedau sydd wedi ei gynnwys yn y Gwarged neu Golled ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ac i Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

## NODYN 40 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Mae'r nifer o becynnau terfynu gwaith sydd yn cynnwys cyfanswm y gost fesul band, a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gost yn y tabl isod yn adlewyrchu cost y pecynnau perthnasol i'r cyflogwr, yn hytrach na gwir werth y taliadau i'r unigolion. Yn unol â'r gofynion fe gynhwysir yr ymrwymiadau perthnasol i'r Cyngor fel a wybyddir ar 31 o Fawrth 2014. Cynhwysir isod y costau gros perthnasol ond nid unrhyw arbedion cyllidol i'r Cyngor, ble'n briodol.

| ( a ) | ( b ) | | ( c ) | | ( d ) | | ( e ) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig)** | **Nifer diswyddiadau gorfodol** | | **Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill** | | **Nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost** | | **Cyfanswm cost y pecynnau terfyn gwaith ym mhob band £'000** | |
| **£** | **2012/13** | **2013/14** | **2012/13** | **2013/14** | **2012/13** | **2013/14** | **2012/13** | **2013/14** |
| **0 - 20,000** | 45 | 58 | 0 | 7 | 45 | 65 | 224 | 382 |
| **20,001 - 40,000** | 8 | 7 | 0 | 1 | 8 | 8 | 207 | 211 |
| **40,001 - 60,000** | 2 | 3 | 0 | 0 | 2 | 3 | 95 | 165 |
| **60,001 - 80,000** | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 2 | 70 | 125 |
| **80,001 - 100,000** | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 87 | 100 |
| **100,001 - 150,000** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **150,001 - 200,000** | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 174 |
| **Cyfanswm** | **57** | **69** | **0** | **11** | **57** | **80** | **683** | **1,157** |

## NODYN 41 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan Pensiynau Athrawon Capita ("Capita Teachers' Pensions") ar ran Adran dros Addysg Llywodraeth San Steffan. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i Athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Awdurdod yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar ganran o dâl pensiynadwy aelodau.

Cynllun buddiannau diffiniedig yw Cynllun Pensiwn Athrawon. Er hynny, nid yw'r cynllun wedi ei ariannu ac mae'r Adran dros Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w talu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Awdurdod yn gallu adnabod ei rhan o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad o'r Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2013/14 talodd y Cyngor £6.03m (£6.01m yn 2012/13) mewn perthynas â chost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 13.68% (13.89% yn 2012/13) o dâl pensiynadwy athrawon. Yn ychwanegol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfarnir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Yn 2013/14 roedd hyn yn £1.27m (£0.96m yn 2012/13), ac yn cynrychioli 2.87% (2.30% yn 2012/13) o dâl pensiynadwy athrawon. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a'u cynhwysir yn Nodyn 42.

## NODYN 42 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau dyfodol.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig cyflog terfynol, sy'n golygu bod yr Awdurdod a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi ei chyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio'r ymrwymiadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir.
b) **Trefniadau ar gyfer dyfarniad buddiannau ar ôl ymddeol wrth ymddeol yn fuan**. Trefniant buddion a ddiffinnir heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymiadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymiadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiynau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Y pwyllgor sy'n penodi rheolwyr buddsoddi'r gronfa.

Y prif risgiau i'r awdurdod o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel y disgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

### Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-Gyflogaeth

Mae'r Cyngor yn adnabod cost y buddion ymddeol yng nghost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn erbyn treth y cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau:

| Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net | Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2013 | | | Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2014 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Asedau | Ymrwym-iadau | (Ymrwymiadau) /asedau net | Asedau | Ymrwym-iadau | (Ymrwymiadau) /asedau net |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr | 365,096 | 0 | 365,096 | 418,033 | 0 | 418,033 |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | (493,249) | (493,249) | 0 | (559,752) | (559,752) |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau heb eu hariannu | 0 | 0 | 0 | 0 | (26,460) | (26,460) |
| **Sefyllfa Agoriadol ar 31 Mawrth** | **365,096** | **(493,249)** | **(128,153)** | 418,033 | (586,212) | (168,179) |
| Cost Gwasanaeth | | | | | | |
| Cost Gwasanaeth Cyfredol* | 0 | (13,907) | (13,907) | 0 | (18,481) | (18,481) |
| Cost Gwasanaeth y Gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) | 0 | (196) | (196) | 0 | (308) | (308) |
| **Cyfanswm Cost Gwasanaeth** | **0** | **(14,103)** | **(14,103)** | **0** | **(18,789)** | **(18,789)** |
| Llog Net | | | | | | |
| Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun | 17,669 | 0 | 17,669 | 18,937 | 0 | 18,937 |
| Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinnir Ymrwymiad | 0 | (23,725) | (23,725) | 0 | (26,481) | (26,481) |
| **Cyfanswm Llog Net** | **17,669** | **(23,725)** | **(6,056)** | **18,937** | **(26,481)** | **(7,544)** |
| **Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)** | **17,669** | **(37,828)** | **(20,159)** | **18,937** | **(45,270)** | **(26,333)** |
| Llif Arian | | | | | | |
| Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun | 4,654 | (4,654) | 0 | 4,912 | (4,912) | 0 |
| Cyfraniadau y Cyflogwr | 16,484 | 0 | 16,484 | 17,857 | 0 | 17,857 |
| Cyfraniadau ynglŷn â buddion wedi eu hariannu | 1,739 | 0 | 1,739 | 1,744 | 0 | 1,744 |
| Buddion a Dalwyd | (14,949) | 14,949 | 0 | (16,538) | 16,538 | 0 |
| Buddion Heb eu Hariannu a Dalwyd | (1,739) | 1,739 | 0 | (1,744) | 1,744 | 0 |
| **Sefyllfa Cau y Disgwylir** | **388,954** | **(519,043)** | **(130,089)** | **443,201** | **(618,112)** | **(174,911)** |
| Ail Fesuriadau | | | | | | |
| Newid mewn Tybiaethau Demograffig | 0 | 0 | 0 | 0 | (15,484) | (15,484) |
| Newid mewn Tybiaethau Ariannol | 0 | (67,375) | (67,375) | 0 | (13,567) | (13,567) |
| Profiadau Eraill | | 206 | 206 | 0 | (33,406) | (33,406) |
| Enillion ar Asedau ag eithrio symiau a gynhwysir yn llog net | 29,079 | 0 | 29,079 | 46,362 | 0 | 46,362 |
| **Cyfanswm yr Holl Ail Fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)** | **29,079** | **(67,169)** | **(38,090)** | **46,362** | **(62,457)** | **(16,095)** |
| Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr | 418,033 | 0 | 418,033 | 489,563 | 0 | 489,563 |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | (559,752) | (559,752) | 0 | (653,270) | (653,270) |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau heb eu hariannu | 0 | (26,460) | (26,460) | 0 | (27,299) | (27,299) |
| **Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth 2014** | **418,033** | **(586,212)** | **(168,179)** | **489,563** | **(680,569)** | **(191,006)** |

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

**Prif Gategorïau Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun**

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion IAS19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny nad oes ganddynt. Tybir bod rhaniad asedau Cyngor Gwynedd ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2013. Mae'r tabl uchod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £1,305,000,000 ar 31 Mawrth 2014, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddol a chan roi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol.

## Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar gwerth bid yn unol â gofynion IAS19.

| Categori Ased | Ar 31 Mawrth 2013 | | | | Ar 31 Mawrth 2014 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prisiau a ddyfynnir mewn Marchnad-oedd Gweith-redol | Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnad-oedd Gweith-redol | Cyfanswm | | Prisiau a ddyfynnir mewn Marchnad-oedd Gweith-redol | Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnad-oedd Gweith-redol | Cyfanswm | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | £'000 | % |
| **Ernesau Ecwiti** | | | | | | | | |
| Defnyddiwr | 4,972 | 0 | 4,972 | 1 | 9,166 | 0 | 9,166 | 2 |
| Ynni a Gwasanaethau | 12,678 | 0 | 12,678 | 3 | 11,721 | 0 | 11,721 | 2 |
| Sefydliadau Ariannol | 7,022 | 0 | 7,022 | 2 | 4,091 | 0 | 4,091 | 1 |
| Iechyd a Gofal | 21,077 | 0 | 21,077 | 5 | 21,696 | 0 | 21,696 | 4 |
| Technoleg Gwybodaeth | 6,549 | 0 | 6,549 | 2 | 13,658 | 0 | 13,658 | 3 |
| Eraill | 20,137 | 0 | 20,137 | 5 | 22,330 | 0 | 22,330 | 5 |
| **Ecwiti Breifat** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 0 | 20,579 | 20,579 | 5 | 0 | 23,428 | 23,428 | 5 |
| **Eiddo Diriaethol** | | | | | | | | |
| Eiddo y DU | 0 | 35,851 | 35,851 | 9 | 0 | 42,131 | 42,131 | 9 |
| Eiddo Tramor | 0 | 1,287 | 1,287 | 0 | 0 | 1,251 | 1,251 | 0 |
| **Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol** | | | | | | | | |
| Ecwiti | 9,306 | 128,648 | 137,954 | 33 | 109,813 | 143,424 | 253,237 | 52 |
| Bondiau | 0 | 55,246 | 55,246 | 33 | 0 | 72,767 | 72,767 | 15 |
| Is-adeiladwaith | 0 | 2,084 | 2,084 | 0 | 0 | 2,159 | 2,159 | 0 |
| **Deilliadau** | | | | | | | | |
| Chwyddiant | 0 | 1,074 | 1,074 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Arian a Chywerthoedd Arian** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 9,244 | 0 | 9,244 | 2 | 11,927 | 0 | 11,927 | 2 |
| **Cyfanswm** | **90,985** | **244,769** | **335,754** | **100** | **204,402** | **285,160** | **489,562** | **100** |

## Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael ei hasesu ar sail actwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar ragamcanion penodol i'r gronfa a elwir yn VitaCurves a thybir bod gwelliant tymor hir eisoes wedi cyrraedd yr eithaf, sydd gyfystyr â 1.25% y flwyddyn.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cynllun Pensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2013. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari fel a ganlyn:-

| | 31 Mawrth 2013 | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| **Tybiaethau Ariannol** | **% y.f.** | **% y.f.** |
| Cyfradd Codiad Pensiynau | 2.8 | 2.8 |
| Cyfradd Codiad Cyflogau | 5.1* | 4.6** |
| Cyfradd Chwyddiant | 2.8 | 2.8 |
| Cyfradd ar gyfer gostwng ymrwymiadau'r Cynllun | 4.5 | 4.3 |
| Cyfradd Enillion Tymor Hir a Ddisgwylir ar yr holl asedau | 4.5 | 4.3 |
| **Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol** | | |
| am wasanaeth cyn Ebrill 2008 | 50 | 50 |
| am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008 | 75 | 75 |
| **Tybiaethau Marwolaeth** | **Blynyddoedd** | **Blynyddoedd** |
| Hyd oes ar 65 oed am bensiynwyr cyfredol | | |
| Dynion | 20.5 | 22 |
| Merched | 23 | 24 |
| Hyd oes ar 65 oed am bensiynwyr y dyfodol | | |
| Dynion | 23.3 | 24.4 |
| Merched | 25.6 | 26.6 |

*Tybir bod cynnydd mewn cyflogau yn 1% y flwyddyn tan 31 Mawrth 2015 gan ddychwelyd i'r dybiaeth tymor hir a ddangosir wedi hynny.
**Tybir bod cynnydd mewn cyflogau yn 1% y flwyddyn tan 31 Mawrth 2016 gan ddychwelyd i'r dybiaeth tymor hir a ddangosir wedi hynny.

Mae'r amcangyfrifiad o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2014 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigurau IAS19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyngor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o thua 3% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn). Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyngor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2013, dyddiad y prisiad actwaraidd diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn cynt.

| **Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun** | | |
|---|---|---|
| **Newid tybiaeth** | **Brasamcan gynnydd i'r Cyflogwr 31 Mawrth 2014** | **Brasamcan swm ariannol 31 Mawrth 2014** |
| | % | £'000 |
| lleihad 0.5% i'r gwir cyfradd disgownt | 11 | 68,912 |
| cynnydd flwyddyn i'r disgwyliad oes | 3 | 19,048 |
| cynnydd 0.5% i'r cyfradd codiad cyflog | 4 | 24,247 |
| cynydd 0.5% i'r cyfradd codiad pensiwn | 7 | 43,344 |

**Effaith ar Lif Arian y Cyngor**

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 20 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyngor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd (y mwyaf diweddar oedd 31 Mawrth 2013), neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddol. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2017 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyngor, cyfeiriwch at adroddiad actwaraidd 2013, dyddiedig 31 Mawrth 2014.

**Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir**

| | **Rhaniad Ymrwymiad** | | **Parhad** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | % | |
| Aelodau Gweithredol | 327,957 | 50.2 | 24.9 |
| Aelodau Gohiriedig | 87,498 | 13.4 | 24.2 |
| Aelodau Pensiynwyr | 237,815 | 36.4 | 11.4 |
| **Cyfanswm** | **653,270** | **100.0** | **19.9** |

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymiadau wedi eu hariannu a nad ydynt yn cynnwys ymrwymiadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar prisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2013.

**Effaith ym Mlynyddoedd y Dyfodol**

Bydd adroddiadau IAS19 yn y dyfodol yn cynnwys effaith y newidiadau cenedlaethol i'r cynllun o dan y Ddeddf Gwasanaethau Pensiynau 2013, a'r newid o fuddion cyflog terfynol i fuddion cyfartaledd gyrfa adbrisiedig ar gyfer gwasanaeth o 1af Ebrill 2014 ymlaen.

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyngor i fod yn £17.2m yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2015.

O ganlyniad i faterion amseriad a'r ffaith fod adroddiad yr Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, mae gwahaniaeth o £125,323 yn 2013/14 (£84,000 yn 2012/13) rhwng ffigyrau diffyg yn y Gronfa yn ôl yr actiwari o'i gymharu gyda'r Ymrwymiad yn perthyn i Gynllun Pensiwn buddiannau wedi eu diffinio ar y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymiadau Pensiwn ac felly wedi eu cynnwys yn y ffigyrau Ymrwymiad yn perthyn i Gynllun Pensiwn buddiannau wedi eu diffinio yn y Fantolen.

**NODYN 43 – YMRWYMIADAU DIBYNNOL**

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fod digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran yr Awdurdod ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall digwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod.

Mae'r sefyllfa isod yn berthnasol i amgylchiadau'n ymwneud â thri ymrwymiad dibynnol penodol:

- Sefyllfa mewn perthynas â Hawliadau Cyflog Cyfartal - mae darpariaeth yn gynwysedig yng Nghyfrifon yr Awdurdod sydd yn adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r costau tebygol ar 31 Mawrth 2014. Bydd y gwir sefyllfa derfynol a'r ymrwymiad yn dibynnu ar ganlyniad yr hawliadau sydd heb ei setlo.

- Gofynion capio ac ôl-ofalaeth safleoedd tirlenwi yr Awdurdod - mae'r ddarpariaeth sydd yn gynwysedig yn y cyfrifon yn seiliedig ar amgylchiadau presennol a gwybyddus, yn ychwanegol i

ragolygon perthnasol. Er hynny, mae'n bosib y bydd y gwir gost derfynol yn wahanol i'r costau cyfredol a amcangyfrifir at y dyfodol.

- Mae'r Awdurdod yn agored i ymrwymiad yswiriant posib sy'n berthnasol i drefniadau yswiriant ei gyn-awdurdodau, sef, Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Arfon, Cyngor Dosbarth Dwyfor, Cyngor Dosbarth Meirionnydd, a therfyniad Cronfa Municipal Mutual Insurance (M.M.I) ar 30 Medi 1992.

  Gwnaeth M.M.I. gynllun o drefniant gyda'i gredydwyr, ble, os oedd cyllid M.M.I. yn annigonol i gyfarfod hawliadau yn y dyfodol, yna byddai cymal adfachu'n cael ei sbarduno (sef Cynllun o Drefniant) a allai effeithio hawliadau a dalwyd ers 1992-93. Ar 13 Tachwedd 2012, daeth cyfarwyddwyr y Cwmni i'r casgliad y dylid gweithredu amodau'r Cynllun o Drefniant a rhoddwyd rhybudd i'r perwyl hwn i Weinyddwr y Cynllun a'r Cwmni. Mae'r penderfyniad yn derfynol. Roedd y lefi cychwynnol yn 15% o daliadau a wnaethpwyd ers 30 Medi 1992 yn daladwy gan yr awdurdodau; talwyd y lefi cychwynnol yma yn ystod 2013/14.

  Fodd bynnag, yn unol â'r cynllun, bydd modd codi lefi pellach os na fydd y lefi gwreiddiol yma yn ddigonol ar gyfer ymrwymiadau M.M.I. yn y tymor hirach. Mae Cyngor Gwynedd o'r farn y byddai'n ddarbodus parhau i gynnal darpariaeth yn y disgwyliad y bydd y lefi cychwynnol yn annigonol. Uchafswm amcangyfrif cyfredol yr ymrwymiad sy'n berthnasol i'r awdurdod hwn yw hyd at £850,000.

## NODYN 44 – YMDDIRIEDOLAETHAU

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel yr unig ymddiriedolwr ar gyfer 173 o gymynroddion megis cronfeydd gwobrau ysgolion a chronfeydd cysuron a gwelliannau i nifer o Sefydliadau'r Cyngor.

Fel yr unig ymddiriedolwr mae'r Cyngor yn dal yr eiddo ar gyfer bob ymddiriedolaeth ond nid yw'n penderfynu ar ei ddefnydd. Ymhob achos nid yw'r cyllid yn cynrychioli asedion y Cyngor ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn y Fantolen.

| **2013/14** | **Incwm £'000** | **Gwariant £'000** | **Asedion £'000** | **Ymrwymiadau £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaethau Gwasanaethau Cymdeithasol | 6 | 21 | 389 | 42 |
| Ymddiriedolaethau Addysg | 58 | 33 | 882 | 673 |
| Cronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan | 8 | 2 | 152 | 145 |
| Y Gronfa Degwm | 348 | 19 | 872 | 38 |
| | 420 | 75 | 2,295 | 898 |

| **2012/13** | **Incwm £'000** | **Gwariant £'000** | **Asedion £'000** | **Ymrwymiadau £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaethau Gwasanaethau Cymdeithasol | 74 | 11 | 403 | 42 |
| Ymddiriedolaethau Addysg | 49 | 20 | 854 | 672 |
| Cronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan | 6 | 2 | 146 | 25 |
| Y Gronfa Degwm | 17 | 12 | 561 | 42 |
| | 146 | 45 | 1,964 | 781 |

Mae gwybodaeth bellach ar Ymddiriedolaeth FMG Morgan a'r Gronfa Degwm yn Atodiadau B a C i'r cyfrifon hyn.

## NODYN 45 – CYFRIF REFENIW TAI

Penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylai holl dai Cyngor yng Nghymru gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Nid oedd digon o adnoddau gan Gyngor Gwynedd i gyflawni'r SATC o fewn yr

amserlen angenrheidiol, ac felly trosglwyddwyd stoc tai Cyngor Gwynedd i gyd i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig gafodd ei ffurfio yn benodol at y pwrpas hwn. Trosglwyddodd y stoc tai i Gartrefi Cymunedol Gwynedd ar 12 Ebrill 2010. Nid oes unrhyw incwm na gwariant yn perthyn i'r Cyfrif Refeniw Tai ers 2010/11. Fodd bynnag, yn ystod 2013/14 yn dilyn derbyn caniatad gan Lywodraeth Cymru fod modd cau y Cyfrif Refeniw Tai yn llwyr, trosglwyddwyd balans y Cyfrif i ddefnydd y Cyngor ac sydd bellach o fewn Reserfau a Glustnodwyd y Cyngor.

| 2012/13 | | 2013/14 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 1,727 | Balans ar y Cyfrif Refeniw Tai ar 1 Ebrill | 1,727 |
| 1,727 | Balans ar y Cyfrif Refeniw Tai ar 31 Mawrth | 0 |

## NODYN 46 – TREFNIANT CONSESIWN GWASANAETH

Mae Prosiect GwyriAD yn gynllun Trefniant Consesiwn Gwasanaeth, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel cynllun Menter Cyllid Preifat (PFI). Dechreuwyd ar y dasg o'i adeiladau yn 2012/13 a'r gwaith yn dod yn weithredol ym Medi 2013. Gwaith yw gogyfer â thrin gwastraff bwyd a ddidolir yn y tarddle gan breswylwyr a busnesau Gwynedd (yn bennaf) trwy ddefnyddio technoleg Treulio Anaerobig (Anaerobic Digestion). Mae hyn yn gymorth i'r Awdurdod gyrraedd ei dargedau ailgylchu, a gweithio o fewn ei lwfansau tirlenwi o Wastraff Dinesig Bioddiraddadwy am gyfnod o 15 mlynedd.

Mae'r asedau sy'n cael eu darparu i gyflenwi'r gwasanaeth yn cael eu cydnabod ar Fantolen yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn gwneud taliad cytunedig (ffi giât) bob blwyddyn yn seiliedig ar isafswm o dunelli sy'n cael ei gynyddu yn flynyddol gan chwyddiant ac sy'n gallu cael ei ostwng os nad yw'r contractwr yn cyfarfod ag argaeledd a safon perfformiad mewn unrhyw flwyddyn. Mae gan yr Awdurdod yr hawl i gynyddu swm y tunelli dros y 7,500 tunnell cytunedig hyd at 11,000 tunnell, a bydd yn talu ffi giât ostyngol am unrhyw beth dros 7,500 tunnell.

| | Taliad am Wasanaethau | Ad-daliad Gwariant Cyfalaf | Llog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Talwyd yn 2013/14 | 290 | 63 | 92 | 445 |
| Taladwy yn 2014/15 | 498 | 112 | 153 | 763 |
| Taladwy o fewn 2 i 5 mlynedd | 1,991 | 521 | 539 | 3,051 |
| Taladwy o fewn 6 i 10 mlynedd | 2,489 | 854 | 472 | 3,815 |
| Taladwy o fewn 11 i 15 mlynedd | 2,198 | 997 | 174 | 3,369 |
| **Cyfanswm** | **7,466** | **2,547** | **1,430** | **11,443** |

Er bod y taliadau sy'n cael eu gwneud i'r contractwr yn cael eu disgrifio fel taliadau unedol, maent wedi eu cyfrifo er digolledu'r contractwr am werth teg y gwasanaeth a gyflenwir, y gwariant cyfalaf a'r llog oedd yn daladwy.

Mae'r contractwr yn derbyn incwm o ynni sy'n cael ei gynhyrchu o'r gwastraff sydd wedi eu galluogi i gadw'r taliad unedol i'r Cyngor yn isel. Os yw'r incwm yn uwch na'r hyn sydd yn y cytundeb, mae trefniant iddo gael ei rannu rhwng y contractwr a Chyngor Gwynedd.

Mae'r ymrwymiadau sy'n ddyledus i'r contractwr am y gwariant cyfalaf sydd wedi ei wneud fel a ganlyn:

| | 2013/14 Ymrwymiadau Prydlesau £'000 | Incwm Gohiriedig £'000 |
|---|---|---|
| Balans yn sefyll 1 Ebrill 2013 | (2,547) | (2,187) |
| Ad-daliad o brifswm yn ystod y flwyddyn | 63 | 0 |
| Rhyddhad o incwm gohiriedig | 0 | 85 |
| Balans yn sefyll ar 31 Mawrth 2014 | (2,484) | (2,102) |

## NODYN 47 - CYD-BWYLLGORAU

Yn ystod 2013/14, roedd Cyngor Gwynedd yn rhan o chwech cyd-bwyllgor, sef cyd-weithio mewn meysydd penodol rhwng Awdurdodau Lleol. Mae'n ofynnol i gyfrifon ar wahân gael eu cynhyrchu ar gyfer cyd-bwyllgorau. Y chwech cyd-bwyllgor perthnasol i Wynedd yw:

- Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)
- GwE
- Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd
- Trafnidiaeth Integredig yng Ngogledd Cymru (TAITH)
- Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TRaCC)
- Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC)

Mae cyfrifon y cyd-bwyllgorau yn dilyn yr un amserlen o ran dyddiad statudol ar gyfer cwblhau y cyfrifon. Yn yr amgylchiadau, felly fe welir fod Cyfrifon Cyngor Gwynedd yn adlewyrchu y gwir ymrwymiad net perthnasol, er fod y sefyllfa ddadansoddiadol oddrychol yn mynd i amrywio yn ddibynnol ar sefyllfa a threfniadau adrodd y gwahanol gyd-bwyllgorau. Mae'r ffigyrau amodol ar archwiliad ar gyfran perthnasol i Wynedd wedi eu cynnwys yn Atodiad Ch 'Crynodeb Cyd-Bwyllgorau'.

| 31 Mawrth 2013 £'000 | | Nodiadau | 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|---|
| | **Delio gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r gronfa** | | |
| 63,451 | Cyfraniadau derbyniadwy | 7 | 65,700 |
| 18 | Llog ar gyfraniadau gohiriedig | | 17 |
| 1 | Incwm ar gyfrifo ysgariad | | 3 |
| 0 | Llog ar gyfraniadau a delir yn hwyr | | 0 |
| 3,126 | Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill | 8 | 3,810 |
| **66,596** | **Cyfanswm y cyfraniadau a dderbyniwyd** | | **69,530** |
| (41,714) | Buddion sy'n daladwy | 9 | (45,167) |
| (2,592) | Taliadau i rai sy'n ymadael | 10 | (1,516) |
| (1,068) | Costau gweinyddol | 11 | (1,268) |
| **(45,374)** | **Cyfanswm y buddion a dalwyd** | | **(47,951)** |
| **21,222** | **Net ychwanegiadau o ddelio gydag aelodau** | | **21,579** |
| | **Enillion ar Fuddsoddiadau** | | |
| 11,929 | Incwm buddsoddi | 12 | 13,993 |
| (335) | Treth ar incwm | 13 | (466) |
| 116,102 | Elw a (cholled) wrth waredu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad | 15 | 88,421 |
| (5,720) | Costau rheoli buddsoddiadau | 14 | (6,850) |
| **121,976** | **Enillion net ar fuddsoddiadau** | | **95,098** |
| | **Asedau Net y Gronfa** | | |
| 1,049,671 | Ar 1af o Ebrill | | 1,192,869 |
| 21,222 | Net ychwanegiadau o ddelio gydag aelodau | | 21,579 |
| 121,976 | Enillion net ar fuddsoddiadau | | 95,098 |
| **1,192,869** | | | **1,309,546** |

| 31 Mawrth 2013 £'000 | | Nodiadau | 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|---|
| 1,170,051 | Asedau buddsoddi | 15 | 1,280,403 |
| 17,316 | Adneuon arian parod | 15 | 15,453 |
| **1,187,367** | | | **1,295,856** |
| (4,297) | Ymrwymiadau buddsoddi | 15 | (308) |
| 13,682 | Asedau cyfredol | 20 | 17,450 |
| (3,883) | Ymrwymiadau cyfredol | 21 | (3,452) |
| **1,192,869** | | | **1,309,546** |

Nid yw'r Datganiadau Cyllidol yn cynnwys ymrwymiadau'r Gronfa i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill i holl gyfranwyr presennol y Gronfa ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ond yn hytrach mae'n crynhoi trafodion ac asedau net y Gronfa. Ystyrir ymrwymiadau'r Gronfa ym mhrisiadau cyfnodol yr actiwari o'r Gronfa (y mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2013) ac fe'u hadlewyrchir yn lefelau cyfraniadau'r cyflogwyr a bennir gan y prisiad hwn, fel bydd y Gronfa eto yn gallu cwrdd â 100% o ymrwymiadau'r dyfodol. Dangosir y gwerth presennol actiwariaidd ar gyfer buddiannau a addewir yn Nodyn 19.

# NODIADAU AR GYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

## NODYN 1 – DISGRIFIAD O'R GRONFA

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa") yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac fe'i gweinyddir gan Gyngor Gwynedd. Y Cyngor yw'r endid adrodd ar gyfer y gronfa bensiwn hon. Crynodeb o'r gronfa yw'r disgrifiad a ganlyn. Am fwy o fanylion, dylid cyfeirio at Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd 2013/14 a'r pwerau statudol sy'n tanategu'r cynllun, sef Deddf Blwydd-dal 1972 a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL).

a) **Cyffredinol**

Deddf Blwydd-dal 1972 sy'n llywodraethu'r gronfa. Gweinyddir y gronfa yn unol â'r deddfau eilaidd a ganlyn:

- Rheoliadau CPLIL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau CPLIL (Gweinyddu) 2008 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau CPLIL (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009.

Mae'n gynllun pensiwn sy'n seiliedig ar gyfraniadau a weinyddir gan Gyngor Gwynedd i roi pensiynau a buddion eraill i weithwyr pensiynadwy Cyngor Gwynedd, dau awdurdod lleol arall a chyrff ar yr atodlen, cyrff a benderfynir a chyrff eraill a ganiateir sydd o fewn cyn ardal Cyngor Sir Gwynedd. Nid yw athrawon, swyddogion yr heddlu a gweithwyr y gwasanaeth tân wedi'u cynnwys gan eu bod yn rhan o gynlluniau pensiwn cenedlaethol eraill. Mae'r gronfa'n cael ei goruchwylio gan y Pwyllgor Pensiynau, sef un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd.

**b) Aelodaeth**

Mae bod yn aelod o'r CPLIL yn rhywbeth gwirfoddol ac mae gweithwyr yn rhydd i ddewis p'un a ydynt am ymuno â'r cynllun, parhau'n aelod o'r cynllun neu wneud eu trefniadau personol y tu allan i'r cynllun. Ymysg y sefydliadau sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd mae:

- Cyrff ar yr atodlen, sy'n awdurdodau lleol a chyrff tebyg ble mae gan eu staff hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r gronfa.
- Cyrff a benderfynir, sy'n gyngor dinas, tref neu blwyf. Mae ganddynt yr hawl i benderfynu os caiff eu gweithwyr ymuno â'r CPLIL ac i fabwysiadu'r penderfyniad yn unol â hynny.
- Cyrff a ganiateir, sy'n sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y gronfa dan gytundeb mynediad rhwng y gronfa a'r sefydliad perthnasol. Mae'r cyrff a ganiateir yn cynnwys cyrff gwirfoddol, elusennol a thebyg neu gontractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol wedi i'r swyddogaeth gael ei allanoli i'r sector preifat.

Mae 59 o sefydliadau cyflogwyr wedi'u cynnwys yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd, yn cynnwys y Cyngor ei hun. Gweler isod:

| Cronfa Bensiwn Gwynedd | 31 Mawrth 2013 | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| Nifer y cyflogwyr gydag aelodau gweithredol | 40 | 39 |
| **Nifer y gweithwyr sy'n rhan o'r cynllun** | | |
| Cyngor Gwynedd | 5,391 | 6,525 |
| Cyflogwyr eraill | 9,408 | 8,606 |
| **Cyfanswm** | **14,799** | **15,131** |
| **Nifer y pensiynwyr** | | |
| Cyngor Gwynedd | 2,153 | 2,296 |
| Cyflogwyr eraill | 5,078 | 5,288 |
| **Cyfanswm** | **7,231** | **7,584** |
| **Pensiynwyr gohiriedig** | | |
| Cyngor Gwynedd | 3,601 | 4,313 |
| Cyflogwyr eraill | 4,768 | 6,187 |
| **Cyfanswm** | **8,369** | **10,500** |

Mae'r cyrff canlynol yn gyflogwyr gweithredol yn y Gronfa Bensiwn:

| Cyrff ar yr atodlen | |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Ysgol Bryn Eilian |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Ysgol Emrys ap Iwan |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | Ysgol Pen y Bryn |
| Grwp Llandrillo – Menai | Ysgol Uwchradd Eirias |
| **Cyrff a Benderfynir** | |
| Cyngor Cymuned Llanllyfni | Cyngor Tref Ffestiniog |
| Cyngor Dinas Bangor | Cyngor Tref Llandudno |
| Cyngor Tref Abergele | Cyngor Tref Llangefni |
| Cyngor Tref Bae Colwyn | Cyngor Tref Porthaethwy |
| Cyngor Tref Biwmares | Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel |
| Cyngor Tref Caergybi | Cyngor Tref Tywyn |
| Cyngor Tref Caernarfon | |
| **Cyrff a Ganiateir** | |
| CAG Coleg Harlech | Cymdeithas Gogledd Cymru'r Deillion |
| CAIS | Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy |
| Canolfan Cynghori Conwy | Gyrfaoedd Cymru Gogledd Orllewin |
| Canolfan Cynghori Ynys Môn | Mantell Gwynedd |
| Cwmni Cynnal | Medrwn Môn |
| Cwmni'r Frân Wen | Menter Môn |
| Cydbwyllgor Claddu Caergybi | |
| **Cyrff Cymunedol a Ganiateir** | |
| Cartrefi Conwy | Cartrefi Cymunedol Gwynedd |
| **Corff Trosglwyddai a Ganiateir** | |
| Eden Foods (dim aelodau gweithredol ers 31 Awst 2013) | Jewsons |

c) **Cyllid**

Mae'r buddion yn cael eu cyllido gan gyfraniadau ac enillion ar fuddsoddiadau. Mae aelodau gweithredol y gronfa'n talu cyfraniadau yn unol â Rheoliadau CPLIL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 ac maent yn amrywio o 5.5% i 7.5% o dâl pensiynadwy'r aelod ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2014. Mae cyfraniadau'r gweithwyr yn cael eu cyfatebu â chyfraniadau gan y cyflogwyr sy'n cael eu gosod yn seiliedig ar y prisiad actiwaraidd a gynhelir bob tair blynedd. Yn ystod 2013/14 mae cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwyr yn amrywio o 5.1% i 29.1% o'r tâl pensiynadwy. Gweithredir cyfraniadau cyflogwr newydd o 1af Ebrill 2014 ymlaen yn dilyn y prisiad a wnaethpwyd ar 31 Mawrth 2013.

d) **Buddion**

Mae buddion pensiwn dan y CPLIL yn seiliedig ar y tâl pensiynadwy terfynol a hyd y gwasanaeth pensiynadwy; gweler y crynodeb isod:

| | Gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2008 | Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2008 |
|---|---|---|
| **Pensiwn** | Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/80 x cyflog pensiynadwy terfynol | Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/60 x cyflog pensiynadwy terfynol |
| **Lwmp Swm** | Lwmp swm awtomatig o 3 x cyflog. Yn ogystal, gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir. | Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir. |

Bydd gwasanaeth o 1 Ebrill 2014 ymlaen yn seiliedig ar rheoliadau newydd fel a ganlyn:

| | **Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014** |
|---|---|
| Pensiwn | Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/49 x cyfartaledd cyflog gyrfa wedi'i adbrisio. |
| Lwmp Swm | Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir. |

Darperir amrediad o fuddion eraill dan y cynllun yn cynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynau anabledd a buddion marwolaeth. Am fwy o fanylion, cyfeiriwch at lawlyfr cynllun Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd ar gael gan Adain Pensiynau Cyngor Gwynedd.

Mae'r buddion yn gysylltiedig â mynegai er mwyn glynu at y raddfa chwyddiant cyfredol.

## NODYN 2 – SAIL DARPARIAETH

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2014. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Côd Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013/14 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw'r cyfrifon yn rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Gweler gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo, ble bo'u gwerth wedi'i gyfrifo'n seiliedig ar Safon Cyfrifyddu Genedlaethol (IAS) 19, yn Nodyn 19 y cyfrifon hyn.

## NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL

### Cyfrif y gronfa – cydnabyddiaeth refeniw

### a) Incwm o Gyfraniadau

Cyfrifir cyfraniadau arferol, gan weithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd, yn seiliedig ar groniad ar y raddfa ganrannol a argymhellir gan actiwari'r gronfa yn y cyfnod cyflogres y maent yn perthyn iddo.

Cyfrifir am gyfraniadau ychwanegol cyflogwyr a chyfraniadau straen pensiwn yn y cyfnod ble mae'r ymrwymiadau dan sylw yn codi. Ystyrir bod unrhyw swm sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn, ond nad ydyw wedi'i dalu, yn ased ariannol cyfredol. Ystyrir bod unrhyw swm nad ydyw'n ddyledus hyd flynyddoedd yn y dyfodol yn ased ariannol tymor hir.

### b) Trosglwyddiadau o gynlluniau eraill ac i gynlluniau eraill

Mae'r gwerthoedd trosglwyddo'n cynrychioli'r symiau a dderbyniwyd ac a dalwyd yn ystod y flwyddyn i aelodau sydd naill ai wedi ymuno neu sydd wedi gadael y gronfa yn ystod y flwyddyn ariannol ac maent yn cael eu cyfrifo yn unol â'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (gweler Nodiadau 8 a 10).

Mae trosglwyddiadau unigol i mewn i'r gronfa ac allan ohoni'n cael eu gwneud yn seiliedig ar dderbynion a thaliadau, ac fel arfer mae hyn yn digwydd pan dderbynnir neu pan ryddheir ymrwymiadau aelod.

Cyfrifir am drosglwyddiadau i mewn i'r gronfa gan aelodau sy'n dymuno defnyddio'r enillion o'u cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (gweler isod) i brynu buddion y cynllun ar sail derbynion ac maent wedi'u cynnwys dan Trosglwyddiadau i Mewn (gweler Nodyn 8).

Cyfrifir am drosglwyddiadau swmp (grwp) yn seiliedig ar groniadau yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

**c) Incwm buddsoddi**

i) Incwm llog

Cydnabyddir incwm llog yng nghyfrif y gronfa wrth iddo gronni, gan ddefnyddio'r gyfradd llog sy'n berthnasol i'r offeryn ariannol ar y dyddiad pan geir y llog neu ar darddiad y llog. Mae incwm yn cynnwys amorteiddiad unrhyw ddisgownt neu bremiwm, costau trafodi neu wahaniaethau eraill rhwng swm cario cychwynnol yr offeryn a'i swm pan fo wedi aeddfedu sydd wedi'i gyfrifo yn seiliedig ar y raddfa llog berthnasol.

ii) Incwm difidend

Cydnabyddir incwm difidend ar y dyddiad pan fo'r cyfranddaliadau'n cael eu dyfynnu fel rhai cyn-ddifidend. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iii) Dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno yn cynnwys eiddo

Cydnabyddir dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno ar y dyddiad pan maent yn cael eu cyflwyno. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iv) Newid yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad

Cydnabyddir newidiadau yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad (yn cynnwys eiddo buddsoddi) fel incwm ac maent yn cynnwys yr holl elw/colledion a wireddwyd ac na wireddwyd yn ystod y flwyddyn.

**Cyfrif y gronfa – eitemau sy'n creu costau**

**d) Buddion sy'n daladwy**

Mae'r buddion pensiwn a lwmp swm sy'n daladwy'n cynnwys yr holl symiau a wyddys eu bod yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cyfeirir at unrhyw swm sy'n ddyledus ond nad ydyw wedi'i dalu yn y datganiad asedau net fel ymrwymiadau cyfredol.

**e) Trethiant**

Mae'r gronfa'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig dan adran 1(1) Atodlen 36 Deddf Cyllid 2004 ac o ganlyniad mae'r llog a dderbynnir yn eithriedig rhag treth incwm y DU a rhag treth ar enillion cyfalaf ar yr enillion a geir o'r buddsoddiadau a werthir. Mae treth atal yn daladwy ar incwm a geir o fuddsoddiadau tramor yn y wlad ble maent yn tarddu, oni bai bod eithriad wedi'i ganiatáu. Cyfrifir am dreth anadferadwy fel cost i'r gronfa fel mae'n codi.

**f) Costau gweinyddol**

Cyfrifir am yr holl gostau gweinyddol yn seiliedig ar groniad. Mae holl gostau staff y tîm gweinyddu pensiynau'n cael eu codi'n uniongyrchol ar y gronfa. Telir am gostau rheoli, llety a gorbenion eraill o'r gronfa yn unol â pholisi'r Cyngor.

**g) Costau rheoli buddsoddiadau**

Cyfrifir am yr holl gostau rheoli buddsoddiadau yn seiliedig ar groniad.

Cytunir ar ffioedd y rheolwyr buddsoddi a'r ceidwad allanol yn y mandadau perthnasol sy'n llywodraethu eu penodiadau. Yn fras, mae'r rhain yn seiliedig ar werth marchnad y buddsoddiadau dan eu rheolaeth ac felly maent yn cynyddu neu'n lleihau wrth i werth y buddsoddiadau hyn newid.

Yn ogystal, mae'r gronfa wedi negodi gyda'r un rheolwr a ganlyn y dylai elfen o'u ffi fod yn gysylltiedig â'u perfformiad:

Fidelity - Ecwiti Byd-eang

Talwyd £37,844 mewn ffioedd oedd yn gysylltiedig â pherfformiad i'r rheolwyr yn ystod 2013/14 (£0 yn 2012/13).

Mae cost cael cyngor ar fuddsoddiadau gan ymgynghorwyr allanol wedi'i gynnwys dan ffioedd rheoli buddsoddiadau.

Yn ogystal, mae cyfran o gostau'r Cyngor sy'n gysylltiedig â'r amser a dreulir gan swyddogion yn rheoli buddsoddiadau yn cael ei godi ar y gronfa.

## Datganiad asedau net

### h) Asedau ariannol

Mae asedau ariannol wedi'u cynnwys yn y datganiad asedau net yn seiliedig ar eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ased ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y gronfa gytundeb ei fod yn cael yr ased. O'r dyddiad hwn, bydd y gronfa'n cydnabod unrhyw enillion neu golledion a ddaw yn sgil newidiadau yng ngwerth teg yr ased.

Mae gwerth y buddsoddiadau fel y'u dengys yn y datganiad asedau net wedi'u pennu fel a ganlyn:

i) Buddsoddiadau a ddyfynnir ar y farchnad
Penderfynir gwerth buddsoddiad lle bo pris marchnad ar gael yn rhwydd ar sail dyfarniad y pris marchnad ar ddiwrnod olaf y cyfnod cyfrifo.

ii) Gwarantau llog sefydlog
Cofnodir gwarantau llog sefydlog ar werth marchnad net yn seiliedig ar eu cynhyrchion cyfredol.

iii) Buddsoddiadau heb eu dyfynnu
Mae gwerth teg buddsoddiadau ble nad yw'r dyfyniadau marchnad ar gael yn hawdd, yn cael eu pennu fel a ganlyn:

- Mae prisiadau ar gyfer stociau wedi eu dadrestru yn seiliedig ar y pris gwerthu olaf cyn y dadrestriad, neu ble yn amodol ar ddatodiad, y swm y disgwylir ei dderbyn gan y Gronfa wrth ei ddirwyn i ben, llai y costau gwerthu a amcangyfrifir.
- Stociau yn amodol ar gynnig trosfeddiannu - gwerth yr ystyriaeth a gynigir o dan y cynnig, llai amcangyfrif o'r costau gwerthu.
- Mae buddsoddiadau â ddelir yn uniongyrchol yn cynnwys buddsoddiadau mewn partneriaethau cyfyngedig, cyfranddaliadau mewn cwmnïau heb eu rhestru, ymddiriedolaethau a bondiau. Mae stociau eraill heb eu dyfynnu yn cynnwys buddsoddiadau cydgyfrannog mewn eiddo, is-adeiladwaith, stociau dyled ac ecwiti preifat. Mae'r prisiad o'r cydgyfraniadau yma neu stociau a ddelir yn uniongyrchol yn cael eu gwneud gan y rheolwr buddsoddi neu endid cyfrifol a gynghorir fel pris uned neu stoc. Mae'r safonau prisio a ddilynir yn y prisiadau yma yn cadw at ganllawiau'r diwydiant neu at safonau a osodwyd yn nogfennau cyfansoddol y pwl neu'r cytundeb rheoli.
- Caiff buddsoddiadau mewn eiddo heb eu dyfynnu a chronfeydd is-adeiladwaith cydgyfrannog eu prisio ar werth yr ased net neu ar bris unigol a gynghorir gan y rheolwr buddsoddi.
- Caiff buddsoddiadau mewn cronfeydd ecwiti preifat a phartneriaethau cofrestredig heb eu dyfynnu eu prisio ar sail rhaniad y gronfa o'r asedau net yn y gronfa ecwiti preifat neu'r bartneriaeth gyfyngedig gan ddefnyddio'r datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddir gan y rheolwyr buddsoddi priodol mewn cydymffurfiad ag arweiniad IFRS. Mae'n bwysig adnabod natur oddrychol uchel o bennu gwerth teg ar fuddsoddiadau ecwiti preifat. Maent yn reddfol seiliedig ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych ymlaen ac sy'n cynnwys nifer fawr o ffactorau.

iv) Partneriaethau cyfyngedig
Caiff gwerth teg ei selio ar werth net yr ased a geir o'r prisiadau cyfnodol a ddarperir gan y rhai sydd yn rheoli'r bartneriaeth.

v) Offerynnau buddsoddi cydgyfrannog
Mae offerynnau buddsoddi cydgyfrannog yn cael eu prisio ar bris bid cau'r farchnad os yw prisiau bid a chynnig yn cael eu cyhoeddi; neu os mai dim ond un pris sydd ar gael, yna'r pris unigol adeg cau'r farchnad. Yn achos offerynnau buddsoddi cydgyfrannog sydd yn gronfeydd croniad, mae'r newid yng ngwerth y farchnad yn cynnwys incwm sydd yn cael ei ail-fuddsoddi yn y gronfa, net o unrhyw dreth atal berthnasol.

### i) Trafodion arian tramor

Mae difidendau, llog a phryniannau a gwerthiannau buddsoddiadau mewn arian tramor wedi'u cynrychioli'n seiliedig ar y cyfraddau cyfredol ar y farchnad ar ddyddiad y trafodion. Defnyddir cyfraddau cyfnewid cyfredol ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn i gyfrifo gwerth balasau arian parod a ddelir mewn cyfrifon banc arian parod, gwerth buddsoddiadau tramor ar y farchnad a gwerthiannau sy'n aros ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

**j) Deilliadau**
Mae'r gronfa'n defnyddio offerynnau ariannol deilliadol i reoli pa mor agored ydyw i risgiau penodol sy'n codi o'i weithgareddau buddsoddi. Nid yw'r gronfa yn dal deilliadau at ddibenion hapfasnachol.

Caiff cytundebau asedau deilliadau eu prisio yn deg ar bris bid a chaiff ymrwymiadau deilliadau eu prisio yn deg ar brisiau cynnig. Cynhwysir newidiadau mewn gwerth teg cytundebau deilliadau yn y newid mewn gwerth marchnad.

Mae gwerth dyfodol ar gyfer cytundebau arian tramor yn y dyfodol yn seiliedig ar gyfraddau cyfnewid yn y dyfodol y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn a'u phennu fel yr elw neu golled a byddai'n codi petai'r cytundeb cyfredol yn cael ei gydweddu gyda chytundeb cyfateb a chyferbyn.

**k) Arian a chywerthoedd arian**
Mae arian parod yn cynnwys arian parod sydd ar gael ac adneuon ar alw. Mae'r hyn a ddisgrifir fel 'Cyfwerth ag Arian Parod' yn cael eu diffinio fel buddsoddiadau byrdymor, hylifol iawn y gellir eu trosglwyddo'n arian parod yn rhwydd, ac nad oes llawer o risg y bydd eu gwerth yn newid.

**l) Ymrwymiadau ariannol**
Mae'r gronfa'n cydnabod ymrwymiadau ariannol fel gwerth teg ohonynt ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ymrwymiadau ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y gronfa gytundeb ei fod yn agored i'r ymrwymiad. O'r dyddiad hwn, bydd y gronfa'n cydnabod unrhyw enillion neu golledion a ddaw yn sgil newidiadau yng ngwerth teg yr ymrwymiad.

**m) Gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo**
Asesir gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo bob tair blynedd gan actiwari'r cynllun yn unol â gofynion IAS19 a'r safonau actiwaraidd perthnasol.

Fel y caniateir dan IAS26, mae'r gronfa wedi dewis datgelu gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo drwy gynnwys hysbysiad yn y datganiad asedau net. (Nodyn 19).

**n) Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol**
Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn darparu cynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (AVC) ar gyfer ei aelodau ac mae asedau'r cynllun hwnnw'n cael eu buddsoddi ar wahân i asedau'r gronfa bensiwn. Mae tair cronfa AVC. Delir y cronfeydd hyn gyda Clerical Medical, The Equitable Life Assurance Society a Standard Life. Mae'r darparwyr AVC yn diogelu buddion ychwanegol ar sail prynu arian ar gyfer yr aelodau hynny sy'n dewis talu cyfraniadau ychwanegol gwirfoddol. Mae pob aelod sy'n cymryd rhan yn y trefniadau hyn yn derbyn datganiad blynyddol hyd at 31 Mawrth yn cadarnhau'r symiau a ddelir yn eu cyfrif a'r newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Nid yw AVCs yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon, yn unol ag adran 4(2)(b) Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (OS 2009/3093); yn hytrach fe'u datgelir fel nodyn (Nodyn 22).

## NODYN 4 – DYFARNIADAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU POLISÏAU CYFRIFO

**Buddsoddiadau ecwiti preifat ac is-adeiladwaith heb eu dyfynnu**
Mae'n bwysig cydnabod natur hynod oddrychol pennu gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac is-adeiladwaith. Maent yn seiliedig yn bennaf ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych tua'r dyfodol sy'n cynnwys sawl ffactor. Mae rheolwyr buddsoddi'n pennu gwerth buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu ac is-adeiladwaith gan ddefnyddio canllawiau sydd wedi'u gosod gan safon cyfrifo IFRS. Roedd gwerth y gwarantau preifat heb eu dyfynnu ar 31 Mawrth 2014 yn £64 miliwn (£62 miliwn ar 31 Mawrth 2013).

**Ymrwymiadau'r gronfa bensiwn**
Cyfrifir ymrwymiadau'r gronfa bensiwn bob tair blynedd gan yr actiwari sydd wedi'i benodi, a darperir diweddariadau blynyddol yn ystod y blynyddoedd rhwng pob prisiad. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn unol â chanllawiau cymeradwy ac yn unol ag IAS19. Mae'r rhagdybiaethau sy'n tanategu'r prisiadau yn cael eu cytuno gyda'r actiwari a cheir crynodeb ohonynt yn Nodyn 18. Mae'r amcangyfrif hwn yn destun amrywiaethau arwyddocaol yn seiliedig ar newidiadau i'r rhagdybiaethau gwaelodol.

## NODYN 5 – RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL SY'N RHOI ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIFO

Mae Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau sydd wedi'u hamcangyfrif sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan y Cyngor ynghylch y dyfodol neu ragdybiaethau ansicr. Amcangyfrifir drwy roi ystyriaeth i brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai'r gwir ganlyniadau fod yn bur wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau yn y datganiad asedau net ar 31 Mawrth 2014, ble mae risg arwyddocaol o amrywiaethau materol yn y flwyddyn ariannol i ddod, fel a ganlyn:

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith os yw'r gwir ganlyniadau'n wahanol i'r rhagdybiaethau |
|---|---|---|
| Gwerth cyfredol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo | Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymiad net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r raddfa ddisgownt a ddefnyddiwyd, y raddfa godiad cyflog a ragwelir, newidiadau mewn oed ymddeol, cyfraddau marwolaeth a'r enillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae cwmni o actiwariaid ymgynghorol yn cael eu cyflogi i roi cyngor arbenigol i'r gronfa am y rhagdybiaethau i'w defnyddio. | Byddai'r ymrwymiadau pensiwn net yn newid os byddai newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y dybiaeth graddfa ddisgownt yn arwain at ostyngiad yn yr ymrwymiad pensiwn, cynnydd yn y dybiaeth chwyddiant ar gyflogau yn cynyddu gwerth yr ymrwymiadau a byddai cynnydd yn y dybiaeth disgwyliad oes yn cynyddu'r ymrwymiad. |
| Dyledwyr | Ar 31 Mawrth 2014, roedd gan y gronfa falans amrywiol ddyledwyr o £6.8m. Awgrymodd adolygiad o falansau arwyddocaol nad oedd hi'n briodol i wneud unrhyw amhariad o'r dyledion. | Pe byddai'r graddfeydd casglu'n dirywio, byddai angen ail-ystyried y penderfyniad hwn. |
| Ecwiti preifat ac is-adeiladwaith | Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac is-adeiladwaith yn cael ei bennu'n unol â safon cyfrifo IFRS. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn cael eu rhestru'n gyhoeddus ac fel y cyfryw, mae elfen o amcangyfrif yn gysylltiedig â'r prisiad. | Mae cyfanswm y buddsoddiadau ecwiti preifat yn y datganiadau ariannol yn £64miliwn. Mae risg bod y buddsoddiad wedi'i nodi'n rhy isel neu'n rhy uchel yn y cyfrifon. |

## NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Ni fu unrhyw ddigwyddiad ers 31 Mawrth 2014, na hyd at y dyddiad pan awdurdodwyd y cyfrifon hyn, sy'n gofyn am wneud unrhyw addasiad i'r cyfrifon hyn.

## NODYN 7 – CYFRANIADAU DERBYNIADWY

**Yn ôl categori**

| 2012/13<br>£'000 | | 2013/14<br>£'000 |
|---|---|---|
| 49,126 | Cyflogwyr | 50,908 |
| 14,325 | Gweithwyr/Aelodau | 14,792 |
| **63,451** | | **65,700** |

**Yn ôl awdurdod**

| 2012/13 £'000 | | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| 21,333 | Cyngor Gwynedd | 23,297 |
| 36,999 | Cyrff eraill ar yr atodlen | 38,065 |
| 2,827 | Cyrff a ganiateir | 1,722 |
| 2,033 | Cyrff cymunedol a ganiateir | 2,369 |
| 63 | Cyrff trosglwyddo a ganiateir | 31 |
| 142 | Cyrff a Benderfynir | 162 |
| 54 | Cronfa gaeedig* | 54 |
| **63,451** | | **65,700** |

*Cronfa gaeedig - Dyma'r cyfraniadau a dderbyniwyd gan Pwyllgor Llysoedd Ynadon Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn a oedd yn arfer bod yn gyrff a ganiateir ond bellach yn gronfeydd caeedig.

## NODYN 8 – TROSGLWYDDIADAU I MEWN O GRONFEYDD PENSIWN ERAILL

| 2012/13 £'000 | | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| 3,126 | Trosglwyddiadau unigol | 3,810 |
| **3,126** | | **3,810** |

## NODYN 9 – BUDDION SY'N DALADWY

**Yn ôl categori**

| 2012/13 £'000 | | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| 32,237 | Pensiynau | 34,425 |
| 8,583 | Cymudiad a buddion ymddeol lwmp swm | 9,787 |
| 894 | Buddion marwolaeth – lwmp swm | 955 |
| **41,714** | | **45,167** |

**Yn ôl awdurdod**

| 2012/13 £'000 | | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| 10,169 | Cyngor Gwynedd | 11,613 |
| 18,182 | Cyrff eraill ar yr atodlen | 20,012 |
| 1,223 | Cyrff a ganiateir | 984 |
| 543 | Cyrff cymunedol a ganiateir | 1,000 |
| 15 | Cyrff trosglwyddo a ganiateir | 75 |
| 11,495 | Cronfa Gaeedig | 11,414 |
| 87 | Cyrff a Benderfynir | 69 |
| **41,714** | | **45,167** |

## NODYN 10 – TALIADAU I RAI SY'N YMADAEL

| 2012/13 £'000 | | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| 37 | Ad-daliadau i aelodau sy'n ymadael â'r gwasanaeth llai ad-daliadau treth | (1) |
| 1 | Taliadau i aelodau sy'n ymuno â chynllun y wladwriaeth | 1 |
| 2,554 | Trosglwyddiadau unigol | 1,516 |
| **2,592** | | **1,516** |

## NODYN 11 – COSTAU GWEINYDDOL

| 2012/13 £'000 | | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| 393 | Costau staff uniongyrchol | 427 |
| 87 | Costau uniongyrchol eraill | 209 |
| 434 | Gwasanaethau cefnogol, yn cynnwys TG | 366 |
| 66 | Pwyllgor y gronfa bensiwn | 50 |
| 25 | Ffioedd archwilio allanol | 29 |
| 63 | Ffioedd actiwaraidd | 187 |
| **1,068** | | **1,268** |

Mae'r costau gweinyddol yn cynnwys y symiau a godir ar y Gronfa Bensiwn gan Gyngor Gwynedd am gostau staff, gwasanaethau cefnogol a llety. Gweler manylion pellach yn Nodyn 23.

## NODYN 12 – INCWM BUDDSODDI

| 2012/13 £'000 | | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| 6 | Stociau llog sefydlog | 0 |
| 1,176 | Ecwiti'r DU | 2,816 |
| 5,052 | Ecwiti tramor | 5,374 |
| 923 | Ecwiti preifat | 1,264 |
| 0 | Is-adeiladwaith | 99 |
| 4,593 | Buddsoddiadau Eiddo wedi'u cyfuno | 4,322 |
| 179 | Llog ar adneuon arian parod | 118 |
| **11,929** | | **13,993** |

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd dri chyfrif banc sy'n cael eu dal fel rhan o Grwp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian dros ben sy'n cael ei ddal yn y Grwp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi yn ddyddiol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, sy'n seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa yn ystod y flwyddyn.

Roedd gan y Cyngor adneuon o £4m gyda Banc Heritable, a roddwyd yn nwylo'r gweinyddwyr ym mis Hydref 2008. Yr amhariad ar y buddsoddiad hwn i'r Gronfa Bensiwn oedd £2,723 yn 2012/13. Yn ystod 2013/14 derbyniwyd ad-daliad o £36,327 gan y Gronfa Bensiwn. Mae'r symiau wedi'i gynnwys yn y ffigwr llog ar adneuon arian parod ar gyfer y flwyddyn berthnasol yn y tabl uchod. Gweler manylion pellach yn Nodyn 26.

## NODYN 13 – TRETH AR INCWM

| 2012/13<br>£'000 | | 2013/14<br>£'000 |
|---|---|---|
| 335 | Treth atal – ecwiti | 466 |
| **335** | | **466** |

## NODYN 14 – COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU

| 2012/13<br>£'000 | | 2013/14<br>£'000 |
|---|---|---|
| 5,614 | Ffioedd rheoli | 6,720 |
| 46 | Ffioedd cadw | 50 |
| 16 | Gwasanaeth monitro perfformiad | 16 |
| 44 | Ffioedd ymgynghoriaeth buddsoddi | 64 |
| **5,720** | | **6,850** |

## NODYN 15 – BUDDSODDIADAU

| 2012/13<br>£'000 | | 2013/14<br>£'000 |
|---|---|---|
| | **Asedau buddsoddi** | |
| 157,644 | Enillion absoliwt | 194,386 |
| 206,697 | Ecwiti | 238,975 |
| 634,387 | Buddsoddiadau wedi'u cyfuno | 666,049 |
| 105,974 | Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfuno | 116,800 |
| 58,723 | Ecwiti Preifat | 59,696 |
| 3,064 | Is-adeiladwaith | 4,497 |
| | Contractau Deilliadau: | |
| 3,562 | Contractau arian y dyfodol | 0 |
| **1,170,051** | | **1,280,403** |
| 17,316 | Adneuon arian parod | 15,453 |
| **1,187,367** | **Cyfanswm asedau buddsoddi** | **1,295,856** |
| | **Ymrwymiadau buddsoddi** | |
| | Contractau Deilliadau: | |
| (3,620) | Contractau arian y dyfodol | 0 |
| (677) | Symiau taladwy am bryniannau | (308) |
| **(4,297)** | **Cyfanswm ymrwymiadau buddsoddi** | **(308)** |
| **1,183,070** | **Asedau buddsoddi net** | **1,295,548** |

**Nodyn 15a – Cysoni symudiadau mewn buddsoddiadau a deilliadau**

| 2013/14 | Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2013 | Pryniannau yn ystod y flwyddyn | Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn | Newid mewn gwerth farchnad yn ystod y flwyddyn | Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Stociau llog sefydlog dychweliad absoliwt | 157,644 | 31,000 | 0 | 5,742 | 194,386 |
| Ecwiti | 206,697 | 58,392 | (49,222) | 23,108 | 238,975 |
| Buddsoddiadau wedi'u cyfuno | 634,387 | 7,834 | (19,413) | 43,242 | 666,050 |
| Buddsoddiadau Eiddo wedi'u cyfuno | 105,974 | 1,531 | 0 | 9,295 | 116,800 |
| Ecwiti Preifat / Is-adeiladwaith | 61,787 | 16,273 | (16,894) | 3,026 | 64,192 |
| | 1,166,489 | 115,030 | (85,529) | 84,413 | 1,280,403 |
| Cytundebau arian tramor yn y dyfodol | (58) | | | 11 | 0 |
| Adneuon arian | 17,316 | | | (44) | 15,453 |
| Symiau derbyniadwy ar gyfer gwerthiannau buddsoddiadau | 0 | | | | 0 |
| Symiau taladwy ar gyfer pryniannau buddsoddiadau | (677) | | | | (308) |
| Ffioedd o fewn cerbyau wedi'u cyfuno | | | | 4,041 | |
| **Asedau buddsoddi net** | **1,183,070** | **115,030** | **(85,529)** | **88,421** | **1,295,548** |

| 2012/13 | Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2012 | Pryniannau yn ystod y flwyddyn | Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn | Newid mewn gwerth farchnad yn ystod y flwyddyn | Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Stociau llog sefydlog dychweliad absoliwt | 150,723 | 0 | (210) | 7,131 | 157,644 |
| Ecwiti | 153,058 | 206,019 | (171,726) | 19,346 | 206,697 |
| Buddsoddiadau wedi'u cyfuno | 577,137 | 1,716 | (30,999) | 86,533 | 634,387 |
| Buddsoddiadau Eiddo wedi'u cyfuno | 92,685 | 17,851 | 0 | (4,562) | 105,974 |
| Ecwiti Preifat / Is-adeiladwaith | 58,645 | 9,359 | (10,970) | 4,753 | 61,787 |
| | 1,032,248 | 234,945 | (213,905) | 113,201 | 1,166,489 |
| Cytundebau arian tramor yn y dyfodol | 16 | | | (82) | (58) |
| Adneuon arian | 17,624 | | | (219) | 17,316 |
| Symiau derbyniadwy ar gyfer gwerthiannau buddsoddiadau | 284 | | | | 0 |
| Symiau taladwy ar gyfer pryniannau buddsoddiadau | (6,756) | | | | (677) |
| Ffioedd o fewn cerbyau wedi'u cyfuno | | | | 3,202 | |
| **Asedau buddsoddi net** | **1,043,416** | **234,945** | **(213,905)** | **116,102** | **1,183,070** |

Cynhwysir costau trafodion, fel comisiwn, treth stamp a ffioedd trafodion eraill, yng nghost y pryniannau a derbyniadau gwerthiannau. Cyfanswm costau trafodion yn ystod y flwyddyn oedd £186,342 (2012/13 £426,308). Roedd y costau ar gyfer 2012/13 yn uwch nag arfer oherwydd trawsnewid i reolwr newydd a oedd yn golygu nifer sylweddol o bryniannau a gwerthiannau buddsoddiadau. Yn ogystal â'r costau yna telir costau anuniongyrchol trwy'r gwasgariad bid-cynnig ar fuddsoddiadau mewn cronfeydd wedi'u cyfuno.

**Nodyn 15b – Dadansoddiad o fuddsoddiadau (ac eithrio contractau deilliadol)**

| 31 Mawrth 2013 | | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| | **Ecwiti** | |
| | **Y Deyrnas Unedig** | |
| 45,299 | Wedi'u dyfynnu | 45,272 |
| | **Tramor** | |
| 161,398 | Wedi'u dyfynnu | 193,703 |
| | **Cronfeydd wedi'u cyfuno** | |
| | **Y Deyrnas Unedig** | |
| 218,891 | Ymddiriedolaethau Uned | 229,634 |
| | **Byd-eang (yn cynnwys y DU)** | |
| 157,644 | Incwm sefydlog | 194,386 |
| 211,337 | Ymddiriedolaethau Uned | 231,295 |
| | **Tramor** | |
| 204,159 | Ymddiriedolaethau Uned | 205,120 |
| 105,974 | **Ymddiriedolaethau uned eiddo** | 116,800 |
| 58,723 | **Ecwiti preifat** | 59,696 |
| 3,064 | **Isadeiladedd** | 4,497 |
| **1,166,489** | | **1,280,403** |

## Dadansoddiad o'r deilliadau

### Amcanion a pholisïau ar gyfer dal deilliadau

Delir y rhan fwyaf o ddeilliadau i ragfantoli ymrwymiadau neu leihau risg yn y gronfa. Gellir defnyddio deilliadau i gael bod yn agored i ased yn fwy effeithlon na'r hyn a fyddai'n bosib drwy ddal yr ased gwaelodol. Rheolir y defnydd a wneir o ddeilliadau'n unol â'r cytundeb rheoli buddsoddiadau sydd wedi'i gytuno rhwng y gronfa a'r rheolwyr buddsoddi amrywiol.

### Arian tramor yn y dyfodol

Er mwyn cael digon o amrywiaeth a chymryd mantais o enillion ar fuddsoddiadau tramor, mae cyfran sylweddol o'r portffolio ecwiti sydd wedi'i ddyfynnu sydd yn y gronfa yn cael ei fuddsoddi mewn marchnadoedd stoc tramor. Nid yw'r gronfa'n parhau i ragfantoli cyfradd o'r Ewro o fewn y portffolio a reolir gan UBS.

| **Ardrefniant** | **Gwerth yr Ased** | **Gwerth yr Ymrwymiad** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Cytundebau arian dramor yn y dyfodol net ar 31 Mawrth 2014** | | **0** |
| **Cymhariaeth blwyddyn cynt** | | |
| **Cytundebau arian dramor yn y dyfodol yn agored ar 31 Mawrth 2013** | **3,534** | **(3,518)** |
| **Cytundebau arian dramor yn y dyfodol net ar 31 Mawrth 2013** | | **16** |

**Buddsoddiadau fesul rheolwr buddsoddi**

| Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2013 | | | Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2014 | |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **%** | | **£'000** | **%** |
| 412,513 | 34.9 | BlackRock | 427,249 | 33.0 |
| 240,729 | 20.3 | Fidelity | 258,421 | 19.9 |
| 157,648 | 13.3 | Insight | 194,394 | 15.0 |
| 20,887 | 1.8 | Lothbury | 23,395 | 1.8 |
| 61,787 | 5.2 | Partners Group | 64,193 | 5.0 |
| 10,736 | 0.9 | Threadneedle | 12,001 | 0.9 |
| 56,223 | 4.8 | UBS | 63,323 | 4.9 |
| 222,547 | 18.8 | Veritas | 252,572 | 19.5 |
| **1,183,070** | **100.0** | | **1,295,548** | **100.0** |

Mae'r buddsoddiadau a ganlyn yn cynrychioli mwy na 5% o asedau net y cynllun

| Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2013 | % cyfanswm y gronfa | Gwarantau | Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2014 | % cyfanswm y gronfa |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | | | **£'000** | |
| 211,337 | 17.71 | Fidelity Institutional Select Global Equity | 231,295 | 17.66 |
| 218,889 | 18.34 | BlackRock Asset Management Aquila Life UK Equity Index Fund | 229,633 | 17.53 |
| 157,644 | 13.21 | Insight LDI Solution Bonds Plus | 194,386 | 14.84 |

**Nodyn 15c – Benthyca Stoc**

Mae'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DoEB) yn nodi y caniateir benthyca stoc yn amodol ar ganiatâd penodol. Ar hyn o bryd, nid yw'r gronfa'n benthyca unrhyw stoc.

## NODYN 16 – OFFERYNNAU ARIANNOL

### Nodyn 16a – Dosbarthiad offerynnau ariannol

Mae polisïau cyfrifo'n disgrifio sut mae gwahanol ddosbarthiadau o asedau offerynnau ariannol yn cael eu mesur a sut mae incwm a chostau, yn cynnwys enillion a cholledion gwerth teg, yn cael eu cydnabod. Mae'r tabl a ganlyn yn dadansoddi'r symiau cario o asedau ag ymrwymiadau ariannol (ac eithrio arian parod) fesul categori a phennawd datganiad asedau net. Ni ail-ddosbarthwyd unrhyw asedau ariannol yn ystod y cyfnod cyfrifo.

| Fel ar 31 Mawrth 2013 | | | | Fel ar 31 Mawrth 2014 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled | Benthyciadau ac arian a dderbynnir | Costau ymrwymiadau ariannol | | Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled | Benthyciadau ac arian a dderbynnir | Costau ymrwymiadau ariannol |
| £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | **Asedau Ariannol** | | | |
| 157,644 | | | Gwarantau llog sefydlog | 194,386 | | |
| 206,697 | | | Ecwiti | 238,975 | | |
| 634,387 | | | Buddsoddiadau wedi'u cyfuno | 666,049 | | |
| 105,974 | | | Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfuno | 116,800 | | |
| 58,723 | | | Ecwiti preifat | 59,696 | | |
| 3,064 | | | Isadeiladedd | 4,497 | | |
| 3,562 | | | Contractau Deilliadau | 0 | | |
| 121 | 24,662 | | Arian parod | 189 | 25,959 | |
| | 6,216 | | Dyledwyr | | 6,755 | |
| **1,170,172** | **30,878** | **0** | | **1,280,592** | **32,714** | **0** |
| | | | **Ymrwymiadau Ariannol** | | | |
| (3,620) | | | Contractau Deilliadau | 0 | | |
| (650) | | (3,911) | Credydwyr | (308) | | (3,452) |
| **(4,270)** | **0** | **(3,911)** | | **(308)** | **0** | **(3,452)** |
| **1,165,902** | **30,878** | **(3,911)** | | **1,280,284** | **32,714** | **(3,452)** |

### Nodyn 16b – Gwerth teg offerynnau ag ymrwymiadau ariannol

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth cario'r asedau ariannol a'r ymrwymiadau ariannol fesul dosbarth o offeryn o'i gymharu â'u gwerth teg.

| 31 Mawrth 2013 | | | 31 Mawrth 2014 | |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth cario | Gwerth teg | | Gwerth cario | Gwerth teg |
| £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 |
| | | **Asedau Ariannol** | | |
| 916,860 | 1,170,172 | Gwerth teg drwy elw a cholled | 964,240 | 1,280,593 |
| 30,878 | 30,878 | Benthyciadau a derbyniadau | 32,728 | 32,714 |
| **947,738** | **1,201,050** | **Cyfanswm yr Asedau Ariannol** | **996,968** | **1,313,307** |
| | | **Ymrwymiadau Ariannol** | | |
| (4,216) | (4,270) | Gwerth teg drwy elw a cholled | (254) | (253) |
| (3,911) | (3,911) | Cost ymrwymiadau ariannol | (2,325) | (3,508) |
| **(8,127)** | **(8,181)** | **Cyfanswm yr Ymrwymiadau Ariannol** | **(2,579)** | **(3,761)** |
| **939,611** | **1,192,869** | **Asedau ariannol net** | **994,389** | **1,309,546** |

Nid yw'r gronfa wedi ymrwymo i unrhyw warantau ariannol sydd angen cyfrifo amdanynt fel offerynnau ariannol.

### Nodyn 16c – Prisiad gwerth teg yr offerynnau ariannol sy'n cael eu cario

Mae prisiad yr offerynnau ariannol wedi'i ddosbarthu'n dri lefel, yn unol ag ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg.

**Lefel 1**
Offerynnau ariannol Lefel 1 yw rhai ble mae eu gwerth teg wedi'i bennu drwy ddefnyddio prisiau wedi'u dyfynnu a heb eu haddasu ar farchnadoedd gweithredol am asedau neu rwymedigaethau cyfwerth. Mae cynhyrchion sydd wedi'u dosbarthu fel rhai Lefel 1 yn cynnwys ecwiti wedi'u dyfynnu, gwarantau sefydlog wedi'u dyfynnu, gwarantau cysylltiedig â mynegai wedi'u dyfynnu ac ymddiriedolaethau uned. Mae'r buddsoddiadau a restrir yn cael eu harddangos am y pris a gynigwyd amdanynt. Mae gwerth y pris a gynigir am y buddsoddiad yn seiliedig ar ddyfyniad marchnad cynigion y farchnad stoc dan sylw.

**Lefel 2**
Mae offerynnau ariannol Lefel 2 yn rhai ble nad oes prisiau'r farchnad wedi'u dyfynnu ar gael; er enghraifft, pan fo offeryn yn cael ei fasnachu mewn marchnad nad yw'n cael ei hystyried yn un weithredol, neu pan ddefnyddir technegau prisio i bennu gwerth teg a ble mae'r technegau hyn yn defnyddio mewnbwn sy'n seiliedig i raddau helaeth ar ganfyddiadau data'r farchnad.

**Lefel 3**
Mae offerynnau ariannol Lefel 3 yn rhai ble nad yw o leiaf un mewnbwn a allai gael effaith sylweddol ar brisiad yr offeryn yn seiliedig ar ganfyddiadau data'r farchnad. Gallai offerynnau o'r fath gynnwys buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu a chronfa o gronfeydd rhagfantoli, sy'n cael eu prisio gan ddefnyddio technegau prisio amrywiol sy'n gofyn am ddyfarniadau sylweddol wrth bennu rhagdybiaethau priodol.

Mae gwerth y buddsoddiad mewn ecwiti preifat yn seiliedig ar brisiadau a ddarparwyd gan bartneriaid cyffredinol y cronfeydd ecwiti preifat y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi ynddynt. Paratoir y prisiadau hyn yn unol â'r *International Private Equity and Venture Capital Valuation Guidelines*, sy'n dilyn egwyddorion prisio'r IFRS ac US GAAP. Fel arfer, gwneir prisiad yn flynyddol ar ddiwedd mis Rhagfyr. Defnyddir addasiadau llif arian i symud y prisiadau ymlaen i 31 Mawrth fel sy'n briodol. Mae gwerthoedd y buddsoddiad mewn cronfeydd rhagfantoli'n seiliedig ar y gwerth asedau net a ddarparwyd gan reolwr y gronfa. Ceir sicrwydd o'r prisiad yn sgil yr archwiliad annibynnol a gynhelir ar y gwerth.

Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi dadansoddiad o asedau ag ymrwymiadau ariannol y gronfa bensiwn wedi'i grwpio i Lefelau 1 i 3, yn seiliedig ar y lefel sy'n cael ei rhagweld fel gwerth teg.

| | Pris y farchnad a ddyfynnwyd | Gan ddefnyddio canfyddiadau am y mewnbwn | Gan ddefnyddio mewnbwn sylweddol ble na cheir canfyddiad ohono | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwerth ar 31 Mawrth 2014** | **Lefel 1** | **Lefel 2** | **Lefel 3** | **Cyfanswm** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Asedau Ariannol** | | | | |
| Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled | 556,347 | 660,053 | 64,193 | 1,280,593 |
| Benthyciadau a derbyniadau | 32,714 | 0 | 0 | 32,714 |
| **Cyfanswm yr Asedau Ariannol** | **589,061** | **660,053** | **64,193** | **1,313,307** |
| **Ymrwymiadau Ariannol** | | | | |
| Ymrwymiadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled | 0 | (253) | 0 | (253) |
| Costau ymrwymiadau ariannol | (3,508) | 0 | 0 | (3,508) |
| **Cyfanswm yr Ymrwymiadau Ariannol** | **(3,508)** | **(253)** | **0** | **(3,761)** |
| **Asedau ariannol net** | **585,553** | **659,800** | **64,193** | **1,309,546** |

| Gwerth ar 31 Mawrth 2013 | Pris y farchnad a ddyfynnwyd Lefel 1 | Gan ddefnyddio canfyddiadau am y mewnbwn Lefel 2 | Gan ddefnyddio mewnbwn sylweddol ble na cheir canfyddiad ohono Lefel 3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Asedau Ariannol** | | | | |
| Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled | 513,845 | 594,540 | 61,787 | 1,170,172 |
| Benthyciadau a derbyniadau | 30,878 | 0 | 0 | 30,878 |
| **Cyfanswm yr Asedau Ariannol** | **544,723** | **594,540** | **61,787** | **1,201,050** |
| **Ymrwymiadau Ariannol** | | | | |
| Ymrwymiadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled | 0 | (4,270) | 0 | (4,270) |
| Costau ymrwymiadau ariannol | (3,911) | 0 | 0 | (3,911) |
| **Cyfanswm yr Ymrwymiadau Ariannol** | **(3,911)** | **(4,270)** | **0** | **(8,181)** |
| **Asedau ariannol net** | **540,812** | **590,270** | **61,787** | **1,192,869** |

## NODYN 17 – NATUR A GRADDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL

**Risg a rheoli risg**
Prif risg hirdymor y gronfa yw y bydd asedau'r gronfa'n annigonol i ymdrin â'i hymrwymiadau (h.y. y buddion a gafodd eu haddo i aelodau sy'n daladwy). Felly, nod rheoli risg buddsoddi yw lleihau'r risg o weld gostyngiad cyffredinol yng ngwerth y gronfa a gwneud y mwyaf o'r cyfle i wneud enillion ar draws portffolio'r gronfa yn ei gyfanrwydd. Mae'r gronfa'n cyflawni hyn drwy amrywio'i asedau fel ei fod yn cadw lefel risg y farchnad y mae'n agored iddo ar lefel dderbyniol. Yn ogystal, mae'r gronfa'n rheoli ei risg o hylifedd i sicrhau bod digon o hylifedd ar gael i fodloni llif arian rhagweladwy'r gronfa. Mae'r Cyngor yn rheoli'r risgiau buddsoddi hyn fel rhan o'i raglen gyffredinol i reoli risg y gronfa bensiwn.

Y pwyllgor pensiynau sy'n gyfrifol am strategaeth rheoli risg y gronfa. Mae rhaglen reoli risg gyffredinol y Gronfa Bensiwn yn canolbwyntio ar ba mor anwadal yw'r marchnadoedd ariannol ac yn ceisio isafu'r effeithiau andwyol posib ar yr adnoddau sydd ar gael i dalu pensiynau. Mae'r Datganiad Strategaeth Gyllido a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ar y cyd ag Actiwari'r Gronfa, yn nodi sut bydd hydaledd a risg yn cael eu rheoli mewn perthynas âg ymrwymiadau. Mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi cynhyrchu'r Datganiad Strategaeth Gyllido hwn gan roi ystyriaeth gyffredinol i lefel y risg yn y polisi buddsoddi sydd wedi'i nodi yn y Datganiad Egwyddorion Buddsoddi a gyhoeddwyd dan Reoliad 12 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (y Rheoliadau Buddsoddi) a'r polisi cyllido sydd wedi'i nodi yn y Datganiad hwn. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n parhau i adolygu'r ddwy ddogfen i sicrhau bod y proffil risg cyffredinol yn parhau'n briodol.

**a) Risg y farchnad**
Risg y farchnad yw'r risg o golledion yn sgil amrywiad ym mhrisiau ecwiti a nwyddau, llog, cyfraddau cyfnewid arian tramor a gwasgariad credyd. Mae'r gronfa'n agored i risg y farchnad yn sgil ei weithgareddau buddsoddi, yn enwedig drwy'r ecwiti mae'n eu dal. Mae lefel y risg yn dibynnu ar amgylchiadau'r farchnad, disgwyliadau o ran prisiau yn y dyfodol, newidiadau mewn enillion a'r gymysgedd o asedau.

Nod strategaeth rheoli risg y gronfa yw adnabod a rheoli risgiau'r farchnad i'r gronfa o fewn paramedrau derbyniol, tra gwneud y mwyaf o'r enillion a geir wrth gymryd risg.

Yn gyffredinol, rheolir anweddolrwydd gormodol yn risg y farchnad drwy amrywio'r portffolio yn ddaearyddol ac o ran sectorau diwydiant a gwarantau unigol. I leihau risg y farchnad, mae'r Cyngor a'i ymgynghorwyr buddsoddi'n monitro cyflwr y farchnad a dadansoddiadau meincnod yn briodol.

Mae'r gronfa'n rheoli'r risgiau hyn mewn dwy ffordd:

- mae pa mor agored yw'r gronfa i risg y farchnad yn cael ei fonitro drwy ddadansoddi ffactorau risg i sicrhau bod y risg yn parhau o fewn lefelau goddefol
- mae pa mor agored yw'r gronfa i risgiau penodol yn cael ei gyfyngu drwy bennu risgiau penodol goddefol ar gyfer buddsoddiadau unigol.

**Risg prisiau eraill**
Mae risg prisiau eraill yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth offeryn ariannol yn amrywio o ganlyniad i newid ym mhris y farchnad (ac eithrio'r risgiau sy'n codi o risg cyfradd llog neu risg cyfradd cyfnewid arian tramor), boed y newidiadau'n cael eu hachosi gan ffactorau sy'n benodol i'r offeryn unigol neu'r sawl a'i cyflwynodd neu ffactorau sy'n effeithio ar bob offeryn o'r fath yn y farchnad.

Mae'r gronfa'n agored i risg prisiau cyfranddaliadau a deilliadau. Mae hyn yn codi o fuddsoddiadau a ddelir gan y gronfa ble bo ansicrwydd ynghylch eu pris yn y dyfodol. Mae pob buddsoddiad gwarantau yn cyflwyno risg o golli cyfalaf. Ac eithrio cyfranddaliadau a werthir am bris is, pennir y risg fwyaf sy'n deillio o offerynnau ariannol gan werth teg yr offerynnau ariannol. Mae'r colledion posib yn sgil cyfranddaliadau a werthir am bris is yn anghyfyngedig.

**Risg prisiau eraill – dadansoddiad sensitifrwydd**
Gan ddilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol ar enillion ar fuddsoddiadau, mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi analytig y gronfa, mae newidiadau pris posib wedi cael eu pennu ar gyfer y gwahanol gategorïau o asedau sy'n cael ei ddal gan y Gronfa. Mae'r cyfraddau i'w defnyddio ar gyfer categoriau asedau'r Gronfa fel a ganlyn:

| **Math o ased** | **Newid posib yn y farchnad (+/-)** | |
|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2013** | **31 Mawrth 2014** |
| | % | % |
| Ecwiti | 12.5 | 11.6 |
| Incwm sefydlog | 1.5 | 1.3 |
| Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat) | 9.6 | 6.2 |
| Eiddo | 1.9 | 2.4 |
| Arian | 0.0 | 0.0 |

Mae'r anweddolrwydd a nodir uchod yn gyson ag un gwyriad safonol yn newid gwerth yr asedau dros y tair blynedd ddiweddaraf. Mae'r dadansoddiad yn tybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau cyfnewid arian tramor a chyfraddau llog, yn parhau'r un fath.

Pe byddai pris buddsoddiadau'r gronfa ar y farchnad wedi cynyddu/gostwng yn unol â'r uchod, byddai'r newid ym mhris y farchnad yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion wedi bod fel a ganlyn:

| **Math o ased** | **Gwerth fel ar 31 Mawrth 2014 £'000** | **Canran newid %** | **Gwerth ar ôl cynnydd £'000** | **Gwerth ar ôl gostyngiad £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Ecwiti | 905,024 | 11.6 | 1,009,826 | 800,222 |
| Ymddiriedolaethau incwm sefydlog | 194,386 | 1.3 | 196,913 | 191,859 |
| Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat) | 64,193 | 6.2 | 68,154 | 60,232 |
| Eiddo | 116,800 | 2.4 | 119,615 | 113,985 |
| Arian | 25,839 | 0.0 | 25,844 | 25,834 |
| **Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion** | **1,306,242** | | **1,420,352** | **1,192,132** |

| **Math o ased** | **Gwerth fel ar 31 Mawrth 2013 £'000** | **Canran newid %** | **Gwerth ar ôl cynnydd £'000** | **Gwerth ar ôl gostyngiad £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Ecwiti | 841,084 | 12.5 | 946,556 | 735,612 |
| Ymddiriedolaethau incwm sefydlog | 157,644 | 1.5 | 160,056 | 155,232 |
| Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat) | 61,787 | 9.6 | 67,694 | 55,880 |
| Eiddo | 105,974 | 1.9 | 108,009 | 103,939 |
| Arian | 24,047 | 0.0 | 24,049 | 24,044 |
| **Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion** | **1,190,536** | | **1,306,364** | **1,074,707** |

**Risg cyfraddau llog**

Mae'r gronfa'n buddsoddi mewn asedau ariannol yn bennaf er mwyn cael enillion ar fuddsoddiadau. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i risgiau cyfraddau llog, sy'n cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau llog y farchnad.

Mae cyfradd llog y gronfa'n cael ei monitro'n gyson, yn unol â strategaeth rheoli risg y gronfa, yn cynnwys monitro pa mor agored ydyw i'r cyfraddau llog ac asesiad o'r gwir gyfraddau llog yn erbyn y meincnodau perthnasol.

Gweler pa mor agored yn uniongyrchol yw'r gronfa i newidiadau mewn cyfraddau llog fel ar 31 Mawrth 2014 a 31 Mawrth 2013 isod. Mae'r ffigyrau isod yn cyflwyno'r gyfradd llog yn seiliedig ar werth teg yr asedau ariannol gwaelodol:

| **Math o ased** | **Fel ar 31 Mawrth 2013 £'000** | **Fel ar 31 Mawrth 2014 £'000** |
|---|---|---|
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth | 7,466 | 10,695 |
| Balansau arian parod | 17,316 | 15,452 |
| Gwarantau llog sefydlog | 157,644 | 194,386 |
| **Cyfanswm** | **182,426** | **220,533** |

**Dadansoddiad sensitifrwydd risg cyfraddau llog**

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall cyfraddau llog amrywio ac effeithio ar incwm i'r gronfa a gwerth yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion. Mae newid 1% mewn cyfraddau llog yn gyson â lefel y sensitifrwydd a ddefnyddiwyd fel rhan o strategaeth rheoli risg y gronfa. Mae'r dadansoddiad isod yn rhagdybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau cyfnewid, yn parhau'n gyson, ac mae'n dangos yr effaith yn ystod y flwyddyn ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion o newid o +/- 1% mewn cyfraddau llog:

| **Math o ased** | **Swm cario fel ar 31 Mawrth 2014** | **Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion** | |
|---|---|---|---|
| | | **+1%** | **-1%** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth | 10,695 | 107 | (107) |
| Balansau arian parod | 15,452 | 155 | (155) |
| Gwarantau llog sefydlog* | 194,386 | (1,108) | 1,108 |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **220,533** | **(846)** | **846** |

| **Math o ased** | **Swm cario fel ar 31 Mawrth 2013** | **Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion** | |
|---|---|---|---|
| | | **+1%** | **-1%** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb | 7,466 | 75 | (75) |
| Balansau arian parod | 17,316 | 173 | (173) |
| Gwarantau llog sefydlog* | 157,644 | 851 | (851) |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **182,426** | **1,099** | **(1,099)** |

* Nid yw newid 1% ar gyfradd llog yn cael effaith uniongyrchol ar warantau llog sefydlog ond mae'n cael effaith rhannol fel y cyfrifir yn y tablau uchod.

**Risg arian tramor**
Mae risg arian yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau cyfnewid arian tramor. Mae'r gronfa'n agored i risg arian ar offerynnau ariannol sy'n cael eu cynrychioli mewn unrhyw arian ac eithrio arian swyddogaethol y gronfa (£UK). Mae'r gronfa'n dal asedau sy'n cael eu cynrychioli mewn arian ac eithrio £UK.

Mae gan y gronfa ymrwymiadau ecwiti preifat ac is-adeiladwaith mewn arian tramor (€140miliwn a $7miliwn). Mae'r ymrwymiadau hyn yn cael eu tynnu i lawr ar gais y rheolwr buddsoddi dros nifer o flynyddoedd. Gweler yr ymrwymiadau cyfredol sy'n aros yn Nodyn 24. Y risg dan sylw yw y bydd y bunt yn wan o'i chymharu â'r ddoler a'r ewro pan fydd yr ymrwymiadau'n cael eu tynnu i lawr ac y bydd yn cryfhau pan fo'r gronfa wedi'i chyllido'n llawn. Mae'r gronfa wedi bod yn ariannu'r ymrwymiadau ers 2005 felly mae'r ymrwymiadau wedi'i gydbwyso dros gyfnod maith o amser.

Mae cyfradd cyfnewid arian y gronfa'n cael ei gyfrifo ar sail anweddolrwydd yr arian tramor fyddai'n effeithio ar werth y buddsoddiadau ac unrhyw arian fyddai'n cael ei ddal yn yr arian tramor hynny.

Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi pa mor agored yw'r gronfa i newidiadau mewn arian fel ar 31 Mawrth 2014 ac fel ar ddiwedd y cyfnod blaenorol:

| **Agored i newidiadau mewn arian – math o ased** | **Fel ar 31 Mawrth 2013 £'000** | **Fel ar 31 Mawrth 2014 £'000** |
|---|---|---|
| Ecwiti tramor a Byd-eang | 576,897 | 630,118 |
| Incwm Sefydlog Byd-eang | 157,644 | 194,386 |
| Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat ac isadeiladedd) | 61,787 | 64,193 |
| Eiddo tramor | 3,673 | 3,276 |
| Arian dramor | 121 | 189 |
| **Cyfanswm yr asedau tramor** | **800,122** | **892,162** |

**Risg arian tramor – dadansoddiad sensitifrwydd**
Yn dilyn dadansoddi data hanesyddol mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi analytig y gronfa, mae'r anweddolrwydd sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid arian tramor wedi cael eu cyfrifo wrth ddefnyddio anweddolrwydd hanesyddol yr arian tramor a'r symiau cymharol ym muddsoddiadau'r gronfa.

Ystyrir bod newid o 5.2% yn yr arian tramor yn rhesymol yn seiliedig ar ddadansoddiad ymgynghorwyr buddsoddi analytig y gronfa o newidiadau hanesyddol hirdymor yn y cyfraddau cyfnewid ar ddiwedd y mis dros gyfnod treigl o 36 mis hyd at 31 Mawrth 2014. Y canran cyfatebol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2013 oedd 5.2%. Mae'r dadansoddiad yn tybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau llog, yn parhau'n gyson.

Mae'r tablau isod yn dangos dadansoddiad o ddatguddiad y Gronfa at arian tramor unigol fel ar 31 Mawrth 2014 ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cynt:

| **Datguddiad i Arian Tramor - fesul arian tramor** | **Gwerth ar 31 Mawrth 2014** | **Newid** | **Gwerth ar gynnydd** | **Gwerth ar leihad** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | % | **£'000** | **£'000** |
| Doler Awstralia | 12,958 | 9.8 | 14,227 | 11,687 |
| Real Brasil | 5,543 | 12.7 | 6,247 | 4,840 |
| EWRO | 91,180 | 6.3 | 96,933 | 85,426 |
| Doler Hong Kong | 8,320 | 8.0 | 8,984 | 7,656 |
| Rand De Afrika | 7,290 | 11.3 | 8,114 | 6,465 |
| Krona Sweden | 6,701 | 7.0 | 7,172 | 6,230 |
| Ffranc Swistir | 9,897 | 7.4 | 10,631 | 9,163 |
| Doler UD | 119,472 | 8.1 | 129,114 | 109,831 |
| Buddsoddiadau wedi'u cyfuno | | | | |
| Basged Fyd-eang | 425,681 | 5.2 | 447,859 | 403,503 |
| Basged Fyd-eang heb DU | 177,994 | 5.7 | 188,087 | 167,902 |
| Basged Marchnadoedd Allddod | 27,126 | 6.4 | 28,853 | 25,398 |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **892,162** | **5.2** | **938,366** | **845,958** |

* Mae'r % newid ar gyfer arian dramor yn ei chyfanrwydd yn y tabl uchod yn cynnwys effaith cydberthyniad dros yr arian tramor gwaelodol

| **Datguddiad i Arian Tramor - fesul arian tramor** | **Gwerth ar 31 Mawrth 2013** | **Newid** | **Gwerth ar gynnydd** | **Gwerth ar leihad** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | % | **£'000** | **£'000** |
| Doler Awstralia | 11,926 | 10.0 | 13,113 | 10,739 |
| Real Brasil | 6,175 | 11.6 | 6,892 | 5,457 |
| EWRO | 88,385 | 7.8 | 95,279 | 81,491 |
| Doler Hong Kong | 5,876 | 8.5 | 6,378 | 5,375 |
| Yen Siapan | 5,850 | 11.8 | 6,538 | 5,161 |
| Krone Norwy | 5,720 | 9.0 | 6,237 | 5,202 |
| Rand De Afrika | 6,692 | 12.0 | 7,492 | 5,892 |
| Krona Sweden | 5,794 | 8.1 | 6,265 | 5,323 |
| Ffranc Swistir | 6,993 | 9.4 | 7,648 | 6,339 |
| Doler UD | 83,570 | 8.7 | 90,873 | 78,266 |
| Buddsoddiadau wedi'u cyfuno | | | | |
| Basged Fyd-eang | 368,981 | 5.3 | 388,611 | 349,351 |
| Basged Fyd-eang heb DU | 174,768 | 5.8 | 184,904 | 164,631 |
| Basged Marchnadoedd Allddod | 29,392 | 6.4 | 31,281 | 27,502 |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **800,122** | **5.2** | **841,405** | **758,835** |

| Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased | Swm cario fel ar 31 Mawrth 2014 | Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion | |
|---|---|---|---|
| | | Gwerth ar gynnydd | Gwerth ar leihad |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ecwiti tramor a Byd-eang | 630,118 | 662,751 | 597,485 |
| Incwm Sefydlog Byd-eang | 194,386 | 204,453 | 184,319 |
| Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat ac isadeiladedd) | 64,193 | 67,517 | 60,869 |
| Eiddo tramor | 3,276 | 3,446 | 3,106 |
| Arian dramor | 189 | 199 | 179 |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **892,162** | **938,366** | **845,958** |

| Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased | Swm cario fel ar 31 Mawrth 2013 | Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion | |
|---|---|---|---|
| | | Gwerth ar gynnydd | Gwerth ar leihad |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ecwiti tramor a Byd-eang | 576,897 | 606,662 | 547,128 |
| Incwm Sefydlog Byd-eang | 157,644 | 165,778 | 149,510 |
| Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat ac isadeiladedd) | 61,787 | 64,975 | 58,599 |
| Eiddo tramor | 3,673 | 3,862 | 3,483 |
| Arian dramor | 121 | 128 | 115 |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **800,122** | **841,405** | **758,835** |

## b) Risg credyd

Mae risg credyd yn cynrychioli'r risg y bydd gwrthbarti i drafodion neu offeryn ariannol yn methu â gwireddu goblygiad ac yn creu colled ariannol i'r gronfa o ganlyniad i hynny. Yn gyffredinol, mae gwerth buddsoddiadau ar y farchnad yn adlewyrchu asesiad o gredyd wrth eu prisio ac felly darperir ar gyfer y risg o golled yng ngwerth cario asedau ariannol ag ymrwymiadau'r gronfa.

Yn ei hanfod, mae portffolio buddsoddi cyfan y gronfa'n agored i beth risg credyd, ac eithrio o ran y deilliadau, pan fo'r risg yn gyfwerth â gwerth marchnad net deilliad positif. Fodd bynnag, mae dewis gwrthbartïon, broceriaid a sefydliadau ariannol o ansawdd uchel yn isafu'r risg credyd a allai godi yn sgil methiant i setlo trafodion yn brydlon.

Gweler isod meincnod ar gyfer y ganran o'r cronfeydd a ddelir gan y rheolwyr buddsoddi:

| Rheolwr Buddsoddi | Canran o'r Portffolio |
|---|---|
| BlackRock | 29.5% |
| Fidelity | 19% |
| Insight | 15% |
| Partners Group | 7.5% |
| Eiddo (UBS, Threadneedle, Lothbury, BlackRock) | 10% |
| Veritas | 19% |

Mae'r holl fuddsoddiadau a ddelir gan reolwyr buddsoddi'n cael eu dal yn enw'r Gronfa Bensiwn felly, os yw'r rheolwr buddsoddi'n methu, nid yw buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu cyfrif yn rhan o'i asedau.

Cynrychiolir risg credyd contract gan y taliad net neu'r enillion sy'n aros, ynghyd â chost adennill y sefyllfa ddeilliadol pan fo gwrthbarti'n diffygdalu. Mae'r risg weddilliol yn fân yn sgil yr amrywiol bolisïau yswiriant a ddelir i ymdrin â gwrthbartïon sy'n diffygdalu.

Mae'r risg credyd ar gontractau deilliadol dros y cownter yn cael ei isafu gan fod gwrthbartïon yn gyfryngwyr ariannol cydnabyddedig sydd â statws credyd derbyniol sydd wedi'i bennu gan asiantaeth statws credyd cydnabyddedig.

Er mwyn uchafu'r dychweliadau o Fuddsoddiadau Tymor Byr ac Adnau Arian, mae'r cyngor yn buddsoddi unrhyw arian gwarged dros dro yn ei gyfrifon banc gydag unrhyw arian gwarged dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn. Telir rhaniad priodol o'r llog a enillir i'r Gronfa Bensiwn a rhennir unrhyw golledion wrth fuddsoddi ar sail yr un gyfran. Oherwydd natur y trefniadau banc nid yw unrhyw arian gwarged yng nghyfrifon banc y gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor. Am fod y buddsoddiadau tymor byr yn cael eu gwneud mewn enw Cyngor Gwynedd maent yn dangos yn llawn ar fantolen y Cyngor. Elfen y Gronfa Bensiwn o'r buddsoddiadau tymor byr a'r adnau arian ar 31 Mawrth 2014 oedd £12.1m (£7.4m ar 31 Mawrth 2013).

Ni adneuir arian mewn banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn cael eu graddio o ran statws credyd yn annibynnol, a'u bod yn bodloni meini prawf credyd y Cyngor. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi gosod cyfyngiadau ar y ganran uchaf o adneuon y gellir eu gwneud mewn unrhyw ddosbarth o sefydliad ariannol penodol. Hefyd, mae'r Cyngor yn buddsoddi canran a gytunwyd o gronfeydd yn y marchnadoedd arian er mwyn cael buddsoddiadau amrywiol. Mae'r cronfeydd marchnad arian a ddewiswyd oll wedi derbyn statws credyd AAA gan asiantaeth statws credyd arweiniol. Cred y Cyngor ei fod wedi rheoli pa mor agored ydyw i risg credyd a dim ond un profiad o ddiffygdalu neu adneuon nad oes modd eu hadennill sydd ganddo, sef pan roddwyd Banc Heritable yn nwylo'r gweinyddwyr yn 2008. Gweler manylion llawn yn Nodyn 26.

Nid yw cyflogwyr y gronfa'n cael eu hasesu ar hyn o bryd ar gyfer eu statws credyd neu ar gyfer y cyfyngiadau credyd unigol sydd wedi'u gosod. Mae risg yn bodoli na ellir casglu cyfraniadau gan gyflogwyr ble nad oes ganddynt unrhyw aelodau sy'n cyfrannu (e.e. y risg sy'n gysylltiedig â chyflogwyr gyda nifer fechan o aelodau sy'n dewis peidio â chyfrannu), felly mae'r Awdurdod Gweinyddu'n monitro newidiadau mewn aelodaeth bob blwyddyn.

Bydd angen i gyflogwyr newydd sy'n dod yn rhan o'r gronfa gytuno i ddarparu bond neu gael gwarant i arbed y risg o golledion ariannol i'r gronfa yn y dyfodol pe na fyddai'r cyflogwr dan sylw'n medru bodloni ei hymrwymiadau pensiwn pe byddai'n ymadael â'r gronfa. Fel y dangosir yn Nodyn 25 mae tri chyflogwr wedi darparu bondiau. Bydd unrhyw ymrwymiadau ar y gronfa yn y dyfodol o ganlyniad i gyflogwr yn ymadael yn cael eu cario gan y Gronfa a'u rhannu dros yr holl gyflogwyr. Gwneir hyn i sicrhau bod y cyfnodau a'r symiau adfer actiwaraidd yn cael eu cadw ar lefel y gall cyflogwyr llai ymdopi â hi.

Mae'r risg wedi cynyddu yn sgil dyfarniad cyfreithiol diweddar, fydd o bosib yn pennu na ellir codi cyfraniadau ar gyflogwyr nad oes ganddynt aelodau sy'n cyfrannu dan Reoliadau Gweinyddu'r CPLlL. Fodd bynnag, nid yw'r dyfarniad hwn yn effeithio ar allu'r gronfa i gasglu cyfraniadau yn dilyn prisiad ymadael dan Reoliad 38(2). Gellir rhoi cyfarwyddyd i'r Actiwari ystyried adolygu'r cyfraddau a'r dystysgrif Addasiadau i gynyddu cyfraniadau cyflogwr dan Reoliad 38 Rheoliadau CPLlL (Gweinyddu) 2008, rhwng y prisiad a gynhelir bob tair blynedd.

**c) Risg Hylifedd**

Mae'r risg hylifedd yn cynrychioli'r risg na fydd modd i'r gronfa fodloni ei oblygiadau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Felly, mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau bod gan y gronfa bensiwn ddigon o adnoddau arian parod i fodloni ei hymrwymiadau. Bydd hyn yn hynod wir am arian parod o'r mandadau cydweddu arian parod o'r brif strategaeth fuddsoddi i fodloni'r costau talu pensiynwyr; ac arian parod i fodloni ymrwymiadau buddsoddi.

Mae gan yr Awdurdod Gweinyddol system rheoli llif arian gynhwysfawr sy'n ceisio sicrhau bod arian parod ar gael pe bai ei angen. Yn ogystal, mae'r cyfraniadau cyfredol a dderbynnir gan gyflogwyr ac aelodau yn cyfrannu'n llawer mwy na'r hyn a delir allan mewn buddion. Buddsoddir yr arian parod dros ben ac ni ellir ei dalu'n ôl i gyflogwyr. Mae Actiwari'r Gronfa yn sefydlu'r cyfraniadau y dylid eu talu fel y gellir bodloni holl rwymedigaethau'r dyfodol.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar y swm y gall cyfrif banc y Gronfa Bensiwn ei ddal. Dylai'r symiau a ddelir yn y cyfrif hwn fodloni anghenion hylifedd arferol y gronfa. Mae unrhyw arian dros ben dros dro yn cael ei fuddsoddi gan yr Awdurdod Gweinyddol yn unol â'r Datganiad Strategaeth Rheoli y Trysorlys er mwyn darparu incwm ychwanegol i'r Gronfa Bensiwn. Buddsoddir arian parod dros ben yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Buddsoddi.

Yn ogystal, mae gan y gronfa fynediad at gyfleuster gorddrafft trwy drefniadau cyfrifon banc grwp yr Awdurdod Gweinyddol. Dim ond i fodloni gwahaniaethau amseru tymor byr ar daliadau pensiwn y defnyddir y cyfleuster hwn. Gan mai benthyciadau byrdymor eu natur yw'r rhain, ystyrir bod pa mor agored i risg credyd yw'r gronfa yn hyn o beth yn ddibwys.

Mae'r gronfa'n diffinio asedau hylifol fel asedau y gellir eu trosglwyddo'n arian parod o fewn tri mis. Asedau anhylif yw'r asedau fydd yn cymryd cyfnod hwy na thri mis i'w trosglwyddo'n arian parod. Fel ar 31 Mawrth 2014, roedd gwerth yr asedau anhylif yn £126m, sy'n cynrychioli 9.6% o gyfanswm asedau'r gronfa (31 Mawrth 2013: £117m, a oedd yn cynrychioli 10.1% o gyfanswm asedau'r gronfa).

Mae rheolwyr yn paratoi rhagolygon llif arian cyfnodol er mwyn deall a rheoli amseriad llif arian y gronfa. Mae lefel strategol briodol y balans arian parod i'w ddal yn ffurfio rhan o strategaeth fuddsoddi'r gronfa.

Mae'r holl rwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2014 yn ddyledus o fewn blwyddyn, yn yr un modd ag ar 31 Mawrth 2013.

**Risg ail ariannu**

Y risg allweddol yw y bydd y Cyngor wedi'i rwymo i ailgyflenwi cyfran sylweddol o offerynnau ariannol ei gronfa bensiwn pan fo cyfraddau llog yn anffafriol. Nid oes gan y Cyngor unrhyw offerynnau ariannol sydd â risg ail ariannu'n rhan o'i strategaethau rheoli trysorlys a buddsoddi.

## NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO

Yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008, mae actiwari'r gronfa yn ymgymryd â phrisiad bob tair blynedd er mwyn sefydlu'r gyfradd cyfraniadau i gyflogwyr ar gyfer y tair blynedd i ddod. Cynhaliwyd y prisiad diwethaf fel ar 31 Mawrth 2013.

### Disgrifiad o'r Polisi Cyllido

Amlinellir y polisi cyllido yn y Datganiad Strategaeth Gyllido (FSS), dyddiedig mis Mawrth 2014.

Mae elfennau allweddol y polisi cyllido fel a ganlyn:

- sicrhau hydaledd hirdymor y gronfa (a chyfradd y gronfa sydd i'w phriodoli i gyflogwyr unigol)
- sicrhau bod digon o arian ar gael i fodloni'r holl rwymedigaethau pensiwn wrth iddynt ddod yn daladwy
- peidio â gosod rhwystrau diangen ar strategaeth fuddsoddi'r gronfa fel y gall yr Awdurdod Gweinyddu geisio cael yr enillion mwyaf ar fuddsoddiadau (ac felly leihau cost y buddion) am lefel briodol o risg
- cynorthwyo cyflogwyr i adnabod a rheoli ymrwymiadau pensiwn wrth iddynt gronni
- isafu'r raddfa o newid byrdymor yn lefel cyfraniadau pob cyflogwr pan fo'r Awdurdod Gweinyddu'n ystyried ei bod yn rhesymol gwneud hynny
- defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg i gyflogwyr eraill ac yn benodol i'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn sgil cyflogwr yn diffygdalu ei rwymedigaethau pensiwn
- ymdrin â gwahanol nodweddion y cyflogwyr neu'r grwpiau o gyflogwyr gwahanol cyhyd ag y bo hyn yn ymarferol a chost effeithiol.

Amlinella'r FSS sut mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ceisio cydbwyso'r nodau croestynnol o ddiogelu hydaledd y Gronfa a chadw cyfraniadau cyflogwyr yn sefydlog.

O ran cyflogwyr oedd â chyfamod digon cryf yn ôl yr Awdurdod Gweinyddu, mae cyfraniadau wedi cael eu sefydlogi yn is na'r gyfradd ddamcaniaethol sydd ei hangen i sicrhau bod eu cyfran nhw o'r Gronfa yn dychwelyd i gael ei ariannu'n llawn dros 21 mlynedd os yw'r rhagdybiaethau prisio yn cael eu cadarnhau. Defnyddiwyd dull modelu ymrwymiadau-asedau sy'n dangos os caiff y cyfraddau cyfrannu hyn eu talu a bod newidiadau cyfraniadau yn y dyfodol yn cael eu cyfyngu fel y nodir yn y FSS, fod yna siawns gwell na 80% o hyd y bydd y gronfa yn dychwelyd i ariannu'n llawn dros y 21 mlynedd.

### Sefyllfa Gyllido ar adeg y Prisiad Cyllido Ffurfiol Diwethaf

Cynhaliwyd y prisiad actwaraidd mwyaf diweddar dan Reoliad 36 Rheoliadau (Gweinyddol) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2008 ar 31 Mawrth 2013. Datgelodd y prisiad hwn fod asedau'r Gronfa, oedd wedi'u prisio'n £1,195 miliwn ar 31 Mawrth 2013, yn ddigon i dalu 85% o'r ymrwymiadau (h.y. gwerth cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo) oedd wedi'u cronni hyd at y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, y diffyg ym mhrisiad 2013 oedd £210 miliwn.

Y gyfradd gyfraniadau cyffredin ar gyfer y gronfa gyfan, yn seiliedig ar y lefel gyllido ar 31 Mawrth 2013 yw 18.3% ar gyfer gwasanaeth yn y dyfodol a 5.6% pellach i ariannu diffyg mewn gwasanaeth yn y gorffennol, sy'n rhoi cyfanswm cyfradd o 23.9%. Mae'r gyfradd gyfraniadau cyffredin yn ffigwr damcaniaethol - fel cyfartaledd ar draws y gronfa gyfan. Pennwyd cyfraniadau unigol cyflogwyr ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 hyd at 31 Mawrth 2017 yn unol â pholisi cyllido'r Gronfa fel y nodir yn ei FSS.

### Prif Ragdybiaethau Actwaraidd a'r Dull a ddefnyddiwyd i Brisio'r Ymrwymiadau

Disgrifir y manylion llawn am y dulliau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad prisio, dyddiedig 31 Mawrth 2014.

### Dull

Aseswyd yr ymrwymiadau drwy ddefnyddio dull buddion cronedig sy'n ystyried aelodaeth pensiynadwy hyd at y dyddiad prisio, ac yn ystyried cynnydd disgwyliedig mewn cyflog yn y dyfodol, ymddeoliad neu ddyddiad disgwyliedig cynharach o adael aelodaeth pensiynadwy.

### Rhagdybiaethau

Dilynwyd dull sy'n gysylltiedig â'r farchnad i brisio'r ymrwymiadau er mwyn sicrhau cysondeb gyda phrisiad o asedau'r Gronfa o'u gwerth ar y farchnad.

Roedd y rhagdybiaethau ariannol allweddol a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2013 fel a ganlyn:

| | % y flwyddyn Nominal | % y flwyddyn Gwir |
|---|---|---|
| Cyfradd disgownt | 4.7 | 2.2 |
| Cynnydd mewn cyflog* | 4.3 | 1.8 |
| Chwyddiant prisiau / Cynnydd mewn pensiwn | 2.5 | - |

* Tybiaethau ar gyfer codiadau cyflog yw 1% y flwyddyn tan 31 Mawrth 2016 ac yn newid i'r tybiaethau tymor hir wedi hynny.

Y rhagdybiaeth ddemograffig allweddol oedd yr ystyriaeth a roddwyd i hirhoedledd. Mae'r rhagdybiaethau disgwyliad oes a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 31 Mawrth 2013 yn gyfres bwrpasol o *VitaCurves* sydd wedi'u teilwra'n benodol i gyd-fynd â phroffil aelodau'r gronfa. Mae'r *VitaCurves* hyn yn seiliedig ar ddata a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu. Roedd disgwyliad oes yn y dyfodol yn seiliedig ar adolygiad marwolaeth yr actiwari ar gyfer y gronfa, fel a ganlyn:

| Rhagdybiaethau marwolaeth yn 65 mlwydd oed | Gwryw Blynyddoedd | Benyw Blynyddoedd |
|---|---|---|
| Pensiynwyr cyfredol | 22.0 | 24.0 |
| Pensiynwyr y dyfodol (tybir eu bod yn 45 mlwydd oed ar hyn o bryd) | 24.4 | 26.6 |

**Profiad yn ystod y Cyfnod ers mis Ebrill 2013**

Mae'r profiad wedi bod ychydig yn well na'r disgwyl ers y prisiad diwethaf (ac eithrio effaith unrhyw newidiadau mewn aelodaeth). Mae enillion gwir fondiau wedi cynyddu ac mae enillion ar asedau wedi bod yn well na'r disgwyl sy'n golygu bod lefelau cyllido yn y dyfodol yn debygol o fod wedi gwella ers prisiad 2013.

Cynhelir prisiad actiwaraidd nesaf fel ar 31 Mawrth 2016. Adolygir y Datganiad Strategaeth Cyllido ar yr un adeg.

## NODYN 19 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI'U HADDO

Yn ogystal â'r prisiad cyllido bob tair blynedd, mae'r actiwari hefyd yn cynnal prisiad o rwymedigaethau'r gronfa bensiwn, yn seiliedig ar IAS19 bob blwyddyn gan ddefnyddio'r un data sylfaenol â'r prisiad cyllido wedi'i dynnu ymlaen i'r flwyddyn ariannol gyfredol, gan ystyried y newidiadau yn niferoedd yr aelodau a diweddaru rhagdybiaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

Er mwyn asesu gwerth y buddion yn seiliedig ar hyn, mae'r actiwari wedi diweddaru'r rhagdybiaethau actiwaraidd (gweler isod) o'r rhai a ddefnyddir er dibenion cyllido (gweler Nodyn 18) a hefyd mae wedi'u defnyddio i ddarparu'r adroddiadau IAS19 a FRS17 ar gyfer cyflogwyr unigol yn y gronfa. Yn ogystal, mae'r actiwari wedi prisio buddion salwch a marwolaeth yn unol ag IAS19.

Roedd gwerth cyfredol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo ar 31 Mawrth 2014 yn £1,747m (£1,667m ar 31 Mawrth 2013). Mae'r holl fuddion ymddeol yn arhosol. Nid yw cyfrifon y gronfa'n ystyried yr ymrwymiadau i dalu pensiynau a buddion eraill yn y dyfodol.

Mae'r ymrwymiadau uchod wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar IAS19 ac felly maent yn wahanol i ganlyniadau'r prisiad cyllido bob tair blynedd a gynhaliwyd yn 2013 (gweler Nodyn 18) gan fod IAS 19 yn nodi cyfradd ddisgownt yn hytrach na chyfradd sy'n adlewyrchu cyfraddau'r farchnad.

### Y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd

Defnyddwyd y tybiaethau ariannol sydd yn cael eu mabwysiadau ar gyfer adroddiad IAS19 yr Awdurdod Gweinyddol fel y ganlyn:

| | 31 Mawrth 2013 | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| **Rhagdybiaeth** | % | % |
| Chwyddiant / cyfradd cynnydd mewn pensiwn | 2.8 | 2.8 |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflog* | 5.1* | 4.6** |
| Cyfradd ddisgownt | 4.5 | 4.3 |

* Tybir cynnydd cyflog 1% y.f. hyd at 31 Mawrth 2015 yn dychwelyd i'r gyfradd tymor hir wedyn.
** Tybir cynnydd cyflog 1% y.f. hyd at 31 Mawrth 2016 yn dychwelyd i'r gyfradd tymor hir wedyn.

Defnyddwyd yr un tybiaeth hirhoedledd fel ar gyfer asesu'r sefyllfa cyllido fel a dangosir yn Nodyn 18 uchod.

Mae'r rhagdybiaeth cymudiad yn caniatáu i bensiynwyr y dyfodol dewis cyfnewid pensiwn am arian parod di-dreth ychwanegol o hyd at 50% o gyfyngiadau Cyllid a Thollau EM am wasanaeth hyd at 31 Mawrth 2008 a 75% o gyfyngiadau Cyllid a Thollau EM am wasanaeth o 1 Ebrill 2008.

## NODYN 20 – ASEDAU CYFREDOL

| 2012/13 £'000 | | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| 753 | Cyfraniadau sy'n ddyledus – gweithwyr | 1,119 |
| 2,584 | Cyfraniadau sy'n ddyledus – cyflogwyr | 3,861 |
| 2,879 | Amrywiol Ddyledwyr | 1,775 |
| **6,216** | **Cyfanswm Dyledwyr** | **6,755** |
| 7,466 | Arian | 10,695 |
| **13,682** | **Cyfanswm** | **17,450** |

### Dadansoddiad o ddyledwyr

| 2012/13 £'000 | | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| 1,918 | Awdurdod Gweinyddol | 2,116 |
| 1,394 | Cyrff llywodraeth ganolog | 955 |
| 1,347 | Awdurdodau lleol eraill | 2,564 |
| 3 | Cyrff GIG | 3 |
| 1,554 | Endidau ac unigolion eraill | 1,117 |
| **6,216** | **Cyfanswm** | **6,755** |

## NODYN 21 – YMRWYMIADAU CYFREDOL

| 2012/13 £'000 | | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| 1,616 | Amrywiol gredydwyr | 1,904 |
| 2,267 | Buddion sy'n daladwy | 1,548 |
| **3,883** | **Cyfanswm** | **3,452** |

### Dadansoddiad o gredydwyr

| 2012/13 £'000 | | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| 866 | Awdurdod Gweinyddol | 1,126 |
| 15 | Cyrff llywodraeth ganolog | 22 |
| 5 | Awdurdodau lleol eraill | 0 |
| 2,997 | Endidau ac unigolion eraill | 2,304 |
| **3,883** | **Cyfanswm** | **3,452** |

## NODYN 22 – CYFRANIADAU GWIRFODDOL YCHWANEGOL (AVC)

Mae gwerth y cronfeydd ar y farchnad wedi'i nodi isod:

| | **Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2013 £'000** | **Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2014 £'000** |
|---|---|---|
| Clerical Medical | 2,734 | 2,792 |
| Equitable Life | 413 | 380 |
| Standard Life | 189 | 214 |
| Cyfanswm | **3,336** | **3,386** |

Talwyd cyfraniadau AVC yn uniongyrchol i'r tri rheolwr fel a ganlyn:

| | **2012 / 2013 £'000** | **2013 / 2014 £'000** |
|---|---|---|
| Clerical Medical | 372 | 331 |
| Equitable Life | 1 | 0 |
| Standard Life | 12 | 10 |
| Cyfanswm | **385** | **341** |

## NODYN 23 – TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

**Cyngor Gwynedd**

Cyngor Gwynedd sy'n gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd. O ganlyniad, mae perthynas gref rhwng y Cyngor a'r gronfa bensiwn.

Cafodd y Cyngor gostau o £1,001,991 (£835,101 yn 2012/13) mewn perthynas â gweinyddu'r gronfa ac yn dilyn hynny, cafodd ad-daliad am y costau hyn gan y gronfa. Yn ogystal, y Cyngor yw un o gyflogwyr mwyaf aelodau'r gronfa bensiwn a chyfrannodd £17.65m tuag at y gronfa yn 2013/14 (£16.65m yn 2012/13). Ar ddiwedd y flwyddyn £2,116 oedd dyled y Cyngor i'r gronfa (gweler Nodyn 20) yn bennaf mewn perthynas â chyfraniadau ar gyfer Mawrth 2014 a £1,126 oedd dyled y gronfa i'r Cyngor (gweler Nodyn 21) yn bennaf mewn perthynas ag ad-daliadau gan y Cyngor.

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd dri chyfrif banc a ddelir fel rhan o Grwp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian parod dros ben a ddelir yn y Grwp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi bob dydd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Yn ystod 2013/14, roedd y gronfa yn derbyn llog o £77,251 (£86,481 yn 2012/13) gan Gyngor Gwynedd.

**Llywodraethu**

Roedd 1 aelod o'r pwyllgor pensiynau yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2013/14 (yr aelod pwyllgor T.O. Edwards). Yn ogystal, mae'r aelodau pwyllgor T.O. Edwards, P. Jenkins, D. Meurig a W.T. Owen yn aelodau gweithredol o'r gronfa bensiwn.

Mae dau uwch reolwr Cyngor Gwynedd sydd mewn swyddi allweddol yng nghyswllt rheolaeth ariannol Gronfa Bensiwn Gwynedd yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn (D.O. Williams ac D.L. Edwards).

Mae tri aelod o'r pwyllgor pensiynau a dau brif swyddog Cyngor Gwynedd wedi datgan diddordeb mewn cyrff sy'n ymdrin â'r Gronfa. Ym mhob achos, roedd y cyrff yn gyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa.

## NODYN 24 – YMRWYMIADAU DAN GONTRACTAU BUDDSODDI

Roedd yr ymrwymiadau (buddsoddiadau) cyfalaf sy'n aros ar 31 Mawrth fel a ganlyn:

| | Cyfanswm ymrwymiadau | Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2013 | Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|---|
| | **€'000** | **€'000** | **€'000** |
| P.G. Direct 2006 | 20,000 | 1,384 | 1,384 |
| P.G. Global Value 2006 | 50,000 | 4,592 | 4,091 |
| P.G. Secondary 2008 | 15,000 | 1,960 | 1,960 |
| P.G. Global Value 2011 | 15,000 | 10,657 | 7,883 |
| P.G. Global Infrastructure 2012 | 40,000 | 36,213 | 34,039 |
| P.G. Direct 2012 | 12,000 | 0 | 8,280 |
| P.G. Global Value 2014 | 12,000 | 0 | 10,178 |
| **Cyfanswm Ewro** | **164,000** | **54,806** | **67,815** |
| | **$'000** | **$'000** | **$'000** |
| **P.G. Emerging Markets 2011** | **7,000** | **5,268** | **3,843** |

Mae 'PG' uchod yn cyfeirio at y Grwp Partners, mae'r rheolwr buddsoddi yn buddsoddi mewn meysydd 'amgen' (ecwiti preifat ac isadeiladwiath ) ar ran y gronfa.

Mae'r ymrwymiadau hyn yn ymwneud â thaliadau galw sy'n aros ar gronfeydd partneriaethau cyfyngedig heb eu dyfynnu a ddelir yn rhan ecwiti preifat y portffolio. Mae'r symiau a 'elwir' gan y cronfeydd hyn yn afreolaidd o ran eu maint a'u hamseriad nifer o flynyddoedd o ddyddiad yr ymrwymiad gwreiddiol.

## NODYN 25 - ASEDAU WRTH GEFN

Mae tri o gyflogwyr sy'n gyrff a ganiateir yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd yn dal bondiau yswiriant i'w diogelu yn erbyn y posibilrwydd o fethu â bodloni eu goblygiadau pensiwn. Llunnir y bondiau hyn o blaid y gronfa bensiwn ac ni wneir taliad ohonynt oni bai bod y cyflogwr yn diffygdalu.

## NODYN 26 - COLLEDION YN SGIL AMHARIADAU

### a) Amhariadau am ddyledion drwg ac amheus

Fel y esbonnir yn Nodyn 5 nid oes unrhyw amhariad wedi ei gwneud ar gyfer dyledion drwg ac amheus.

### b) Amhariad yr adneuon ym Manc Gwlad yr Iâ

Roedd y Cyngor wedi adneuo £4m gyda Heritable Bank, banc wedi'i gofrestru yn y DU dan Gyfraith yr Alban yn ystod 2008/09. Roedd £565,200 o'r buddsoddiad hwnnw'n perthyn i'r gronfa bensiwn.

Rhoddwyd y cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr ar 7 Hydref 2008. Amlinellwyd yn yr adroddiad cynnydd credydwyr a gyhoeddwyd gan y gweinyddwyr Ernst and Young, dyddiedig 17 Ebrill 2009, y byddai credydwyr yn adennill 80c yn y £ erbyn diwedd 2013. Dyma oedd y sail ar gyfer cau cyfrifon 2008/09. ,Derbyniodd y Cyngor dychweliad o 77.25% sef £3,105,729 gan y gweinyddwyr hyd 31 Mawrth 2013. Yn ystod dosbarthwyd 16.74% pellach gan y gweinyddwyr a oedd yn dod a chyfanswm y dychweliad i 93.99%.

Mae cyfran berthnasol o'r lleihad yn yr amhariad (£34,022) a'r cynnydd y llog tybiannol (£2,305) wedi'i ddynodi i'r Gronfa Bensiwn.

## NODYN 27 – CYHOEDDIADAU'R GRONFA BENSIWN

Cynhyrchir adroddiad manwl ychwanegol ynghylch y Gronfa Bensiwn. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cyfrifon y Gronfa yn ogystal â gwybodaeth bellach ynglŷn â gweithgareddau gweinyddu a buddsoddi. Mae'n cynnwys y dogfennau canlynol:

Datganiad Egwyddorion Buddsoddi

Datganiad Strategaeth Gyllido
Datganiad Polisi Llywodraethu a’r Datganiad Cydymffurfiad a’r Drefn Llywodraethu
Datganiad Polisi Cyfathrebu

Gellir cael copïau ar safle we'r Gronfa Bensiwn www.cronfabensiwngwynedd.org.uk ar dudalen buddsoddiad neu drwy gysylltu â Mrs Caroline Roberts ar 01286 679128.

## DADANSODDIAD GWARIANT AR WASANAETHAU

| | Cyfanswm Gwariant | Cyfanswm Incwm | Gwariant Net |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Diwylliant a Gwasanaethau Cysylltiedig** | | | |
| ***Rhaniad Gwasanaeth*** | | | |
| Diwylliant a Threftadaeth | 1,956 | (536) | 1,420 |
| Hamdden a Chwaraeon | 10,531 | (5,207) | 5,324 |
| Meysydd Agored | 1,855 | (755) | 1,100 |
| Twristiaeth | 1,228 | (550) | 678 |
| Llyfrgelloedd | 2,028 | (155) | 1,873 |
| | 17,598 | (7,203) | 10,395 |
| **Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoleiddio** | | | |
| ***Rhaniad Gwasanaeth*** | | | |
| Mynwentydd, amlosgfeydd a marwdai | 1,095 | (777) | 318 |
| Amddiffyn yr Arfordir | 844 | (121) | 723 |
| Diogelwch Cymunedol ( Lleihau Troseddau) | 471 | (379) | 92 |
| Diogelwch Cymunedol ( CCTV) | 359 | (65) | 294 |
| Diogelwch Cymunedol (Gwasanaethau Diogelwch) | 330 | (177) | 153 |
| Gwarchod rhag llifogydd a thraenio tiroedd | 490 | (242) | 248 |
| Gwasanaethau Amaethyddol a Physgodfeydd | 129 | (220) | (91) |
| Gwasanaethau Rheoleiddio | 5,045 | (915) | 4,130 |
| Glanhau Strydoedd (nad yw'n daladwy gan Briffyrdd) | 2,643 | (141) | 2,502 |
| Casglu gwastraff | 1,925 | (136) | 1,789 |
| Gwaredu gwastraff | 5,419 | (1,098) | 4,321 |
| Gwastraff Masnachol | 2,052 | (1,880) | 172 |
| Ailgylchu | 7,826 | (4,350) | 3,476 |
| Isafu Gwastraff | 83 | 0 | 83 |
| Costau Newid Hinsawdd | 0 | 0 | 0 |
| | 28,711 | (10,501) | 18,210 |
| **Gwasanaethau Cynllunio** | | | |
| ***Rhaniad Gwasanaeth*** | | | |
| Rheolaeth Adeiladu | 834 | (463) | 371 |
| Rheolaeth Datblygu | 1,192 | (670) | 522 |
| Polisi Cynllunio | 759 | (585) | 174 |
| Mentrau amgylcheddol | 1,149 | (474) | 675 |
| Ymchwil economaidd | 9 | 0 | 9 |
| Cefnogaeth Busnes | 1,134 | (581) | 553 |
| Datblygu'r Economi | 10,157 | (8,530) | 1,627 |
| Datblygiadau Cymunedol | 1,011 | (357) | 654 |
| | 16,245 | (11,660) | 4,585 |
| **Gwasanaethau Plant ac Addysg - Addysg** | | | |
| ***Rhaniad Gwasanaeth*** | | | |
| Blynyddoedd Cynnar | 2,846 | (1,993) | 853 |
| Ysgolion Cynradd | 61,153 | (9,463) | 51,690 |
| Ysgolion Uwchradd | 55,247 | (9,945) | 45,302 |
| Ysgolion Arbennig | 4,450 | (381) | 4,069 |
| Gwasanaethau i Bobl Ifanc a Dysgwyr Cymunedol Eraill | 1,620 | (250) | 1,370 |
| Swyddogaethau Strategol Eraill | 107 | (1) | 106 |
| | 125,423 | (22,033) | 103,390 |
| **Gwasanaethau Plant ac Addysg - Gofal Cymdeithasol Plant** | | | |
| ***Rhaniad Gwasanaeth*** | | | |
| Strategaeth Gwasanaeth | 81 | 0 | 81 |
| Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol | 4,872 | (181) | 4,691 |
| Plant mewn Gofal | 8,285 | (275) | 8,010 |
| Gwasanaethau Cefnogaeth i Deuluoedd | 1,380 | (85) | 1,295 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 889 | (533) | 356 |
| Diogelwch plant a phobl ifanc | 126 | (54) | 72 |
| Ymofynwyr Noddfa | 68 | (26) | 42 |
| Gwasanaethau eraill i blant a theuluoedd | 2,349 | (1,258) | 1,091 |
| | 18,050 | (2,412) | 15,638 |

| CYFRIF INCWM A GWARIANT 2013/14<br>DADANSODDIAD GWARIANT AR WASANAETHAU | | | ATODIAD A |
|---|---|---|---|
| | Cyfanswm Gwariant | Cyfanswm Incwm | Gwariant Net |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Priffyrdd, Ffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | |
| ***Rhaniad Gwasanaeth*** | | | |
| Cynllunio, polisi a strategaeth trafnidiaeth | 1,236 | (456) | 780 |
| Cynnal a Chadw Strwythurol | 7,910 | (2,019) | 5,891 |
| Treuliau Cyfalaf sy'n perthyn i Brosiectau Adeiladu | 4,070 | (1,358) | 2,712 |
| Amgylchedd, Diogelwch a Chynnal a Chadw Rheolaidd | 4,359 | (789) | 3,570 |
| Goleuo Strydoedd (gan gynnwys costau ynni) | 2,345 | (323) | 2,022 |
| Gwasanaeth Gaeaf | 882 | (357) | 525 |
| Rheolaeth Traffig a Diogelwch Ffyrdd | 922 | (87) | 835 |
| Gwasanaethau Parcio | 1,331 | (2,096) | (765) |
| Trafnidiaeth Cyhoeddus | 5,758 | (3,495) | 2,263 |
| Meysydd Awyr, Porthladdoedd a Chyfleusterau Toll | 4 | 0 | 4 |
| | 28,817 | (10,980) | 17,837 |
| **Gwasanaethau Tai (Cronfa'r Cyngor)** | | | |
| ***Rhaniad Gwasanaeth*** | | | |
| Strategaeth Tai | 177 | 0 | 177 |
| Galluogi (Enabling) | 286 | (162) | 124 |
| Cyngor Tai | 0 | 0 | 0 |
| Blaendaliadau Tai | 0 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Tai'r Sector Breifat | 3,999 | (1,099) | 2,900 |
| Trwyddedu Landlordiaid Sector Breifat | 0 | 0 | 0 |
| Di gartrefedd | 1,422 | (516) | 906 |
| Taliadau Budd-daliadau Tai | 0 | 0 | 0 |
| Gweinyddu Budd-daliadau Tai | 30,940 | (30,391) | 549 |
| Cyfraniad i'r CRT parthed eitemau sydd yn cael eu rhannu gan y gymuned gyfan | 0 | 0 | 0 |
| Eiddo arall y Cyngor | 60 | (30) | 30 |
| Cefnogi Pobl | 6,164 | (5,925) | 239 |
| Gwasanaethau Lles Eraill | 15 | 0 | 15 |
| | 43,063 | (38,123) | 4,940 |
| **Gofal Cymdeithasol Oedolion** | | | |
| ***Rhaniad Gwasanaeth*** | | | |
| Strategaeth Gwasanaeth | 302 | 0 | 302 |
| Pobl Hyn (65 oed a throsodd) yn cynnwys rhai â salwch meddwl | 36,656 | (11,076) | 25,580 |
| Oedolion o dan 65 oed gydag anabledd corfforol neu amhariad | 3,895 | (318) | 3,577 |
| Oedolion o dan 65 oed gydag anableddau dysgu | 15,490 | (2,291) | 13,199 |
| Oedolion o dan 65 oed gydag anghenion iechyd meddwl | 3,594 | (308) | 3,286 |
| Gwasanaethau eraill i oedolion | 1,713 | (1,406) | 307 |
| | 61,650 | (15,399) | 46,251 |
| **Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd** | | | |
| ***Rhaniad Gwasanaeth*** | | | |
| Casglu Trethi Lleol | 10,625 | (1,677) | 8,948 |
| Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau | 410 | (209) | 201 |
| Etholiadau | 205 | (20) | 185 |
| Cynllunio Argyfwng | 213 | (37) | 176 |
| Pridiannau Tir | 167 | (193) | (26) |
| Cynlluniau Cymorth Llesiant Lleol | 0 | 0 | 0 |
| Grantiau, Cymynroddion a Chyfraniadau Cyffredinol | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau'r Crwner | 476 | (175) | 301 |
| Gwasanaethau Llys Eraill | 0 | 0 | 0 |
| | 12,096 | (2,311) | 9,785 |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd Craidd** | | | |
| ***Rhaniad Gwasanaeth*** | | | |
| Rheolaeth a Chynrychiolaeth Democrataidd | 3,069 | (40) | 3,029 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 3,637 | (3,825) | (188) |
| | 6,706 | (3,865) | 2,841 |
| **Costau Heb eu Dosrannu** | | | |
| ***Rhaniad Gwasanaeth*** | | | |
| Costau Heb eu Dosrannu | 308 | 0 | 308 |
| | 308 | 0 | 308 |
| **COST GWASANAETHAU** | **358,667** | **(124,487)** | **234,180** |

# Y GRONFA DEGWM

| 2012/2013 | | 2013/2014 | |
|---|---|---|---|
| £'000 | | £'000 | £'000 |
| 512 | **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill** | | 519 |
| | **Ychwaneger -** Incwm yn ystod y flwyddyn :- | | |
| 17 | Llog ar fuddsoddiadau | | 15 |
| | Cynnydd yn buddsoddiadau a werthwyd | | 333 |
| | **Llai -** Gwariant yn ystod y flwyddyn :- | | |
| (1) | Colled ar fuddsoddiadau a werthwyd | (14) | |
| (12) | Grantiau a chostau | (19) | |
| 3 | Addasiad | 0 | |
| | | | (33) |
| 519 | **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth** | | 834 |
| | **A gynrychiolir gan yr Asedau canlynol :-** | | |
| 26 | Tir ac Adeiladau | | 26 |
| 416 | Buddsoddiadau ar Werth y Farchnad | | 0 |
| 23 | Dyledwyr | | 23 |
| 720 | Arian mewn llaw | | 1,858 |
| 1,185 | | | 1,907 |
| (646) | **Llai -** Elfen yn ddyledus i Gynghorau Môn a Chonwy | | (1,054) |
| 539 | | | 853 |
| (41) | **Llai -** Credydwyr | | (38) |
| 21 | **Ychwaneger -** Elfen yn ddyledus gan Gynghorau Môn a Chonwy | | 19 |
| 519 | **Cyfanswm** | | 834 |

## NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Dywed Cynllun gweinyddu'r Gronfa y ceir defnyddio'r incwm at bwrpasau elusennol - addysgol, cymdeithasol neu adloniadol, yn unol â disgresiwn y Cyngor.

2. Mae'r Ddeddf Elusennol 1993 yn gofyn am archwiliad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon y Gronfa Degwm yn flynyddol.

# CRONFA YMDDIRIEDOLAETH FMG MORGAN

| 2012/2013 £'000 | | 2013/2014 £'000 |
|---|---|---|
| 141 | **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill** | 146 |
| | **Ychwaneger -** Incwm yn ystod y flwyddyn | |
| 7 | Llog enillwyd gan yr asedau | 8 |
| | **Llai -** Gwariant yn ystod y flwyddyn | |
| (2) | Grantiau | (2) |
| 146 | **Cyfanswm y Gronfa 31 Mawrth** | 152 |
| | **Asedau** | |
| 25 | Buddsoddiadau | 144 |
| 121 | Arian mewn llaw | 8 |
| 146 | | 152 |

## NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Sefydlwyd y gronfa hon gyda gweddill ystâd y diweddar Mrs Florence Merthyr Guest Morgan. Roedd incwm y Gronfa i'w ddefnyddio er budd trigolion rhannau o Lŷn at bwrpasau penodedig.

2. Yn ystod y flwyddyn buddsoddwyd £120,000 o'r Arian Mewn Llaw mewn cyfranddaliadau i gynhyrchu gwell cyfradd adennill.

3. Dangosir buddsoddiadau ar gost yn y cyfrifon. Gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2014 oedd £311,766.98 (£178,537.14 ar 31 Mawrth 2013).

4. Mae'r Gronfa FMG Morgan tu allan i ofynion y Ddeddf Elusennol 1993. Oherwydd hyn nid oes angen archwiliad annibynnol o'r Gronfa Ymddiriedolaeth hon.

# CRYNODEB CYD-BWYLLGORAU

Yn ystod 2013/14, roedd Cyngor Gwynedd yn rhan o chwech cyd-bwyllgor, sef cyd-weithio mewn meysydd penodol rhwng Awdurdodau Lleol. Mae'n ofynnol i gyfrifon ar wahân gael eu cynhyrchu ar gyfer cyd-bwyllgorau. Y chwech cyd-bwyllgor perthnasol i Wynedd yw:

- Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)
- GwE
- Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd
- Trafnidiaeth Integredig yng Ngogledd Cymru (TAITH)
- Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TRaCC)
- Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC)

Mae cyfrifon y cyd-bwyllgorau yn dilyn yr un amserlen o ran dyddiad statudol ar gyfer cwblhau y cyfrifon. Yn yr amgylchiadau, felly fe welir fod Cyfrifon Cyngor Gwynedd yn adlewyrchu y gwir ymrwymiad net perthnasol, er fod y sefyllfa ddadansoddiadol oddrychol yn mynd i amrywio yn ddibynnol ar sefyllfa a threfniadau adrodd y gwahanol gyd-bwyllgorau. Mae'r ffigyrau amodol ar archwiliad ar gyfran perthnasol i Wynedd wedi eu cynnwys yn y tabl isod:

| Cyd-Bwyllgor | Cyngor Arweiniol (o ran yr ochr Gyllid) | Cynghorau sydd yn rhan o'r Cyd-bwyllgor | Cyfran Cyngor Gwynedd % | Gwerth Cyfran Gwynedd (Cyfrif Incwm a Gwariant) £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig | Cyngor Gwynedd | Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn | 61.4% | 731 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | Cyngor Gwynedd | Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn | 50% | 443 |
| GwE | Cyngor Gwynedd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 18.04% | 635 |
| TAITH | Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 17.59% | 691 |
| TRaCC | Cyngor Sir Ceredigion | Cyngor Sir Ceredigion<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Powys | 33.3% | 104 |
| PTGGGC | Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn | 20% | 117 |

Gellir gweld cyfrifon y cyd-bwyllgorau unigol ar wefannau y cynghorau sydd yn arwain ar y gwasanaeth cyllid a chyfrifeg.

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **15 GORFFENNAF 2014** |
| TEITL | **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2013/14** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO'R DATGNIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (YN YMGORFFORI DATGANIAD RHEOLAETH FEWNOL STATUDOL) AR GYFER 2013/14 I'R PWYLLGOR ARCHWILIO AM GYMERADWYAETH** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **CYMERADWYO'R DATGANIAD AT BWRPASAU EI ARWYDDO GAN ARWEINYDD Y CYNGOR A'R PRIF WEITHREDWR** |

---

## 1. CYFLWYNIAD – BETH SYDD ANGEN I'R PWYLLGOR ARCHWILIO EI WNEUD?

1.1 Er mwyn cyflawni ei roi fel "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu", mae angen i'r Pwyllgor Archwilio:

- **Ystyried addasiadau i'r Datganiad a awgrymir gan y Cabinet (yn dilyn ei gyfarfod anffurfiol ar 9 Gorffennaf) a'r Grŵp Rheoli (yn dilyn cyfarfod 14 Gorffennaf), fydd yn cael eu cyflwyno ar lafar gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg.**
- **Herio'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg am gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft, ac yn arbennig y sgoriau "Impact" ac "Effeithiolrwydd" sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.**
- **Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo.**

**2. CEFNDIR**

2.1 Mae gofyn statudol am Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol fel canlyniad i gynnwys:

- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, (fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010), sy'n datgan:

  **Rhaid i'r corff llywodraeth leol gynnal adolygiad o leiaf unwaith mewn blwyddyn ar effeithiolrwydd ei system o reoli mewnol, a rhaid cynnwys datganiad ar reoli mewnol, a baratowyd yn ôl arferion priodol, lle bo'n berthnasol, ynghyd ag unrhyw ddatganiad o gyfrifon y mae'n rhwym arno i'w gyhoeddi.**

- Côd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y "SORP")
- Fframwaith CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government*, ac atodiadau dilynol. Cyhoeddwyd yn atodiad diweddaraf yn Rhagfyr 2012.

**3. HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LYWODRAETHU**

3.1 Mae gan y Pwyllgor Archwilio swyddogaeth allweddol i herio dulliau paratoi a chynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Wrth iddynt arwyddo'r Datganiad Llywodraethu, mae'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor yn cadarnhau:

"Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Archwilio, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod."

3.2 Mae'r Datganiad wedi cael ei ddrafftio gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, ac wrth iddo gael ei ddatblygu mae ei gynnwys wedi cael ei adolygu, ei herio a'i gadarnhau gan y Tîm Rheoli Corfforaethol (yn Chwefror, Ebrill a Mehefin 2014) a'r Pwyllgor Archwilio (yn Rhagfyr 2013 a Chwefror a Mai 2014).

3.3 Hefyd, cynhaliwyd Gweithdy o aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn Ionawr 2014 i rannu syniadau am drefniadau llywodraethu.

3.4 Cyflwynwyd y diagram sy'n cynnwys y sgoriau Impact ac Effeithiolrwydd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym Mai 2014. Bryd hynny, derbynion y Pwyllgor y sgoriau hyn, ac awgrymu addasiadau (e.e. ychwanegu Cydraddoldeb fel elfen yn y Fframwaith). Penderfyniad y Pwyllgor oedd:

**(i) Derbyn mai'r diffiniad o "lywodraethu da" yw trefniadau sy'n rhoi darparu ar ran bobl Gwynedd yn y canol;**

**(ii) Cytuno i'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu barhau ar ei gyfeiriad presennol wrth ddatblygu'r trefniadau i hunanasesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor.**

3.5 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn crynhoi canlyniad yr hunanasesiad mewn datganiad sydd yn dweud wrth Bobl Gwynedd beth yw ein fframwaith lywodraethu, a pa mor dda mae'n gweithio. Mae angen i'r Pwyllgor Archwilio fodloni ei hun fod y naratif sy'n cyfiawnhau'r sgoriau yn adlewyrchiad teg o'r Cyngor cyn belled â'i fod yn ymwybodol o hynny, ar sail yr wybodaeth y mae wedi ei dderbyn dros y flwyddyn.

3.6 Yn osystal â'r Tîm Rheoli Corfforaethol, mae'r drafft wedi cael ei gyflwyno i'r Cabinet Anffurfiol (9 Gorffennaf) a'r Grŵp Rheoli (14 Gorffennaf). Bydd eu sylwadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar lafar.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio:

- Ystyried addasiadau i'r Datganiad a awgrymir gan y Cabinet (yn dilyn ei gyfarfod anffurfiol ar 9 Gorffennaf) a'r Grŵp Rheoli (yn dilyn cyfarfod 14 Gorffennaf), fydd yn cael eu cyflwyno ar lafar gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg.
- Herio'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg am gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft, ac yn arbennig y sgoriau "Impact" ac "Effeithiolrwydd" sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.
- Gymeradwyo'r Datganiad sydd yn yr Atodiad, ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo.

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 4 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

**Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB**

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei diogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae'n ddyletswydd o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i Gyngor Gwynedd sefydlu trefniadau sy'n sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o agweddau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang yma, mae Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo a mabwysiadu côd Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government*. Mae copi o'r côd i'w gael ar ein gwefan, neu gellir derbyn copi trwy ysgrifennu at Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH. Mae'r datganiad yma yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r côd ac mae hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 4(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reoli mewnol.

**Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le yng Nghyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2014 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

**Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

3.1 Sefydlwyd **Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu** yn ystod 2012/13, er mwyn cadw golwg parhaus, mwy disgybledig ar faterion llywodraethu, codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, a hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Grŵp yn cynnwys Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, Uwch Reolwr y Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol a'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg.

3.2 Yn ystod 2013/14, mae'r Grŵp wedi adnabod y 31 o elfennau yn ffurfio fframwaith Llywodraethu Cyngor Gwynedd, a rhoddir ystyriaeth arbennig i'r effaith y disgwylir i bob un o'r rhain eu cael wrth ychwanegu gwerth cyhoeddus ar gyfer pobl Gwynedd. Cyn asesu effeithiolrwydd yr elfennau hyn, nodwyd sgôr Effaith ("Impact") i bob un o'r elfennau, i adlewyrchu pa mor gymharol fawr yw effaith pob un ohonynt (ym marn y Grŵp) wrth ychwanegu gwerth cyhoeddus. Mae'r sgoriau hyn yn amrywio o 1 (effaith fychan iawn) i 10 (effaith uchel iawn). Mae'r sgoriau hyn wedi eu asesu, eu herio a'u cadarnhau gan y Pwyllgor Archwilio, y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet a Grŵp Rheoli'r Cyngor.

3.3 Nid oes yr un o'r elfennau wedi sgorio llai na 5 – pe byddent, byddai'n amheus os oeddent yn haeddu lle amlwg o fewn y fframwaith lywodraethu o gwbl.

3.4 Mae'r Cyngor o'r farn mai'r elfennau sy'n cael yr ardrawiad fwyaf wrth ei alluogi i gyflawni yw:

**Sgôr 10:**

| | |
|---|---|
| **Gwerthoedd y Cyngor** | Ein gwerthoedd sydd yn diffinio diwylliant y Cyngor, ar gyfer aelodau a staff. Mae'r gwerthoedd wedi eu sefydlu ers peth amser bellach. O gael y diwylliant yn iawn, mae modd i hynny orchafu popeth arall sy'n effeithio ar ein gallu i gyflawni. |

**Sgôr 9:**

| | |
|---|---|
| **Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig** | Mae parodrwydd cyrff sector gyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, cynghorau unedol eraill cyfagos, yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd ac eraill i gydweithredu er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd am gael effaith sylweddol, weladwy i Bobl Gwynedd. |
| **Cynllun Strategol y Cyngor** | Dyma'r datganiad lefel uchel sy'n amlinellu'r hyn y mae'r Cyngor am anelu i'w gyflawni yn ystod oes y Cyngor presennol. |
| **Ymgysylltu** | Mae ymgysylltu'n glir gyda Pobl Gwynedd, er mwyn sefydlu cyfathrebu clir a cael wir ddealltwriaeth o'u anghenion, yn un o elfennau pwysicaf o'r trefniadau llywodraethu. |
| **Rhaglen Arweinyddiaeth** | Mae Arweinyddiaeth yn gosod y safon y mae pob aelod a gweithiwr yn y Cyngor yn ei ddilyn. Mae ei impact, felly, yn enfawr – gall Arweinyddiaeth dda oresgyn popeth arall, tra gallai Arweinyddiaeth wael ddistrywio'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni. Hwn sy'n gwreiddio diwylliant y Cyngor. |
| **Llywodraethu Gwybodaeth** | Mae bod â'r wybodaeth gywir yn hanfodol os yw'r Cyngor am ddarparu'r gwasanaethau cywir i'r pobl gywir yn y ffordd gywir. Mae angen i'r wybodaeth sy'n cael ei gasglu a'i gadw fod yn gyfredol a pherthnasol, nid yn unig er mwyn cydymffurfio â Deddf Diolgelu Data ond hefyd er mwyn sicrhau fod y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu yn rhai sy'n gwneud y pethau iawn. Llywodraethu Gwybodaeth dda yw sylfaen penderfyniadau da. |

| | |
|---|---|
| **Strategaeth ariannol** | Y Strategaeth Ariannol sy'n gosod cyd-destun allweddol ar gyfer popeth y mae'r Cyngor am ei wneud.<br>Mae'r rhagolygon ariannol ar gyfer y Cyngor yn awgrymu y bydd rhaid darganfod arbedion sylweddol yn y blynyddoedd nesaf. Y Strategaeth Ariannol sydd yn gosod allan sut y byddwn yn gwireddu hyn, ac felly mae'n ddatganiad hollbwysig, sydd yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn delio â'r sefyllfa. |

**Sgôr 8:**

| | |
|---|---|
| **Trefniadau rheoli risg** | Mae ein trefniadau rheoli risg yn rhan annatod o drefniadau rheoli'r Awdurdod. Mae trefniadau rheoli risg cadarn, cywir a chymesur yn cefnogi arloesi, nid ei lesteirio. |
| **Gwerthuso, Hyfforddi a Datblygu Staff** | Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi Pobl Gwynedd yn y canol bob amser, rhaid hyfforddi staff yn barhaus, gwerthuso eu perfformiad, a meithrin a datblygu ei dalent. Mae trefniadau hyfforddi staff yn ffordd bwysig o hybu a lledaenu meddylfryd Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor, ac wrth gwrs mae'n hollbwysig fod gan y Cyngor swyddogion sydd â'r sgiliau i gyflawni eu swyddi. |
| **Y Côd Llywodraethu Lleol** | Mae'r Côd Llywodraethu Lleol yn gonglfaen trefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae'n cwmpasu nifer fawr o'r elfennau sydd angen bod yn eu lle er mwyn 'r Cyngor allu gwireddu ar ran Pobl Gwynedd. |
| **Y Cyfansoddiad** | Fel y canllaw swyddogol o'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu, mae'n anorfod fod y Cyfansoddiad, o ddiffiniad, yn cael impact arwyddocaol ar y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ar ran Pobl Gwynedd. |
| **Y gyfundrefn 'Cyflawni'** | Dyma gyfundrefn cynllunio busnes a monitro perfformiad y Cyngor. Oherwydd hyn, mae effaith y gyfundrefn ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau ar ran Pobl Gwynedd yn allweddol. |
| **Y drefn Craffu** | Y drefn craffu yw'r broses sydd yn ei le i sicrhau fod Cabinet y Cyngor yn gweithredu ei bolisïau yn unol â'r haddewidion ac er lles Pobl Gwynedd. Mae felly'n rhan bwysig iawn o'r fframwaith lywodraethu. |

Yn ogystal, derbyniodd yr elfennau canlynol sgôr is o ran eu heffaith ar werth cyhoeddus:

| **Elfen** | **Sgôr Impact (allan o 10)** |
|---|---|
| Protocol Cyswllt Aelod/Swyddog<br>Côd Ymddygiad Aelodau<br>Côd Ymddygiad Swyddogion<br>Y Pwyllgor Archwilio<br>Polisi Gwrth-Dwyll a Gwrthlygredd<br>Llythyr Blynyddol Yr Archwiliwr Allanol<br>Archwilio Mewnol<br>Y Strategaeth Gaffael<br>Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd<br>Cydraddoldeb | **7** |
| Y Pwyllgor Safonau<br>Taflenni Penderfyniad<br>Protocolau Swyddogion Statudol<br>Cydberthynas Aelodau<br>Côd Ymarfer "Canu'r Gloch"<br>Hyfforddi a Datblygu Aelodau<br>Y Drefn Gwynion | **6** |
| Datganiad o'r cyfrifon | **5** |

## Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd wedi ei lywio gan waith y rheolwyr gweithredol o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol, yn ogystal â sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu eraill ac arolygiaethau.

Mae'r Grŵp wedi cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i asesu trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn barhaus, gan roi sylw i faterion sydd yn dod i'w sylw sy'n effeithio ar ei ganfyddiad o'r fframwaith lywodraethu. Wrth wneud hyn, mae wedi asesu effeithiolrwydd pob un o 31 elfen y fframwaith lywodraethu. Mae canlyniad yr asesiad yma wedi ei herio'r rheolaidd gan y Tîm Rheoli Corfforaethol.

Ers 2013/14, mae'r Pwyllgor Archwilio derbyn adroddiad ar waith y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu ym mhob cyfarfod, a cynhaliwyd gweithdy gan aelodau'r Pwyllgor yn Ionawr 2014 er mwyn roi mewnbwn hwythau i'r hunanasesiad o drefniadau llywodraethu.

Mae'r canlynol hefyd wedi cyfrannu wrth gynnal yr asesiad o effeithiolrwydd y fframwaith lywodraethu yn ystod y flwyddyn:

- Asesiadau gan aelodau a prif swyddogion wrth ddatblygu cyfundrefn "Ffordd Gwynedd", sef yr un weledigaeth gyffredin a chlir i bawb yn y Cyngor ynglŷn â'r diwylliant corfforaethol sydd ei angen os am sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Gwaith Archwilio Mewnol, wedi ei grynhoi yn Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym Mai 2014. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y sicrwydd cyffredinol canlynol: ***"Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2013/14, yn fy marn i mae gan Cyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a cryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol."***
- Ystyriaeth o ganlyniadau gwaith archwilwyr a rheoleiddwyr allanol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn a'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Mae canlyniad yr asesiad o effeithiolrwydd elfennau'r fframwaith lywodraethu a ddisgrifir uchod, gan gynnwys sgôr cymharol allan o 10. Mae'r sgoriau hyn yn amrywio o 1 (aneffeithiol iawn) i 10 (hynod effeithiol), ac wedi eu harddangos yn y tabl sy'n dilyn.

| Elfen | Asesiad o'i Effeithiolrwydd wrth ein helpu i gyflawni | Sgôr Effeithiol-rwydd (allan o 10) |
|---|---|---|
| Gwerthoedd y Cyngor | Datblygwyd Gwerthodd y Cyngor trwy waith gyda'r Colegau Rheolwyr, ac mae gwerthoedd y Cyngor wedi eu nodi ar gerbydau, llythyrau ac arwyddion yn swyddfeydd.<br><br>Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth fod ein staff ac aelodau yn byw y gwerthoedd hyn ac mae tystiolaeth – o adolygiadau system – yn dangos nad yw'r Gwerthoedd wedi treiddio go iawn, i olygu gwell gwasanaeth i bobl Gwynedd.<br><br>Mae trafodaethau gyda staff fel rhan o ddatblygiad Ffordd Gwynedd wedi amlygu fod yna ffactorau eraill yn goruchafu'r gwerthoedd, ac mae'r arbrofion systems hefyd yn awgrymu fod yna bethau heblaw'r gwerthoedd yn torri ar draws gallu staff i wireddu'r gwerthoedd. | **3** |
| Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig | Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i ddatblygu Cynllun Integredig Sengl, ond nid yw wedi cael ei fabwysiadu.  Er hyn, mae Uned Partneriaethau wedi ei sefydlu gyda Cyngor Sir Ynys Môn, ond bychan yw'r effaith y mae wedi ei gael hyd yn hyn.<br><br>Mae'r Cyngor ymysg y cyrff sydd wedi arwyddo Datganiad o Fwriad sydd wedi ei gytuno gyda'r Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar gyfer gwasanaeth integredig.<br><br>Er hynny, mae cryn waith eto i'w wneud gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Cynhaliwyd gweithdy ar 4 Mehefin 2014 er mwyn dechrau ar y gwaith o hunan asesu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. | **3** |
| Y gyfundrefn 'Cyflawni' | Dengys hunan asesiad o'r gyfundrefn Cyflawni fod yna ddiffygion o hyd yn ein trefniadau gan gynnwys diffyg perchnogaeth go iawn gan unedau o fewn y Cyngor o'r wybodaeth perfformiad, a'i ddefnydd ar gyfer gwella.<br><br>Dengys arbrofion systems a'r hunan asesiad a wnaed ar gyfer Ffordd Gwynedd fod angen bod yn gliriach ynglŷn a beth sydd yn fesur perfformiad a beth sydd yn wybodaeth rheoli – nid yw bob tro yn glir gan pawb.<br><br>Mae Adroddiad Gwella'r Cyngor yn nodi fod trefniadau i fonitro perfformiad gwasanaethau wedi gwella ond fod angen atgyfnerthu rhai agweddau ar fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor.  Mae adolygiad ar y gweill er mwyn cysoni'r drefn gyda Ffordd Gwynedd. | **3** |

| Elfen | Asesiad o'i Effeithiolrwydd wrth ein helpu i gyflawni | Sgôr Effeithiol-rwydd (allan o 10) |
|---|---|---|
| Gwerthuso, Hyfforddi a Datblygu Staff | Mae trafferthion llenwi rhai swyddi uwch o fewn y Cyngor yn awgrymu fod angen gwella ein gallu i greu dilyniant ar gyfer uwch swyddi, o leiaf. Mae hyn wedi ei adnabod fel sail i ddatblygu talent fewnol.<br><br>Mae dogfennaeth y drefn werthuso yn ei le, a mesurydd perfformiad o faint o staff sydd yn cael eu gwerthuso, ond mae lle i wella'r trefniadau mewn rhai adrannau.<br><br>I'r perwyl hwn, mae arbrofion wedi eu cynnal mewn rhai adrannau i edrych ar ffyrdd gwahanol er mwyn gwella'r drefn, ac mae hunan asesiad Ffordd Gwynedd wedi dod i'r casgliad fod angen ail ddiffino'r drefn werthuso i gefnogi diwylliant Ffordd Gwynedd. | **4** |
| Cydberthynas aelodau | Mae yna rywfaint o dystiolaeth o densiwn yn bodoli yn y gorffennol rhwng aelodau wrth i'r trefniadau cabinet newydd gael eu gweithredu o fewn y Cyngor a'r newid rolau oedd yn gysylltiedig â hynny, a nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu fod y tensiynau hynny wedi diflannu.<br><br>Mae tensiynau yn anorfod pa fydd unrhyw newidiadau arwyddocaol, ac i'w disgwyl. | **4** |
| Y Drefn Gwynion | Gwendid pennaf y drefn gwynion gyfredol yw nad oes trefniadau yn eu lle er mwyn caniatáu i'r Cyngor ddysgu gwersi o ymchwiliadau i gwynion. Heb wneud hyn, mae perygl y bydd y Cyngor yn ailadrodd camgymeriadau. | **4** |
| Ymgysylltu | Nododd hunan asesiad a gyflawnwyd ar gyfer Ffordd Gwynedd dystiolaeth oedd yn amlygu nad oedd trefniadau ymgysylltu'r Cyngor cystal ag y dylent fod ar gyfer yr hinsawdd newydd sydd o'n blaenau. Amlygwyd y dystiolaeth yma yn y Strategaeth Ymgysylltu a fabwysiadwyd gan y Cabinet ar 28 Ionawr 2014.<br><br>Mae gwaith wedi dechrau ar weithredu ar y strategaeth – mae gweithgor rhwng aelodau a swyddogion wedi ei sefydlu – ac nid yw'r sefyllfa am newid dros nos gan mai sôn am newid diwylliant yr ydym. Ar hyn o bryd felly mae'r sgôr yn parhau i adlewyrchu'r sefyllfa wreiddiol. | **4** |

| Elfen | Asesiad o'i Effeithiolrwydd wrth ein helpu i gyflawni | Sgôr Effeithiol-rwydd (allan o 10) |
|---|---|---|
| Trefniadau rheoli risg | Mae trefniadau bellach yn eu lle er mwyn i bod adran gynnal cofrestr risg adrannol, ac mae cofrestrau traws-adrannol hefyd yn eu lle, gyda protocolau i'w cefnogi. Er hyn, mae treiddiad rheolaeth risg ymysg unedau busnes unigol yn anghyson, a'r canfyddiad gyffredinol yw fod rheoli risg yn rwystr i wireddu amcanion, yn hytrach na chymorth.<br><br>Hefyd, heblaw am risgiau Iechyd a Diogelwch, mae arbrofion systems yn dangos nad yw'r holl weithlu yn ymwybodol o'r risgiau all lesteirio cyflawni i bobl Gwynedd ac yn eu perchnogi – mae rheoli risg yn dueddol o gael ei weld fel bod yn fater i Reolwyr.<br><br>Risgiau arwyddocaol sydd wedi derbyn sylw yn ystod y flwyddyn yw'r rhai o gwmpas Trefniadau Diolgelu Plant ac Oedolion – daeth adroddiad gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd yn 2013 i'r casgliad nad oedd trefniadau diogelu plant a phobl ifanc y Cyngor yn bodloni'r gofynion statudol. Fodd bynnag, mae camau sylweddol wedi eu gwneud ers hynny.<br><br>Mae Panel Strategol yn cwrdd yn chwarterol, a'r Panel Gweithredol yn fisol. Mae camau mawr wedi eu cymryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu Polisi Diogelu Corfforaethol, yn ogystal â rhai adrannol. Caiff rhain eu hadolygu'n rheolaidd, ac mae pob adran wedi enwebu rheolwr dynodedig er mwyn cynnal ymwybyddiaeth o'r gofynion ar draws y Cyngor.<br><br>Er hyn, parhau i ddatblygu mae'r trefniadau, ac mae angen ~~i~~ sicrhau fod ymwybyddiaeth yn treiddio i ddiwylliant a threfniadau gwaith pawb ar draws y Cyngor. Mae arolwg diweddar gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru wedi awgrymu fod cynnydd da wedi ei wneud o fewn y maes diogelu a bod trefniadau ar waith i barhau gyda gwreiddio'r maes pwysig hwn drwy'r corff. | **5** |
| Y Pwyllgor Safonau | Mae'r Pwyllgor Safonau yn ei le ac yn gweithredu gyda Cylch Gorchwyl cytunedig. Mae cofnodion y Pwyllgor yn dangos ei fod yn edrych ar achosion penodol wrth ymgymryd â'i waith.<br><br>Mae'r Pwyllgor ei hun hefyd wedi cynnal hunan asesiad. | **5** |
| Y Drefn Craffu | Petai craffu yn gweithio fel y dymunwn, gallai gael effaith sylweddol ar y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni. Tra bod y gyfundrefn yn gwella, gydag enghreifftiau o graffu yn cael effaith positif ar wasanaethau, mae yna dipyn o ffordd i fynd eto hyd nes y bydd craffu yn uchafu'r amcan hwnnw. I'r perwyl yma, mae Strategaeth Craffu ddiwygiedig drafft yn barod i'r gyhoeddi.<br><br>Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi bod yn ganmoladwy am y cyfeiriad y mae Craffu yn symud o fewn y Cyngor. | **5** |

| Elfen | Asesiad o'i Effeithiolrwydd wrth ein helpu i gyflawni | Sgôr Effeithiol-rwydd (allan o 10) |
|---|---|---|
| Y Strategaeth Gaffael | Mae Strategaeth Gaffael yn ei le ers sawl blwyddyn, ond mae peth tystiolaeth nad yw ei egwyddorion yn treiddio yn gyson trwy'r Cyngor, ac mae lle i newid trefniadau i adlewyrchu ffyrdd newydd o weithio. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae Prosiect Caffael ar y cyd gyda cynghorau Dinbych a Fflint yn cael ei werthuso ar hyn o bryd. | **5** |
| Cynllun Strategol y Cyngor | Mae'r Cynllun Strategol yn ganllaw pwysig er mwyn cyflawni ar ran Pobl Gwynedd. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi adnabod gwelliannau yn y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau. Fodd bynnag, mae pryder a yw holl staff y Cyngor yn rhoi'r blaenoriaeth dyledus i faterion sydd yn y Cynllun Strategol.<br><br>Serch hynny mae Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor yn nodi fod perfformiad amryw o wasanaethau'r Cyngor yn cymharu'n dda ag awdurdodau eraill yng Nghymru; a bod mwyafrif trigolion Gwynedd o'r farn i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau o ansawdd a oedd yn cynnig gwerth am arian sy'n awgrymu fod y Cynllun Strategol wedi cael effaith dros y blynyddoedd drwy ganolbwyntio ar y meysydd sydd angen gwella.<br><br>Mae'r Adroddiad Gwella hefyd yn cyfeirio at nifer o feysydd (e.e. tai, gwella'r economi a maes iaith) lle gwelwyd cynnydd da ar faterion sydd yn y Cynllun Strategol. | **6** |
| Y Pwyllgor Archwilio | Mae Pwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd wedi ei sefydlu ers 1999, ac mae ganddo gylch gorchwyl cytunedig. Er fod y Pwyllgor Archwilio yn effeithiol iawn yn gwireddu rhai o'r swyddogaethau y mae wedi ei arddel ers tro, parhau i ddatblygu y mae ei allu i ymdrin â cyfrifoldebau newydd a ddaeth i'w ran gyda Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. | **6** |
| Llythyr blynyddol yr Archwiliwr Allanol | Tra bod y llythyr yn cynnwys beirniadaeth adeiladol, bydd y Cyngor yn ceisio gweithredu ar y materion a godir ond weithiau efallai fod yna wrthdaro rhwng ymdeimlad y Cyngor o beth ddylai gael sylw a rhai materion a godir yn y llythyr o ran yr ymdrech sydd ei angen ei roddi iddynt, a'r lefel risg y maent yn ei gynrychioli.<br><br>Fodd bynnag nid yw'r enghreifftiau yma yn niferus; nid oedd argymhellion yn yr adroddiad diweddaraf, ac mae'r negeseuon yn gyffredinol bositif. | **6** |
| Archwilio Mewnol | Mae effeithiolrwydd y gyfundrefn Archwilio Mewnol dan adolygiad parhaus, ac er fod y gwasanaeth yn cwrdd â'r safonau proffesiynol yn unol â'r disgwyl, mae angen ystyried ymhellach os yw'n adolygu'r pethau cywir, ac os yw'n gweithredu mewn dull sydd yn gydnaws â "Ffordd Gwynedd". | **6** |

| Elfen | Asesiad o'i Effeithiolrwydd wrth ein helpu i gyflawni | Sgôr Effeithiol-rwydd (allan o 10) |
|---|---|---|
| Llywodraethu Gwybodaeth | Er gwaethaf ymdrechion i wella trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth, mae'r Cyngor yn parhau i gadw llawer iawn o wybodaeth, ac mae angen parhau i weithio i sicrhau nad yw'n cynnal mwy o ddata na'r hyn sydd ei angen. Canlyniad hyn yw nad yw gallu'r Cyngor i ddefnyddio ei wybodaeth yn briodol er mwyn gwneud penderfyniadau mor effeithiol ag y gallai fod.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae rhai achlysuron wedi codi lle mae'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio'n llawn â safonau Diogelu Data. | **6** |
| Y Côd Llywodraethu Lleol | Mae'r Côd Lleol, fel canolbwynt i holl elfennau unigol y fframwaith lywodraethu, yn gweithredu'n effeithiol wrth gyflawni ei amcanion. Dyma yw gwraidd ein hasesiad o drefniadau llywodraethu.<br><br>Fodd bynnag, mae lle i'w adolygu'n fwy rheolaidd nag sydd wedi ei wneud yn y gorffennol, ond mae'r Pwyllgor Archwilio a'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn rhoi sylw i hyn. | **7** |
| Côd Ymarfer "Canu'r Gloch" | Er mai ychydig o ddefnydd sydd wedi ei wneud o'r drefn, mae'r datganiadau hynny sydd wedi eu gwneud wedi bod yn destun ymchwiliadau trylwyr yn unol â'r Côd Ymarfer. Mae'r trefniadau wedi eu hadolygu'n ddiweddar gan SAC, fel rhan o adolygiad cenedlaethol. | **7** |
| Hyfforddi a Datblygu Aelodau | Mae camau wedi eu gwneud yn y cyfnod ers etholiad 2012 i lunio rhaglen i hyfforddi aelodau, gyda'r Gwasanaethau Democrataidd yn arwain ar y gwaith.<br><br>Mae rhaglen hyfforddi aelodau am y flwyddyn yn ei le, gyda trefniadau er mwyn cynnig Cyfweliadau Datblygu Personol wedi eu cynllunio. | **7** |
| Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd | Caiff Adroddiad Gwella'r Cyngor yn gyhoeddi'n flynyddol yn unol â'r amserlen ddisgwyliedig. Mae'r Adroddiad yn nodi fod y Cyngor wedi cyflawni'r dyletswyddau adrodd ar welliant sy'n ofynnol o dan y mesur ond gallai gydymffurfio'n llawnach ag arweiniad gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Er fod hwn yn adroddiad sydd yn cyflawni ei bwrpas, mae yna risg ei fod yn adroddiad sydd yn cael ei gynhyrchu er mwyn gwireddu gofynion statudol, yn hytrach nag er mwyn gwireddu'r nod o roi darlun cyflawn i Bobl Gwynedd. Anelir i gyflawni gwelliannau pellach. | **7** |
| Rhaglen Arweinyddiaeth | Mae yna dystiolaeth fod sgiliau Arweinyddiaeth o fewn y Cyngor wedi gwella ar ôl i'r Cyngor fuddsoddi mewn hyfforddiant arweinyddiaeth ar gyfer ei Uwch Swyddogion ac aelodau.<br><br>Fodd bynnag dengys hunan asesiad Ffordd Gwynedd fod angen mynd â hyn nawr i'r haen nesaf gan sicrhau fod holl arweinyddiaeth y Cyngor yn un wrth arddel egwyddorion Ffordd Gwynedd os yw am fod yn llwyddiant. | **7** |

Derbyniodd yr elfennau eraill sgôr effeithiolrwydd o 8 neu fwy:


| **Elfen** | **Sgôr Effeithiol-rwydd (allan o 10)** |
|---|---|
| Taflenni penderfyniad<br>Protocol cyswllt aelod/swyddog<br>Côd Ymddygiad Aelodau<br>Y Cyfansoddiad<br>Strategaeth ariannol<br>Cydraddoldeb | **8** |
| Protocolau swyddogion statudol<br>Côd Ymddygiad Swyddogion<br>Polisi gwrth-dwyll a gwrthlygredd<br>Datganiad o'r cyfrifon | **9** |

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Archwilio, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod.

**Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

Wrth osod y sgoriau Impact ac Effeithiolrwydd yn y diagram isod, arddangosir y materion sydd angen sylw fel mater o flaenoriaeth, sef y meysydd hynny sy'n cael yr impact fwyaf, ond sydd lleiaf effeithiol ar hyn o bryd:

ASESIAD O ELFENNAU ALLWEDDOL Y SYSTEMAU A PHROSESAU SY'N RHAN O LYWODRAETHU CYNGOR GWYNEDD



Mae'r eitem sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Gweithredu yn rhan o brosiect arall sydd eisoes ar y gweill, ond y camau gweithredu ar gyfer y meysydd sydd â gael Blaenoriaeth Uwch Iawn ac Uchel yw:

## Blaenoriaeth Uchel Iawn

| Mater sydd wedi ei adnabod | Trefniadau i Ymateb | Cyfrifoldeb Pwy? |
|---|---|---|
| ***Gwerthoedd y Cyngor***. Prin yw'r dystiolaeth fod ein staff ac aelodau yn byw Gwerthoedd y Cyngor ar hyn o bryd ac mae tystiolaethwn dangos nad yw'r Gwerthoedd wedi treiddio go iawn, i olygu gwell gwasanaeth i bobl Gwynedd. Mae trafodaethau gyda staff fel rhan o ddatblygiad Ffordd Gwynedd wedi amlygu fod yna ffactorau eraill yn goruchafu'r gwerthoedd, | Bydd Gwerthoedd y Cyngor a 'Cyflawni' yn derbyn sylw o dan maes blaenoriaeth Diwylliant a Threfniadau Busnes o fewn y Cynllun Strategol, sef prosiect DT1 – **Hybu Diwylliant o roi Pobl Gwynedd yn Ganolog**. | Prif Weithredwr |
| ***Y gyfundrefn 'Cyflawni'.*** Diffyg perchnogaeth o'r wybodaeth perfformiad, a'i ddefnydd ar gyfer gwella.<br><br>Angen bod yn gliriach ynglŷn a beth sydd yn fesur perfformiad a beth sydd yn wybodaeth rheoli | | Pennaeth Strategol a Gwella |
| ***Ymgysylltu***. Nid yw trefniadau ymgysylltu'r Cyngor cystal ag y dylent fod ar gyfer yr hinsawdd newydd sydd o'n blaenau. | Derbyn sylw o dan maes blaenoriaeth Diwylliant a Threfniadau Busnes o fewn y Cynllun Strategol, sef prosiect DT2 - **Ymgysylltu'n effeithiol â phobl Gwynedd**. | Prif Weithredwr |
| ***Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig.*** Bychan fu effaith ymdrechion i gydweithio hyd yn hyn. | Bydd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn yn ail ystyried blaenoriaethau'r Bwrdd yn ystod 2014/15, gyda golwg ar sefydlu rhaglen ymyrraeth y Bwrdd i'r dyfodol. | Pennaeth Strategol a Gwella |

## Blaenoriaeth Uchel

| Mater sydd wedi ei adnabod | Trefniadau i Ymateb | Cyfrifoldeb Pwy? |
|---|---|---|
| ***Gwerthuso, Hyfforddi a Datblygu Staff***. Mae arbrofion wedi eu cynnal mewn gwahanol adrannau i edrych ar ffyrdd gwahanol er mwyn gwella'r drefn. | Ail ddiffino'r drefn werthuso i gefnogi diwylliant Ffordd Gwynedd wrth ddatblygu'r gyfundrefn.<br>Rhoi ystyriaeth i drefniadau dilyniant a chreu cynllun gweithredu. | Pennaeth Adnoddau Dynol |
| ***Cynllun Strategol y Cyngor.*** Mae pryder a yw holl staff y Cyngor yn rhoi'r blaenoriaeth dyledus i faterion sydd yn y Cynllun Strategol | Parhau i fireinio trefniadau cynllunio busnes holl unedau busnes y Cyngor, er mwyn rhoi sylw i'r blaenoriaethau cywir | Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid |
| ***Y Drefn Craffu.*** Tra bod y gyfundrefn yn gwella, gydag enghreifftiau o graffu yn cael effaith positif ar wasanaethau, mae yna dipyn o ffordd i fynd eto hyd nes y bydd craffu yn uchafu'r amcan hwnnw. | Cyhoeddi Strategaeth Craffu ddiwygiedig drafft, a gweithredu'r camau sydd ynddo. | Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol |
| ***Trefniadau Rheoli Risg.*** Mae treiddiad rheolaeth risg ymysg unedau busnes unigol yn anghyson, a'r canfyddiad gyffredinol yw fod rheoli risg yn rwystr i wireddu amcanion, yn hytrach na chymorth. Rheoli risg yn dueddol o gael ei weld fel bod yn fater i Reolwyr. | Adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2013/14, lle cafwyd sicrhad fod pob adran wedi paratoi cofrestr risg lefel adran. Bydd swyddogion perthnasol yn cefnogi unedau busnes i godi ymwybyddiaeth o'r defnydd o rheolaeth risg yn eu gwaith dydd i ddydd, a hynny yng nghyd-destun cyfundrefn Ffordd Gwynedd. | Uwch Reolwr Archwilio a Risg |
| | Mae Panel Strategol a Panel Gweithredol wedi eu sefydlu yn sgil penderfyniad y Cyngor i wella ei drefniadau Diogelu Plant ac Oedolion. Bydd y Paneli yn parhau i ddatblygu rhaglenni gwaith i ymateb, ac yn monitro cynnydd yn erbyn y rhaglen waith honno. | Cyfarwyddwr Corfforaethol (Gwasanaethau Cymdeithasol) / Uwch Reolwr Adnoddau Dynol |
| ***Cydberthynas Aelodau.*** Tystiolaeth o densiynau | Gwaith parhaus o sicrhau parch a dealltwriaeth o wahanol rolau aelodau, yn arbennig Weithrediaeth a'r aelodau eraill | Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol |

| Mater sydd wedi ei adnabod | Trefniadau i Ymateb | Cyfrifoldeb Pwy? |
|---|---|---|
| ***Y Drefn Gwynion.*** Nid oes trefniadau yn eu lle er mwyn caniatáu i'r Cygor ddysgu gwersi o ymchwiliadau i gwynion. | Mae cyfundrefn arbrofol yn cael ei mewnosod er mwyn ceisio tracio cwynion yn well a dysgu o'r casgliadau. Yn yr hir dymor ystyrir y bydd project **DT1** y cyfeirir ato uchod hefyd yn arwain at well defnydd o gwynion o fewn y Cyngor i wella gwasanaethau. | Swyddog Monitro |
| ***Rhaglen Arweinyddiaeth.*** Angen sicrhau fod holl arweinyddiaeth y Cyngor yn un. | Mynd â'r gwelliant yn sgiliau arweinyddiaeth uwch swyddogion ac aelodau i'r haen nesaf wrth arddel egwyddorion Ffordd Gwynedd. | Pennaeth Adnoddau Dynol |
| ***Y Strategaeth Gaffael*** | Mae'r Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol yn adolygu ymagwedd caffael y Cyngor. Mae ymrwymiad i lunio Strategaeth newydd yn ystod 2014/15. | Pennaeth Strategol a Gwella |
| ***Llywodraethu Gwybodaeth.*** Mae'r Cyngor yn cadw llawer iawn o ddata.<br><br>Mae rhai achlysuron wedi codi lle mae'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio'n llawn â safonau Diogelu Data. | Mae prosiectau yn eu lle er mwyn datblygu trefniadau'r Cyngor i ymarfer ar sail tystiolaeth, ac esblygu'r diwylliant o wneud penderfyniadau amddiffynadwy.<br><br>Ar lefel weithredol, mae gwaith yn parhau er mwyn cynnal safonau ar draws y Cyngor ar gyfer cadw a prosesu gwybodaeth. Ymdrechion i godi ymwybyddiaeth i barhau, yn ogystal â datblygu cofrestrau risg gwybodaeth adrannol. | Cyfarwyddwr Corffoaethol / Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant |

**Rhan 6: BARN**

Rydym yn bwriadu cymryd camau i ddelio gyda'r materion uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

| | |
|---|---|
| ______________________________ | ______________________________ |
| **DILWYN O WILLIAMS** | **Cyng. DYFED WYN EDWARDS** |
| **PRIF WEITHREDWR CYNGOR GWYNEDD** | **ARWEINYDD CYNGOR GWYNEDD** |
| **DYDDIAD** | **DYDDIAD** |

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **15 GORFFENNAF 2014** |
| TEITL | **ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 6 MEHEFIN 2014** |
| AWDUR | **JOHN PUGHE ROBERTS, CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD AC YSTYRIED YR ARGYMHELLION** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynwyd crynodebau gweithredol 30 o adroddiadau Archwilio Mewnol i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 6 Mai 2014, sef adroddiadau oedd wedi eu rhyddhau'n derfynol rhwng 1 Chwefror 2014 a 31 Mawrth 2014. Derbyniodd 7 o'r adroddiadau hyn farn 'C'.

1.2 Ymhellach, adroddwyd i'r Pwyllgor fod un adroddiad dilyniant wedi derbyn barn "Anfoddhaol", ac roedd y Pwyllgor hefyd yn awyddus i drafod materion oedd yn codi o adroddiad arall oedd wedi derbyn barn 'B'.

1.2 Felly, yn y Pwyllgor penderfynwyd:

**Derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Chwefror i 31 Mawrth 2014 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**Ymgynnull dau gyfarfod o'r gweithgor a bod yr aelodau canlynol i wasanaethu ar y gweithgor yn unol â'r isod:**

**(i) Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorwyr Huw Edwards, Michael Sol Owen a Angela Russell i ystyried yr archwiliadau canlynol:**

- **Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion**
- **Grant Effeithlonrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion**
- **Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion**
- **Gwirio Mesuryddion Perfformiad**

**(ii) Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorwyr Aled Evans, Dafydd Meurig a Huw Edwards i ystyried yr archwiliadau canlynol:**

- **Rheolaeth Archebu a Thalu am Wasanaethau Cynnal a Chadw Eiddo**
- **Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau**
- **Trefniadau Dros Nos yng Nghartrefi'r Cyngor**
- **Trefniadau Hawlio Goramser**
- **Dilyniant Siopau Gwynedd**

## 2 CYFARFOD Y GWEITHGOR

2.1 Yn unol â'r penderfyniad, cynhaliwyd y Gweithgor mewn dau sesiwn, a hynny ar fore a prynhawn 6 Mehefin yn Ystafell Gwyrfai.

2.2 Roedd y Cynghorwyr John Pughe Roberts, Robert Wright, Angela Russell a Michael Sol Owen, a Dewi Morgan, Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn bresennol yn sesiwn y bore. Rhoddwyd ystyriaeth yr adroddiadau canlynol:

| TEITL | ADRAN | BARN |
|---|---|---|
| Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion | Addysg | C |
| Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion | Addysg | B |
| Gwirio Mesuryddion Perfformiad | Corfforaethol | C |
| Grant Effeithlonrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion | Addysg | C |

2.3 Roedd y Cynghorwyr John Pughe Roberts, Robert Wright, Dafydd Meurig ac Aled Evans, a Dewi Morgan, yn bresennol yn sesiwn y prynhawn, gan ystyried y canlynol:

| TEITL | ADRAN | BARN |
|---|---|---|
| Rheolaeth Archebu a Thalu am Wasanaethau Cynnal a Chadw Eiddo | Gofal Cwsmer | C |
| Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau | Democratiaeth a Chyfreithiol | C |
| Trefniadau Dros Nos yng Nghartrefi'r Cygnor | Gwasanaethau, Tai a Hamdden | C |
| Trefniadau Hawlio Goramser | Corfforaethol | C |
| Dilyniant Siopau Gwynedd | Gofal Cwsmer | Anfoddhaol |

2.3 Mynychodd swyddogion perthnasol i drafod yr holl adroddiadau.

## 2.5 Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion

2.5.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad yma oedd:

*Gwelwyd fod trefniadau penodol a ffurflenni perthnasol mewn lle er mwyn casglu ffigyrau ystadegau a chyfrifiadau gan ysgolion yn flynyddol, gyda chanllawiau yn cael ei dosbarthu i'r ysgolion i'w harwain trwy'r broses. Fodd bynnag, wrth archwilio sampl o ysgolion, adnabuwyd achlysuron lle gwnaethpwyd camgymeriadau gan ysgolion gyda'r ffigyrau ystadegau a chyfrifiadau a gyflwynwyd, gydag anghysondebau yn ymddangos rhwng y ffigyrau ystadegau a chofrestr disgyblion yr ysgol. Canlyniad hyn oedd bod ffigyrau ystadegau a chyfrifiadau anghywir wedi eu cyflwyno i'r Adran Addysg gan yr ysgolion. Gwelwyd fod addasiadau i gyllidebau ysgolion yn dilyn gwaharddiadau parhaol wedi cael eu cyfrifo'n gywir. Gwelwyd hefyd nad oedd rhai ysgolion yn ein sampl gyda chofrestriad cyfredol gyda'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth.*

2.5.2 Croesawyd Owain Dewi Hughes (Swyddog Gwybodaeth) ac Owen Owens (Uwch Reolwr Ysgolion) i'r cyfarfod.

2.5.3 Rhoddwyd cefndir yr archwiliad gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg. Nodwyd fod pedwar ysgol yn y sampl a archwiliwyd, ac mai un yn benodol oedd yn gyfrifol fod yr archwiliad yma wedi derbyn barn 'C'.

2.5.4 Roedd y swyddogion o Addysg yn cydnabod mai mewn un ysgol yn arbennig y gwelwyd gwendidau, ond nodwyd fod gan yr ysgol honno bennaeth a swyddog gweinyddol newydd ar adeg yr archwiliad. Nodwyd hefyd fod yr ysgol yma yn unigryw o safbwynt natur y disgyblion sydd yn mynychu – oherwydd lleoliad a natur yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn dod o deuluoedd sy'n fudol oherwydd eu gwaith.

2.5.5 Gofynnwyd i'r swyddogion beth sy'n digwydd mewn ymateb i'r adroddiad. Atebwyd fod gwaith yn digwydd ar hyn o bryd i wirio rhwng yr ysgol a'r hyn sydd wedi ei gynnwys yn systemau'r Adran Addysg. Yn y gorffennol, mae ysgolion cynradd wedi gweld y system SIMS fel rhywbeth "pell" oedd yn cael ei ddefnyddio gan y swyddfeydd ardal, ond erbyn hyn mae'r system ym mhob dosbarth. Gan fod cofrestr yr ysgol ar bapur, nid oedd yr ysgol yn poeni am SIMS, ond rŵan caiff y manylion eu bwydo yn syth i SIMS.

2.5.6 Roedd aelodau'r Gweithgor yn awyddus i wybod os oedd y gwendidau mewn un ysgol, a oedd trefniadau yn eu lle i gynnig cefnogaeth i'r ysgol honno, megis hyfforddiant? Nododd y Swyddog Gwybodaeth ei fod wedi siarad gyda'r ysgol yn dilyn yr adroddiad ac maent erbyn hyn yn deall pwysigrwydd cael y ffigyrau'n gywir. Nodwyd nad oedd yr ysgol wedi colli nac elwa'n ariannol gan fod dau gamgymeriad wedi canslo eu gilydd. Roedd y Swyddog Gwybodaeth yn hyderus y byddai'r trefniadau yn eu lle yn gywir erbyn mis Medi.

2.5.7 O safbwynt cofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth, nodwyd gan yr Uwch Reolwr Ysgolion nad oes bwriad gan yr Adran Addysg i wirio cofrestriad pob ysgol unigol, ond mae'r ysgolion wedi cael eu hatgoffa. Mae Rheolwr Gwybodaeth y Cyngor wedi gwneud cyflwyniad i grwpiau strategol ysgolion cynradd ac uwchradd yn pwysleisio fod rhaid iddynt gofrestru pob blwyddyn. Nodwyd hefyd fod ymwybyddiaeth ysgolion wedi ei godi yn ddiweddar ynglŷn â "scams" lle mae cwmnïoedd yn cynnig cofrestru ysgolion ond yn codi symiau mawr o arian arnynt.

2.5.8 Nodwyd gan yr Uwch Reolwr Ysgolion nad oes problem gyda gweithredu unrhyw un o argymhellion yr adroddiad.

**2.5.9 Diolchwyd i'r swyddogion am fynychu'r cyfarfod ac am eu hatebion.**

**2.6 Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion**

2.6.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod angen sefydlu trefn ymarferol ar gyfer cynnal sesiynau hyfforddiant yn y maes asesiadau risg ac iechyd a diogelwch i Benaethiaid/Cydgysylltwyr Iechyd a Diogelwch ysgolion yn ogystal â gweddill staff yr ysgolion. Gwelwyd hefyd bod angen sicrhau fod yr asesiadau risg priodol yn bodoli ymhob ysgol a'u bod yn cael eu hadolygu'n flynyddol neu pan fo unrhyw newid arwyddocaol i'r risg.*

2.6.2 Arhosodd Owen Owens (Uwch Reolwr Ysgolion) yn y cyfarfod i drafod yr adroddiad yma.

2.6.3 Rhoddodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg gefndir yr archwiliad, ac eglurodd fod yr adroddiad yma wedi cael barn 'B', gan fod trefniadau ar y cyfan yn eithaf da. Mae dwy swyddogion yn gwethio'n llawn amser yn y maes Iechyd a Diogelwch ysgolion.

2.6.4 Eglurodd yr Uwch Reolwr Ysgolion na ellir gwahaniaethu cyfrifoldebau Pennaeth Ysgol oddi wrth bod yn reolwr safle, er fod hyn wedi achosi peth cynnen yn y gorffennol; mae penaethiaid yn derbyn y sefyllfa erbyn hyn.

2.6.5 O ran yr agwedd hyfforddiant, nododd yr Uwch Reolwr Ysgolion ei fod yn anodd trefnu hyfforddiant lle gall pawb fynychu. Mae'n haws rhyddhau athrawon uwchradd na rhai cynradd, ond mae hyfforddwyr yn fodlon bod yn hyblyg er mwyn cynorthwyo.

2.6.6 Nodwyd fod cwrs penodol yn cael ei baratoi ar gyfer swyddogion y Cyngor, a nodwyd gan yr Uwch Reolwr Ysgolion mai mater bach fyddai addasu hwn ar gyfer ysgolion. Mae swyddogion Iechyd a Diogelwch ysgolion eisoes yn mynychu pob ysgol cyn iddynt gael arolwg.

2.6.7 Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn cyfeirio at yr angen i ffurfioli asesiadau. Y bwriad ydi defnyddio system sydd wedi ei ddatblygu gan Uned Technoleg Gwybodaeth y Cyngor i gadw'r cofrestrau, gyda neges atgoffa i ddiweddaru yn cael ei anfon i ysgolion. Mae problemau technegol wedi oedi cyflwyniad y system hyd yma. Gofynnodd aelod os byddai'r system yn cofnodi ymweliadau addysgol i leoliadau y tu allan i'r ysgol. Ymatebodd yr Uwch Reolwr Ysgolion fod system arall, sef *Evolve* ar gael ar gyfer hyn – mae hyfforddiant wedi ei roi i bob Cydlynydd Ymweliadau Ysgolion, ond nid yw pob ysgol yn cynnal ymweliadau o'r fath.

2.6.8 Nodwyd mai'r ddwy swyddog Iechyd & Diogelwch ysgolion (un wedi ei chyflogi gan Adnoddau Dynol, a'r llall gan Addysg) sydd yn samplo a monitro cofrestrau risg ysgolion. Os oes digwyddiad mewn ysgol, mae un o'r swyddogion hyn yn mynd yno. Ar hyn o bryd, nid yw pob ysgol wedi anfon eu hasesiadau risg i'r swyddogion.

2.6.9 Nododd yr Uwch Reolwr Ysgolion ei fod yn disgwyl i'r corff llywodraethol adolygu cofrestrau risg os oes newid yn yr ysgol, neu yn cadw golwg yn gyfnodol. Gofynnodd aelod os y byddai'n briodol i Is-Bwyllgor o'r Corff Llywodraethu ymgymryd â'r gwaith yma, a cytunodd yr Uwch Reolwr y byddai hyn yn well na'r Corff Llawn.

2.6.10 Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at anghysondeb yn y ffordd yr ymdrinnir â Ffurflenni Damwain ("ffurflenni HS11"). Bydd 2 ysgol uwchradd yn treialu trefn HS11 newydd yn fuan. Gwnaeth aelod y sylw fod y diffiniad o "ddamwain" yn fater o ddehongliad. Ymatebodd yr Uwch Reolwr Ysgolion ei fod yn disgwyl i'r arweiniad a roddir i ysgolion yn ogystal â'r ffurflenni eu hunain gael ei adolygu.

2.6.11 O ran Cymorth Cyntaf, roedd yr Uwch Reolwr Ysgolion o'r farn fod ysgolion yn cwrdd â'r gofyn statudol, ond yn aml ddim mwy na hynny.

**2.6.12 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Ysgolion am fynychu'r cyfarfod, ac am ei sylwadau.**

**2.7 Gwirio Mesuryddion Perfformiad**

2.7.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Darganfuwyd yn ystod yr archwiliad bod diffygion yn bodoli yn y gyfundrefn ar gyfer mesuryddion perfformiad. Er bod gwerth mesuryddion yn cael eu hystyried cyn ei ddewis gwelwyd nad oedd pob mesurydd yn cyrraedd targedau CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol). Bod rhai mesuryddion yn amhriodol ac yn ansynhwyrol gan eu bod yn amherthnasol i'r cwsmer a'u bod yn cymryd amser swyddogion i adrodd arnynt.*
*Nid oedd gwirio digonol ar fesuryddion 'gwyrdd' yn unol â graddfa RAG, ac nid oedd perchnogion y mesuryddion wedi gorfod cyflwyno tystiolaeth i'r swyddogion perthnasol yn Strategol a Gwella i gefnogi eu perfformiad.*
*Yn ogystal gwelwyd bod manylion swyddogion perthnasol i'r mesuryddion yn anghyson rhwng y cardiau record a'r system Ffynnon.*

2.7.2 Croesawyd Hawis Jones (Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd) i'r cyfarfod.

2.7.3 Rhoddwyd cefndir i'r archwiliad gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg. Nodwyd fod Archwilio Mewnol wedi cael cais penodol gan yr Adran Strategol a Gwella i gynnal yr adolygiad er mwyn ystyried y sefyllfa ar draws y Cyngor o safbwynt cywirdeb y mesuryddion perfformiad sy'n cael eu hadrodd.

2.7.4 Rhoddwyd cefndir pellach gan y Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd. Cyn dechrau'r flwyddyn ariannol, bydd yn gweithio gyda Penaethiaid a'u rheolwyr er mwyn eu helpu i osod mesuryddion. Mae hyn yn gyfle i ddylanwadu a herio os ydi'r mesuryddion yn wirioneddol ddefnyddiol – y nod yw cael mesuryddion sy'n effeithio'r dinesydd, ac ymdrechir i gael y mesuryddion gorau er mwyn canolbwyntio ar y rhai pwysicaf. Ceisir hybu diwylliant lle mae pawb yn berchnogion ac yn gyfrifol am eu mesuryddion.

2.7.5 Nododd aelod fod nifer fawr o fesuryddion, gyda llawer ohonynt yn anodd eu deall ac yn astrus; gofynnwyd sut y mae'r Uned Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd yn eu "tacluso". Mewn ymateb, nododd y Rheolwr ei bod yn ceisio cael unedau i ystyried beth ydi eu pwrpas, a beth all eu rhwystro rhag cwrdd â'u hamcanion. Hynny yw, beth yw eu risgiau?

2.7.6 Er nad ydi pob mesurydd yn berthnasol i pawb, gofynnodd aelod os oes un holiadur mawr yn cael ei ddefnyddio gan bawb yn y Cyngor wrth baratoi eu mesuryddion? Nodwyd gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod yna bryder am or-gymhlethu pethau, ac fod angen cadw'r drefn mor syml â phosib. Mae'r Cyngor llawer mwy aeddfed erbyn hyn yn y cyd-destun yma. Pwysleisiodd yr Uwch Reolwr fod hwn yn bwynt sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Archwilio, gan fod risg yn rhan allweddol o'u dyletswyddau.

2.7.7 Ychwanegodd y Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd fod ymdrech i gadw'r adroddiad perfformiad chwarterol yn syml. Pan mae mesurydd yn goch – h.y. yn tanberfformio – disgwylir cynllun gweithredu, ac ateb i'r Aelod Cabinet. Mae disgwyliad fod yr Adran berthnasol a'r Aelod Cabinet yn trafod y materion.

2.7.8 Gofynnodd y Cadeirydd os oedd y swyddogion yn hapus gyda'r sefyllfa. Nodwyd fod un argymhelliad i Benaethiaid; roedd y Gweithgor yn gytûn ei bod yn bwysig fod pawb yn deall hynny ac fod y cyfrifoldeb yn aros gyda nhw.

**2.7.9 Diolchwyd i'r Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd am fynychu'r cyfarfod ac am egluro'r sefyllfa'n glir i'r aelodau.**

## 2.8 Grant Effeithlonrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion

2.8.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Gwelwyd fod gan y Cyngor strategaeth a chynlluniau penodol mewn lle ar gyfer y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn 2012-13, a bod cytundeb arwyddedig rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru gyda'r grantiau, gyda strategaeth mewn lle ar gyfer 2012-13. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd dogfennau cefnogol a thystiolaeth wedi cael eu cadw er mwyn cefnogi'r ffigyrau allbynnau'r grantiau a gyflwynodd y Cyngor i Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13. Yn ogystal, gwelwyd nad yw holl ddogfennaeth berthnasol y grantiau ar gyfer 2012-13 ym mherchenogaeth Adran Addysg, ac nad oedd trefniadau digonol mewn lle i gadw dogfennau'r grantiau am y cyfnodau cadw a bennwyd gan Llywodraeth Cymru yn yr amodau a thelerau.*

2.8.2 Croesawyd Helen Walker, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg (Rheoli a Monitro Grantiau) yn yr Adran Addysg, i'r cyfarfod.

2.8.3 Cyflwynwyd cefndir byr i bwrpas y ddau grant, sy'n cael eu dyrannu gan Lywodraeth Cymru. Mae 80% o'r Grant Effeithlonrwydd Ysgolion yn cael ei ddatganoli i'r ysgolion gyda 20% yn aros yn y canol, a'i bwrpas ydi codi safonau llythrennedd a rhifedd. Pwrpas y Grant Amddifadedd Disgyblion yw lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion – caiff y grant yma ei ddatganoli'r llwyr i ysgolion.

2.8.4 Cyflwynwyd papur oedd wedi cael ei baratoi gan y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg yn amlinellu'r hyn y mae Addysg yn fwriadu ei wneud mewn ymateb i'r adroddiad Archwilio Mewnol. Roedd y papur yn cynnwys camau manwl sydd wedi eu mabwysiadu er mwyn newid y drefn o weinyddu'r grantiau.

2.8.5 Nodwyd fod y canllawiau cenedlaethol yn nodi ei bod yn ofynnol i bob ysgol gyflwyno Cynllun Gwariant a Gweithredu manwl sy'n cyd-fynd â chynllun Consortiwm / GwE Gogledd Cymru. Mae'r cynlluniau yma yn cynnwys manylion gweithredu a gwario o dan is-benawdau'r ddwy flaenoriaeth (Llythrennedd/Rhifedd a Lleihau Effaith Tlodi) gyda deilliannau i ddysgwyr a chostau wedi'u nodi'n glir. Dychwelir y ffurflenni yma yn electroneg i sylw'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg er mwyn i'r cynlluniau a'r gwariant gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

2.8.6 Yn ogystal a thracio'r gwariant yn ofalus, mae'r ysgolion a'r Awdurdod yn cyflwyno tystiolaeth glir o 'effaith' unrhyw wariant ar gyrhaeddiad/deilliannau dysgu disgyblion, e.e. gwella canlyniadau darllen/rhifedd. Nodir gwybodaeth targedau / deilliannau / allbynnau ar y Ffurflen. Rhaid gosod targedau penodol, mesuradwy (SMART).

2.8.7 Rhoddwyd sicrwydd i'r Gweithgor na fydd yr Uned Gyllid yn rhyddhau arian y grant i'r ysgol oni bai bod ffurflen hawliad yn cael ei chwblhau'n gywir. Mae'r ffurflen yma yn nodi'r gwariant ar adnoddau, staffio a.y.b. Mae angen hefyd i bob ysgol gyflwyno tystiolaeth o'u gwariant wrth hawlio'r arian gan yr Awdurdod, gan nodi enw'r cyflenwr a'r symiau a daliwyd a nodi cyflogaeth. Mae'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg yn gwirio bob un Ffurflen o'r fath sydd yn dod i mewn ac yn eu llofnodi. Mae ymwybyddiaeth bellach o bwysigrwydd defnyddio'r slip talu addas wrth brosesu a thalu anfonebau ac ariannwyd gydag arian grant. Rhaid i'r gwariant ar y ffurflen yma gyd-fynd â'r gwariant disgwyliedig yn y Cynllun Busnes.

2.8.8 Cedwir dogfennau cefnogol a thystiolaeth ar ffeil i gefnogi'r ffigyrau a chanlyniadau perfformiad ac allbynnau sy'n cael eu cyflwyno i'r corff ariannol yn yr ysgolion. Nodwyd fod Addysg eisoes yn y broses o geisio sicrhau trosglwyddiad o ddogfennau'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion 2012-13 oedd ym mherchenogaeth Cynnal.

**2.8.10 Diolchwyd i'r swyddog am ei hymateb cynhwysfawr.**

### 2.9 Rheolaeth Archebu a Thalu am Wasanaethau Cynnal a Chadw Eiddo

2.9.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Mae'r system electroneg sydd mewn lle ar gyfer cynhyrchu archebion ar gyfer gwaith atgyweirio eiddo gan y Tîm Cynnal a Chadw wedi bod mewn defnydd gan y Gwasanaeth Eiddo ers cyfnod sylweddol. Yn ddiweddar, mae'r Tîm wedi bod yn destun adolygiad lliflinio prosesau gyda'r canlyniad fod nifer o reolaethau disgwyliedig traddodiadol yn cael eu diddymu. Yr egwyddor perthnasol yn y broses bresennol yw bod ymddiried yn y staff, a bod rheolwyr yn derbyn y risgiau cynhenid sydd yn sgil hynny. Ar adeg yr archwiliad, mae prosesau o sefydlu taliadau drwy'r system yn cael eu profi a disgwylir i'r broses fod yn weithredol erbyn blwyddyn ariannol 2014/15.*

*Nodwyd ambell fater yn deillio o brofion yr archwiliad yma y bydd angen i'r Tîm Cynnal a Chadw roi sylw iddynt. Mae angen parhau i drosglwyddo anfonebau papur i'r Gwasanaeth Taliadau oherwydd gofynion trethiant tra'n osgoi oediad sylweddol yn y broses. Mae angen sefydlu trefn o ddirprwyo'r dasg o brosesu anfonebau yn absenoldeb aelod o staff. Mae modd creu taliad ar gyfer eitem o waith sydd eisoes wedi ei gofnodi fel gwaith wedi ei gyflawni a byddai yn briodol atal hyn.*

*Mae angen sicrhau fod prosesau o fewn sefydliadau er mwyn atal adrodd mwy nag unwaith am yr un mater er mwyn sicrhau nad oes archebion dyblyg. Mae sgôp i addasu fymryn ar y cymalau sydd yn ymddangos ar archebion swyddogol fel fod effaith contractwyr yn peidio gweithredu yn unol â'r disgwyliadau arnynt yn cael ei wneud yn glir.*

2.9.2 Croesawyd Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol) ac Owain Samuel Owen (Arweinydd System Cynnal a Chadw) i'r cyfarfod.

2.9.3 Rhoddwyd cefndir o'r archwiliad gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg. Yn benodol, eglurwyd fod yr Uned Cynnal a Chadw Eiddo yn wasanaeth sydd wedi bod yn destun astudiaeth "meddylfryd system", sef cyfundrefn lle mae holl weithdrefnau a phrosesau busnes yn cael eu hadolygu. Mae hwn rhan o weledigaeth Ffordd Gwynedd y mae'r darpar Brif Weithredwr am ei ledaenu ar draws y Cyngor sef rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud, ac ymatal rhag gwneud unrhyw beth sydd ddim yn ychwanegu gwerth i bobl Gwynedd. Nodwyd gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod y meddylfryd yma am effeithio Archwilio Mewnol – nid yn unig wrth adolygu ein trefniadau gwaith ein hunain, ond hefyd yn yr hyn y byddwn yn adrodd yn ein gwaith. I'r perwyl hwn, mae pawb yn Archwilio Mewnol eisoes wedi cael cyflwyniad gan y darpar Brif Weithredwr. Mae'n dilyn, felly, y bydd effaith ar yr hyn fydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio yn y dyfodol. Pwysleisiodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ei fod yn awyddus fod Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio yn cefnogi'r drefn newydd, nid ei lesteirio.

2.9.4 Canlyniad yr "hen ffordd" o weithio oedd fod haenau o fiwrocratiaeth a rheolaethau mewnol wedi tyfu dros nifer o flynyddoedd, gan greu gweithdrefnau aneffeithiol. Ar y llaw arall, gallai tynnu'u holl reolaethau arwain at risgiau annerbyniol. Un o'r prif agweddau i'w hystyried pan yn cynllunio'r archwiliad yma, felly, oedd adolygu pa weithgareddau oedd wedi cael eu hadnabod fel "gwastraff", ac os oedd rheolaethau hanfodol wedi tynnu allan o'r system yma fel canlyniad i hynny.

2.9.5 Eglurodd yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol ei fod yn cytuno gyda cyflwyniad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg, gan nodi mai holl bwrpas y drefn ydi rhoi'r Cwsmer yn gyntaf, a chyflwyno trefniadau sydd yn ffordd well o weithio er mwyn darparu ar ran y cwsmer. Nodwyd fod yr Uned yn cael ei redeg erbyn hyn ar gost o £100,000 yn llai y flwyddyn, ac mae bodlonrwydd cwsmer wedi cynyddu yn sylweddol. Mae gwaith yn cael ei gwblhau o fewn 10 diwrnod erbyn hyn, lle ynghynt roedd yn 89 diwrnod.

2.9.6 Roedd y swyddogion o'r Uned Eiddo yn gwbl gyfforddus gydag argymhellion yr adroddiad; mae pob un wedi cael sylw'n barod, ond mae Argymhelliad A03 (*Dylai'r Tîm Cynnal a Chadw roi cais i bob rheolwr safle roi eu sicrhad eu bod wedi ymgorffori trefn o fewn eu sefydliad i atal mwy nac un cais i gael ei wneud am yr un gwaith*) angen mwy o sylw, ac mae'r gallu ei weithredu Argymhelliad A04 (*Dylid rhoi cais i wneuthurwyr y system Tribal K2 i raglennu addasiad i'r system fyddai yn atal defnyddwyr rhag creu unrhyw daliadau ar gyfer gwath sydd â chofnod ei fod wedi ei dalu amdano yn ei gyfanrwydd*) y tu allan i reolaeth yr Adran.

2.9.7 Dywedodd un aelod ei fod yn gyfarwydd â'r trefniadau hyn gan ei fod yn rhan o'r Gweithgor Meddylfryd System yn rhinwedd ei aelodaeth o'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol. Mewn trafodaeth, pwysleisiodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y gall y meddylfryd yma, o'i weithredu'n iawn, gael effaith pellgyrhaeddol ar agwedd y Cyngor tuag at risg, a'r ffordd y bydd Archwilio Mewnol yn adolygu, asesu ac adrodd, gan gynnwys adrodd i'r Pwyllgor Archwilio. Bydd angen i archwilwyr newid eu ffyrdd o feddwl, gan ganolbwyntio ar y pethau sydd yn wirioneddol bwysig, ac yn effeithio ar allu'r Cyngor i ddarparu ar ran pobl Gwynedd. Nodwyd y gall archwiliwr fod yn nerfus o beidio adrodd ar fater cymharol fychan mewn adroddiad, rhag ofn i rhywbeth ddeillio ohono. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol y gall y nerfusrwydd yma dreiddio trwodd i unedau, sydd yn betrusgar rhag gwneud rhywbeth y mae Archwilio Mewnol wedi tynnu sylw ato.

2.9.8 Eglurodd yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol fod yr Uned yn delio â 9,000 darn o waith y flwyddyn, ac fod 80% o'r rhain yn cael eu categoreiddio fel rhai "syml".

2.9.8 Cytunodd y Gweithgor fod meddylfryd system a Ffordd Gwynedd yn weithdrefnau pwysig, sydd angen cefnogaeth. Os na fydd Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio yn barod i brynu i mewn i'r meddylfryd newydd, gellir tanseilio'r weledigaeth.

**2.9.9 Diolchwyd y swyddogion am eu hymateb positif, ac am y cefndir i'r trefniadau gwaith newydd.**

## 2.10 Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau

2.10.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Yn ystod yr archwiliad, darganfuwyd bod y cofrestryddion yn parhau i ddefnyddio'r llyfrau arian serch y mynegwyd rhai blynyddoedd yn ôl bod cynlluniau ar y gweill i symud i system electronig. Gresyn oedd gweld nad oedd unrhyw ddatblygiad yn y maes hwn ac mae llawer o wendidau rheolaethol y Gwasanaeth Cofrestru, yn arbennig o safbwynt cysoni incwm y Ganolfan Gyswllt, yn deillio o ddiffyg system weithredol ddigonol sydd gyda'r gallu i ymdopi â'r amrywiol elfennau.*

2.10.2 Croesawyd Iolo Roberts, Rheolwr Cofrestru, i'r cyfarfod.

2.10.3 Rhoddwyd cefndir bras i'r sefyllfa gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg, ac am drefniadau gweithio hanesyddol y Cofrestryddion.

2.10.4 Eglurodd y Rheolwr Cofrestru fod 2 Gofrestrydd yn Nolgellau a Phwllheli, a 3 yng Nghaernarfon. Mae'r Cofrestryddion yn gyflogedig gan y Cyngor erbyn hyn (yn flaenorol roeddynt yn gyflogedig gan Swyddfa'r Cofrestrydd Cyffredinol), ac mae'r drefn wedi cael ei foderneiddio. Er hyn, mae pob Cofrestrydd yn gyfrifol am ei stoc (h.y. tystysgrifau gwag) ei hun, a'i fod yn gyfrifoldeb personol arnynt i gysoni'r stoc yn eu meddiant. Maent yn derbyn stoc newydd gan y Cofrestrydd Cyffredinol. Felly, mae'r Cofrestryddion yn atebol o dydd i ddydd i'r Cyngor, ond i'r Cofrestrydd Cyffredinol am eu stoc.

2.10.5 Rhoddwyd diweddariad gan y Rheolwr Cofrestru am ddatblygiadau ers rhyddhau'r adroddiad. Dywedodd fod bwriad gwneud i ffwrdd â'r llyfr arian papur, gan fod Technoleg Gwybodaeth wedi llunio system fydd yn cael ei brofi yn fuan. Y gobaith yw y bydd hwn yn ateb nifer o'r problemau sydd wedi codi yn y gorffennol, ac sy'n cael eu hamlygu yn yr adroddiad.

2.10.6 O safbwynt cysoni ceisiadau sy'n cael eu derbyn trwy Galw Gwynedd, nodwyd fod yr arian yn mynd i gronfa ganolog, a'i fod yn anodd gwybod yn erbyn pa Gofrestrydd y dylid clustnodi'r arian, sy'n gwneud cysoni'n anodd. Dylai'r system newydd gysoni gyda'r system Siebel yn Galw Gwynedd, er mwyn gallu cysoni'n iawn.

**2.10.7 Diolchwyd i'r Rheolwr Cofrestru am y wybodaeth.**

**2.11 Trefniadau Dros Nos yng Nghartrefi'r Cyngor**

2.11.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Darganfuwyd bod enghreifftiau o ymarfer da oddi fewn rhai meysydd o drefniadau staff nos yng Nghartrefi'r Cyngor e.e. amserlenni staff nos. Fodd bynnag, ymddengys bod angen monitro mwy cadarn ar y staff a darparu canllawiau clir ar eu cyfer. Oherwydd hyn, dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.*

2.11.2 Croesawyd Gwenno Williams, Uwch Reolwr Gweithredol, i'r cyfarfod.

2.11.3 Eglurodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod yr archwiliad yma wedi ei gynnal ar gais yr Uwch Reolwr Gweithredol, ac nad oedd yn syndod i'r Adran fod yr archwiliad wedi derbyn barn 'C'.

2.11.4 Mae digon o waith i'w wneud yn ystod y nos. Ymysg y dyletswyddau y disgwylir i weithwyr nos eu cyflawni yw gwaith tŷ arferol megis glanhau, golchi a smwddio. Nid oes rhestr wirio ym mhob cartref sydd yn amlygu'r hyn y dylid cael ei wneud, ond mae rhai rheolwyr yn cynnal gwiriadau dirybudd yn ystod y nos.

2.11.5 O ran oriau gwaith, mae staff nos yn gweithio 9¾ awr ar 3 noson mewn un wythnos, ac yna 4 noson yr wythnos ganlynol. Oherwydd rheolau tân, rhaid cael tri person yn cysgu i mewn ar safle yn y nos. Fodd bynnag, nid oes disgwyl fod y tri ohonynt yn gweithio, ac mae'r un sydd yn cysgu i mewn dim ond yn cael ei ddeffro petai tân.

2.11.6 Dangosodd yr Uwch Reolwr Gweithredol gyda'r Gweithgor gopi o'r Llyfr Monitro Rheolaeth sydd wedi ei ddarparu gan yr Adran. Cyfres o restrau gwirio ydi'r llawlyfr yma, a disgwylir y bydd pob rheolwr yn gwirio'r llyfr yn y bore. Er fod y preswylwyr yn rhai ohonynt i gyd yn cysgu trwy'r nos, nid dyna'r sefyllfa ym mhob un. Mae Cartrefi wedi newid, gyda llawer o bobl â dementia ynddynt erbyn hyn sy'n golygu fod rhai preswylwyr yn effro trwy'r nos. Mae'r Llyfr Monitro Rheolaeth yn fodd o fynd i'r afael a rheoli'r sefyllfa newidiol yma.

2.11.7 Dywedodd yr Uwch Reolwr Gweithredol ei bod yn fodlon â'r holl argymhellion.

**2.11.8 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Gweithredol am ei sylwadau a'r trefniadau a amlinellwyd.**

## 2.12 Trefniadau Hawlio Goramser

2.12.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Darganfuwyd bod y mwyafrif o oramser a weithir wedi ei gynllunio o flaen llaw a bod yr amgylchiadau wedi eu hystyried yn ddwys, gan ymchwilio i bosibiliadau eraill cyn bod cynlluniau goramser yn cael eu hawdurdodi. Oherwydd natur rhai gwasanaethau, mae'n anochel bod goramser heb ei gynllunio yn digwydd pan fo argyfwng yn codi. Fe welwyd bod pob gwasanaeth a ddetholwyd yn yr archwiliad yn defnyddio ffurflen bwrpasol ar gyfer cofnodi goramser, er bod gwahaniaeth yng ngwedd a gosodiad y ffurflenni a ddefnyddir.*

*Fe welwyd tystiolaeth o brosesau da o gadarnhau priodoldeb ceisiadau, gan gynnwys gwiriadau o groes gyfeirio ynghyd ag ymarfer da ar gyfer gwiriadau rhifyddol gan nifer o wasanaethau. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd hyn yn gyson ar draws y Cyngor a gwelwyd enghreifftiau ble nad oedd gwiriadau yn cael eu cynnal o gwbl ar y ceisiadau a gyflwynwyd.*

2.12.2 Roedd dau brif fater oedd wedi codi yn yr archwiliad yma, sef gordaliad oedd wedi digwydd yn y Gwasanaeth Hamdden fel canlyniad i gamgymeriad, a'r trefniadau cyffredinol ar draws y Cyngor wrth ymdrin â hawliadau goramser.

2.12.3 Gan fod yr Uwch Reolwr Gweithredol eisoes yn y cyfarfod, fe ymdriniwyd â'r gordaliad yn Hamdden yn gyntaf. Adroddwyd fod y gordaliad wedi digwydd trwy gamgymeriad llwyr. Nid oedd y swyddog perthnasol wedi cael hyfforddiant ar sut i lenwi ffurflenni goramser (ni fyddai hyn yn rhan o'r hyfforddiant sylfaenol). Ymhellach, roedd y ffurflen wedi ei anfon i rhywun arall i'w ardystio, a nid oedd y person yma wedi sylwi ar y camgymeriad chwaith.

2.12.4 Nodwyd gan yr Uwch Reolwr Gweithredol fod trefniadau newydd wedi cael eu cyflwyno er mwyn gwirio'r goramser a hawlir yn well.

**2.12.5 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Gweithredol am yr esboniad, ac am adolygu'r trefniadau.**

2.12.6 Mynychodd William Jones, Uwch Reolwr Cyllid, er mwyn ateb unrhyw gwestiynau fyddai gan y Gweithgor ynglŷn â'r trefniadau hawlio goramser yn gyffredinol. Mewn rhai adrannau, meddai, mae swyddogion yn cymeradwyo goramser i nifer o wasanaethau. Y broblem gyda hynny yw nad ydynt yn gallu cymryd trosolwg o'r holl sefyllfa, gan gynnwys y sefyllfa ariannol. Hefyd, nid ydynt pob amser yn gwirio'r goramser yn erbyn y gyllideb sydd ar ei gyfer.

2.12.7 Nodwyd fod costau sylweddol oherwydd gwaith yn dilyn tywydd garw y gaeaf diwethaf. Bu ymdrech i gael arian yn ôl gan y Llywodraeth, ond er mwyn gallu gwneud hynny rhaid cadw cofnodion hynod o fanwl er mwyn gallu ei hawlio. Mewn amgylchiadau eraill, nid yw'r gofynion mor dynn.

2.12.8 Mae'r wybodaeth berthnasol yn cyrraedd yr Uned Gyflogau mewn un o ddau ffordd:

- Ffurflenni papur unigol
- Ar daenlen gan yr Adran berthnasol (y ffurf sydd yn fwy dymunol gan Cyflogau, gan fod risg gyda'r ffurflenni papur fod un ffug wedi cael ei gyflwyno).

2.12.9 Nodwyd gan yr Uwch Reolwr Cyllid fod datblygiadau ar y gweill – mae trefniadau Cyflogau ac Adnoddau Dynol wedi cael eu hadolygu, gyda golwg ar integreiddio'r ddwy system. Mae hyn am gyflwyno elfen o hunanwasanaeth, a ddylai wella effeithiolrwydd a rheolaeth – caiff yr wybodaeth ei fwydo'n syth i'r system gan yr unigolyn, a'i awdurdodi ar lein gan y Rheolwr. Gofynnwyd i'r Uwch Reolwr Cyllid pa mor bell ydym ni o fod â system electronig yn llawn weithredol. Atebwyd fod systemau ar wahân gan Adnoddau Dynol a Cyllid ar hyn o bryd, a'r gwaith rŵan yw uno'r ddau ohonynt.

2.12.10 Pwysleisiodd yr Uwch Reolwr Cyllid fod yr Uned Gyflogau yn gweithio i amserlen hynod o dynn. Pan mae unigolion yn cwyno am nad ydynt wedi cael eu talu, efallai fod yr wybodaeth wedi bod yn araf yn cyrraedd yr Uned, neu nid oedd yr unigolion yn ymwybodol o'r amserlen. Ymhellach i hynny, rhaid ystyried fod angen anfon y manylion i'r banciau dau ddiwrnod cyn y dyddiad talu, sydd ynddo'i hun yn cwtogi'r amserlen.

2.12.11 Roedd yr Uwch Reolwr Cyllid yn fodlon gyda'r argymhelliad penodol oedd yn berthnasol i'r Uned Gyflogau, ond roedd yn mynegi pwysigrwydd pwyso ar adrannau i wella eu trefniadau.

2.12.12 Fel rhan o drefniadau mesur perfformiad, mae'r Uned Gyflogau yn mesur ymholiadau. Mae hyn yn caniatáu monitro pa broblemau sydd wedi codi o fewn yr Uned, a pha rai sydd wedi dod o adrannau.

2.12.13 Ymysg y trafodaethau ynglŷn â charfannau penodol o weithwyr, roedd y Gweithgor yn awyddus i dderbyn gwybodaeth pellach os oedd gweithwyr casglu gwastraff / ailgylchu yn derbyn taliadau goramser, neu os oedd disgwyl i'r holl waith gael ei gwblhau o fewn y cyflog sylfaenol. Hefyd, mynegwyd pryder fod Cyfieithwyr y Cyngor yn teithio i gyfarfodydd lle nad oes eu hangen, am nad oedd yr unigolion y byddai eisiau eu gwasanaeth wedi hysbysu'r Cyngor na fyddent yn mynychu.

**2.12.14 Cytunodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y byddai'n edrych i mewn i hyn, ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio.**

**2.12.15 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Cyllid am fynychu'r cyfarfod, ac am yr wybodaeth a'i gyngor.**

## 2.13 Dilyniant Siopau Gwynedd

2.13.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

| |
|---|
| *Gweithrediad yn anfoddhaol. Gwelwyd allan o'r 6 argymhelliad a wnaethpwyd bod yr Adran wedi gweithredu ar 4 ohonynt.* |

2.13.2 Mynychodd Idris Thomas Jones, (Rheolwr Cyswllt Cwsmer) a Joanne Parry (Rheolwr Cynorthwyol Cyswllt Cwsmer a Gwasanaeth Glanhau Swyddfeydd y Cyngor) y cyfarfod er mwyn ymateb i'r adroddiad.

2.13.3 Eglurodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod yr adroddiad gwreiddiol wedi derbyn barn 'C' a'i fod wedi derbyn sylw gan y Gweithgor ym mis Medi 2013. Roedd y gwaith dilyniant wedi derbyn barn 'Anfoddhaol'.

2.13.4 Nodwyd gan y Rheolwr Cyswllt Cwsmer fod yr Uned wedi ymdrechu i sicrhau fod holl staff Siopau Gwynedd yn derbyn hyfforddiant diogelwch personol. Yn anffodus, er fod hyn yn flaenoriaeth i Cyswllt Cwsmer, adroddwyd gan y Rheolwr fod Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael y blaenoriaeth gan yr Uned Hyfforddiant. Fodd bynnag, un gweithiwr sydd ar ôl heb dderbyn yr hyfforddiant, a bydd hynny'n digwydd cyn diwedd Mehefin. Fel ym mis Medi, pwysleisiwyd wrth y Gweithgor nad oes modd cau drysau Siopau Gwynedd fel bod pawb yn derbyn hyfforddiant yr un pryd.

2.13.5 Mynegodd y Rheolwr Cynorthwyol Cyswllt Cwsmer a Gwasanaeth Glanhau Swyddfeydd y Cyngor nad oedd unrhyw un o Archwilio Mewnol wedi siarad gyda hi pan oedd yr archwiliad yn mynd yn ei flaen. Ymatebodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod disgwyl i staff Archwilio Mewnol ddysgu a datblygu yn y gwaith yn barhaus hefyd.

2.13.6 Pwysleisiodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod yr adroddiad yn dweud fod 4 allan o 6 argymhelliad wedi cael eu gweithredu, ac mai'r rheswm i'r adroddiad gael barn anfoddhaol oedd oherwydd y methiant i gysoni incwm yn Siop Gwynedd ar adeg y gwaith dilyniant. Dywedodd yr Uwch Reolwr nad yw Archwilio Mewnol yn cynnal "spot checks" yn aml, ond fod hynny wedi ei wneud y tro yma, oherwydd natur y prawf oedd angen ei gynnal.

2.13.7 Adroddwyd gan y swyddogion Cyswllt Cwsmer fod y gwendidau perfformiad yn y maes yma yn derbyn sylw ffurfiol ar hyn o bryd.

2.13.8 Ar y llaw arall, adroddwyd fod yr Uwch Reolwr Refeniw wedi canmol y camau sydd wedi eu cymryd gan staff Siopau Gwynedd wrth ddarparu cyngor ar fudd-daliadau a trethiant.

2.13.9 Roedd y Rheolwr Cynorthwyol Cyswllt Cwsmer a Gwasanaeth Glanhau Swyddfeydd y Cyngor yn arbennig o anhapus fod pethau newydd yn cael sylw yn y memorandwm dilyniant (ffioedd allweddi RADAR) nad oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad gwreiddiol. Ymhellach, roedd yn pwysleisio nad oedd y mater hwnnw yn wendid rheolaethol gan Siopau Gwynedd p'un bynnag, gan fod Siopau Gwynedd yn gweithredu cyfarwyddiadau Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

2.13.10 Yn olaf, pwysleisiwyd fod gan y Rheolwr Cyswllt Cwsmer y bydd y gyfundrefn arbedion yn cael effaith sylweddol ar y gwasanaeth.

**2.13.11 Diolchwyd i'r swyddogion am fynychu'r cyfarfod, ac am yr wybodaeth a gyflwynwyd ganddynt.**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **15 GORFFENNAF 2014** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 30 MEHEFIN 2014** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2014 hyd at 30 Mehefin 2014.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 30 Mehefin 2014:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 9 |
| Archwiliadau Dilyniant | 3 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 30 Mehefin 2014, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Prydlesu Mewn Ysgolion | Addysg | Ysgolion | C | Atodiad 1 |
| System Budd-daliadau - Cau i lawr 2013-14 | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 2 |
| System Treth Cyngor - Cau i lawr 2013-14 | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 3 |
| System Treth Di-Annedd - Cau i lawr 2013-14 | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 4 |
| Plas Maesincla, Caernarfon | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | B | Atodiad 5 |
| Plas Ogwen, Bethesda | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | C | Atodiad 6 |
| Meysydd Chwarae | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Gwaith Bwrdeistrefol | B | Atodiad 7 |
| Cytundebau Gwaredu Gwastraff | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Rheoli Gwastraff a Strydoedd | A | Atodiad 8 |
| Llwybrau Cyhoeddus a Lonydd Glas | Rheoleiddio | Amgylchedd | B | Atodiad 9 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

## 2.3 Archwiliadau Dilyniant

2.3.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|
| Defnydd o Cetis - CALMS | Adnoddau Dynol | **Derbyniol** |
| Diogelu Data – Cymalau mewn Swydd Ddisgrifiadau | Corfforaethol | **Derbyniol** |
| Polisi Buddiannau Swyddogion | Democratiaeth a Chyfreithiol | **Derbyniol** |

2.3.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.3.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2013**

Telerau Contractau - Gwiriadau DBS
Gwiriadau DBS Staff

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2014**

Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch
Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion)
Taliadau Uniongyrchol
Tocynau Teithio Rhad

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2014**

Gwirio Mesuryddion Perfformiad
Y Drefn Gwynion Corfforaethol
Porthladdoedd
Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion
Parciau Gwledig
Trefniadau Dros Nos yng Nghartrefi'r Cyngor
Bryn Blodau, Llan Ffestiniog
Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2014**

Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau
Trefniadau Hawlio Goramser
Diogelwch Glinfyrddau
Trefniadau Prydlesu Mewn Ysgolion

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2015**

Plas Ogwen

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Gorffennaf 2014.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Ysgolion Uwchradd - Llywodraethu *(Addysg)*
- Cyfrannu at baratoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol *(Corfforaethol)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Cofrestr Diogelwch Staff *(Corfforaethol)*
- Ffonau Symudol *(Corfforaethol)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- Protocol ar Gyswllt Aelod - Swyddog *(Corfforaethol)*
- Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Salwch – cyfeirio at Iechyd Galwedigaethol *(Corfforaethol)*
- Cysoni Banc - Cau i lawr 2013-14 *(Cyllid)*
- Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Taliadau CHAPS *(Cyllid)*
- Cymunedau'n Gyntaf - Y Rhaglen Newydd *(Economi a Chymuned)*
- Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Hyfforddi *(Economi a Chymuned)*
- Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Refeniw *(Economi a Chymuned)*
- Cynllun Tywydd Garw *(Corfforaethol)*
- Canolfannau Hamdden *(Economi a Chymuned)*
- Digartrefedd *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Grant Teuluoedd yn Gyntaf *(Plant a Chefnogi Teuluoedd)*
- Dilyniant - Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch *(Corfforaethol)*
- Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Gorchmynion Ffyrdd *(Rheoleiddio)*
- Gwasanaeth Cynllunio - Amser i wneud Penderfyniadau *(Rheoleiddio)*
- Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd *(Rheoleiddio)*
- Dilyniant i Astudiaethau ar Ymgynghoriaeth Gwynedd *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2014 i 30 Mehefin 2014, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

**TREFNIADAU PRYDLESU MEWN YSGOLION**
**Addysg**

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr Archwiliad yw sicrhau fod ysgolion yn derbyn gwerth am arian wrth brydlesu cyfarpar yn yr ysgolion, gydag ysgolion a'r Cyngor yn cydymffurfio â'r rheoliadau ariannol perthnasol. Gwirio bod amodau a chostau prydlesau mewn ysgolion yn gytunedig gyda'r cyflenwyr a bod taliadau prydles yn cyd-fynd â'r hyn a gytunwyd.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio bod yr Adran Addysg wedi darparu canllawiau i ysgolion o'r hyn sy'n ddisgwyliedig wrth brydlesu cyfarpar. Dethol sampl o ysgolion gan wirio eu bod wedi derbyn dyfynbrisiau gan gyflenwyr cyn gytuno ar brydles, a bod cytundeb wedi cael ei sefydlu gyda'r cyflenwr o ran amodau a chostau'r brydles. Gwirio fod ysgolion yn hysbysu'r Adran Cyllid cyn prydlesu unrhyw cyfarpar a bod yr Adran Cyllid yn cymeradwyo'r brydles. Gwirio fod gan yr Adran Cyllid gofrestr gyfredol o gyfarpar sy'n cael eu prydlesu mewn ysgolion. Cymharu costau prydlesau amryw o gyflenwyr mae ysgolion yn eu defnyddio gan wirio nad yw ysgolion yn talu ffioedd uchel gyda chyflenwyr penodol. Ymholwyd sampl o 3 ysgolion uwchradd a 7 ysgolion cynradd o'u trefniadau prydlesu cyfarpar wrth gynnal yr archwiliad.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd nad yw ysgolion yn cysylltu gyda'r Uned Cyllid Datblygu o flaen llaw er mwyn derbyn cymeradwyaeth cyn prydlesu cyfarpar yn yr ysgol. Mae hyn yn groes i ofynion Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor. Yn ogystal, gwelwyd nad oes gan yr Uned Cyllid Datblygu restr cyfredol o gyfarpar sy'n cael eu prydlesu gan ysgolion Gwynedd. Mae hyn yn groes i ofynion y Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Gwelwyd nad yw rhai ysgolion wedi cadw copi arwyddedig o'r cytundeb/au a sefydlwyd gyda cyflenwyr prydlesu cyfarpar sy'n amlygu costau ac amodau a thelerau'r brydles, neu roedd ysgolion wedi colli eu copïau arwyddedig o'r cytundebau prydles gyda'r cyflenwyr.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Trefniadau Prydlesu Mewn Ysgolion gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod ysgolion yn derbyn dyfynbrisiau priodol yn unol â rheol 8.4 o'r 'Rheolau Ariannol i Ysgolion a Chyllidebau Dirprwyedig' wrth brydlesu cyfarpar mewn ysgolion yn y dyfodol, yn ogystal â chadw copi o'r ymholiadau/dyfynbrisiau ar ffeil yn yr ysgol.**
- **Dylid amlygu i ysgolion y pwysigrwydd i sefydlu a cadw copi arwyddedig o'r cytundebau maent yn eu sefydlu gyda cyflenwyr prydlesu cyfarpar, yn ogystal â derbyn copi o amodau a thelerau'r cytundebau.**
- **Dylid sicrhau fod y rhestr prydlesu cyfarpar mewn ysgolion ym mherchenogaeth yr Uned Cyllid Datblygu yn cael ei ddiweddaru a'i gadw'n gyfredol yn y dyfodol, gan fynd ar ôl ysgolion sydd ddim yn cyflwyno eu manylion prydlesu cyfarpar i'r Uned Cyllid Datblygu.**

# SYSTEM BUDD-DALIADAU - CAU I LAWR 2013-14
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilydd Cyffredinol Cymru Ebrill 2010 yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru) wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor yn dibynnu lle bosibl ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn mae'r protocol ar y cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan "fel rhan o'u rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda'r datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol".

Caiff y System Fudd-dal ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer trefniadau cau i lawr y flwyddyn ariannol, drwy gadarnhau bod cysoniadau priodol yn cael eu cynnal.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio bod y cysoniadau sy'n rhan o'r ymarferiad o gau'r flwyddyn ariannol flaenorol yn cael eu cynnal yn amserol a'u bod yn gyflawn a chywir.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod y prosesau cysoni disgwyliedig ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol wedi eu cwblhau.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn System Budd-daliadau - Cau i lawr 2013-14 gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn**

# SYSTEM TRETH CYNGOR - CAU I LAWR 2013-14
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan

"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol."

Caiff y system Treth Cyngor ei ystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod cyfansymiau biliau Treth Cyngor wedi cael eu gosod yn gywir ac yn unol â'r symiau a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ac awdurdodau eraill. Sicrhau fod y cyfansymiau eiddo yng Ngwynedd wedi cael eu cofnodi'n gywir ar y system ac yn cyd-fynd ag adroddiadau'r Swyddfa Brisio. Cadarnhau bod y cyfrif ariannol wedi cael ei ddiweddaru'n briodol a bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer adennill dyledion treth cyngor yn ogystal â sicrhau bod trefniadau mewn lle ar gyfer monitro a rheoli perfformiad yr Uned.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu a phrofi bod gweithdrefnau priodol mewn lle ar gyfer cofnodi gwybodaeth diwedd blwyddyn.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae trefniant o ymarfer da yn bodoli yn y broses o gysoni a chau lawr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gwelwyd bod yr oll brosesau cysoni disgwyliedig ync ael eu cyflawni yn unol â'r disgwyl.

Yr unig wendid welwyd oedd bod arian yn parhau i fod yn y cyfrif dros dro ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Derbyniwyd wybodaeth mai diffyg modd o adnabod pa gyfrif mae'r arian yn berchen iddo yw'r rheswm am y mwayfrif. Ar gyfer y lleiafrif (£297.75), derbyniwyd wybodaeth mai arian grant oedd wedi ei roi i unigolion oedd yna wedi derbyn budd-dal llawn wedi ei ôl-ddyddio ac felly'n achosi credyd ar eu cyfrif oedd weddill yr arian. Nodwyd nad oedd yn briodol ad-dalu'r credyd gan mai arian grant ydoedd a'i fod wedi creu credyd. Cadarnhaodd y swyddogion trethiant eu bod am geisio canfod dull gwell o ymdrîn â hyn petai'n codi eto.

## Barn yr Archwiliad

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn System Treth Cyngor - Cau i lawr 2013-14 gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

## SYSTEM TRETH DI-ANNEDD - CAU I LAWR 2013-14
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad
Mae Côd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol".

Caiff y system Treth Di-Annedd ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod biliau Treth Di-Annedd wedi cael eu prosesu'n gywir ac yn unol â'r gwerthoedd trethiannol sydd wedi eu gosod gan y Swyddfa Brisio a bod prosesau priodol ar gyfer eu casglu, cofnodi a monitro'r taliadau.

Cwmpas yr Archwiliad
Adolygu a phrofi bod prosesau priodol mewn lle ar gyfer cysoni ar ddiwedd y flwyddyn.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd fod y gwaith cysoni diwedd blwyddyn wedi ei gwblhau yn unol â'r disgwyl.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn System Treth Di-Annedd - Cau i lawr 2013-14 gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# PLAS MAESINCLA, CAERNARFON
## Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau ariannol, diogelwch a meddyginiaeth Cartref Plas Maesincla yn briodol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio'r prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2013-14 ynghyd â threfniadau rheolaeth y Cartref. Archwilio trefniadau meddyginiaeth y Cartref i sicrhau eu bod yn unol â rheoliadau, deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod enghreifftiau o ymarfer da yn bodoli mewn rhai o drefniadau'r Cartref. Fodd bynnag, ymddengys bod enghreifftiau o weithredu yn groes i drefniadau gweinyddol y Cyngor ac fel canlyniad i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Gwiriwyd hyn mewn gwahanol feysydd y Cartref megis trefniadau cyllidebol, trefn briodol o archebu, derbyn a thalu am nwyddau a gwasanaethau, trefniadau arian poced y preswylwyr a threfniadau cymeradwyo gwyliau. Oherwydd hyn, dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Plas Maesincla, Caernarfon gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Pan ddaw yn amlwg o'r adroddiadau cyllidebol misol a dderbynnir fod gorwariant yn debygol, dylid trafod y mater gyda'r Rheolwr Ardal er mwyn ceisio cytuno ar gamau i wella/ddatrys y diffyg.**
- **Dylid sicrhau bod amserlenni yn cael eu gwirio yn erbyn cofnodion oriau o rota'r cartref cyn eu harwyddo er mwyn sicrhau bod costau cyflogau'r cartref yn gywir.**
- **Dylid sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau nad oes gorwariant ar y gyllideb sydd yn cael ei reoli. Dylid sicrhau bod y swyddogion penodol yn ymwybodol o'r gyllideb ac yn wyliadwrus o'r gwariant.**
- **Dylid sicrhau bod pob archeb yn cael ei ardystio gan swyddog awdurdodol bob amser i sicrhau bod yr archeb wedi cael ei gytuno o flaen llaw a bod arian yn y gyllideb i'w prynu. Dylai'r staff perthnasol gyfarwyddo eu hunain â Rheoliadau Ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau bod y broses gywir o archebu gwasanaethau neu nwyddau yn cael ei ddilyn.**
- **Dylid defnyddio'r drefn cytuno gwyliau yn gywir a cyson trwy'r amser. Dylid newid y ffurflen gais i adlewyrchu'r ffordd mae'r hawl gwyliau yn cael ei gyfrif sef mewn oriau neu ddyddiau/nosweithiau.**
- **Dylid sicrhau bod yna 2 llofnod derbyn ar gyfer unrhyw feddyginiaeth sydd yn cael ei ychwanegu i'r ffurflen MAR.**

***Sylwadau pellach gan y Gwasanaeth***

***Nodir. Mi fydd y Gwasanaeth yn trefnu i ail hyfforddi y Clerc y Cartref ar y materion yma i gyd.***

## PLAS OGWEN, BETHESDA
## Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau ariannol, diogelwch a meddyginiaeth Cartref Plas Ogwen yn briodol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio'r prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2013-14 ynghyd â threfniadau rheolaeth y Cartref. Archwilio trefniadau meddyginiaeth y Cartref i sicrhau eu bod yn unol â rheoliadau, deddfwriaethau a chanllawiau perthnasol.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod enghreifftiau o ymarfer da yn bodoli mewn rhai o drefniadau'r Cartref. Fodd bynnag, ymddengys bod enghreifftiau o weithredu yn groes i drefniadau gweinyddol y Cyngor ac fel canlyniad i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Gwiriwyd hyn mewn gwahanol feysydd y Cartref megis trefniadau cyllidebol, trefn briodol o archebu, derbyn a thalu am nwyddau a gwasanaethau, trefniadau arian poced y preswylwyr a threfniadau cyfrif amwynder. Oherwydd hyn, dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Plas Ogwen, Bethesda gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Pan ddaw yn amlwg o'r adroddiadau cyllidebol misol a dderbynnir fod gorwariant yn debygol, dylid trafod y mater gyda'r Rheolwr Ardal er mwyn ceisio cytuno ar gamau i wella/ddatrys y diffyg.**
- **Dylid sicrhau bod anfonebau wedi ei anfon i'w talu yn brydlon h.y. o fewn mis i ddyddiad derbyn yr anfoneb.**
- **Dylid sicrhau bod gwell rheolaeth dros allwedd y ddiogell er mwyn sicrhau bod mynediad i arian y preswylwyr gan swyddogion awdurdodol yn unig.**
- **Dylid sicrhau bod pob cais am wyliau yn cael ei gymeradwyo bob amser.**
- **Dylid sicrhau bod pawb perthnasol yn derbyn hyfforddiant, yn cadarnhau eu bod wedi ei dderbyn, ac os nad yw'n berthnasol i'r unigolyn, fod cofnod o hyn ar y rhestr hyfforddiant staff.**
- **Dylid sicrhau bod aelodau staff perthnasol yn arwyddo eu bod wedi darllen y polisi meddyginiaeth ac oes nad yw'n berthnasol iddynt, yna cofnodi hyn ar y ffurflen**
- **Dylid sicrhau bod pob cofnod meddyginiaeth i mewn neu allan, reoledig neu ddim, yn cynnwys 2 llofnod er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth o gamddefnydd.**

***Sylwadau pellach gan y Gwasanaeth***

***Nodir, mi fydd hyfforddiant priodol yn cael ei drefnu i Rheolwyr/Swyddogion y Cartref ac y Clerc.***

***Bydd materion tanberfformio gyda rhai agweddau o'r adroddiad yn cael sylw.***

## MEYSYDD CHWARAE
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ynghlwm i drefniadau rheoli gwaith archwilio a sicrhau diogelwch meysydd chwarae Gwynedd.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Mae'r archwiliad yn cwmpasu trefniadau cynllunio a monitro rhaglenni gwaith yr archwilwyr i sicrhau diogelwch y meysydd chwarae.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Wrth edrych ar y trefniadau archwilio meysydd chwarae gwelir bod trefniadau cryf o ymarfer da yn cael eu harddangos yn yr Adran sydd yn unol â threfniadau diogelwch y Cyngor, Zurich a RoSPA. Edrychwyd ar drefniadau sydd mewn lle ar gyfer sicrhau bod pob maes chwarae yn cael eu harchwilio a bod unrhyw waith ailosod wedi ei gwblhau o fewn yr amserlen ddisgwyliedig. Gwelir bod y trefniadau o safon uchel, cwblhawyd y gwaith yn brydlon a chedwir cofnodion taclus mewn system ffeilio drefnus. Fodd bynnag, cynigir tri gwelliant i'r ymarfer da sef monitro archwiliadau yn rheolaidd, cadw cofnod cyfarfodydd ac ychwanegu polisi cadw archwiliadau i'r polisi corfforaethol. Er hyn, mae'r trefniadau sydd mewn lle yn effeithiol.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb trefniadau archwilio'r Meysydd Chwarae gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ystyried creu trefn monitro reolaidd er mwyn sicrhau bod yr archwiliadau yn cael eu cwblhau yn gywir a bod y gwaith papur yn gyflawn bob amser.**
- **Dylid ystyried cadw cofnodion o gyfarfodydd lle cyfathrebwyd gwybodaeth bwysig er mwyn sicrhau bod yna gofnod o bwy sy'n bresennol ac yn derbyn y neges.**
- **Dylid ystyried ychwanegu cofnod o ofynion cadw dogfennaeth archwiliadau meysydd chwarae i'r polisi cadw corfforaethol er mwyn sicrhau bod yna gysondeb yn y drefn pe tai'r swyddogion yn newid.**

# CYTUNDEBAU GWAREDU GWASTRAFF
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod Cytundebau Gwaredu Gwastraff o ansawdd / manylder derbyniol fel y gellir eu gorfodi. Yn ychwanegol sicrhau bod y cytundeb yn cael ei monitro fel bod y gwasanaeth a dderbynnir yn gyson ac o'r ansawdd ddisgwyliedig i anghenion y gwasanaeth.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio rheolaethau mewnol ar gyfer tendro a monitro y Cytundeb Gwaredu Gwastraff.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd fod ymarfer da wrth weinyddu a monitro'r Cytundebau Gwaredu Gwastraff. Edrychwyd ar y broses tendro a gwelir bod y rheolau priodol a'r penderfyniadau wedi eu cymryd yn dryloyw a theg. Edrychwyd yn fanwl ar y gytundeb rhwng y Cyngor a'r cwmni Cory a gwelir ei bod o ansawdd dderbyniol. Wrth wirio costau, anfonebau a dangosyddion perfformiad gwelir bod y monitro yn cael ei gyflawni yn fanwl a rheolaidd gan gynnwys adroddiadau misol. Gwelir bod trafodaethau cyson rhwng y Cyngor a'r cwmni e.e. monitro amser gweithdroad ar y safle gan fod y cytundeb dal yn weddol newydd. Gwelir bod trefniadau rheolaeth Cytundeb Gwaredu gwastraff o safon uchel iawn. O ganlyniad nid oes argymhelliad i'w ystyried yn dilyn yr adolygiad yma.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau gweinyddu Cytundebau Gwaredu Gwastraff gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# LLWYBRAU CYHOEDDUS A LONYDD GLAS
## Rheoleiddio

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod dyletswyddau statudol y Cyngor o gynnal a chadw rhwydwaith llwybrau cyhoeddus Gwynedd yn cael eu cyflawni, a bod rheolaethau mewnol priodol ynghlwm i'r broses.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau rhagweithiol ac adweithiol y Cyngor o gynnal a chadw rhwydwaith llwybrau cyhoeddus y Sir. Roedd yr archwiliad hefyd yn cynnwys trefniadau cydweithio gydag awdurdodau perthnasol eraill megis y Parc Cenedlaethol, Cynghorau Cymuned a gwirfoddolwyr, yn ogystal ag archwilio'r drefn o gadw'r Map a Datganiad Swyddogol yn gyfredol.

Prif Ddarganfyddiadau

Yn gyffredinol, wrth ystyried y trefniadau sydd wrth law i gryfhau gweithdrefnau gweinyddol a chadw cofnodion y Gwasanaeth, gwelwyd bod trefniadau cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus Gwynedd yn ddigonol. Gan hefyd ystyried yr adnoddau sydd ar gael, cydnabuwyd bod angen blaenoriaethu llwybrau er mwyn cael y gwerth gorau o'r adnoddau yma, ac felly nid yw'n ymarferol cynnal pob llwybr yn rhagweithiol. Yn anffodus, bydd lleihad pellach yn niferoedd staffio'r Gwasanaeth yn 2015/16 yn cynyddu'r risgiau o beidio gallu cwrdd yn llawn a'u dyletswyddau, er yr ymdrech i geisio cynllunio ymlaen.

Fodd bynnag, darganfuwyd fod y drefn bresennol ble mae Cynghorau Cymunedol yn derbyn ad-daliad gan Cyngor Gwynedd am wariant gwnaethpwyd ar waith cynnal a chadw llwybrau yn golygu bod y Cyngor ar adegau yn ariannu yr elfen TAW talwyd i'r contractwr ond nid oes modd ei hawlio yn ôl gan Cyllid a Thollau gan fod y Cynghorau Cymunedol ddim yn darparu anfonebau TAW i'r Cyngor.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb cynnal a chadw yn Llwybrau Cyhoeddus a Lonydd Glas gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Er mwyn sicrhau defnydd gorau o adnoddau, dylid atgoffa'r Cynghorau Cymuned i wneud cais am ad-daliad ar waith cynnal a chadw ar lwybrau categori 1 a 2 yn unig. Os yw anfonebau gan gontractwr yn nodi cost am waith ar fwy nag un llwybr, dylid cynnwys dadansoddiad o'r costau fesul llwybr er mwyn amlygu beth sy'n gymwys i'w adhawlio.**
- **Am resymau TAW, dylai'r Cyngor ystyried talu anfonebau yn uniongyrchol i gontractwyr yn hytrach nag ad-dalu Cynghorau Cymuned. Petai'r drefn yma yn cael ei fabwysiadu, bydd angen i'r anfonebau gael ei derbyn a'u gwirio gan y Cynghorau Cymuned - ond byddai angen i'r contractwr nodi enw Cyngor Gwynedd ar yr anfoneb ac nid y Cynghorau Cymuned.**
- **Dylid parhau i weithredu ar yr argymhellion nodwyd yng nghynllun gweithredu yr adolygiad diweddar ar drefniadau'r Gwasanaeth.**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **15 GORFFENNAF 2014** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2014/15** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR GYNNYDD YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO 2014/15** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2014/15.

## 2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae cynllun archwilio mewnol 2014/15 wedi ei gynnwys yn yr atodiad, gyda statws y gwaith ar 1 Gorffennaf 2014 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| Statws yr Archwiliad | Nifer |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 65 |
| Crëwyd Papurau Gwaith | 3 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 15 |
| Disgwyl Adolygiad | 4 |
| Adroddiad Drafft | 2 |
| Adroddiad Terfynol | 8 |
| Cyfanswm | 97 |
| | |
| Wedi ei ganslo | 1 |

2.2 Targed perfformiad 2014/15 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun addasiadau unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2015. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diwedd chwarter 1 | 15% |
| Diwedd chwarter 2 | 35% |
| Diwedd chwarter 3 | 60% |
| Diwedd chwarter 4 | 95% |

2.3 Gwelir o'r tabl uchod fod gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol ar ddiwedd chwarter 1 yn **8.2% -** allan o'r **97** archwiliad unigol yng nghynllun 2014/15 roedd **8** wedi eu rhyddhau yn derfynol erbyn diwedd y chwarter. Mae'r perfformiad felly yn is na'r proffil a osodwyd, ond disgwylir adfer y sefyllfa cyn diwedd y flwyddyn.

## 3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

3.1 Yn dilyn trafodaethau gyda'r Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant, penderfynwyd na fyddai'n defnydd effeithiol o adnoddau Archwilio Mewnol i gynnal adolygiad Tai Gofal Ychwanegol yn ystod 2014/15. Yn y cyfamser, derbyniwyd cais gan y Pennaeth Rheoleiddio i gynnal archwiliad Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch.

3.2 Felly, mae archwiliad Tai Gofal Ychwanegol wedi ei ganslo, a 10 diwrnod wedi ei drosglwyddo i'r archwiliad Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch. Yn ogystal, darganfuwyd fod 25 diwrnod yn ormod ar gyfer yr archwiliad Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy, felly mae 15 diwrnod pellach wedi ei drosglwyddo i Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch fel bod cyfanswm o 25 diwrnod wedi eu clustnodi iddo.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2014/15, cynnig sylwadau arno a derbyn yr adroddiad.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2014/15

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | | | | | |
| 1-CORFF-07/2015 | System Swyddi - diogelwch a chywirdeb | 25.00 | 0.00 | **25.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-08/2015ffon | Ffonau Symudol | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **15.53** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-08/2015tech | Defnydd o dechnoleg - astudiaeth gwerth am arian | 25.00 | 0.00 | **25.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-09/2015hyff | Trefniadau eithrio o'r gyfundrefn hyfforddi gorfforaethol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-09/2015ol | Cynllun Olyniaeth a Chynllunio'r Gweithlu | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-11/2015 | Trefniadau Diogelu | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-12/2015 | Trefniadau Datgelu - Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **0.34** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-14/2015cof | Cofrestr Diogelwch Staff | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **2.23** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-14/2015unig | Iechyd a Diogelwch - Gweithio'n Unig | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-18/2015 | Adolygiad o Gymorth y Wladwriaeth | 6.00 | 0.00 | **6.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 1-CPGV-01/2015a | Protocol ar Gyswllt Aelod - Swyddog | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **2.43** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-01/2015ags | Cyfrannu at baratoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **4.34** | Adroddiad Drafft |
| 1-CPGV-01/2015f | Llywodraethu Corfforaethol - Gweithredu Penderfyniadau Pwyllgor | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 1-CPGV-02/2015 | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | 40.00 | 0.00 | **40.00** | **3.42** | Wedi ei gynllunio |
| 2ADN-ADY-SAL/2015 | Trefniadau Salwch – cyfeirio at Iechyd Galwedigaethol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **8.08** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AO-ARL-05/2015 | NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **8.86** | Gwaith Maes ar y gweill |
| BB-YSG-10/2015 | Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **12.07** | Disgwyl Adolygiad |
| **Cynllunio Argyfwng** | | | | | | |
| BC-PER-01/2015tyw | Cynllun Tywydd Garw | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.73** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **ADDYSG** | | | | | | |
| **Adnoddau** | | | | | | |
| 4-DAT-X-ADD/2015gad | Grant Amddifadedd Disgyblion | 8.00 | 0.00 | **8.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 4-DAT-X-ADD/2015ol16 | Grant Darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 4-DAT-X-ADD/2015syl | Grant Refeniw y Cyfnod Sylfaenol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **0.88** | Wedi ei gynllunio |
| EADDA02/2015 | TGCh mewn Ysgolion Uwchradd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **0.88** | Wedi ei gynllunio |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EADDA03/2015 | Cyfathrebu gydag Ysgolion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| EADDY-01/2015 | Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| EADDA06/2015hlon | Ysgol newydd Hafod Lon | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Arlwyo** | | | | | | |
| M-GMG-A04/2015 | Arlwyaeth Ysgolion | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **GwE** | | | | | | |
| 4-GWE/2015 | GwE | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Ysgolion** | | | | | | |
| EADDAYC/2015a | Ysgolion Cynradd - Modelu'r Gweithlu | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| EADDAYC/2015c | Ysgolion Uwchradd - Llywodraethu | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **19.43** | Adroddiad Drafft |

## CYLLID

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Archwilio a Risg** | | | | | | |
| AM-YS-03/2015 | Trefniadau Rheoli Risg | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Ariannol** | | | | | | |
| AD-DY-01/2015kc | System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **11.51** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AE-TAL-01/2015kc | System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **1.61** | Wedi ei gynllunio |
| AE-TAL-01/2015kcx | System Taliadau - Cau i lawr 2013-14 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **1.00** | Wedi ei gynllunio |
| **Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys** | | | | | | |
| AN-ACY-05/2015 | Rheolaeth Trysorlys | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Cyfrifeg** | | | | | | |
| AN-ACY-01/2015 | Taliadau CHAPS | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **2.14** | Crewyd Papurau Gwaith |
| AN-ACY-02/2015kc | Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **12.99** | Disgwyl Adolygiad |
| AN-ACY-13/2015kc | Cysoni Banc - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **0.41** | Wedi ei gynllunio |
| AN-ACY-13/2015kcx | Cysoni Banc - Cau i lawr 2013-14 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **0.68** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | | | | | |
| AL-CYF-01/2015kc | System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **0.27** | Wedi ei gynllunio |
| AL-CYF-01/2015kcx | System Gyflogau - Cau i lawr 2013-14 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **0.78** | Wedi ei gynllunio |
| AL-CYF-01/2015mj | Cyflogau - Swyddi Lluosog | 25.00 | 0.00 | **25.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AP-PEN-01/2015kc | Cronfa Bensiwn Gwynedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **0.41** | Wedi ei gynllunio |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AP-PEN-01/2015kcx | Cronfa Bensiwn Gwynedd - Cau i lawr 2013-14 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **1.26** | Wedi ei gynllunio |
| **Refeniw** | | | | | | |
| AB-BD-01/2015kc | System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **0.27** | Wedi ei gynllunio |
| AB-BD-01/2015kcx | System Budd-daliadau - Cau i lawr 2013-14 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **4.91** | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-01/2015ipo | System Treth Cyngor - iPortal | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **1.16** | Wedi ei gynllunio |
| AC-TR-01/2015kc | System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **0.72** | Wedi ei gynllunio |
| AC-TR-01/2015kcx | System Treth Cyngor - Cau i lawr 2013-14 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **4.88** | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-11/2015kc | System Treth Di-Annedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **0.30** | Wedi ei gynllunio |
| AC-TR-11/2015kcx | System Treth Di-Annedd - Cau i lawr 2013-14 | 2.00 | 0.00 | **2.00** | **2.18** | Adroddiad Terfynol |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | | | | | |
| AW-TG-08/2015 | TG - Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AW-TG-09/2015 | Cydgyfeiriant Rhwydwaith | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AW-TG-12/2015 | Systemau TG | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |

## ECONOMI A CHYMUNED

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adfywio Cymunedol** | | | | | | |
| BE-POL-10/2015pot | Cynllun Potensial | 25.00 | 0.00 | **25.00** | | Wedi ei gynllunio |
| T-TAI-C04/2015 | Cymunedau'n Gyntaf - Y Rhaglen Newydd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **25.74** | Disgwyl Adolygiad |
| **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | | | | | | |
| EDIW-MU-03/2015 | Amgueddfa ac Oriel Gwynedd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Hamdden** | | | | | | |
| E-DGO-01/2015 | Canolfannau Hamdden | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **20.57** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | | | | | |
| EHAMM-01/2015 | Yr Hafan, Pwllheli | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| EHAMT-01/2015 | Traethau | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Prosiectau Sylweddol** | | | | | | |
| DDAT-AH-01/2015 | Academi Hwylio | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Strategaeth a Datblygu** | | | | | | |
| 4-DAT-X-GRANT/2015h | Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Hyfforddi | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **1.95** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 4-DAT-X-GRANT/2015r | Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Refeniw | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **1.87** | Gwaith Maes ar y gweill |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer** | | | | | | |
| DDAT-BS-02/2015 | Unedau Diwydiannol a Thechnoleg | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **1.02** | Wedi ei gynllunio |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| GCC-05/2015 | Cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd | 30.00 | 0.00 | **30.00** | | Wedi ei gynllunio |
| GTG-SYS01/2015 | System Gwybodaeth Gwasanaeth Cymdeithasol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Cefnogi Pobl** | | | | | | |
| GDAPR-SP01/2015 | Cefnogi Pobl | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **0.34** | Wedi ei gynllunio |
| **Cyswllt Cwsmer** | | | | | | |
| BD-PW-02/2015 | Galw Gwynedd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Digartrefedd a Thai Cefnogol** | | | | | | |
| T-TAI-D01/2015 | Digartrefedd | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **19.73** | Disgwyl Adolygiad |
| T-TAI-G11/2015 | Tai Gofal Ychwanegol | 10.00 | -10.00 | **0.00** | **4.66** | Wedi ei ganslo |
| **Oedolion** | | | | | | |
| GGWAS-C01/2015 | Cronfa Byw yn Annibynnol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **2.13** | Wedi ei gynllunio |
| GGWAS-H07/2015tel | Teleofal | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Preswyl a Dydd** | | | | | | |
| 5-GOF-CART/2015c | Trefniadau sifft mewn Cartrefi Preswyl | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 5-GOF-CART1333/2015 | Plas Maesincla, Caernarfon | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **13.54** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-CART1339/2015 | Plas Ogwen, Bethesda | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **15.41** | Adroddiad Terfynol |
| GDAPR-H01/2015 | Arian Personol Preswylwyr Cartrefi | 25.00 | 0.00 | **25.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD** | | | | | | |
| **Plant a Theuluoedd** | | | | | | |
| 5-GOF-X-PL/2015ddg | Grant Refeniw Dechrau'n Deg | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 5-GOF-X-PL/2015tay | Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | | Wedi ei gynllunio |
| BE-POL-11/2015tyg | Grant Teuluoedd yn Gyntaf | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **7.26** | Gwaith Maes ar y gweill |
| GGWAS-P06/2015 | Gwasanaethau Plant - Comisiynu Gofal | 16.00 | 0.00 | **16.00** | | Wedi ei gynllunio |
| GGWAS-PLANT8/2015 | Plant mewn Gofal - asesiadau addsyg ac iechyd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | | | |
| **Fflyd** | | | | | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PGW-TR-02/2015 | Depos a Gweithdai - Rheolaeth Stoc | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| PPR-GW03/2015 | Rheolaeth Fflyd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Gwaith Bwrdeistrefol** | | | | | | |
| M-GMG-C01/2015 | Meysydd Chwarae | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **8.56** | Adroddiad Terfynol |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | | | | | |
| PBW-03/2015cyt | Cytundebau Gwaredu Gwastraff | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **15.84** | Adroddiad Terfynol |
| PBW-03/2015gr | Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy | 25.00 | -15.00 | **10.00** | **3.63** | Gwaith Maes ar y gweill |
| PBW-10/2015saf | Diogelwch Safleoedd Ailgylchu | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **RHEOLEIDDIO** | | | | | | |
| **Amgylchedd** | | | | | | |
| 3-AMG-GWLAD/2015llw | Llwybrau Cyhoeddus a Lonydd Glas | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **14.89** | Adroddiad Terfynol |
| **Cynllunio** | | | | | | |
| BE-POL-19/2015 | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **3.38** | Crewyd Papurau Gwaith |
| DCYN-RD-01/2015pen | Gwasanaeth Cynllunio - Amser i wneud Penderfyniadau | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **3.03** | Crewyd Papurau Gwaith |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | | | | | |
| 2ADN-GGYC-GYC/2015bw | Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch | 0.00 | 25.00 | **25.00** | **3.24** | Wedi ei gynllunio |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | | | | | |
| 3-AMG-FFYRDD/2015 | Gorchmynion Ffyrdd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **8.97** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 3-PROJ-TRAF/2015briw | Pont Briwet | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **1.61** | Wedi ei gynllunio |
| DDAT-CC-01/2015 | Uned Trafnidiaeth Integredig | 25.00 | 0.00 | **25.00** | | Wedi ei gynllunio |
| PPE-P-01/2015 | Gorfodaeth Parcio | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **0.71** | Wedi ei gynllunio |
| PPR-RS-03/2015 | Cydweithio - Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **0.31** | Wedi ei gynllunio |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | | | | | |
| **Caffael ac Effeithlonrwydd** | | | | | | |
| BE-POL-08/2015 | Strategaeth Caffael | 40.00 | 0.00 | **40.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | | | | | |
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | | | | | |
| PYM01/2015 | Dilyniant i Astudiaethau ar Ymgynghoriaeth Gwynedd | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **10.58** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu** | | | | | | |
| 3-YMG-CTRT/2015rr | Cofrestrau Risg Prosiectau Ymgynghoriaeth Gwynedd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |